



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion**  
**The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 22 Medi 2010**  
**Wednesday, 22 September 2010**

## Cynnwys Contents

3	Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services
25	Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth Questions to the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport
48	Datganiad am S4C Statement on S4C
61	Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar Wasanaethau Newyddenedigol The Health, Wellbeing and Local Government's Report on Neonatal Services
85	Adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar y Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol The Report of the Committee on European and External Affairs on the European Year for Combating Poverty and Social Exclusion
103	Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Gofal Parhaus Welsh Liberal Democrats Debate: Continuing Care
118	Cyfnod Pleidleisio Voting Time
120	Dadl Fer: Cyfleusterau Anghyfleus: Toiledau Cyhoeddus yng Nghymru Short Debate: An Inconvenient Truth: Public Toilets in Wales

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Gweinidog iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

**The Presiding Officer:** Order for questions to the Minister for Health and Social Services.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services**

### **Gwella Iechyd Pobl**

**1. Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei pholisïau ar gyfer gwella iechyd pobl yng Nghymru. OAQ(3)1669(HSS)

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** This is the first full year that we will see both a comprehensive framework in 'Our Healthy Future' and the development of an expert resource in Public Health Wales to tackle public health priorities. These measures will result in a clearer strategic direction and the more effective delivery of public health interventions.

**Nick Ramsay:** Thank you for that answer, Minister. We all know that the financial situation in which we find ourselves is putting pressures on budgets and that, by 2015, cuts to the health service could be around £1 billion. Furthermore, the analysis by consultants McKinsey and Company shows a financial black hole of hundreds of millions of pounds in the NHS. It also says that strategic objectives are too numerous, not prioritised and politically non-viable, and that many initiatives are financially unaffordable.

I want to ask you two things, Minister. First, why was the McKinsey report withheld from the public for so long, and why is it that many of those who will have to make the savings have not seen the report? Secondly, on the specific recommendations of the report, including making changes to the workforce, keeping vacancies open, reducing overtime, and stopping elective care over the Christmas period, what discussions have you had with your colleagues and with health

### **Improving People's Health**

**1. Nick Ramsay:** Will the Minister make a statement on her policies for improving the health of people in Wales. OAQ(3)1669(HSS)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Dyma'r flwyddyn lawn gyntaf i ni weld fframwaith cynhwysfawr sef 'Ein Dyfodol Iach' ynghyd â datblygu adnodd arbenigol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i fynd i'r afael â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd. Bydd y mesurau hyn yn arwain at gyfeiriad strategol cliriach a chyflenwi ymyriadau iechyd y cyhoedd yn fwy effeithiol.

**Nick Ramsay:** Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rydym i gyd yn gwybod bod y sefyllfa ariannol rydym ynddi yn rhoi pwysau ar gyllidebau ac, erbyn 2015, gallai toriadau i'r gwasanaeth iechyd fod tua £1 biliwn. Ar ben hynny, mae'r dadansoddiad gan yr ymgynghorwyr McKinsey and Company yn dangos diffyg ariannol gwerth cannoedd o filiynau o bunnoedd yn y GIG. Mae hefyd yn dweud bod gormod o amcanion strategol, nad ydynt wedi cael eu blaenoriaethu a'u bod yn anymarferol yn wleidyddol, a bod llawer o fentrau'n anfforddiadwy.

Rwyf am ofyn dau beth i chi, Weinidog. Yn gyntaf, pam gafodd adroddiad McKinsey ei gadw oddi wrth y cyhoedd gyhyd, a pham nad yw llawer o'r rheini a fydd yn gorfod gwneud yr arbedion wedi gweld yr adroddiad? Yn ail, wrth ystyried argymhellion penodol yr adroddiad, gan gynnwys gwneud newidiadau i'r gweithlu, cadw swyddi gwag ar agor, lleihau goramser, a stopio gofal dewisol dros gyfnod y Nadolig, pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael

providers to ensure that as many of the recommendations as possible are implemented and that savings are made?

**Edwina Hart:** Thank you for that question, but of course there is no McKinsey report. If you all took an interest in the Government website and looked at the consultancy procurement port for the Welsh Assembly Government, which was published on 24 September 2009, you would have seen that it indicates the direction of travel and our relationship with McKinsey. That is, that it will discuss with the chief executive of the NHS and others, it will occasionally produce some documents for discussions, and it will look at any planning issues that might arise so that we can get planning right for the future. Therefore, there is no McKinsey report. The work that we have been doing and that Paul Williams has undertaken in open discussions with the chief executives of the local health boards has covered some of the many and varied issues that have been raised, and Paul's report has been published, as has the direction of travel, in the five-year framework document. There has been openness and transparency on all those issues. I find it quite amusing that anyone would think that there was some sort of hidden report. There are no secrets in the NHS; there are always leaks. I believe that the document to which you refer has been knocking around between the chief executives for a considerable time, and if not with the chief executives, then with other senior staff in the LHBs. Some of us have experience of developing the policy agenda elsewhere, in the public and private sectors, and we know that there are always discussion documents and always scenarios on which they are based. Therefore, I am afraid that there is no great news story in any of this; however, you may huff and puff.

**Brian Gibbons:** Minister, could you provide an assurance that the Welsh NHS will remain the provider of choice for health services here in Wales and that we will not be subject to the unedifying cattle market that is taking place in the NHS in England, where public services are being traded off to the highest bidder?

gyda'ch cydweithwyr a chyda darparwyr iechyd i sicrhau bod cynifer o'r argymhellion â phosibl yn cael eu gweithredu a bod arbedion yn cael eu gwneud?

**Edwina Hart:** Diolch am y cwestiwn, ond wrth gwrs nid oes adroddiad gan McKinsey. Petaech i gyd yn dangos diddordeb yng ngwefan y Llywodraeth ac yn edrych ar borth caffael gwasanaethau ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gyhoeddwyd ar 24 Medi 2009, byddech wedi gweld ei fod yn dangos ein cyfeiriad a'n perthynas â McKinsey. Hynny yw, bydd yn cynnal trafodaeth â phrif weithredwr y GIG ac eraill, bydd yn cynhyrchu rhai dogfennau i'w trafod o bryd i'w gilydd, a bydd yn edrych ar unrhyw faterion cynllunio a allai godi er mwyn i ni allu cynllunio'n iawn ar gyfer y dyfodol. Felly, nid oes adroddiad gan McKinsey. Mae'r gwaith rydym wedi bod yn ei wneud ac mae Paul Williams wedi'i wneud mewn trafodaethau agored â phrif weithredwyr y byrddau iechyd lleol, wedi edrych ar rai o'r materion niferus ac amrywiol a godwyd, ac mae adroddiad Paul wedi cael ei gyhoeddi, yn yr un modd â'n cyfeiriad, yn y ddogfen fframwaith pum mlynedd. Felly rydym wedi bod yn agored ac yn dryloyw gyda'r holl faterion hynny. Mae'n eithaf doniol y byddai unrhyw un yn meddwl bod rhyw fath o adroddiad cudd. Nid oes dim cyfrinachau yn y GIG; mae pethau wastad yn cael eu datgelu'n answyddogol. Rwyf yn credu bod y ddogfen rydych yn cyfeirio ati wedi bod gan y prif weithredwyr ers tro byd, ac os nad yw gan y prif weithredwyr, yna mae gan uwch staff eraill yn y BILlau. Mae rhai ohonom wedi cael profiad o ddatblygu'r agenda polisi mewn mannau eraill, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, ac rydym yn gwybod bod dogfennau trafod bob amser yn bodoli a bod senarios sy'n sail iddynt. Felly, mae arnaf ofn nad oes stori newyddion fawr yn hyn o beth; ni waeth pa mor galed rydych chi'n chwilio.

**Brian Gibbons:** Weinidog, a allech sicrhau y bydd GIG Cymru yn parhau i fod yn ddarparwr o ddewis ar gyfer gwasanaethau iechyd yma yng Nghymru ac na fyddwn yn rhan o'r farchnad warthus sy'n digwydd yn y GIG yn Lloegr, lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu rhoi i'r cynigydd uchaf?

**Edwina Hart:** I can confirm the policy position in Wales. The direction of travel is quite clear: we have 'One Wales', which gives our commitment to the NHS, and I very much hope that, even though we are approaching difficult times—and, indeed, we are in difficult times now—we will continue to prioritise the NHS as a public body.

**Veronica German:** Minister, the work by McKinsey, which you commissioned, has revealed serious shortcomings and a lack of strategic leadership in your administration. This document—I will use the word 'document'—says that the strategic objectives are too numerous and not prioritised, there is a gap between policy leads and operational delivery, and there is a lack of capacity to deliver. You have been Minister for health for this entire administration. When are you going to get a grip on your departments?

**Edwina Hart:** You will find that I have an excellent working relationship with my departments and with the NHS in Wales. The work that McKinsey undertook for us has helped us to develop the five-year framework document, which was put on the website on 10 June 2010 and which reflects some of the issues that we have to tackle. Since then, Paul's annual report has been published, and I openly and transparently updated all Assembly Members in a letter on Monday about what we are doing around this work. Openness and transparency, Presiding Officer, are what I have always strived to achieve as a Minister.

**Veronica German:** There is no wonder that you did not want us to read this document, as it shows that your plans were politically unviable. What do you have to say to the clinical staff and other front-line staff who McKinsey reveals have no ownership over your health strategy in Wales?

**Edwina Hart:** You will find, if you go out to speak to clinical staff, that there is large-scale clinical engagement out there, which is something that the chief executive of the NHS and I have encouraged. It is important

**Edwina Hart:** Gallaf gadarnhau'r sefyllfa polisi yng Nghymru. Mae'r cyfeiriad yn eithaf clir: mae gennym 'Cymru'n Un', sy'n rhoi ein hymrwymiad i'r GIG, ac rwyf yn gobeithio'n fawr, er ein bod yn agosáu at gyfnod anodd—ac, yn wir, ein bod eisoes mewn cyfnod anodd yn awr—y byddwn yn dal i flaenoriaethu'r GIG fel corff cyhoeddus.

**Veronica German:** Weinidog, mae'r gwaith roeddech chi wedi'i gomisiynu gan McKinsey wedi dangos diffygion difrifol a diffyg arweiniad strategol yn eich gweinyddiaeth. Mae'r ddogfen hon—rwyf yn defnyddio'r gair 'dogfen'—yn datgan bod gormod o amcanion strategol ac nad ydynt wedi cael eu blaenoriaethu, bod bwlch rhwng arweinwyr polisi a chyflenwi gweithredol, a bod diffyg gallu i gyflenwi. Rydych chi wedi bod yn Weinidog dros ieched dros y weinyddiaeth hon i gyd. Pryd ydych chi am gael gafael ar eich adrannau?

**Edwina Hart:** Mae gennyf berthynas waith ardderchog gyda fy adrannau a chyda'r GIG yng Nghymru. Mae'r gwaith a wnaeth McKinsey i ni wedi ein helpu i ddatblygu'r ddogfen fframwaith pum mlynedd, a gafodd ei rhoi ar y wefan ar 10 Mehefin 2010 ac sy'n adlewyrchu rhai o'r materion mae'n rhaid inni fynd i'r afael â nhw. Ers hynny, cyhoeddwyd adroddiad blynyddol Paul, a rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf yn agored ac yn dryloyw i holl Aelodau'r Cynulliad mewn llythyr ddydd Llun am yr hyn rydym yn ei wneud ynghylch y gwaith hwn. Lywydd, rwyf bob amser wedi ceisio bod yn agored ac yn dryloyw fel Gweinidog.

**Veronica German:** Nid yw'n syndod nad oedd arnoch chi eisiau i ni ddarllen y ddogfen hon, gan ei bod yn dangos nad oedd eich cynlluniau'n ymarferol yn wleidyddol. Beth sydd gennych i'w ddweud wrth y staff clinigol a staff eraill ar y rheng flaen y mae McKinsey'n dweud nad oes ganddynt ddim perchnogaeth dros eich strategaeth ieched yng Nghymru?

**Edwina Hart:** Os ewch allan i siarad â staff clinigol, gwelwch ymgysylltiad clinigol ar raddfa fawr, sef rhywbeth y mae prif weithredwr y GIG a minnau wedi'i hybu. Mae'n bwysig cydnabod bod rhai o'r

to recognise that some of the developments and changes taking place in services are directly the result of clinical engagement and leadership wanting to take the agenda forward.

**Jeff Cuthbert:** Minister, 17 organisations concerned with the health and wellbeing of the people of Wales are today attending the Healthy Living Day here at the Assembly as part of the Healthy Living Week. These organisations include Action on Smoking and Health, Asthma UK, Cancer Research UK, Macmillan Cancer Support and the Royal College of Nursing, to name but a few. Do you agree that it is important that these organisations' message for the people of Wales is understood and that Assembly Members should make it their business to talk to these organisations to see how they could assist them?

**Edwina Hart:** I begin by thanking you for the organisation that has gone into Healthy Living Week; I know that all Assembly Members appreciate the lead that you have taken on various issues here. It is important that we avail ourselves of the opportunity to speak to these excellent organisations that take a lead on the health and welfare of the people of Wales. I was particularly pleased last night to be at the Royal College of Nursing function, which I know that many Members attended. Members of the RCN are clinicians, and they were praising the Assembly Government for the lead that it has taken on community nursing, school nursing and various other issues that were part of the 'One Wales' agreement.

### Blaenoriaethau

**2. Nick Bourne:** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf. OAQ(3)1657(HSS)*

**Edwina Hart:** My priorities for the next six months are to complete the implementation of the commitments within 'One Wales', work to improve people's health and ensure that they have access to high-quality integrated health and social care that provides a good patient experience that can respond flexibly to their needs.

datblygiadau a'r newidiadau sy'n digwydd yn y gwasanaethau o ganlyniad uniongyrchol i ymgysylltiad clinigol a bod ar yr arweinydd eisiau mynd â'r agenda rhagddi.

**Jeff Cuthbert:** Weinidog, mae 17 o sefydliadau sy'n ymwneud ag iechyd a lles pobl Cymru yn y Diwrnod Byw'n Iach yma yn y Cynulliad heddiw fel rhan o Wythnos Byw'n Iach. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd, Asthma UK, Cancer Research UK, Cymorth Canser Macmillan a Choleg Brenhinol y Nyrsys, i enwi dim ond rhai. A ydych yn cytuno ei bod yn bwysig bod neges y sefydliadau hyn ar gyfer pobl Cymru yn cael ei deall ac y dylai Aelodau'r Cynulliad sicrhau eu bod yn siarad â'r sefydliadau hyn i weld sut y gallent eu helpu?

**Edwina Hart:** Rwyf am ddechrau drwy ddiolch i chi am y gwaith trefnu sydd wedi mynd i Wythnos Byw'n Iach; rwyf yn gwybod bod holl Aelodau'r Cynulliad yn gwerthfawrogi eich bod wedi cymryd yr awenau ar amrywiol faterion yma. Mae'n bwysig ein bod yn manteisio ar y cyfle i siarad â'r sefydliadau ardderchog hyn sy'n arwain ar iechyd a lles pobl Cymru. Roeddwn yn hynod falch neithiwr o gael bod yn nigwyddiad Coleg Brenhinol y Nyrsys, ac rwyf yn gwybod bod nifer o Aelodau yno. Mae aelodau Coleg Brenhinol y Nyrsys yn glinigwyr, ac roeddent yn canmol Llywodraeth y Cynulliad am yr arweiniad y mae wedi'i roi ar nyrsio cymunedol, nyrsys ysgol a materion amrywiol eraill a oedd yn rhan o gytundeb 'Cymru'n Un'.

### Priorities

**2. Nick Bourne:** *Will the Minister outline her priorities for the next six months. OAQ(3)1657(HSS)*

**Edwina Hart:** Fy mlaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf yw gorffen gweithredu'r ymrwymadau yn 'Cymru'n Un', gweithio i wella iechyd pobl a sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar iechyd a gofal cymdeithasol integredig o ansawdd uchel sy'n rhoi profiad da i gleifion ac sy'n gallu ymateb yn hyblyg i'w hanghenion.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** I thank the Minister for that response. She will be aware that there is great concern in Mid and West Wales about the document that was subsequently withdrawn—to be fair—having been issued in June, under the title ‘Rural Health Services Strategy Spend to Save Plan’. The chief executive of Hywel Dda Local Health Board said that the document had been sent to Assembly Government officers prior to that withdrawal, and it showed the movement of some complex specialist services from Bronglais and Withybush hospitals to be centralised at Glangwili, with the inevitable downgrading of Bronglais, Withybush and Prince Philip hospitals that would result. That has caused concern. I accept that there is concern across the board, and I accept that the Minister did not see the document, as she has said, but will she take this opportunity of saying, as far as she is concerned, that all district general hospitals in Mid and West Wales must continue to offer the full range of services associated with DGHs and that there can be no question of the centralising of those services in Carmarthen or anywhere else?

**Edwina Hart:** We have to be clear, for the record, that the Hywel Dda Local Health Board has confirmed that it is committed to ensuring that the four main hospitals remain as major healthcare providers and that those designated as district general hospitals should continue to be so. With regard to the leaked information, the chief executive of the health board has said that that was an early draft of the paper that had not been approved by the board. Trevor Purt has now withdrawn the document and has apologised for the concern caused. I understand that Members across the piece have raised the issue with me because of the concerns and worries of their constituents and, of course, it is our duty to represent the views of our constituents on these matters. However, I do think that we now have to draw a line under this issue.

You alluded to officials. There are always discussions, at every level, among officials.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** Diolchaf i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Bydd yn gwybod bod cryn bryder yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru am y ddogfen a gafodd wedyn ei thynnu'n ôl—a bod yn deg—ar ôl ei chyhoeddi ym mis Mehefin, o'r enw 'Cynllun Gwario i Arbed Strategaeth Gwasanaethau Iechyd Gwledig'. Dywedodd prif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda fod y ddogfen wedi cael ei hanfon at swyddogion Llywodraeth y Cynulliad cyn ei thynnu'n ôl, a'i bod yn dangos bod rhai gwasanaethau arbenigol a chymhleth i'w symud o ysbytai Bronglais a Llwynhelyg i'w canoli yng Nglangwili, a fyddai'n anochel yn golygu israddio ysbytai Bronglais, Llwynhelyg a'r Tywysog Philip. Mae hynny wedi achosi pryder. Rwyf yn derbyn bod pryder yn gyffredinol, ac rwyf yn derbyn na welodd y Gweinidog y ddogfen, fel y dywedodd, ond a wnaiff fanteisio ar y cyfle hwn i ddweud, hyd y gŵyr hi, bod yn rhaid i'r holl ysbytai cyffredinol dosbarth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru barhau i gynnig yr ystod lawn o wasanaethau sy'n gysylltiedig ag ysbytai cyffredinol dosbarth ac nad oes unrhyw gwestiwn ynghylch canoli'r gwasanaethau hynny yng Nghaerfyrddin nac yn unman arall?

**Edwina Hart:** Rhaid i ni fod yn glir, ar gyfer y cofnod, bod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi cadarnhau ei fod wedi ymrwymo i sicrhau bod y pedwar prif ysbyty'n parhau fel prif ddarparwyr gofal iechyd ac y dylai'r rheini a ddynodwyd yn ysbytai cyffredinol dosbarth barhau i fod felly. O ran y wybodaeth a ddatgelwyd yn answyddogol, dywedodd prif weithredwr y bwrdd iechyd mai drafft cynnar o'r papur oedd hwnnw ac nad oedd wedi cael ei gymeradwyo gan y bwrdd. Mae Trevor Purt nawr wedi tynnu'r ddogfen yn ôl ac wedi ymddiheuro am y pryder a achoswyd. Rwyf yn deall bod yr Aelodau'n gyffredinol wedi codi'r mater â mi oherwydd pryderon a gofidiau eu hetholwyr ac, wrth gwrs, mae'n ddyletswydd arnom i gynrychioli barn ein hetholwyr ar y materion hyn. Fodd bynnag, rwyf yn credu bod yn rhaid i ni dynnu llinell o dan y mater hwn nawr.

Cyfeiriasoch at swyddogion. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng

Unfortunately, I do not have a GCHQ-type headquarters in Cathays park; if I did, I could monitor all the traffic between my officials and LHBs. However, I can assure you that I was never in receipt of a brown envelope containing a leaked report.

swyddogion ar bob lefel drwy'r amser. Yn anffodus, nid oes gennyf bencadlys tebyg i GCHQ ym mharc Cathays; petai gennyf, byddwn yn gallu monitro'r holl draffig rhwng fy swyddogion a BILlau. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau na fu i mi erioed dderbyn amlen frown yn cynnwys adroddiad a ddatgelwyd yn answyddogol.

1.40 p.m.

**Helen Mary Jones:** Minister, we are all aware that thanks to the decisions made by the Con-Dem Government in London we have some very hard decisions coming up in the health service, as in other parts of public services in Wales. Like I did last night, you will have had discussions with nurses, particularly those involved in community services, and will have heard their concerns that the temptation may be to protect the services that are currently in our hospitals and that we may then see cuts in community services. Can you confirm that for the duration of this Government the direction of travel on moving services into the community and supporting, in particular, the nursing staff who are providing those services—and I would add school nursing services, which are also really just getting off the ground in some communities—will continue and that we will not go down the route of taking any knee-jerk reaction, but will look to protect those services if at all possible?

**Helen Mary Jones:** Weinidog, rydym i gyd yn gwybod y bydd penderfyniadau Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain yn arwain at benderfyniadau anodd yn y gwasanaeth iechyd, yn yr un modd ag mewn rhannau eraill o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Byddwch chi fel minnau wedi cael trafodaethau neithiwr gyda nyrsys, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â gwasanaethau cymunedol, a byddwch wedi clywed eu pryderon y gallai fod yn demtasiwn i amddiffyn y gwasanaethau sydd yn ein hysbytai ar hyn o bryd ac efallai byddwn wedyn yn gweld toriadau mewn gwasanaethau cymunedol. A allwch gadarnhau dros oes y Llywodraeth hon y bydd y cyfeiriad o ran symud gwasanaethau i'r gymuned a chefnogi, yn benodol, y staff nyrsio sy'n darparu'r gwasanaethau hynny—a byddwn yn ychwanegu gwasanaethau nyrsys ysgol, sydd newydd ddechrau ar eu gwaith mewn gwirionedd mewn rhai cymunedau—yn parhau ac na fyddwn yn dilyn llwybr adweithio ar y pryd, ond y byddwn yn edrych ar amddiffyn y gwasanaethau hynny os yw'n bosibl o gwbl?

**Edwina Hart:** Thank you very much for that, Helen Mary. I think that I enjoy the support of the whole Chamber for the direction of travel of more primary and community involvement and that focus, which has been delivered. I very much hope that even in these difficult times we will be able to keep that necessary focus for first-class delivery. There is also the preventative health agenda, which is also key to this. It is important that we balance our budgets wisely and ensure that we protect the front-line services that help people to stay in their own homes and which help the community so much.

**Edwina Hart:** Diolch yn fawr am hynny, Helen Mary. Rwyf yn meddwl fy mod yn mwynhau cefnogaeth y Siambr gyfan o ran ein cyfeiriad ar gyfer mwy o gyfranogiad sylfaenol a chymunedol a'r ffocws hwnnw, sydd wedi cael ei gyflenwi. Mawr obeithiaf y byddwn yn gallu cadw'r ffocws angenrheidiol hwnnw ar gyflenwi o'r radd flaenaf hyd yn oed yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae'r agenda iechyd ataliol gennym hefyd, sydd hefyd yn allweddol i hyn. Mae'n bwysig ein bod yn cydbwysu ein cyllidebau'n ddoeth ac yn sicrhau ein bod yn amddiffyn y gwasanaethau rheng flaen sy'n helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain ac sy'n helpu'r gymuned gymaint.



**Jenny Randerson:** The McKinsey-not-a-report states that one considerable problem in the health service in Wales is that clinical and other front-line staff do not own the strategy. Today the British Medical Association has reinforced that. Dr Andrew Dearden has said that it was unusual for it not to have been given a copy of the document, that the people who are being asked to make the changes in order to make the savings have not seen these things, and that the association has asked for copies of the document to review it, because it was asked to give evidence. Minister, in view of the fact that you said earlier this afternoon that copies of this not-a-report have been knocking around between the chief executives of the health boards for some considerable time, will you now ensure that those clinical and other front-line staff are given copies of this officially, so that they can consider it properly?

**Edwina Hart:** I do not know where I would therefore draw the line. It is a discussion document, and there are loads and loads of discussion documents prepared all the time, by my officials, local health board officials, chairs and chief executives, which are to generate and start a discussion. This is no more than that. I do not accept that there has not been clinical engagement. We have medical directors on board, and we have everything with the new structures and how people can engage. When you see some of the significant changes that have been delivered in health, those are as a result of clinical engagement. You are focusing on some little discussion paper rather than the whole of the discussion that has taken place. It is amazing that no-one has asked me any questions about some of the other documentation that exists, which we publish on the website, and the reports that we have done. I appreciate that it is opportune politically, having thought that you had found something of significance, to bandy it around, but I am not into that game, I am afraid.

**Jenny Randerson:** Mae dogfen McKinsey nad oedd yn adroddiad yn datgan mai un broblem sylweddol yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yw nad yw staff clinigol na staff eraill ar y rheng flaen yn berchen ar y strategaeth. Cafodd hynny ei atgyfnerthu heddiw gan Gymdeithas Feddygol Prydain. Dywedodd Dr Andrew Dearden ei bod yn anarferol i'r gymdeithas beidio â chael copi o'r ddogfen, nad yw'r bobl y gofynnir iddynt wneud y newidiadau er mwyn gwneud yr arbedion wedi gweld y pethau hyn, a bod y gymdeithas wedi gofyn am gopïau o'r ddogfen i'w hadolygu, oherwydd gofynnwyd iddi roi tystiolaeth. Weinidog, yn wyneb y ffaith eich bod wedi dweud yn gynharach y prynhawn yma bod copïau o'r ddogfen nad oedd yn adroddiad wedi bod gan brif weithredwyr y byrddau iechyd ers cryn amser, a wnewch chi nawr sicrhau bod y staff clinigol a'r staff eraill hynny ar y rheng flaen yn cael copïau o hon yn swyddogol, er mwyn iddynt allu ei hystyried yn iawn?

**Edwina Hart:** Nid wyf yn gwybod ble fyddwn felly'n tynnu'r llinell. Mae'n ddogfen drafod, ac mae llwythi a llwythi o ddogfennau trafod yn cael eu paratoi drwy'r amser, gan fy swyddogion a chan swyddogion, cadeiryddion a phrif weithredwyr byrddau iechyd lleol, er mwyn sbarduno a dechrau trafodaethau. Nid yw hyn yn ddim mwy na hynny. Nid wyf yn derbyn na fu dim ymgysylltiad clinigol. Mae gennym gyfarwyddwyr meddygol yn cyfrannu, ac mae gennym bopeth gyda'r strwythurau newydd a sut y gall pobl gymryd rhan. Pan fyddwch yn gweld rhai o'r newidiadau sylweddol sydd wedi cael eu cyflenwi mewn iechyd, mae'r rheini o ganlyniad i ymgysylltiad clinigol. Rydych yn canolbwyntio ar ryw bapur trafod bach yn hytrach na'r drafodaeth yn ei chyfanrwydd. Mae'n rhyfeddol nad oes neb wedi gofyn unrhyw gwestiynau i mi am rai o'r dogfennau eraill sy'n bodoli, ac y byddwn yn eu cyhoeddi ar y wefan, a'r adroddiadau rydym wedi'u gwneud. Rwyf yn gwerthfawrogi ei bod yn ymddangos fel cyfle gwleidyddol da eich bod yn meddwl eich bod wedi dod o hyd i rywbeth o bwys, ei daflu yma a thraw, ond nid wyf yn chwarae'r gêm honno, mae arnaf ofn.

**Joyce Watson:** I know that you are working hard to ensure that people in rural areas receive as good a service as possible from the national health service, and I am sure that you recall that you recently opened the additional care unit facility at Withybush hospital in my town. The unit will offer top quality care to local people and will make a significant difference to their lives. It will make a number of services available under one roof and help to reduce waiting times. Do you agree that people in rural areas will benefit from the investment that this Government has made in providing top quality services and facilities, and would you take this opportunity to join me in dispelling the myth that Withybush hospital is under threat?

**Edwina Hart:** The rural health plan is key to the engagement that we have had as a Government with all of the NHS across Wales. When we look at the Hywel Dda Local Health Board area, it is an extremely rural area and therefore a very difficult arena in which to deliver services.

I can confirm, as I was looking at the expenditure for Withybush, that £2.1 million has been invested in its theatres; for the accident and emergency department, the figure is £4.7 million. Although the renal facility is temporary, the level of investment is high. We have also had an automated pharmacy. The capital that has been allocated shows the Government's commitment to a range of issues within Withybush.

That is true across the piece. There have been developments in Bronglais Hospital, and I was delighted to be able to announce last week further investment in west Wales in the form of Cardigan hospital. It is important to recognise that the services continue to be provided in west Wales and the necessary investment is being made by this Government, however difficult times may get.

**Alun Davies:** Minister, many of us were delighted to hear your remarks in answer to Joyce Watson's supplementary question and

**Joyce Watson:** Rwyf yn gwybod eich bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod pobl mewn ardaloedd gwledig yn cael cystal gwasanaeth â phosibl gan y gwasanaeth iechyd gwladol, ac rwyf yn siŵr eich bod yn cofio i chi agor y cyfleuster uned gofal ychwanegol yn ddiweddar yn ysbyty Llwynhelyg yn fy nhref. Bydd yr uned yn cynnig gofal o'r radd flaenaf i bobl leol a bydd yn gwneud byd o wahaniaeth i'w bywydau. Bydd yn golygu bod nifer o wasanaethau ar gael o dan un to ac yn helpu i leihau amseroedd aros. A ydych yn cytuno y bydd pobl mewn ardaloedd gwledig yn elwa o fuddsoddiad y Llywodraeth hon mewn darparu gwasanaethau a chyfleusterau o'r ansawdd gorau, ac a fydddech yn achub ar y cyfle hwn i ymuno â mi i chwalu'r myth bod ysbyty Llwynhelyg o dan fygythiad?

**Edwina Hart:** Mae'r cynllun iechyd gwledig yn allweddol i'n hymgysylltiad fel Llywodraeth â'r holl GIG ar draws Cymru. Wrth edrych ar ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, mae'n ardal wledig iawn ac felly'n ardal anodd iawn i gyflenwi gwasanaethau.

Gallaf gadarnhau, wrth i mi edrych ar y gwariant ar gyfer Llwynhelyg, fod £2.1 miliwn wedi'i fuddsoddi yn ei theatrau; ar gyfer yr adran damweiniau ac achosion brys, mae'r ffigur yn £4.7 miliwn. Er mai dros dro yw'r cyfleuster arenol, mae lefel y buddsoddiad yn uchel. Rydym hefyd wedi cael fferyllfa awtomataidd. Mae'r cyfalaf sydd wedi cael ei ddyrannu'n dangos ymrwymiad y Llywodraeth i ystod o faterion yn Llwynhelyg.

Mae hynny'n wir yn gyffredinol. Bu datblygiadau yn Ysbyty Bronglais, ac roeddwn wrth fy modd fy mod yn gallu cyhoeddi'r buddsoddiad pellach wythnos diwethaf yng ngorllewin Cymru ar ffurf ysbyty Aberteifi. Mae'n bwysig cydnabod bod y gwasanaethau'n dal i gael eu darparu yng ngorllewin Cymru a bod y buddsoddiad angenrheidiol yn cael ei wneud gan y Llywodraeth hon, ni waeth pa mor anodd fydd pethau.

**Alun Davies:** Weinidog, roedd nifer ohonom yn hynod falch o glywed eich sylwadau wrth ateb cwestiwn atodol Joyce Watson a

Nick Bourne's original question on this matter. Do you join me in condemning politicians who go around parts of west Wales and other areas deliberately frightening the population for their own political ends, creating problems that do not exist and telling people that they will lose services while we are, in fact, investing in those services? Is that not the worst sort of dishonest politics, which we do not want in the Assembly?

**Edwina Hart:** We all have to be careful what we say about services. However, the original leak came from Hywel Dda Local Health Board, and that caused consternation across the piece. However, you are quite right, and it is important that people check the accuracy of the information that is out there and which is provided by the Government before becoming self-indulgent. It is also important to recognise that Members are sometimes under a lot of pressure from their constituents when these leaks occur, but it is important that we take a measured approach when we hear these things and recognise that the proof is in the investment that we are making, not in leaked reports or rumours.

### Mynediad at Driniaeth

**3. Angela Burns:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella mynediad at driniaethau ieched yn ardaloedd gwledig Cymru. OAQ(3)1676(HSS)*

**Edwina Hart:** Local health boards are responsible for providing services that meet the health needs of their local communities. The rural health plan identifies opportunities to strengthen access to healthcare services and will be supported through the rural health innovation fund.

**Angela Burns:** Minister, I am prepared to accept totally the assurance that you gave me in the Chamber some months ago that there would be no downgrading of Withybush hospital. I do not have a problem believing you in that regard. That is absolutely fine.

chwestiwn gwreiddiol Nick Bourne ar y mater hwn. A ydych yn ymuno â mi i gondemnio gwleidyddion sy'n mynd o amgylch rhannau o orllewin Cymru ac ardaloedd eraill yn dychryn y boblogaeth yn fwiadol at eu dibenion gwleidyddol eu hunain, gan greu problemau nad ydynt yn bodoli ac yn dweud wrth bobl y byddant yn colli gwasanaethau er ein bod, mewn gwirionedd, yn buddsoddi yn y gwasanaethau hynny? Onid dyma'r math gwaethaf o wleidyddiaeth anonest, nad oes arnom ei heisiau yn y Cynulliad?

**Edwina Hart:** Rhaid i ni gyd i fod yn ofalus am yr hyn rydym yn ei ddweud am wasanaethau. Fodd bynnag, daeth y datgelu answyddogol gwreiddiol o Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, ac achosodd hynny ddryswch yn gyffredinol. Fodd bynnag, rydych yn llygad eich lle, ac mae'n bwysig bod pobl yn cadarnhau bod y wybodaeth sydd ar gael ac sy'n cael ei darparu gan y Llywodraeth yn gywir cyn mynd dros ben llestri. Mae'n bwysig cydnabod hefyd bod yr Aelodau o dan lawer o bwysau weithiau gan eu hetholwyr pan fydd pethau'n cael eu datgelu'n answyddogol, ond mae'n bwysig ein bod yn bwyllog pan fyddwn yn clywed y pethau hyn ac yn cydnabod bod y prawf yn ein buddsoddiad, nid mewn clecs neu adroddiadau sydd wedi cael eu datgelu'n answyddogol.

### Access to Treatment

**3. Angela Burns:** *Will the Minister make a statement on improving access to health treatment in rural areas of Wales. OAQ(3)1676(HSS)*

**Edwina Hart:** Mae byrddau ieched lleol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ieched eu cymunedau lleol. Mae'r cynllun ieched gwledig yn nodi cyfleoedd i gryfhau mynediad i wasanaethau gofal ieched a bydd yn cael ei gefnogi drwy'r gronfa arloesi ieched gwledig.

**Angela Burns:** Weinidog, rwyf yn barod i dderbyn y sicrwydd llwyr a roesoch i mi yn y Siambr rai misoedd yn ôl na fyddai ysbyty Llynwellyn yn cael ei israddio o gwbl. Nid oes gennyf broblem eich credu ynghylch hynny. Mae hynny'n hollol iawn. Fodd

However, this is my problem: in your document, the five-year strategy that you announced on Monday, you have said that one of the principles is to establish

‘a clear narrative explaining the direction of travel, that everyone in the Welsh Assembly Government, NHS Wales and their partners can understand and support’.

You have stated, time and again, your commitment to Withybush hospital. What I do not understand is why the Hywel Dda trust did not understand what was said by a Minister of state. Let there be no mistake about it: this is a detailed report, which I have read from cover to cover. Trevor Purt may not have owned it, the board may not have passed it or ratified it, but the people who put this together had access to high-level information—people knew that this was going on. Therefore, can you really continue to have confidence in a board that listens to what you are saying about Withybush hospital but then goes off and writes something completely different?

On a separate point, Minister, would you please investigate the e-mail and letter sent to a great many of the staff of the board, which says, essentially, ‘When we find you, whistleblower, your time is up’? It is a very threatening e-mail. I have seen a copy of it and I do not think that it is an appropriate way for management to behave. Either these guys do not listen to you or they do not understand what you are saying, even in words of one syllable. If they are not clever or sharp enough to take that on board, they should not be doing the job that they are doing and you should have a brand-new team there.

**Edwina Hart:** Once concerns were expressed to me by Members, I brought in the chair and the chief executive of Hywel Dda to discuss the difficulty that that leaked report had caused to Assembly Members, members of the public and staff, who were aghast at some of the suggestions within it. I will keep a close eye on the situation in that area.

bynna, dyma fy mhroblem: yn eich dogfen, y strategaeth bum mlynedd a gyhoeddwyd gennych ddydd Llun, rydych wedi dweud mai un o'r egwyddorion yw sefydlu

naratif clir yn esbonio'r cyfeiriad, bod pawb yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, GIG Cymru a'u partneriaid yn ei ddeall ac yn ei gefnogi.

Rydych wedi datgan eich ymrwymiad i ysbyty Llwynhelyg droeon. Yr hyn na allaf ei ddeall yw pam nad oedd ymddiriedolaeth Hywel Dda wedi deall yr hyn a ddywedwyd gan un o Weinidogion y wladwriaeth. Gadewch i ni fod yn hollol siŵr am hyn: mae hwn yn adroddiad manwl, rwyf wedi ei ddarllen o glawr i glawr. Efallai nad oedd Trevor Purt yn berchen arno, efallai nad oedd y bwrdd wedi ei basio na'i gadarnhau, ond roedd gan y bobl a roddodd yr adroddiad hwn ynghyd fynediad at wybodaeth ar lefel uchel—roedd pobl yn gwybod bod hyn yn mynd rhagddo. Felly, a ydych chi'n dal i allu bod â hyder mewn bwrdd sy'n gwrandao ar yr hyn rydych yn ei ddweud am ysbyty Llwynhelyg ond sydd wedyn yn mynd i ffwrdd ac yn ysgrifennu rhywbeth hollol wahanol?

Ar bwynt gwahanol, Weinidog, a fydddech yn ymchwilio i'r e-bost a'r llythyr a anfonwyd at nifer fawr o staff y bwrdd, sy'n dweud, yn y bôn, 'Pan fyddwn yn dod o hyd i chi, y chwythwr chwiban, mae eich amser ar ben'? Mae'n e-bost bygythiol iawn. Rwyf wedi gweld copi ohono ac nid wyf yn credu ei bod yn ffordd addas i reolwyr ymddwyn. Naill ai nid yw'r bobl hyn yn gwrandao arnoch chi neu nid ydynt yn deall yr hyn rydych yn ei ddweud, hyd yn oed mewn geiriau unsill. Os nad ydynt yn ddigon clyfar nac yn ddigon craff i dderbyn hynny, ni ddylent fod yn gwneud y gwaith maen nhw'n ei wneud a dylech chi gael tîm newydd sbon yno.

**Edwina Hart:** Ar ôl i Aelodau fynegi pryderon wrthyf, gofynnais i gadeirydd a phrif weithredwr Hywel Dda ddod yma i drafod yr anhawster y mae'r adroddiad a ddatgelwyd yn answyddogol wedi'i achosi i Aelodau'r Cynulliad, aelodau o'r cyhoedd a staff, a oedd wedi'u syfrdanu gan rai o'r awgrymiadau a oedd ynddo. Byddaf yn cadw llygad barcud ar y sefyllfa yn yr ardal honno.

I am concerned about the e-mail that you mentioned and I would be grateful if you could send me a copy of it. I have also asked my officials to send me a copy. Although it is important to investigate where any leak of information comes from, the way in which that is done is important, and people have to understand that it has to be done. You cannot have leaks of documents. This happens to be a document about services, but there could be leaks of far more personalised information, which I would be exceptionally worried about. Therefore, we have to take leaks seriously. However, we also have to reflect on the difficult position in which all local health boards find themselves. They are currently worrying about their future budgets and about the efficiency savings that I am looking for, and they have these discussions. I have regular meetings with chairs in which I will reinforce this agenda, particularly the reports and the note that I sent to Members on Monday.

Rwyf yn poeni am yr e-bost roeddech chi'n sôn amdano a byddwn yn ddiolchgar pe allech anfon copi ataf. Rwyf hefyd wedi gofyn i fy swyddogion anfon copi ataf. Er ei bod yn bwysig ymchwilio o ble daw unrhyw ddatgelu answyddogol, mae'r ffordd caiff hynny ei wneud yn bwysig, a rhaid i bobl ddeall bod yn rhaid gwneud hyn. Ni allwch ddatgelu dogfennau'n answyddogol. Yn digwydd bod, mae hon yn ddogfen am wasanaethau, ond gallai gwybodaeth llawer mwy personol fod wedi cael ei datgelu'n answyddogol, a byddwn i'n eithriadol o bryderus ynghylch hynny. Felly, mae'n rhaid i ni gymryd datgeliadau answyddogol o ddifrif. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd ystyried y sefyllfa anodd sy'n wynebu pob bwrdd iechyd lleol. Ar hyn o bryd maen nhw'n poeni am eu cyllidebau ar gyfer y dyfodol ac am yr arbedion effeithlonrwydd rwyf yn chwilio amdanynt, ac maent yn cynnal y trafodaethau hyn. Byddaf yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda chadeiryddion. Yn y cyfarfodydd hynny byddaf yn atgyfnerthu'r agenda hon, yn enwedig yr adroddiadau a'r nodyn a anfonais at Aelodau ddydd Llun.

1.50 p.m.

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, we have heard a lot about leaked reports this afternoon. I listened to and watched the news last night when senior health professionals referred to the so-called McKinsey report as an irrelevant distraction by people who are more interested in political point scoring than they are in the provision of health services in Wales. [*Interruption.*] Can we return to the agenda on health services in Wales—[*Interruption.*]

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, rydym wedi clywed llawer am adroddiadau a ddatgelwyd yn answyddogol y prynhawn yma. Roeddwn yn gwyllo ac yn gwrandao ar y newyddion neithiwr wrth i uwch weithwyr iechyd proffesiynol gyfeirio ar yr hyn a elwir yn adroddiad McKinsey fel rhywbeth amherthnasol i dynnu sylw gan bobl sydd â mwy o ddiddordeb mewn sgorio pwyntiau gwleidyddol na darparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru. [*Torri ar draws.*] A allwn ddychwelyd at yr agenda ar wasanaethau iechyd yng Nghymru—[*Torri ar draws.*]

**The Presiding Officer:** Order.

**Y Llywydd:** Trefn.

**Rhodri Glyn Thomas:** I am grateful for your intervention, Presiding Officer.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwyf yn ddiolchgar am eich ymyriad, Lywydd.

**The Presiding Officer:** It is my job. [*Laughter.*] Be careful, but carry on.

**Y Llywydd:** Dyna fy ngwaith. [*Chwerthin.*] Byddwch yn ofalus, ond ewch ymlaen.

**Rhodri Glyn Thomas:** Let us return to the agenda of health services, in which the

**Rhodri Glyn Thomas:** Gadewch i ni ddychwelyd at yr agenda gwasanaethau

electorate presumably expects elected Members to be interested. You and I both attended the Royal College of Nursing reception last night, and it tried to engage us both on the subject of community health provision. All practitioners, including pharmacists and dentists, have a part to play. You will know that I have been lobbying you about dental provision in the Teifi valley, and so are you in a position to update me on whether that provision will be available to my constituents in the near future?

**Edwina Hart:** I am delighted that you have returned to the issue of health services in the area. I do not have a more recent update than that which I have shared with you before on the Teifi valley, but I will ask officials to look into it and to write to you.

**Eleanor Burnham:** I will refrain from making any party-political points. I want to do my job as the North Wales regional Liberal Democrat Assembly Member and question the Government on its health provision. On behalf of my North Wales constituents, Minister, in view of the alleged gap between policy leads and operational delivery that was mentioned in the aforementioned consultative discussion document that is possibly aligned with McKinsey, how will you address that allegation across North Wales? There are obviously issues, and I understand that, in your heart of hearts, you are doing your best. We will have cuts soon and I am very concerned, as are others—

**Helen Mary Jones:** Whose fault is that?

**Eleanor Burnham:** You should try making the bankers—

**The Presiding Officer:** Order. This is question time—

**Eleanor Burnham:** I was intervened.

**The Presiding Officer:** Order. You were not. You cannot be intervened. I am in charge here, so listen for a moment. This is question

iechyd. Mae'n debyg mai dyma'r pwnc mae etholwyr yn disgwyl i Aelodau etholedig fod â diddordeb ynddo. Roeddech chi a minnau yn bresennol yn nerbyniad Coleg Brenhinol y Nyrsys neithiwr, ac roedd yn ceisio ymgysylltu'r ddau ohonom ynghylch darpariaeth iechyd cymunedol. Mae gan bob ymarferwr, gan gynnwys fferyllwyr a deintyddion, ran i'w chwarae. Byddwch yn gwybod fy mod wedi bod yn eich lobïo ynghylch darpariaeth ddeintyddol yn nyffryn Teifi, ac felly a ydych mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi ynghylch a fydd y ddarpariaeth honno ar gael i fy etholwyr yn y dyfodol agos?

**Edwina Hart:** Rwyf yn falch eich bod wedi dychwelyd at y mater o wasanaethau iechyd yn yr ardal. Nid oes gennyf wybodaeth sy'n fwy diweddar na'r hyn rwyf wedi ei rhannu â chi o'r blaen ynghylch dyffryn Teifi, ond byddaf yn gofyn i swyddogion edrych ar hyn ac ysgrifennu atoch.

**Eleanor Burnham:** Byddaf yn ymatal rhag gwneud unrhyw bwyntiau pleidiol. Rwyf am wneud fy ngwaith fel Aelod Cynulliad Democratiaid Rhyddfrydol Gogledd Cymru a holi'r Llywodraeth ynghylch ei darpariaeth iechyd. Ar ran fy etholwyr yng Ngogledd Cymru, Weinidog, gan ystyried y bwlch honedig rhwng arweinwyr polisi a chyflenwi gweithredol a grybwyllwyd yn y ddogfen drafod ymgynghorol y soniwyd amdani'n flaenorol sydd o bosibl wedi'i halinio â McKinsey, sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r honiad hwnnw ar draws Gogledd Cymru? Yn amlwg ceir materion, ac rwyf yn deall, yn eich calon, eich bod yn gwneud eich gorau glas. Bydd gennym doriadau'n fuan ac rwyf yn bryderus iawn, fel y mae pobl eraill—

**Helen Mary Jones:** Bai pwy yw hynny?

**Eleanor Burnham:** Dylech chi geisio gwneud i'r bancwyr—

**Y Llywydd:** Trefn. Amser cwestiynau yw hwn—

**Eleanor Burnham:** Roedd ymyriad.

**Y Llywydd:** Trefn. Nac oedd. Ni allwch dderbyn ymyriad. Fi sydd wrth y llyw yma, felly gwrandewch am funud. Amser

time, when individual Members ask questions of Ministers and Ministers reply. Those are the only people who are to speak, and they can speak only when I call them. Do I need to remind you of that? How long have you been away? That was not addressed to you, Eleanor Burnham, but to Members collectively.

**Eleanor Burnham:** I am absolutely delighted to receive your usual governance and guidance, Llywydd. Minister, what can I tell my North Wales constituents about what is happening in their health service, which they are now quite concerned about?

**Edwina Hart:** That is interesting, because in the correspondence that I receive in respect of Betsi Cadwaladr University Local Health Board, only limited concerns are raised with me, and when I go to north Wales as part of my discussions across the piece, I find that the clinical engagement there is excellent in the main. There is an openness and a transparency in how the board operates, and I understand that its operation in relation to Assembly Members is also first class, through briefings and in dealing with various issues. I am always pleased when Members are able to raise points with me. For instance, Ann Jones raised her concerns about Ysbyty Glan Clwyd and maternity issues with me recently, but she had already had an open and transparent discussion about the delivery of services up there, which indicated to me that there is excellent engagement. On that particular issue, when I meet the Royal College of Midwives it also tells me that there is good engagement up there on such issues. It is important to recognise that the Betsi Cadwaladr LHB has settled down very well.

**Mick Bates:** Minister, in my supplementary question, I want to focus on the delivery of advice about rural health. You will be aware of the superb work undertaken over many years by the Institute of Rural Health, based in Gregynog, near Newtown. I am sure that you have seen the high academic standards of the institute, which has played a significant part in identifying rural health issues and providing solutions for better access to

cwestiynau yw hwn, pan fydd Aelodau unigol yn gofyn cwestiynau i Weinidogion a phan fydd Gweinidogion yn ateb. Dyna'r unig bobl sy'n cael siarad, a dim ond pan fyddaf yn eu galw maen nhw'n cael siarad. Oes angen i mi eich atgoffa o hynny? Pa mor hir ydych chi wedi bod i ffwrdd? Nid oedd y sylw hwnnw'n cael ei gyfeirio atoch chi, Eleanor Burnham, ond at yr Aelodau i gyd.

**Eleanor Burnham:** Rwyf wrth fy modd yn cael derbyn eich trefn a'ch arweiniad arferol, Lywydd. Weinidog, beth allaf ei ddweud wrth fy etholwyr yng Ngogledd Cymru am yr hyn sy'n digwydd yn eu gwasanaeth iechyd, y maen nhw'n awr yn eithaf pryderus amdano?

**Edwina Hart:** Mae hynny'n ddiddorol, oherwydd yn yr ohebiaeth a gaf ynghylch Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, cyfyngedig yw'r pryderon sy'n cael eu codi â mi, a phan fyddaf yn mynd i ogledd Cymru fel rhan o'm trafodaethau cyffredinol, gwelaf fod yr ymgysylltiad clinigol yno'n ardderchog ar y cyfan. Mae'r bwrdd yn gweithredu'n agored ac yn dryloyw, ac rwyf yn deall bod ei waith mewn perthynas ag Aelodau'r Cynulliad hefyd o'r radd flaenaf, drwy sesiynau briffio ac wrth ddelio â materion amrywiol. Rwyf bob amser yn falch pan fydd Aelodau'n gallu codi pwyntiau â mi. Er enghraifft, cododd Ann Jones ei phryderon ynghylch Ysbyty Glan Clwyd a materion ynghylch mamolaeth â mi'n ddiweddar, ond roedd hi eisoes wedi cael trafodaeth agored a thryloyw ynghylch cyflenwi gwasanaethau i fyny yno, a oedd yn dangos i mi fod ymgysylltiad ardderchog. Ar y mater penodol hwnnw, pan fyddaf yn cwrdd â Choleg Brenhinol y Bydwagedd bydd hefyd yn dweud wrthyf fod ymgysylltiad da i fyny yno ar faterion o'r fath. Mae'n bwysig cydnabod bod BILI Betsi Cadwaladr wedi setlo i lawr yn dda iawn.

**Mick Bates:** Weinidog, yn fy nghwestiwn atodol, rwyf am ganolbwyntio ar gyflenwi cyngor am iechyd gwledig. Byddwch yn ymwybodol o'r gwaith gwych a wnaed dros nifer o flynyddoedd gan y Sefydliad Iechyd Gwledig, sydd yng Ngregynog, ger y Drenewydd. Rwyf yn siŵr eich bod wedi gweld safonau academiaidd uchel y sefydliad, sydd wedi chwarae rhan arwyddocaol drwy ganfod materion iechyd gwledig a darparu

healthcare in rural areas. I am sure that you will have seen the recent publicity about stress on rural general practitioners, which emerged from a rural doctors' conference organised by the Institute of Rural Health and the Montgomeryshire Medical Society. However, as a third sector organisation, the institute struggles to secure good, regular funding to continue its excellent work. Could you look at the resources in the rural health innovation fund and use them for the Institute of Rural Health to ensure the continued availability of its excellent work to you and your officials?

**Edwina Hart:** I am aware of the excellent work undertaken by the Institute of Rural Health. At the suggestion of Dr Dai Lloyd, who has had some involvement with it, I am going to visit the institute in October. I am sure that it will raise with me some of its issues concerning funding.

#### **Y Ganolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**4. Kirsty Williams:** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Ganolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig yn Llanfair-ym-Muallt. OAQ(3)1681(HSS)*

**Edwina Hart:** The LHB has been required to submit a revised business case for the integrated health and social care facilities for the communities of Builth Wells by the end of September 2010.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** The new centre in Builth Wells is a key part of Powys LHB's five-year strategy, which is a direct result of the recommendations in the McKinsey report that you refused to publish. Today, you have described that document as insignificant. However the consequences for people throughout Wales will be far from insignificant if its recommendations are not implemented. Do you intend to cherry-pick from that report or to implement its recommendations in full?

**Edwina Hart:** As you are well aware, I have

atebion ar gyfer gwell mynediad at ofal iechyd mewn ardaloedd gwledig. Rwyf yn siŵr y byddwch wedi gweld y cyhoeddusrwydd diweddar am straen ar feddygon teulu gwledig, a ddaeth i'r amlwg drwy gynhadledd i feddygon gwledig a drefnwyd gan y Sefydliad Iechyd Gwledig a Chymdeithas Feddygol Sir Drefaldwyn. Fodd bynnag, ac yntau yn sefydliad trydydd sector, mae'n ei chael hi'n anodd cael cyllid rheolaidd a da i fwrw ymlaen â'i waith rhagorol. A allech edrych ar yr adnoddau yn y gronfa arloesi iechyd gwledig a'u defnyddio ar gyfer y Sefydliad Iechyd Gwledig i sicrhau bod ei gwaith ardderchog yn parhau i fod ar gael i chi a'ch swyddogion?

**Edwina Hart:** Rwyf yn ymwybodol o'r gwaith rhagorol a wnaed gan y Sefydliad Iechyd Gwledig. Ar awgrym Dr Dai Lloyd, sydd wedi ymwneud rhywfaint ag ef, rwyf yn mynd i ymweld â'r sefydliad ym mis Hydref. Rwyf yn siŵr y bydd yn trafod rhai o'i faterion sy'n ymwneud â chyllid â mi.

#### **Integrated Health and Social Care Centre**

**4. Kirsty Williams:** *Will the Minister give an update on the Integrated Health and Social Care Centre in Builth Wells. OAQ(3)1681(HSS)*

**Edwina Hart:** Gofynnwyd i'r BILl gyflwyno achos busnes diwygiedig ar gyfer y cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol integredig i gymunedau Llanfair-ym-Muallt erbyn diwedd mis Medi 2010.

**Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Mae'r ganolfan newydd yn Llanfair-ym-Muallt yn rhan allweddol o strategaeth bum mlynedd BILl Powys, sy'n ganlyniad uniongyrchol i'r argymhellion yn adroddiad McKinsey roeddech chi wedi gwrthod ei gyhoeddi. Heddiw, rydych wedi disgrifio'r ddogfen honno fel rhywbeth dibwys. Fodd bynnag, bydd y canlyniadau i bobl ledled Cymru ymhell o fod yn ddibwys os nad yw ei argymhellion yn cael eu gweithredu. A ydych yn bwriadu dewis a dethol argymhellion o'r adroddiad hwnnw neu eu gweithredu'n llawn?

**Edwina Hart:** Fel rydych yn gwybod yn



issued my five-year framework document, the chief executive has issued his annual report, and I updated you on these matters on Monday. Progress in your patch in BUILT Wells is going well. We have a good relationship with the LHB and we continue to invest in various projects there. I try to look at equity in where capital is spent when delivering services throughout Wales, and I will always do that, because it is my duty as Minister for health.

iawn, rwyf wedi cyhoeddi fy nogfen fframwaith pum mlynedd, mae'r prif weithredwr wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol, ac rwyf wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y materion hyn ddydd Llun. Mae pethau'n dod yn eu blaenau'n dda yn eich ardal yn Llanfair-ym-Muallt. Mae gennym berthynas dda gyda'r BIL ac rydym yn parhau i fuddsoddi mewn prosiectau amrywiol yno. Rwyf yn ceisio edrych ar degwch lle caiff cyfalaf ei wario wrth gyflenwi gwasanaethau ledled Cymru, a byddaf bob amser yn gwneud hynny, oherwydd ei fod yn ddyletswydd arnaf fel Gweinidog dros iechyd.

### Blaenoriaethau

**5. Lynne Neagle:** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer y GIG yng Nghymru. OAQ(3)1673(HSS)*

**Edwina Hart:** My priorities for the next 12 months are to complete the implementation of the commitments within 'One Wales', to work to improve people's health, and to ensure that they have access to high-quality integrated health and social care that provides a good patient experience and can respond flexibly to their needs.

**Lynne Neagle:** I recently visited the NHS Direct Wales call centre in my constituency. It is a state-of-the-art facility with trained nurses taking the pressure off GPs and hospitals by providing detailed health advice as well as information on out-of-hours services, dentists and 24-hour chemists. As you probably know, it is about to launch a new initiative to take the pressure off the ambulance service, which is particularly important in Torfaen where there are longstanding issues with emergency response times. An announcement was initially made in England that the service there was to be scrapped, but this was followed by a u-turn by the Secretary of State for Health. Will you take this opportunity today to commend the work of NHS Direct in Wales and assure us that the future of the service here is secure?

**Edwina Hart:** I thank you for that question,

### Priorities

**5. Lynne Neagle:** *Will the Minister outline her priorities for the NHS in Wales. OAQ(3)1673(HSS)*

**Edwina Hart:** Fy mlaenoriaethau dros y 12 mis nesaf yw gorffen gweithredu ymrwymadau 'Cymru'n Un', gweithio i wella iechyd pobl, ac i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar iechyd a gofal cymdeithasol integredig o ansawdd uchel, sy'n rhoi profiad da i gleifion ac sy'n gallu ymateb yn hyblyg i'w hanghenion.

**Lynne Neagle:** Yn ddiweddar, bûm yn ymweld â'r ganolfan alwadau Galw Iechyd Cymru yn fy etholaeth. Mae'n gyfleuster modern iawn gyda nyrsys hyfforddedig yn cymryd y pwysau oddi ar feddygon teulu ac ysbytai drwy ddarparu cyngor iechyd manwl yn ogystal â gwybodaeth am wasanaethau tu allan i oriau, deintyddion a fferyllfeydd 24 awr. Mae'n debyg eich bod eisoes yn gwybod ei fod ar fin lansio menter newydd i gymryd y pwysau oddi ar y gwasanaeth ambiwlans, sy'n arbennig o bwysig yn Nhor-faen lle ceir materion ers tro byd gydag amseroedd ymateb brys. Cafodd cyhoeddiad ei wneud yn gyntaf yn Lloegr bod y gwasanaeth i gael ei ddiddymu yn fan honno, ond dilynwyd hyn gan dro pedol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd. A wnewch chi fanteisio ar y cyfle hwn heddiw i ganmol gwaith Galw Iechyd Cymru a'n sicrhau bod dyfodol y gwasanaeth yn ddiogel yma?

**Edwina Hart:** Diolch ichi am y cwestiwn

Lynne, because I know that you have been particularly interested over the years in the performance of ambulance services in Torfaen. The new NHS Direct initiative that you refer to will certainly help with those issues. We are reviewing NHS Direct as part of our total review of unscheduled care services, but, as you said, it has a valuable role and function for many of the population, and the great numbers of people who use NHS Direct show that it has been a success. The only other point that I would make is that it is important that we review some aspects of the protocols of NHS Direct so that we use the trained staff even better.

**Andrew R.T. Davies:** Some of the exchanges that you and I have had over the McKinsey report, both in committee and here in Plenary, have obviously led to some doubt over whether the report exists, and how it informs opinion within your department. I need only stretch over to my right and I could pick up a copy of it, but, sadly, many health professionals in Wales cannot see one.

2.00 p.m.

More importantly, the stakeholder survey of your staff that was undertaken by the Welsh Assembly Government identified deep structural fault lines within your department. One of the comments was that the Department for Health and Social Services is 20 years behind knowledge management organisations. Less than half the stakeholders said that the department openly shared information, and 87 per cent of stakeholders believed that different parts of the department did not work together. Given your actions around the McKinsey report, and the secrecy that shrouded it, what confidence will people have that you will meet the challenges that your own staff have noted in their verdict of your tenure as Minister for Health and Social Services over the past three and a half years?

**Edwina Hart:** I am a little tired of the record

hwnnw, Lynne, gan fy mod yn gwybod eich bod wedi bod â diddordeb arbennig ym mherfformiad gwasanaethau ambiwlans yn Nhor-faen dros y blynyddoedd. Bydd y fenter Galw Iechyd Cymru newydd rydych yn cyfeirio ati'n siŵr o helpu gyda'r materion hynny. Rydym yn adolygu Galw Iechyd Cymru fel rhan o'n holl adolygiad o wasanaethau gofal heb ei drefnu, ond, fel y dywedasoch, mae ganddo rôl a swyddogaeth werthfawr ar gyfer llawer o'r boblogaeth, ac mae'r nifer fawr o bobl sy'n defnyddio Galw Iechyd Cymru yn dangos ei fod wedi bod yn llwyddiant. Yr unig bwynt arall hoffwn ei wneud yw ei bod yn bwysig ein bod yn adolygu rhai agweddau ar brotocolau Galw Iechyd Cymru er mwyn i ni ddefnyddio'r staff hyfforddedig hyd yn oed yn well.

**Andrew R.T. Davies:** Mae rhai o'r trafodaethau rydych chi a minnau wedi'u cael ynghylch adroddiad McKinsey, mewn pwyllgorau ac yma yn y Cyfarfod Llawn, yn amlwg wedi arwain at rywffaint o amheuaeth ynghylch a yw'r adroddiad yn bodoli, a sut y mae'n cyfrannu at farn yn eich adran. Yr oll byddai angen i mi ei wneud i gael copi fyddai ymestyn i'm dde, ond, yn anffodus, ni all nifer o weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru weld copi ohono.

Yn bwysicach, mae'r arolwg rhanddeiliaid o'ch staff a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi dod o hyd i ffawtlinau strwythurol dwfn yn eich adran. Un o'r sylwadau oedd bod yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 20 mlynedd tu ôl i sefydliadau rheoli gwybodaeth. Dywedodd lai na hanner y rhanddeiliaid fod yr adran yn rhannu gwybodaeth yn agored, ac roedd 87 y cant o'r rhanddeiliaid yn credu nad oedd gwahanol rannau o'r adran yn gweithio gyda'i gilydd. O ystyried eich gweithredoedd yng nghyswllt adroddiad McKinsey, a'r cyfrinachedd o'i amgylch, pa mor ffyddiog fydd pobl y byddwch yn ymateb i'r sialensiau mae eich staff eich hun wedi'u nodi yn eu dyfarniad ynghylch eich cyfnod fel Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol dros y tair blynedd a hanner diwethaf?

**Edwina Hart:** Rwyf wedi blino clywed y

about a report that does not exist. I know that it has been good fun for you with regard to the media, and I understand that, at the end of the day, you think that something is there when it is not. On taking account of the views of our staff, the chief executive of the NHS in Wales always looks at what he can do to make changes within the department to get greater efficiency and better and more effective ways of working. That is a matter for the chief executive of the NHS and the director of my department, not for me as a politician.

**Andrew R.T. Davies:** Therefore, you do not recognise that 87 per cent of respondents to your own staff survey believe that your department is dysfunctional, and that a large number—over half—believe that there is an element of secrecy and of not taking people along with the initiatives that you develop. Surely it is a fault of yours, as Minister, in not driving forward the reforms within your department and taking the civil servants and the health community with you. Do you not reflect on what has been revealed in your staff survey and do you not agree that the imperative is to take action to secure a world-class health service in Wales?

**Edwina Hart:** Let us differentiate between the national health service, internal Government departments and the role of officials and politicians, which, by the nature of your question, you do not seem able to do. On the national health service and the wider service, I can say that all the reforms that we have undertaken have been broadly welcomed; people understand the need for those reforms and they are quietly bedding in. Departmental restructuring is a matter for the chief executive of the NHS. I am always concerned if staff do not feel that they are part of any changes; I worked for a large organisation myself, and I know that you can sometimes feel disenfranchised from particular agendas. I do not dismiss your comments; indeed, I note them. I have previously discussed these issues with the chief executive of the NHS, and I will probably discuss them again in due course. I have nothing else to add.

diwn gron am adroddiad nad yw'n bodoli. Gwn ei fod wedi bod yn hwyl i chi o ran y cyfryngau, ac rwyf yn deall, yn y pen draw, eich bod yn meddwl bod rhywbeth yno pan nad yw yno. O ran ystyried barn ein staff, mae prif weithredwr y GIG yng Nghymru bob amser yn edrych ar yr hyn y gall ei wneud i wneud newidiadau yn yr adran i gael mwy o effeithlonrwydd a ffyrdd gwell a mwy effeithiol o weithio. Mae hynny'n fater i brif weithredwr y GIG a chyfarwyddwr fy adran, nid yw'n fater i mi fel gwleidydd.

**Andrew R.T. Davies:** Felly, nid ydych yn cydnabod bod 87 y cant o'r rheini a ymatebodd i'ch arolwg staff eich hun yn credu bod eich adran yn gamweithredol, a bod nifer fawr—dros hanner—yn credu bod elfen o gyfrinachedd ac o beidio â mynd â phobl ymlaen gyda'r mentrau rydych chi'n eu datblygu. Siawns mai eich bai chi, fel Gweinidog, yw peidio â bwrw ymlaen â'r diwygiadau yn eich adran a mynd â'r gweision sifil a'r gymuned iechyd gyda chi. Onid ydych yn myfyrio ar yr hyn sydd wedi cael ei ddatgelu yn eich arolwg staff ac onid ydych yn cytuno bod rhaid cymryd camau i sicrhau gwasanaeth iechyd o'r radd flaenaf yng Nghymru?

**Edwina Hart:** Gadewch i ni wahaniaethu rhwng y gwasanaeth iechyd gwladol, adrannau mewnol y Llywodraeth a rôl swyddogion a gwleidyddion, gan fod natur eich cwestiwn yn awgrymu na allwch chi wneud hynny. O ran y gwasanaeth iechyd gwladol a'r gwasanaeth ehangach, gallaf ddweud bod yr holl ddiwygiadau a wnaed gennym wedi cael croeso cyffredinol; mae pobl yn deall yr angen dros y diwygiadau hynny, ac maen nhw'n dawl ennill eu plwyf. Prif weithredwr y GIG sy'n gyfrifol am ailstrwythuro adrannol. Byddaf bob tro'n poeni os bydd staff yn credu nad ydynt yn rhan o unrhyw newidiadau; bûm yn gweithio i sefydliad mawr fy hun, ac rwyf yn gwybod y gallwch deimlo weithiau eich bod wedi ymddieithrio oddi wrth agendâu penodol. Nid wyf yn diystyru eich sylwadau, yn wir, nodaf nhw. Rwyf wedi trafod y materion hyn â phrif weithredwr y GIG o'r blaen, ac mae'n debyg y byddaf yn eu trafod eto maes o law. Nid oes gennyf ddim byd arall i'w ychwanegu.

**Peter Black:** Minister, this report is very much like the Cheshire cat; it keeps disappearing, only to leave its smile behind—although, in this case, it is more of a grimace. You will know that, in my region, the local health board is proposing to close Fairwood and Hill House hospitals, and also to close the out-of-hours service at Singleton Hospital. To what extent has the McKinsey process been taken into account in reaching those conclusions, given that one of the conclusions in the papers in front of us is that strategic objectives are too numerous and not prioritised, so that none or the wrong ones are being implemented. Would you characterise the proposals of the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board as fitting into that particular category?

**Edwina Hart:** Presiding Officer, may I take guidance from you, because the Member has raised the issue of a hospital in which I have a constituency interest?

**The Presiding Officer:** You might like to indicate that you will write to the Assembly Member as Minister; that would avoid any difficulty.

**Edwina Hart:** Yes, thank you, Presiding Officer.

**Darren Millar:** Minister, you will be aware, due to correspondence between my offices and yours, of the ongoing problems at the Oasis dental practice in Colwyn Bay with regard to the recruitment and retention of dentists, and the problems that that is causing my constituents with regard to appointments being cancelled. Will you urgently intervene to ensure that my constituents access the services that the practice is obliged to deliver under contract with the National Assembly and the local health board? Unfortunately, many now have to go straight to the emergency provision to receive emergency dental care when their condition deteriorates. That is clearly unacceptable, so I ask you to do something about it immediately.

**Edwina Hart:** It is always less than ideal when there are problems with dental practices

**Peter Black:** Weinidog, mae'r adroddiad hwn yn debyg iawn i gath Swydd Gaer; mae'n diflannu drwy'r adeg, gan adael dim byd ar ôl ond ei wên—er, yn yr achos hwn, mae'n fwy o wên sur. Byddwch yn gwybod, yn fy rhanbarth, bod y bwrdd iechyd lleol yn bwriadu cau ysbytai Fairwood a Hill House, a chau'r gwasanaeth y tu allan i oriau yn Ysbyty Singleton. I ba raddau y mae proses McKinsey wedi cael ei hystyried wrth gyrraedd y casgliadau hynny, o gofio mai un o'r casgliadau yn y papurau sydd o'n blaenau yw bod gormod o amcanion strategol ac nad ydynt wedi'u blaenoriaethu, fel na fydd dim neu'r rhai anghywir yn cael eu gweithredu. A fydddech yn dweud bod cynigion Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn perthyn i'r categori penodol hwnnw?

**Edwina Hart:** Lywydd, hoffwn gael arweiniad gennych, gan fod yr Aelod wedi codi mater am ysbyty y mae gennyf ddiddordeb etholaeth ynddo?

**Y Llywydd:** Efallai hoffech ddweud y byddwch yn ysgrifennu at yr Aelod Cynulliad fel Gweinidog; byddai hynny'n osgoi unrhyw anhawster.

**Edwina Hart:** Iawn, diolch, Lywydd.

**Darren Millar:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol, o ganlyniad i ohebiaeth rhwng fy swyddfeydd a'ch swyddfeydd chi, o'r problemau parhaus ym mhreactis deintyddol Oasis ym Mae Colwyn o ran recriwtio a chadw deintyddion, a'r problemau mae hynny'n ei achosi i fy etholwyr o ran canslo apwyntiadau. A wnewch ymyrryd ar frys er mwyn sicrhau bod fy etholwyr yn cael mynediad i'r gwasanaethau y mae'n rhaid i'r practis eu darparu o dan gontract gyda'r Cynulliad Cenedlaethol a'r bwrdd iechyd lleol? Yn anffodus, mae'n rhaid i nifer yn awr fynd yn syth at y ddarpariaeth frys i dderbyn gofal deintyddol brys pan fydd eu cyflwr yn gwaethygu. Mae hynny'n amlwg yn annerbyniol, felly, gofynnaf i chi wneud rhywbeth yn ei gylch ar unwaith.

**Edwina Hart:** Nid yw'n ddelfrydol pan fydd problemau gyda phractisiau deintyddol a

and people access emergency services, which are there for different purposes. I will raise this issue again with officials and respond to you.

### Y GIG yng Nghymru

**6. Leanne Wood:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ymwneud â chadw'r gweithlu yn y GIG yng Nghymru. OAQ(3)1667(HSS)*

**Edwina Hart:** NHS Wales's vision is to transform itself into a well-functioning integrated care system that will retain and develop staff to deliver excellent care. As part of the five-year service, workforce and financial strategic framework, a workforce modernisation programme has been established to develop strategic thinking on this agenda.

**Leanne Wood:** The new 108-bed, £38 million Ysbyty Cwm Rhondda in Llwynypia was built to replace an out-of-date and dilapidated building. Unfortunately, less than a year after opening, the minor injuries unit there is to close on Saturdays as of next week. The chief executive of Cwm Taf Local Health Board has told me that the Saturday closure was due to a high number of medical vacancies and the need to prioritise services at the larger hospital in the area, and that it was not being done for financial reasons. Many of my constituents are concerned about the future of services at Ysbyty Cwm Rhondda if these recruitment problems persist. Are any initiatives or strategies being developed or implemented to improve the recruitment and retention of staff in the NHS?

**Edwina Hart:** As you know, there have been some difficult issues across the piece regarding recruitment, particularly in relation to junior doctors in west and north-west Wales. The Wales Deanery has identified that that is the case, and I have been working with the service to deal with that. On the point that you make with regard to the Llwynypia minor injuries unit, I have had representations from you and Leighton Andrews about this matter, and I intend to

phobl yn defnyddio gwasanaethau brys, sydd yno at ddibenion gwahanol. Byddaf yn codi'r mater hwn unwaith eto â swyddogion ac yn ymateb i chi.

### The Welsh NHS

**6. Leanne Wood:** *Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government policies relating to workforce retention in the Welsh NHS. OAQ(3)1667(HSS)*

**Edwina Hart:** Gweledigaeth GIG Cymru yw trawsnewid ei hun i fod yn system gofal integredig sy'n gweithio'n dda ac a fydd yn cadw ac yn datblygu staff i ddarparu gofal rhagorol. Fel rhan o'r fframwaith gwasanaeth, gweithlu ac ariannol strategol pum-mllynedd, sefydlwyd rhaglen foderneiddio'r gweithlu i ddatblygu syniadau strategol ar yr agenda hon.

**Leanne Wood:** Cafodd Ysbyty Cwm Rhondda newydd yn Llwynypia a fydd â 108 o welyau ac sydd werth £38 miliwn ei adeiladu i gymryd lle hen adeilad adfeiliedig. Yn anffodus, gwta flwyddyn ar ôl ei agor, mae'r uned mân anafiadau yno ar fin cau ar ddydd Sadwrn o'r wythnos nesaf ymlaen. Mae prif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf wedi dweud wrthyf fod cau ar ddydd Sadwrn yn ganlyniad i nifer uchel o swyddi meddygol gwag a'r angen i flaenoriaethu gwasanaethau yn yr ysbyty mwy yn yr ardal, ac nad oedd yn cael ei wneud am resymau ariannol. Mae llawer o fy etholwyr yn poeni am ddyfodol gwasanaethau yn Ysbyty Cwm Rhondda os bydd y problemau recriwtio hyn yn parhau. A oes unrhyw fentrau neu strategaethau'n cael eu datblygu neu eu gweithredu i wella recriwtio a chadw staff yn y GIG?

**Edwina Hart:** Fel y gwyddoch, cafwyd rhai materion anodd yn gyffredinol o ran recriwtio, yn enwedig mewn perthynas â meddygon iau yng ngorllewin a gogledd-orllewin Cymru. Mae Deoniaeth Cymru wedi nodi bod hynny'n wir, ac rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r gwasanaeth i ddelio â hynny. Ar y pwynt a wnewch o ran yr uned mân anafiadau yn Llwynypia, rwyf wedi cael sylwadau oddi wrthyf chi a Leighton Andrews am y mater hwn, ac rwyf yn

explore it further in my meeting next week with Chris Jones, the chair.

bwriadu ei archwilio ymhellach yn fy nghyfarfod yr wythnos nesaf gyda Chris Jones, y cadeirydd.

**Nick Ramsay:** I concur with the sentiments expressed by Leanne Wood, and I am sure that you will agree, Minister, that you have two problems: the issue of workforce recruitment and that of workforce retention, which I will ask you about specifically. As I said when asking my previous question, budgets are under strain, and it costs a significant amount of money to train medical staff. What records are kept and what records do you have access to relating to the number of staff members in the NHS who, once trained, leave within a year or two? Clearly, once people are trained up to a very high standard, it is important that the retention side kicks in and that they feel comfortable and happy with the NHS and that they can continue doing the job for which they have been trained.

**Nick Ramsay:** Rwyf yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan Leanne Wood, ac rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno, Weinidog, bod gennych ddwy broblem: y mater o recriwtio gweithlu a chadw gweithlu ac rwyf am eich holi'n benodol ynghylch yr ail. Fel y dywedais wrth ofyn fy nghwestiwn blaenorol, mae cyllidebau dan straen, ac mae'n costio swm sylweddol o arian i hyfforddi staff meddygol. Pa gofnodion sy'n cael eu cadw a pha gofnodion rydych chi'n gallu cael gafael arnynt ynghylch nifer yr aelodau staff yn y GIG sydd, ar ôl eu hyfforddi, yn gadael cyn pen blwyddyn neu ddwy? Yn amlwg, ar ôl i bobl gael eu hyfforddi i safon uchel iawn, mae'n bwysig bod yr ochr cadw yn dechrau gweithio a'u bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn hapus gyda'r GIG a'u bod yn gallu parhau i wneud y gwaith maen nhw'n cael eu hyfforddi i'w wneud.

**Edwina Hart:** You make a very important point, namely that it is quite expensive to train some of the personnel who come into the NHS, and we have to make it as attractive as possible for them to stay and ensure that they have good career and professional development opportunities. There are some statistics in the back of my mind in relation to nursing; I am not sure whether I received them via my local health board or a trust some years ago. It is not something that we designate centrally, but if it would be helpful to Members, I will see what we can hunt out with regard to the history, and see whether anything is kept at all—something must be, because of workforce planning and so on. I will see what information we have. It might not necessarily be what you have requested, but I will look for something that may assist.

**Edwina Hart:** Rydych yn gwneud pwynt pwysig iawn, sef ei bod yn eithaf drud hyfforddi rhai o'r personél sy'n dod i mewn i'r GIG, ac mae'n rhaid i ni ei gwneud mor ddeniadol â phosibl iddynt aros a sicrhau bod ganddynt yrfa dda a chyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol. Mae gennyf rai ystadegau yng nghefn fy meddwl mewn perthynas â nyrsio; nid wyf yn siŵr a gefais hwy gan fy mwrdd iechyd lleol neu ymddiriedolaeth rai blynyddoedd yn ôl. Nid yw'n rhywbeth rydym yn ei ddynodi'n ganolog, ond os byddai'n ddefnyddiol i Aelodau, byddaf yn gweld beth allwn ddod o hyd iddo ynghylch yr hanes, a gweld a oes unrhyw beth yn cael ei gadw o gwbl—mae'n rhaid bod rhywbeth, er mwyn cynllunio'r gweithlu ac yn y blaen. Edrychaf i weld pa wybodaeth sydd gennym. Efallai na fydd yn union yr hyn rydych wedi gofyn amdano, ond byddaf yn chwilio am ryw beth a all helpu.

## Ysmygu

## Smoking

**7. Val Lloyd:** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fentrau i fynd i'r afael â'r niwed a achosir drwy ysmygu. OAQ(3)1670(HSS)*

**7. Val Lloyd:** *Will the Minister provide an update on initiatives to combat the harm caused by smoking. OAQ(3)1670(HSS)*

**Edwina Hart:** Action to reduce smoking-related harm remains a priority for the Assembly Government. We are investing in programmes to discourage young people from starting smoking and to support smokers who want to quit. A stakeholder group is currently developing a tobacco control action plan, which will recommend further action to tackle smoking.

**Edwina Hart:** Mae gweithredu i leihau'r niwed sy'n cael ei achosi gan ysmegu yn dal yn un o flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad. Rydym yn buddsoddi mewn rhaglenni i atal pobl ifanc rhag dechrau ysmegu ac i gefnogi ysmygwyr sydd am roi'r gorau iddi. Mae grŵp rhanddeiliaid wrthi'n datblygu cynllun gweithredu rheoli tybaco ar hyn o bryd, a fydd yn argymhell camau pellach i fynd i'r afael ag ysmegu.

**Val Lloyd:** Recently, ASH Wales highlighted the need for a complete ban on smokers lighting up in public parks and children's playgrounds. I heard today that the city of New York has just moved to imposing such a ban, including in Central park. When you introduced tobacco control measures in shops earlier this year, you stated that the aim was to protect children and young people from the dangers of smoking. Children should, of course, always be entitled to a smoke-free environment, especially when they are playing in a playground or park. Therefore, Minister, will you be considering any preventative measures to deter adults from smoking in public parks and playgrounds?

**Val Lloyd:** Yn ddiweddar, roedd ASH Cymru wedi tynnu sylw at yr angen am wahardd ysmegu'n llwyr mewn parciau cyhoeddus a meysydd chwarae i blant. Clywais heddiw fod dinas Efrog Newydd newydd gytuno ar osod gwaharddiad o'r fath, gan gynnwys yn Central Park. Pan roeddech wedi cyflwyno mesurau rheoli tybaco mewn siopau'n gynharach eleni, dywedasoch mai'r nod oedd amddiffyn plant a phobl ifanc rhag peryglon ysmegu. Dylai plant bob amser, wrth gwrs, gael hawl i amgylchedd di-fwg, yn enwedig pan fyddant yn chwarae mewn maes chwarae neu barc. Felly, Weinidog, a fyddwch yn ystyried unrhyw fesurau ataliol i atal oedolion rhag ysmegu mewn parciau cyhoeddus a meysydd chwarae?

**Edwina Hart:** I will ask officials to look at that issue as part of the review.

**Edwina Hart:** Byddaf yn gofyn i swyddogion edrych ar y mater hwnnw fel rhan o'r adolygiad.

2.10 p.m.

**Jonathan Morgan:** Minister, you will know that I take a strong and positive line with regard to the fact that we were able to introduce a ban on smoking in enclosed public places, not just to protect customers, but staff too. Hopefully, that will lead to a long-term reduction in the number of people in this country who smoke tobacco. However, I am concerned about the prospect of the introduction of a ban on tobacco displays. I have to say that I am not completely convinced that there is a direct link, nor am I convinced that the evidence suggests that there is a direct link, between a ban on the display of tobacco with a long-term reduction in smoking either among the adult population or among young people and teenagers, which we know is a significant difficulty in Wales at the moment.

**Jonathan Morgan:** Weinidog, byddwch yn gwybod fy mod yn gadarn ac yn gadarnhaol ynghylch y ffaith ein bod wedi gallu cyflwyno gwaharddiad ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus caeedig, nid dim ond i ddiogelu cwsmeriaid, ond staff hefyd. Gobeithio y bydd hynny'n arwain at ostyngiad tymor hir yn nifer y bobl yn y wlad hon sy'n ysmegu tybaco. Fodd bynnag, rwyf yn poeni am y posibilrwydd o gyflwyno gwaharddiad ar arddangosfeydd tybaco. Rhaid i mi ddweud nad wyf wedi cael fy argyhoeddi'n llwyr bod cysylltiad uniongyrchol, ac nid wyf wedi cael fy argyhoeddi bod y dystiolaeth yn awgrymu bod cysylltiad uniongyrchol, rhwng gwaharddiad ar arddangos tybaco gyda gostyngiad tymor hir mewn ysmegu ymhlith oedolion neu ymhlith pobl ifanc a phobl yn eu harddegau, rydym yn gwybod sy'n

anhawster mawr yng Nghymru ar hyn o bryd.

I am also concerned that we could see many small businesses lose out as a result of having to ban the display of tobacco. Smoking tobacco is a legitimate pastime for many people. Will you, as Minister, consider looking at alternatives to this particular ban—I know that you are consulting on it—to see whether there are other ways in which we can more productively reduce the number of teenagers in Wales who smoke instead of implementing a ban that may hurt businesses and that may not have the desired effect of reducing smoking among young people?

**Edwina Hart:** You are correct in that we have been consulting on these regulations and the responses are currently being analysed and considered before further regulations are put forward. However, my officials advise me that since the Tobacco Advertising and Promotion Act 2002 banned tobacco advertising in the UK, the industry has been focusing more on displays in shops as a way of encouraging people to buy tobacco. My officials advise me that there is some clear evidence that displays at point of sale promote smoking among young people. Furthermore, there is an issue that you mentioned particularly with small businesses. When we consider the responses to this and the regulations, I will certainly take on board the points that you have made today.

**David Lloyd:** Ar yr un pwynt yn sylfaenol, byddwch yn ymwybodol, Weinidog, mai'r oedran, ar gyfartaledd, i rywun ddechrau ysmegu yng Nghymru heddiw yw 11 mlwydd oed. Byddwch hefyd yn ymwybodol bod 98.9 y cant o bobl sy'n ysmegu wedi dechrau ysmegu pan yn blant. Felly, cefnogaf 100 y cant eich sylwadau ar fynd ymlaen â'r strategaeth ar wahardd arwyddion mewn siopau bach, gan mai'r arwyddion hynny sy'n denu plant oherwydd eu lliwiau lliwgar. Nid yw plant mewn sefyllfa i ddewis rhwng gwahanol fathau o ysmegu. Maent yn dewis ysmegu gan ei fod yn ymddangos yn lliwgar. Dyna'r math o dystiolaeth sy'n dod o wledydd eraill, lle mae gwaharddiad o'r fath

Rwyf hefyd yn poeni y gallem weld llawer o fusnesau bach ar eu colled o ganlyniad i gael gwaharddiad ar arddangos tybaco. Mae ysmegu tybaco yn weithgaredd hamdden cyfreithlon i nifer o bobl. A wnewch chi, fel Gweinidog, ystyried edrych ar ddewisiadau eraill yn lle'r gwaharddiad penodol hwn—gwn eich bod yn ymgynghori yn ei gylch—i weld a oes ffyrdd eraill i ni fynd ati'n fwy cynhyrchiol i leihau nifer y bobl ifanc yn eu harddegau yng Nghymru sy'n ysmegu yn hytrach na gweithredu gwaharddiad a all niweidio busnesau ac efallai na fydd yn cael yr effaith a ddymunir sef lleihau ysmegu ymhlith pobl ifanc?

**Edwina Hart:** Rydych yn gywir ein bod wedi bod yn ymgynghori ar y rheoliadau hyn ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi a'u hystyried ar hyn o bryd cyn cyflwyno rhagor o reoliadau. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn dweud wrthyf, ers i Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002 wahardd hysbysu tybaco yn y DU, mae'r diwydiant wedi bod yn canolbwyntio mwy ar arddangosfeydd mewn siopau fel ffordd o annog pobl i brynu tybaco. Mae fy swyddogion yn dweud wrthyf fod rhywfaint o dystiolaeth glir sy'n dangos bod arddangosfeydd yn y man gwerthu yn hyrwyddo ysmegu ymhlith pobl ifanc. Ar ben hynny, mae problem gyda busnesau bach fel yr oeddech wedi'i ddweud. Pan fyddwn yn ystyried yr ymatebion i hyn a'r rheoliadau, byddaf yn sicr yn ystyried y pwyntiau rydych wedi'u gwneud heddiw.

**David Lloyd:** On what is basically the same point, you will know, Minister, that the average age at which people start smoking in Wales today is 11. You will also be aware that 98.9 per cent of smokers started smoking as children. Therefore, I support 100 per cent your comments on driving forward the strategy on banning signs in small shops, as it is those signs that attract children with their bright colours. Children are not in a position to choose between different types of smoking. They choose to smoke because it appears to be colourful. That is the kind of evidence coming from other countries, where such a ban is already in place.



ar waith eisoes.

Cefnogaf hefyd yr hyn a ddywedodd Val Lloyd ynglŷn â'r ymgyrch a lansiwyd gan ASH echdoe ar wahardd ysmegu mewn meysydd chwarae i blant. Ar ddiwedd y dydd, gan mai oedran dechrau ysmegu yng Nghymru yw 11 a chyda tystiolaeth yn awgrymu bod plant mor ifanc â 7 mlwydd oed yn dechrau ysmegu, mae'n rhaid inni fynd i'r afael â'r holl sefyllfa hon sy'n tueddu i greu'r argraff bod ysmegu'n rhywbeth normal i'w wneud mewn meysydd chwarae—nid yw hynny'n wir ac nid ydym am ddylanwadu ar blant i ddechrau meddwl ei fod yn rhywbeth normal i oedolion ei wneud.

**Edwina Hart:** I concur with Dr Lloyd's points. This strategy on smoking has been successful. In the long term, we will see the benefits in society of taking this approach.

**The Presiding Officer:** Thank you for taking questions, Minister.

I also support what Val Lloyd said about the campaign launched on Monday by ASH on banning smoking in children's playgrounds. At the end of the day, given that children start smoking at the age of 11 in Wales and with evidence suggesting that children as young as 7 start smoking, we must tackle this situation that tends to create the impression that smoking is something normal to do in playgrounds—that is not true and we do not want to influence children to start thinking that it is something normal for adults to do.

**Edwina Hart:** Rwyf yn cytuno â phwyntiau Dr Lloyd. Mae'r strategaeth hon ar ysmegu wedi llwyddo. Yn y tymor hir, byddwn yn gweld y manteision dilyn y dull hwn mewn cymdeithas.

**Y Llywydd:** Diolch am gymryd cwestiynau, Weinidog.

## **Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

### **Questions to the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport**

#### **Llwybrau Trafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru**

**1. Mick Bates:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwybrau trafndiaeth yng Nghanolbarth Cymru. OAQ(3)1613(ECT)*

**The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones):** My priorities for improving transport routes in mid Wales are set out in the national transport plan. Regional transport priorities are set out in TraCC's regional transport plan.

**Mick Bates:** Thank you for that statement of direction. I am hoping to find some direction for my constituents through my question, because we have had lengthy correspondence about two major transport issues, namely

#### **Transport Routes in Mid Wales**

**1. Mick Bates:** *Will the Minister make a statement on transport routes in Mid Wales. OAQ(3)1613(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol yn cynnwys fy mlaenoriaethau ar gyfer gwella llwybrau trafndiaeth yng nghanolbarth Cymru. Mae cynllun trafndiaeth rhanbarthol TraCC yn cynnwys blaenoriaethau trafndiaeth rhanbarthol.

**Mick Bates:** Diolch ichi am y datganiad hwnnw sy'n nodi eich cyfeiriad. Rwyf yn gobeithio dod o hyd i rywfaint o gyfeiriad ar gyfer fy etholwyr drwy fy nghwestiwn, oherwydd rydym wedi cael llawer o

Newtown bypass and the Dyfi bridge. You are aware of all the arguments about the Newtown bypass. Will you indicate when you will make an announcement on this much-needed scheme to alleviate the misery that is caused? I raised this yesterday in my question to the First Minister.

Would you also be able to indicate what improvements you might be able to make in Newtown itself, such as extra filter lanes or a roundabout? Even if the bypass is announced, there will still be a lapse of some years before transport is able to go around Newtown rather than chance its arm with the misery that prevails at the moment. Similarly in Machynlleth, the Dyfi bridge, an ancient monument, is being destroyed by the continuous heavy traffic that goes across it. My constituents feel that you are not concerned about our issues. Would you please dispel that perception by telling us when you will make your announcement on the Newtown bypass and by giving us an indication of what you propose to do about the Dyfi bridge?

**The Deputy First Minister:** I give you an absolute assurance, Mick, that this is an all-Wales Government and that the problems of Newtown and the Dyfi bridge are therefore as important to me as any other scheme. Perhaps you would like to take that message back to your constituents.

You have quite rightly pointed out the current difficulties in relation to the road through Newtown. You will know that we are consulting on a wide range of transport options to address the problems associated with the A483 and the A489 through Newtown. All the responses are being considered carefully, and I hope that I can make an announcement shortly.

With regard to Afon Dyfi, I am sure that you will be pleased to know that the works to the bridge have now been completed and the bridge has reopened. You will also be aware that the Afon Dyfi is a special area of conservation and that any improvements must therefore be in full consultation with Cadw, the Countryside Council for Wales, and the Environment Agency. The bridge is

ohebiaeth am ddau fater trafnidiaeth mawr, sef ffordd osgoi'r Drenwydd a phont ar Ddyfi. Byddwch yn gwybod am yr holl ddadleuon am ffordd osgoi'r Drenwydd. A wnewch nodi pryd y byddwch yn gwneud cyhoeddiad ar y cynllun mawr ei angen hwn i liniaru'r trallod a achosir? Codais hyn ddoe yn fy nghwestiwn i'r Prif Weinidog.

A fyddech hefyd yn gallu nodi pa welliannau y gallech chi eu gwneud yn y Drenwydd ei hun, fel lonydd drylifo ychwanegol neu gylchfan? Hyd yn oed petai'r ffordd osgoi yn cael ei chyhoeddi, bydd rhai blynyddoedd eto cyn i drafnidiaeth allu mynd o amgylch y Drenwydd yn hytrach na mentro drwy'r diflastod sy'n bodoli ar hyn o bryd. Yn yr un modd ym Machynlleth, mae pont ar Ddyfi, heneb, yn cael ei dinistrio gan y traffig trwm sy'n mynd drosti'n gyson. Mae fy etholwyr yn teimlo nad ydych yn poeni am ein materion. A fyddech cystal â chwalu'r canfyddiad hwnnw drwy ddweud wrthym pryd y byddwch yn gwneud eich cyhoeddiad ynghylch ffordd osgoi'r Drenwydd a thrwy roi syniad i ni o'r hyn rydych yn bwriadu ei wneud am bont ar Ddyfi?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gallaf eich sicrhau'n llwyr, Mick, fod hon yn Llywodraeth Cymru-gyfan a bod y problemau yn y Drenwydd a phont ar Ddyfi felly'r un mor bwysig i mi ag unrhyw gynllun arall. Efallai hoffech chi fynd â'r neges honno'n ôl at eich etholwyr.

Rydych yn ddigon teg wedi tynnu sylw at yr anawsterau gyda'r ffordd drwy'r Drenwydd ar hyn o bryd. Byddwch yn gwybod ein bod yn ymgynghori ar ystod eang o opsiynau trafnidiaeth i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â'r A483 a'r A489 drwy'r Drenwydd. Mae'r holl ymatebion yn cael eu hystyried yn ofalus, a gobeithio gallaf wneud cyhoeddiad cyn bo hir.

Gyda golwg ar Afon Dyfi, rwyf yn siŵr byddwch yn falch o wybod bod y gwaith ar y bont bellach wedi'i gwblhau ac mae'r bont wedi ailagor. Byddwch hefyd yn gwybod bod Afon Dyfi yn ardal gadwraeth arbennig a bod rhaid i unrhyw welliannau felly gael eu gwneud drwy ymgynghori'n llawn â Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r bont hefyd yn heneb

also a scheduled ancient monument and a grade II listed structure, and Cadw therefore requires that it be restored to its original condition. However, we are looking at a range of options for an improved crossing of the Afon Dyfi, including considering strengthening and widening the existing structure as well as providing a new one.

**Nick Bourne:** First of all, I welcome what the Deputy First Minister has said about the Afon Dyfi and the Dyfi bridge, as that is certainly an issue of great importance. I would, however, bring him back to the position on the Newtown bypass. Last year, he promised an announcement by February 2010 on the preferred route. Last term, he said he would make an announcement by the end of the summer. Can he be more specific about when this announcement will be made, because if the Welsh Assembly Government gives out these dates and they are not honoured, people get cynical about when the announcement will be made? As he knows, the traffic position in Newtown causes misery, so if we can have a date for when he will make the announcement, it really would be most welcome.

**The Deputy First Minister:** I do hope that it will not be too long, Nick, before I am in a position to make an announcement. I think that you will recognise that a scheme such as this needs careful consideration, and I need to analyse all the responses. I am sure that you and Mick will be aware that we have included the Newtown improvements in phase 2 of our trunk road forward programme, which should be ready to start between April 2011 and April 2014. So, it is in the programme for that period. We have made it clear that it is part of our programme for that period, and we therefore want to ensure that the announcement about the preferred route still allows us to comply with the programme as we have set it out.

### Ffordd Osgoi Gartholwg

**2. Chris Franks:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am agor Ffordd Osgoi Gartholwg. OAQ(3)1610(ECT)*

gofrestredig ac yn strwythur rhestredig gradd II, ac felly mae Cadw yn mynnu ei bod yn cael ei hadfer i'w chyflwr gwreiddiol. Fodd bynnag, rydym yn edrych ar ystod o opsiynau ar gyfer croesi Afon Dyfi yn well, gan gynnwys ystyried cryfhau ac ehangu'r strwythur presennol yn ogystal â darparu un newydd.

**Nick Bourne:** Yn gyntaf oll, rwyf yn croesawu'r hyn y mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi'i ddweud am Afon Dyfi a phont ar Ddyfi, gan fod hwn yn sicr yn fater pwysig dros ben. Byddwn, fodd bynnag, yn dod ag ef yn ôl i'r sefyllfa ynghylch ffordd osgoi'r Drenwydd. Y llynedd, addawodd gyhoeddi'r llwybr a ffeirir erbyn mis Chwefror 2010. Tymor diwethaf, dywedodd y byddai'n gwneud cyhoeddiad erbyn diwedd yr haf. A all fod yn fwy penodol ynghylch pryd y bydd y cyhoeddiad hwn yn cael ei wneud, oherwydd os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi'r dyddiadau hyn ac wedyn yn peidio â glynu wrthynt, bydd pobl yn dechrau amau pryd y bydd y cyhoeddiad yn cael ei wneud? Fel y gŵyr, mae'r sefyllfa draffig yn y Drenwydd yn achosi diflastod, felly os gallwn gael dyddiad ar gyfer pan fydd yn gwneud y cyhoeddiad, byddai croeso cynnes i hynny.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rwyf yn gobeithio na fydd yn rhy hir, Nick, cyn i mi fod mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad. Rwyf yn meddwl byddwch yn cydnabod bod cynllun o'r fath yn galw am ystyriaeth ofalus, ac mae angen i mi ddadansoddi'r holl ymatebion. Rwyf yn siŵr byddwch chi a Mick yn gwybod ein bod wedi cynnwys y gwelliannau i'r Drenwydd yng nghan 2 ein blaenraglen cefnffyrdd, a ddylai fod yn barod i ddechrau rhwng mis Ebrill 2011 a mis Ebrill 2014. Felly, mae wedi'i gynnwys yn y rhaglen ar gyfer y cyfnod hwnnw. Rydym wedi egluro ei fod yn rhan o'n rhaglen ar gyfer y cyfnod hwnnw, ac felly rydym am sicrhau bod y cyhoeddiad am y llwybr a ffeirir yn dal i'n galluogi i gydymffurfio â'r rhaglen fel rydym wedi ei gosod allan.

### Church Village Bypass

**2. Chris Franks:** *Will the Minister make a statement on the opening of the Church Village Bypass. OAQ(3)1610(ECT)*

**The Deputy First Minister:** I was delighted that the Church Village bypass was opened recently to traffic. The scheme was funded by the Welsh Assembly Government through a transport grant to Rhondda Cynon Taf County Borough Council. The new road will provide significant economic, environmental and social benefits to the area.

**Chris Franks:** Residents are indeed grateful that, after years of delay, you took the momentous decision to authorise the funding of this bypass. The road has already eased the gridlock experienced daily in communities such as Tonteg and Church Village. It also brings to an end the 30-year campaign by the public and the *Pontypridd and Llantrisant Observer*. Deputy First Minister, do you agree that campaigners should be congratulated on their efforts over the years to keep this issue on the agenda, and do you agree that previous administrations failed to come up with the funding for this bypass? I was, therefore, very pleased that you were able to visit the construction site last year with me to see the progress. Minister, is that not yet another example of the good work of Plaid delivering in Government?

2.20 p.m.

**The Deputy First Minister:** What I was very pleased about, Chris, was that when the application came in from the local authority, we were able to supply support through the transport grant bid for it. Also, it is important for us to recognise that, as well as the advantages that you highlighted for the economy and the environment of the area, during the construction of the road 4,000 people were employed and it was estimated to have brought £27 million to the local economy. Very importantly for this particular project, included in the workforce were 73 previously economically inactive people, recruited locally, who received skills training up to the minimum standard of NVQ level 2. So social causes such as that, alongside the massive economic, social and environmental benefits, show that the Government and local authority working together can deliver a

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Roeddwn wrth fy modd bod ffordd osgoi Gartholwg wedi cael ei hagor i draffig yn ddiweddar. Cafodd y cynllun ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy grant trafndiaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Bydd y ffordd newydd yn dod â manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol i'r ardal.

**Chris Franks:** Mae'r trigolion yn ddiolchgar iawn, ar ôl blynyddoedd o oedi, eich bod wedi cymryd y penderfyniad pwysig i awdurdodi cyllido'r ffordd osgoi hon. Mae'r ffordd eisoes wedi lleddfu'r tagfeydd a geir bob dydd mewn cymunedau fel Ton-teg a Gartholwg. Mae hefyd yn dynodi diwedd ymgyrch 30 mlynedd gan y cyhoedd a'r *Pontypridd and Llantrisant Observer*. Ddirprwy Brif Weinidog, a ydych yn cytuno y dylid llongyfarch ymgyrchwyr am eu hymdrechion dros y blynyddoedd i gadw'r mater hwn ar yr agenda, ac a ydych yn cytuno bod gweinyddiaethau blaenorol wedi methu â dod o hyd i'r cyllid ar gyfer y ffordd osgoi hon? Roeddwn, felly, yn falch iawn eich bod yn gallu ymweld â'r safle adeiladu gyda mi'r llynedd i weld y cynnydd. Weinidog, onid yw hwn yn enghraifft arall o waith da Plaid Cymru yn cyflenwi mewn Llywodraeth?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Pan ddaeth y cais gan yr awdurdod lleol, roeddwn yn falch iawn, Chris, ein bod yn gallu darparu cefnogaeth drwy'r cynnig grant trafndiaeth ar ei gyfer. Hefyd, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod, yn ogystal â'r manteision roeddech wedi tynnu sylw atynt ar gyfer economi ac amgylchedd yr ardal, yn ystod y gwaith o adeiladu'r ffordd cyflogwyd 4,000 o bobl ac amcangyfrifwyd bod hyn wedi dod â £27 miliwn i'r economi leol. Yn bwysig iawn ar gyfer y prosiect penodol hwn, yn rhan o'r gweithlu roedd 73 o bobl a oedd yn arfer bod yn economaidd anweithgar, a gafodd eu recriwtio'n lleol, a dderbyniodd hyfforddiant sgiliau hyd at y safon ofynnol NVQ lefel 2. Felly mae achosion cymdeithasol felly, ochr yn ochr â'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol enfawr, yn dangos bod cydweithrediad rhwng y

scheme that also provides much-needed jobs in an area where there is still a high level of economically inactive people.

**Andrew R.T. Davies:** As someone who has travelled that road—not the new road but the old one—for many years now, I believe that this will be great for the economic activity of the area. However, I have been approached by several land agents for the area regarding compensation claims for land taken to build the new road. Will the Minister give an assurance today that the Welsh Assembly Government and its contractors take their obligations seriously in discharging the claims, and also in resolving any disputes, so that people can have adequate compensation for land that was taken and that, where necessary, those disputes are investigated fully in a timely manner?

**The Deputy First Minister:** I will ensure that the local authority and the contractors are aware of your views.

### Cysylltiadau Rheilffordd

**3 Eleanor Burnham:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gysylltiadau rheilffordd rhwng Gogledd a De Cymru. OAQ(3)1585(ECT)*

**The Deputy First Minister:** I am continuing to fund the Gerallt Gymro express train service, as well as a programme of continued improvements between north and south Wales.

**Eleanor Burnham:** I know that your heart is in the right place and that you wish to make everything better for us all travelling patiently from north to south, but in view of Plaid Cymru's recent conference agreement with me that the air link subsidy would be better directed into the north-south rail links, to cut the journey time and to make it a more bearable and comfortable journey—never mind Gerallt Gymro, because it does not come through Wrexham—can you give us some hope before winter descends upon us and it gets dark and dreary on that dreadful train? Some of the trains are okay, but some

Llywodraeth a'r awdurdod lleol yn gallu cyflenwi cynllun sydd hefyd yn darparu llawer o swyddi mawr eu hangen mewn ardal lle mae lefel uchel o bobl economaidd anweithgar yn dal i fodoli.

**Andrew R.T. Davies:** Fel rhywun sydd wedi teithio'r ffordd honno—nid y ffordd newydd ond yr hen un—am flynyddoedd lawer bellach, rwyf yn credu y bydd hyn yn wych ar gyfer gweithgarwch economaidd yr ardal. Fodd bynnag, mae nifer o asiantau tir ar gyfer yr ardal wedi cysylltu â mi ynghylch hawliadau am dir a gymerwyd i adeiladu'r ffordd newydd. A wnaiff y Gweinidog ein sicrhau heddiw bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i chontractwyr yn cymryd eu dyletswyddau o ddifrif wrth gyflawni'r hawliadau, a hefyd wrth ddatrys unrhyw anghydfodau, er mwyn i bobl gael digon o iawndal am dir a gymerwyd a, lle bo angen, yr ymchwiliwr yn llawn i'r anghydfodau hynny ac mewn modd amserol?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Byddaf yn sicrhau bod yr awdurdod lleol a'r contractwyr yn cael gwybod am eich safbwyntiau.

### Rail Links

**3 Eleanor Burnham:** *Will the Minister make a statement on rail links between North and South Wales. OAQ(3)1585(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rwyf yn dal i ariannu'r gwasanaeth trên cyflym Gerallt Gymro, yn ogystal â rhaglen o welliannau parhaus rhwng gogledd a de Cymru.

**Eleanor Burnham:** Gwn fod eich calon yn y lle iawn a bod arnoch eisiau gwneud popeth yn well i ni i gyd sy'n teithio'n amyneddgar o'r gogledd i'r de, ond gan ystyried cytundeb cynhadledd diweddar Plaid Cymru gyda mi y byddai cymhorthdal y cyswllt hedfan yn cael ei ddefnyddio'n well mewn cysylltiadau rheilffordd rhwng y gogledd a'r de, i dorri'r amser teithio ac i'w gwneud yn siwrnai fwy cyfforddus ac yn haws ei goddef—heb sôn am Gerallt Gymro, gan nad yw'n dod drwy Wrecsam—a allwch chi roi llygedyn o obaith i ni cyn i'r gaeaf gyrraedd ac iddi fynd yn dywyll ac yn ddiflas ar y trên ofnadwy? Mae

are pretty awful. They are dirty and uncomfortable, the loos are unbearable, and there are other people who agree with me, despite the Llywydd not agreeing with me. On that matter, I am pleased to say that you do not have to travel on this train all the time, because, seriously, on behalf of my north Wales constituents, we really do need an improvement, Minister, please.

**The Deputy First Minister:** Let us stick to the facts this afternoon. The facts are that in 2004 44,500 passengers travelled on the north-south routes. In 2007, 78,195 people travelled on the very routes that you are now denigrating. That shows that in a three-year period, the increase in passengers and passenger satisfaction was 75 per cent. Those are the facts. You would perhaps expect me, Eleanor, to defend the air service, but I will leave that to a Liberal Democrat councillor, who, in a letter to the *Daily Post* stated that, as a Welsh Liberal Democrat county councillor for Anglesey County Council, he was appalled to read in the press executive members of the party condemning Anglesey airport in the manner that they are portraying. Good on you, Selwyn Williams.

**Eleanor Burnham:** May I get up to respond?

**The Deputy First Minister:** No. [Laughter.]

**The Presiding Officer:** Order. As I explained earlier today, this session is a question time. During question time, Members ask questions and Ministers reply. We do not yet have what I referred to yesterday, in discussion on these matters with you, which is a situation in which Members are able to respond later in the day to any questions or replies from the Minister that those Members may not regard as having been sufficient. The Minister is in charge of his own answers; whether I agree with them or not is a not a matter for you or me to discuss.

**Joyce Watson:** When talking about using

rhai o'r trenau'n iawn, ond mae rhai yn wirioneddol ofnadwy. Maen nhw'n fudr ac yn anghyfforddus, mae'r toiledau'n annioddefol, ac mae pobl eraill sy'n cytuno â mi, er gwaethaf y Llywydd yn peidio â chytuno â mi. Ar y mater hwnnw, rwyf yn falch o ddweud nad oes yn rhaid i chi deithio ar y trên hwn drwy'r amser, oherwydd, o ddifrif, ar ran fy etholwyr yng ngogledd Cymru, mae gwir angen gwella, Weinidog, os gwelwch yn dda.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gadewch i ni gadw at y ffeithiau'r prynhawn yma. Y gwir amdani yw bod 44,500 o deithwyr wedi teithio ar y llwybrau o'r gogledd i'r de yn ystod 2004. Yn 2007, roedd 78,195 o bobl wedi teithio ar yr union lwybrau rydych chi nawr yn eu bychanu. Mae hynny'n dangos mewn cyfnod o dair blynedd, bod y cynnydd mewn teithwyr ac mewn boddhad teithwyr yn 75 y cant. Dyna'r ffeithiau. Efallai, Eleanor, byddech yn disgwyl i mi amddiffyn y gwasanaeth hedfan, ond gadawaf hynny i un o gynghorwyr y Democratiaid Rhyddfrydol, sydd yn datgan, mewn llythyr at y *Daily Post*, ac yntau'n gynghorydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn, ei fod wedi'i ddychryn ar ôl darllen yn y wasg bod aelodau gweithredol y blaid yn condemnio maes awyr Ynys Môn yn y ffordd maen nhw'n portreadu. Da iawn chi, Selwyn Williams.

**Eleanor Burnham:** A gaf godi i ymateb?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Na chewch [Chwerthin.]

**Y Llywydd:** Trefn. Fel yr eglurais yn gynharach heddiw, amser cwestiynau yw'r sesiwn hwn. Yn ystod y cyfnod cwestiynau, bydd Aelodau'n gofyn cwestiynau a bydd Gweinidogion yn ateb. Nid oes gennym eto'r hyn y cyfeiriais ato ddoe, mewn trafodaeth ar y materion hyn gyda chi, sef sefyllfa lle mae Aelodau'n gallu ymateb yn ddiweddarach yn y dydd i unrhyw gwestiynau neu atebion gan y Gweinidog nad yw'r Aelodau hynny'n credu a oedd yn ddigonol. Y Gweinidog sy'n gyfrifol am ei atebion ei hun; p'un a wyf yn cytuno â hwy ai peidio ac nid yw'n fater trafod i chi na minnau.

**Joyce Watson:** Wrth siarad am ddefnyddio

trains in Wales, it is important that we take the whole package into account, which includes the trains themselves, the service that is received and the condition of stations. Negative connotations resulting from unhygienic and poorly kept stations have a knock-on effect on how the train service more broadly is perceived. Children at Ysgol Ardudwy, along with members of Harlech Women's Institute, spent considerable time and effort recently making Harlech station a pleasant place to be, only for their work to be tarnished by people who burned a motorbike at that station. Deputy First Minister, will you join me in supporting the hard work of the young people, their tutors, the volunteers of Harlech WI and the community in making their station as attractive as possible?

**The Deputy First Minister:** Thank you for that question. I am pleased to applaud the work of local communities in improving their stations, and particularly their environment. Gareth Jones and I, together with the Llywydd, travelled on the Conwy valley line recently, and we saw the local community working very hard there, too, not only to keep the stations tidy but very attractive. The work in Harlech is to be applauded, and is part of the Arriva Trains Wales adopt-a-station scheme, whereby it works with local communities to ensure that unstaffed local stations are clean and pleasant; I want to encourage more communities to take part, and I would like to see it happening in more stations across Wales.

**Darren Millar:** I want to refer not to the rail links between north and south but between east and west in north Wales. As you know, for some time now, I have been calling for improvements to rail services between north-west England and the cities there and the north Wales line. It is very important that we have continuing economic links between Liverpool and Manchester for the economy of north Wales, and a direct rail link to Liverpool in particular would be of great benefit. Can you give an update on any work that your officials might be doing in discussions with their counterparts in England to ensure that this link is established in future?

trenau yng Nghymru, mae'n bwysig ystyried y pecyn cyfan, sy'n cynnwys y trenau eu hunain, y gwasanaeth sy'n cael ei dderbyn a chyflwr gorsafoedd. Mae goblygiadau negyddol sy'n deillio o orsafoedd budur mewn cyflwr gwael yn effeithio ar sut y mae'r gwasanaeth trên yn fwy cyffredinol yn cael ei weld. Roedd plant o Ysgol Ardudwy, ynghyd ag aelodau o Sefydliad y Merched Harlech, wedi treulio cryn amser ac ymdrech yn ddiweddar yn gwneud gorsaf Harlech yn lle dymunol, ond difrodwyd eu gwaith gan bobl a losgodd feic modur yn yr orsaf honno. Ddirprwy Brif Weinidog, a wnewch ymuno â mi i gefnogi gwaith caled y bobl ifanc, eu tiwtoriaid, gwirfoddolwyr o Sefydliad y Merched Harlech a'r gymuned wrth wneud eu gorsaf mor ddeniadol â phosibl?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Diolch am y cwestiwn. Mae'n bleser gennyf gymeradwyo gwaith cymunedau lleol yn gwella eu gorsafoedd, ac yn enwedig eu hamgylchedd. Bu Gareth Jones a minnau, ynghyd â'r Llywydd, yn teithio ar reilffordd Dyffryn Conwy yn ddiweddar, a gwelsom y gymuned leol yn gweithio'n galed iawn yno hefyd, nid yn unig i gadw'r gorsafoedd yn ddaclus ond yn ddeniadol iawn. Rhaid canmol y gwaith yn Harlech, ac mae'n rhan o gynllun mabwysiadu-gorsaf Trenau Arriva Cymru, lle mae'n gweithio gyda chymunedau lleol i sicrhau bod gorsafoedd lleol heb staff yn lân ac yn ddymunol; mae arnaf eisiau annog rhagor o gymunedau i gymryd rhan, a hoffwn ei weld yn digwydd mewn rhagor o orsafoedd ledled Cymru.

**Darren Millar:** Nid wyf am gyfeirio at y cysylltiadau rheilffordd rhwng y gogledd a'r de, ond y cysylltiadau rheilffordd rhwng y dwyrain a'r gorllewin yng ngogledd Cymru. Fel y gwyddoch, ers peth amser bellach, rwyf wedi bod yn galw am welliannau i wasanaethau rheilffyrdd rhwng gogledd-orllewin Lloegr a'r dinasoedd yno a rheilffordd gogledd Cymru. Mae'n bwysig iawn bod gennym gysylltiadau economaidd parhaus rhwng Lerpwl a Manceinion i economi gogledd Cymru, a byddai cysylltiad rheilffordd uniongyrchol i Lerpwl yn benodol o fudd mawr. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw waith y gallai eich swyddogion fod yn ei wneud mewn trafodaethau â'u cymheiriaid yn Lloegr i

sicrhau bod y cyswllt hwn yn cael ei sefydlu yn y dyfodol?

**The Deputy First Minister:** I think that we all share the aspiration of having direct links, especially with Liverpool and Manchester airports, which would benefit people in north Wales in particular. However, as I think that you are aware, if we are to include services that are not part of the Arriva Trains Wales franchise currently, there has to be a contribution from the Welsh Assembly Government. In these difficult times, we cannot always deliver on those aspirations, but I would, personally, like to develop plans to include links to those key centres for the people of north Wales.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rwyf yn meddwl ein bod i gyd yn rhannu'r dyhead o gael cysylltiadau uniongyrchol, yn enwedig gyda meysydd awyr Lerpwl a Manceinion, a fyddai o fudd i bobl yng ngogledd Cymru'n benodol. Fodd bynnag, fel rwyf yn meddwl eich bod yn gwybod, os ydym am gynnwys gwasanaethau nad ydynt yn rhan o fasnachfaint Trenau Arriva Cymru ar hyn o bryd, mae'n rhaid cael cyfraniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn y cyfnod anodd hwn, ni allwn bob amser gyflawni'r dyheadau hynny, ond byddwn, yn bersonol, yn hoffi datblygu cynlluniau i gynnwys cysylltiadau â'r canolfannau allweddol hynny ar gyfer pobl gogledd Cymru.

#### Busnesau Lleol

**4. Joyce Watson:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i fusnesau lleol yng Nghymru. OAQ(3)1589(ECT)*

**The Deputy First Minister:** We are taking a new direction through the economic renewal programme by moving towards enabling economic growth through infrastructure investment and the smarter use of our policy levers. Creating the right environment for businesses to thrive is at the heart of the Welsh Assembly Government's new approach.

**Joyce Watson:** Thank you for your answer, Deputy First Minister. We all recognise—I know that you do—that the beating heart of any local economy is the local businesses that are found on the high street; these are able to keep money in the community and can encourage local prosperity. During a recent visit to Welshpool, I took the opportunity to speak to Rikki Lloyd at his award-winning butchers on the high street; it is a family-owned butcher that has been a fixture of the community and has served residents for many years. Do you agree that we should do all that we can to support local businesses that source local produce and employ local people, which, in turn, contributes to local prosperity?

**The Deputy First Minister:** I very much

#### Local Businesses

**4. Joyce Watson:** *Will the Minister make a statement on support for local businesses in Wales. OAQ(3)1589(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rydym yn symud mewn cyfeiriad newydd drwy raglen adnewyddu'r economi drwy symud at alluogi twf economaidd drwy fuddsoddi mewn seilwaith a defnyddio ein hysgogiadau polisi yn ddoethach. Mae creu'r amgylchedd iawn i fusnesau ffynnu wrth wraidd dull gweithredu newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Joyce Watson:** Diolch i chi am eich ateb Ddirprwy Brif Weinidog. Rydym i gyd yn cydnabod—gwn eich bod chi—mai curiad calon unrhyw economi leol yw'r busnesau lleol ar y stryd fawr; mae'r rhain yn gallu cadw arian yn y gymuned a gallant hybu ffyniant lleol. Yn ystod ymweliad diweddar â'r Trallwng, cefais gyfle i siarad â Rikki Lloyd yn ei siop cigydd arobryn ar y stryd fawr; mae'n siop cigydd teuluol sydd wedi bod yn rhan o'r gymuned ac sydd wedi gwasanaethu'r trigolion am flynyddoedd lawer. A ydych chi'n cytuno y dylem wneud popeth y gallwn ei wneud i gefnogi busnesau lleol sy'n prynu cynnyrch lleol ac yn cyflogi pobl leol, sydd, yn ei dro, yn cyfrannu at ffyniant lleol?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rwyf yn cytuno



agree with the sentiments that you have expressed, because there are, very often, a number of old-established family businesses that remain on the high street and that deliver excellent services; these include the butchers that you referred to, and a number of bakers and others all across Wales who deliver these services.

2.30 p.m.

We hope that a number of those businesses will benefit from the rate relief scheme that is being introduced from 1 October this year, at least for a 12-month period, providing significant benefit in maintaining the viability of those businesses, particularly at this difficult time. I would like to make the point that we are continuing our support for food businesses, because they are part of an important food chain. Therefore, we are hoping to develop the Welsh food supply chain through market development, strengthening a positive food culture and promoting sustainability and efficiency as key commitments. I am sure that we were all pleased with the success of the new food hall at the Royal Welsh Show this year, which showed that local people take pride in local produce and are prepared to put their hands in their pockets to ensure that these businesses survive.

**David Melding:** Deputy First Minister, you have referred to the economic renewal programme, and I think that you won universal support for the rhetoric behind it, which was to emphasise the need to increase Wales's indigenous enterprise. However, I remind you that the big decisions that you took were to focus on six key areas of development in the Welsh economy and to shift away from grants to loans, which is not necessarily something that I object to. However, until you spell out how that will affect small and medium-sized enterprises and how access to funds that they formerly had will be affected, we are left in the situation that the main policies contained in the economic renewal programme are clearly designed for large producers, some of which are Welsh, but not many. Now, we really need to have the practicalities of the new strategy spelt out for smaller businesses. When are you going to do that?

â'ch sylwadau, oherwydd, yn aml iawn, mae nifer o fusnesau teuluol sydd wedi hen ennill eu plwyf sy'n aros ar y stryd fawr ac sy'n darparu gwasanaethau ardderchog; mae'r rhain yn cynnwys y siop cigydd roeddech yn cyfeirio ato, a sawl becws a nifer o rai eraill ar draws Cymru sy'n cyflenwi'r gwasanaethau hyn.

Rydym yn gobeithio y bydd nifer o'r busnesau hynny'n elwa o'r cynllun rhyddhad ardrethi sy'n cael ei gyflwyno o 1 Hydref eleni ymlaen, o leiaf am gyfnod o 12 mis, gan ddarparu budd sylweddol o ran cynnal hyfywedd y busnesau hynny, yn enwedig yn y cyfnod anodd hwn. Hoffwn wneud y pwynt ein bod yn parhau i gefnogi busnesau bwyd, oherwydd eu bod yn rhan o gadwyn fwyd bwysig. Felly, rydym yn gobeithio datblygu cadwyn cyflenwi bwyd Cymru drwy ddatblygu'r farchnad, cryfhau diwylliant bwyd cadarnhaol a hybu cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd fel ymrwymadau allweddol. Rwyf yn siŵr ein bod i gyd yn falch o lwyddiant y neuadd fwyd newydd yn Sioe Frenhinol Cymru eleni, a oedd yn dangos bod pobl leol yn ymfalchïo mewn cynnyrch lleol a'u bod yn fodlon rhoi eu dwylo yn eu pocedi i sicrhau bod y busnesau hyn yn goroesi.

**David Melding:** Ddirprwy Brif Weinidog, rydych wedi cyfeirio at raglen adnewyddu'r economi, ac rwyf yn credu eich bod wedi ennill cefnogaeth gyffredinol am y rhethreg tu ôl iddi, sef pwysleisio'r angen i gynyddu mentergarwch gynhenid Cymru. Fodd bynnag, hoffwn eich atgoffa mai'r penderfyniadau mawr a wnaethoch oedd canolbwyntio ar chwe maes datblygu allweddol yn economi Cymru a symud i ffwrdd o grantiau ac at fenthyciadau. Nid wyf o reidrwydd yn gwrthwynebu hynny. Fodd bynnag, nes i chi roi gwybod sut y bydd hynny'n effeithio ar fusnesau bach a chanolig eu maint a sut y bydd yn effeithio ar gael gafael ar yr arian roeddent yn arfer ei gael, rydym mewn sefyllfa bod y prif bolisiau sydd yn rhaglen adnewyddu'r economi yn amlwg wedi cael eu cynllunio ar gyfer cynhyrchwyr mawr, mae rhai ohonynt yn Gymreig, ond nid oes llawer. Nawr, mae gwir angen datgelu elfennau ymarferol y strategaeth newydd i

fusnesau llai. Pryd ydych yn mynd i wneud hynny?

**The Deputy First Minister:** In fact, you have given me an opportunity to do that today, because the assurance that I can give all businesses in Wales is that, in the delivery of the programme that I have announced, size does not matter in the sense that we will give support to businesses whatever their size. So, there is no discrimination against small businesses and, indeed, the benefits will be felt by all businesses. The fundamental point I would like to make is that, through our infrastructure programme, all businesses in Wales will benefit. The truth is that, under the old grant regime, the only companies that benefited were those that applied for the grants. Under our infrastructure programme, with a commitment to enabling next-generation broadband for all businesses in Wales by 2016, all businesses in Wales will benefit whatever their size.

Let me also make it clear that, under the sectoral approach, we are going through a reform in the department so that support for those six key sectors will be in place. We hope that the structures will be agreed by the end of this month and, very soon, they will be engaging with the sectors to make it clear that the support that we give will be aimed at improving the sustainability of businesses whatever their size.

**David Melding:** Deputy First Minister, I wish to turn your attention to the matter of small businesses and business rate relief. You referred to that briefly and, of course, we welcome any small increase in the current rather ungenerous schemes offered in Wales compared to other parts of the UK. When you were leader of the opposition, you championed a much more generous model. Are you still prepared to take up that battle between now and the election—I realise that that lies in another portfolio, but I am sure that you are discussing these matters with Carl Sargeant—so that this remains for your party a priority that you will be seeking to advance in the next Assembly, under whatever Government forms, particularly if you are part of it? Or, have you suddenly decided, intellectually, that business rate relief is not quite so crucial to small

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** A dweud y gwir, rydych wedi rhoi cyfle i mi wneud hynny heddiw, oherwydd gallaf sicrhau pob busnes yng Nghymru, wrth gyflenwi'r rhaglen rwyf wedi'i chyhoeddi, nad yw maint yn bwysig oherwydd byddwn yn rhoi cymorth i fusnesau beth bynnag yw eu maint. Felly, nid oes dim gwahaniaethu yn erbyn busnesau bach ac, yn wir, bydd pob busnes yn gweld y manteision. Y pwynt sylfaenol yr hoffwn ei wneud yw y bydd pob busnes yng Nghymru yn elwa drwy ein rhaglen seilwaith. Y gwir amdani yw bod yr hen drefn grantiau yn golygu mai dim ond y cwmnïau a oedd yn cyflwyno cais am y grantiau oedd y cwmnïau a oedd yn elwa. O dan ein rhaglen seilwaith, gydag ymrwymiad i alluogi band eang y genhedlaeth nesaf i bob busnes yng Nghymru erbyn 2016, bydd pob busnes yng Nghymru yn elwa beth bynnag yw eu maint.

Gadewch i mi hefyd yn ei gwneud yn glir, o ran y dull sector, rydym wrthi'n diwygio yn yr adran er mwyn i'r cymorth ar gyfer y chwe sector allweddol hynny fod yn ei le. Rydym yn gobeithio y cytunir ar y strwythurau erbyn diwedd y mis hwn a, chyn bo hir, byddant yn ymgysylltu â'r sectorau i egluro y bydd y cymorth byddwn yn ei roi yn cael ei anelu at wella cynaliadwyedd busnesau beth bynnag yw eu maint.

**David Melding:** Ddirprwy Brif Weinidog, rwyf am droi eich sylw at fusnesau bach a rhyddhad ardrethi busnes. Rydych newydd gyfeirio at hynny'n gryno ac, wrth gwrs, rydym yn croesawu unrhyw gynnydd bach yn y cynlluniau presennol, sydd braid yn grintachlyd, a gynigir yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill o'r DU. Pan oeddech yn arweinydd yr wrthblaid, roeddech yn hyrwyddo model llawer mwy hael. A ydych yn dal yn barod i fynd ar drywydd y frwydr honno rhwng nawr a'r etholiad—rwyf yn sylweddoli bod hyn yn perthyn i bortffolio arall, ond rwyf yn siŵr eich bod yn trafod y materion hyn â Carl Sargeant—er mwyn i hyn aros yn flaenoriaeth i'ch plaid y byddwch yn ceisio ei datblygu yn y Cynulliad nesaf, o dan ba Lywodraeth bynnag a fydd yn cael ei ffurfio, yn enwedig os byddwch chi'n rhan ohoni? Neu, a ydych chi wedi penderfynu'n

businesses and the revival of the Welsh economy?

**The Deputy First Minister:** The first point that I would like to make, David, is that the relief that comes in from 1 October is substantial. It is not small or at the margins, but a substantial rate relief that will assist many more businesses in Wales. That scheme will be in place from 1 October right through until 30 September 2011. I think that it is perfectly right for the Government to say that it now wants to see how the scheme operates, to see whether it actually assists with the sustainability of small businesses, and to review it at the end of that period. A great deal depends on the delivery of adequate resources through the comprehensive spending review, which we are all expecting to be announced on 20 October.

**David Lloyd:** Yr wyf am ddilyn yr un math o drywydd, Ddirprwy Brif Weinidog, gan fod canfyddiad y bydd busnesau bach, ryw ffordd, yn dioddef o dan eich cynllun adnewyddu economi newydd. Mae'n gyfle unwaith eto i olrhain yn union y cymorth sydd ar gael oherwydd hoffwn ymateb i'r bobl sydd wedi e-bostio ac sydd o dan y canfyddiad nad oes unrhyw beth yn y rhaglen newydd hon iddynt hwy fel busnesau bach. A allwch, unwaith eto, olrhain yn union y cymorth sydd ar gael i fusnesau bach yng Nghymru?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Cyfeiriais eisoes at isadeiledd a'r ffordd y bydd band eang ar gael i bob busnes yng Nghymru erbyn canol 2016. Yr ydym hefyd yn dymuno ei gwneud yn glir bod Cymru yn lle da i wneud busnes. Bydd pob busnes bach yn gweld elw o'r *levers* newydd a ddefnyddiwn wrth gynllunio ac mewn polisi caffael. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cydweithio â chwmnïau bach ynglŷn â'r sgiliau y mae eu hangen ar gyfer y dyfodol.

Byddwn hefyd yn hybu arloesedd, lle bydd cwmnïau bach sydd â syniadau y maent yn dymuno eu cyflwyno i'r farchnad yn cael help i ddod â'r cynlluniau hynny i'r farchnad, a thargedu cymorth i'r busnesau hyn yn y ffordd y gallant ddatblygu'r busnes sydd yn dilyn o'r buddsoddiad. Caiff busnesau

sydyn, yn ddeallusol, nad yw rhyddhad ardrethi busnes mor hanfodol i fusnesau bach ac adfywiad economi Cymru?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Y pwynt cyntaf yr hoffwn ei wneud, David, yw bod y rhyddhad sy'n dod i mewn o 1 Hydref ymlaen yn sylweddol. Nid yw'n fach nac yn ymylol, ond mae'n rhyddhad ardrethi sylweddol a fydd yn helpu llawer mwy o fusnesau yng Nghymru. Bydd y cynllun hwnnw ar waith o 1 Hydref tan 30 Medi 2011. Rwyf yn meddwl ei bod yn hollol briodol i'r Llywodraeth ddweud bod arni nawr eisiau gweld sut y mae'r cynllun yn gweithio, i weld a yw mewn gwirionedd yn helpu gyda chynaliadwyedd busnesau bach, a'i adolygu ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Mae llawer iawn yn dibynnu ar ddarparu adnoddau digonol drwy'r adolygiad cynhwysfawr o wariant, rydym i gyd yn disgwyl a gyhoeddir ar 20 Hydref.

**David Lloyd:** I will follow the same kind of path, Deputy First Minister, as there is a perception that small businesses, in some way, will suffer under your new economic renewal plan. It is an opportunity once again to outline exactly the help that is available because I would like to respond to people who have e-mailed and who believe that there is nothing in this new programme for them as small businesses. Can you, once again, outline exactly what assistance is available to small businesses in Wales?

**The Deputy First Minister:** I have already referred to the infrastructure and how broadband will be available to all businesses in Wales by mid-2016. We also wish to make it clear that Wales is a great place to do business. Every small business will see the benefit of new levers that we will use in planning and procurement policy. We will ensure that we work with small companies with regard to the skills that are needed for the future.

We will also encourage innovation, where small companies with ideas that they wish to introduce to the market will be helped to bring those plans to the market, and we will target assistance to these businesses in a way that allows them to develop their business following the investment. Small business—

bach—a phob busnes yng Nghymru—becyn cefnogaeth llawer iawn gwell gan y Llywodraeth nag erioed o'r blaen.

**Jenny Randerson:** Techniums were designed to stimulate the start-up and growth of small businesses. However, the figures that I received through a freedom of information request over the summer showed a loss, across Wales, of £5.5 million since 2001 when the first technium was set up. The detailed figures show that some techniums, such as Technium 2 in Swansea, can make a healthy profit. What appraisal have you done of the variable fortunes of techniums across Wales; and are you planning to review the way in which they are run and organised because of the lack of effectiveness of some of them?

**The Deputy First Minister:** I am currently undertaking a review of techniums.

**Jenny Randerson:** It is good to hear that because Swansea University representatives, for example, have contrasted the difference in the financial and commercial effectiveness of the two Swansea techniums. They say that the closeness of their links with higher education is the secret to why one is successful and the other is not. Do you accept, Deputy First Minister, that for techniums and developments of this kind to be successful when they are at the cutting edge of technology and research, links with higher education need to be more explicit and close?

**The Deputy First Minister:** We have to appreciate that the concept behind the technium is that it would provide incubation units for small businesses to develop some of their ideas, which might not be ready for the market but perhaps need to be commercialised and taken to market, and to develop their products. Sometimes, that requires close links with higher education. Often, businesses will benefit from those close links. I am anxious not to lose the concept but to see how we can develop that further into the future. That is why the review of the techniums will try to protect the concept and to see whether there are better ways of delivering the product.

and every business in Wales—will receive a much better support package from the Government than ever before.

**Jenny Randerson:** Cafodd techniums eu dylunio i ysgogi cychwyn a thwf busnesau bach. Fodd bynnag, roedd y ffigurau a gefais drwy gais rhyddid gwybodaeth dros yr haf yn dangos colled, ar draws Cymru, gwerth £5.5 miliwn er 2001 pan sefydlwyd y technium cyntaf. Mae'r ffigurau manwl yn dangos bod rhai techniums, fel Technium 2 yn Abertawe, yn gallu gwneud elw iach. Pa werthusiad ydych chi wedi'i gynnal o sut hwyl mae'r techniums yn ei chael arni ledled Cymru; ac a ydych chi'n bwriadu adolygu'r ffordd maen nhw'n cael eu rhedeg a'u trefnu oherwydd diffyg effeithiolrwydd rhai ohonynt?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rwyf yn adolygu techniums ar hyn o bryd.

**Jenny Randerson:** Mae'n braf clywed hynny oherwydd mae cynrychiolwyr o Brifysgol Abertawe, er enghraifft, wedi gweld gwahaniaeth yn effeithiolrwydd ariannol a masnachol y ddau technium yn Abertawe. Maen nhw'n dweud mai agosatrwydd eu cysylltiadau ag addysg uwch yw'r gyfrinach pam mae un mor llwyddiannus ac nad yw'r llall. A ydych yn derbyn, Ddirprwy Brif Weinidog, er mwyn i techniums a datblygiadau o'r math hwn lwyddo pan fyddant ar flaen y gad o ran technoleg ac ymchwil, bod angen i gysylltiadau ag addysg uwch fod yn fwy amlwg ac yn agosach?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rhaid i ni werthfawrogi mai'r cysyniad tu ôl i'r technium yw y byddai'n rhoi unedau deori i fusnesau bach ddatblygu rhai o'u syniadau, nad ydynt efallai'n barod ar gyfer y farchnad ond bod o bosibl angen eu masnacheiddio a mynd â hwy i'r farchnad, a datblygu eu cynnyrch. Weithiau, mae hynny'n galw am gysylltiadau agos ag addysg uwch. Yn aml, bydd busnesau'n elwa o'r cysylltiadau agos hynny. Rwyf yn awyddus i beidio â cholli'r cysyniad ond gweld sut y gallwn ddatblygu hynny ymhellach i'r dyfodol. Dyna pam fydd yr adolygiad o'r techniums yn ceisio amddiffyn y cysyniad a gweld a oes gwell ffyrdd o gyflenwi'r cynnyrch.

**Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Cefnffyrdd****Capital Programme for Trunk Roads**

**5. Alun Davies:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei raglen gyfalaf ar gyfer cefnffyrdd yng Nghymru. OAQ(3)1595(ECT)*

**5. Alun Davies:** *Will the Minister make a statement on his capital programme for trunk roads in Wales. OAQ(3)1595(ECT)*

**The Deputy First Minister:** This financial year, I am investing over £114 million in improving and maintaining the trunk road network in Wales. In addition, funding from the strategic capital investment fund and the ERDF is available for some eligible schemes.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rwyf yn buddsoddi dros £114 miliwn mewn gwella a chynnal y rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru. Ar ben hynny mae'r cyllid o'r gronfa buddsoddi cyfalaf a'r ERDF ar gael ar gyfer rhai cynlluniau cymwys.

**Alun Davies:** Thank you for that response, Deputy First Minister. I am sure that you will agree that the strategic approach that you take to the trunk road programme is essential to maintain economic growth in all parts of Wales.

**Alun Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw Ddirprwy Brif Weinidog. Rwyf yn siŵr byddwch chi'n cytuno bod y dull gweithredu strategol byddwch chi'n ei ddefnyddio gyda'r rhaglen gefnffyrdd yn hanfodol er mwyn cynnal twf economaidd ym mhob rhan o Gymru.

2.40 p.m.

Given that, do you share my pleasure that the A40 bypass at Robeston Watham is nearing completion? This is an essential part of the jigsaw to ensure that the A40 corridor is available to promote economic growth in Pembrokeshire and elsewhere in west Wales. With that in mind, Minister, I would be grateful if you could confirm when the second phase of improvements will be started to alleviate traffic flows around the village of Llanddewi Velfrey, which is another bottleneck on that road. The improvements that this Government has pioneered on this road and along this corridor ensure that the Pembrokeshire economy is better connected than ever to the Welsh and UK economies.

O gofio hynny, a ydych yn rhannu fy mhleser bod ffordd osgoi'r A40 yn Robeston Wathen yn tynnu tua'r terfyn? Mae hon yn rhan hanfodol o'r jig-so i sicrhau bod coridor yr A40 ar gael i hybu twf economaidd yn sir Benfro ac mewn rhannau eraill o orllewin Cymru. O gofio hynny, Weinidog, byddwn yn ddiolchgar petai modd i chi gadarnhau pryd y bydd ail gam y gwelliannau'n dechrau i liniaru llif traffig o amgylch pentref Llanddewi Felfre, sy'n rhywle lle ceir tagfeydd eraill ar y ffordd honno. Mae'r gwelliannau mae'r Llywodraeth hon wedi'u datblygu ar y ffordd hon ac ar hyd y coridor hwn yn sicrhau bod economi sir Benfro â chysylltiadau gwell nag erioed o'r blaen ag economïau Cymru a'r DU.

**The Deputy First Minister:** I am pleased to confirm that the section of road that you mentioned started its construction in February 2009, and it is expected to be completed in February 2011. That is a typical example of how we can supplement core funding from my department with European funding to deliver a strategic route. I will write to you with the date of the commencement of construction of the second section. We are committed to completing these improvements along the A40, as they

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rwyf yn falch o gadarnhau bod y gwaith adeiladu wedi dechrau ar y rhan honno o'r ffordd roeddech yn sôn amdani ym mis Chwefror 2009, a disgwylir y bydd y gwaith yn dod i ben ym mis Chwefror 2011. Mae honno'n enghraifft nodweddiadol o sut y gallwn ni ategu cyllid craidd o'm hadran gydag arian Ewropeaidd i gyflenwi llwybr strategol. Ysgrifennaf atoch gyda dyddiad dechrau gwaith adeiladu'r ail ran. Rydym wedi ymrwymo i gwblhau'r gwelliannau hyn ar hyd yr A40, gan eu bod

provide important arteries, particularly in rural areas, to enable the economy of the area to be regenerated as well as carrying out substantial improvements to the local environment.

**Paul Davies:** Mae diogelwch ar ein cefnffyrdd yn hollbwysig ac mae'n rhaid inni ddiogelu cerddwyr yn ogystal â gyrwyr. Fel mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn ymwybodol, yr wyf wedi bod yn ymgychu am droedffordd i gael ei hadeiladu ar yr A487 i mewn i Abergwaun. Yn anffodus, nid oes arian ar gael ar hyn o bryd i ariannu'r prosiect hwn. Yr wyf yn gwerthfawrogi bod nifer o brosiectau ar draws Cymru sydd eisiau cael blaenoriaeth, ac yr wyf yn derbyn y bydd y cynlluniau mwyaf yn cael blaenoriaeth yn y dyfodol agos oherwydd y setliad ariannol tyn. Fodd bynnag, a all y Dirprwy Brif Weinidog ddweud wrthym sut y bydd ef a'i adran yn sicrhau fod cynlluniau llai o'r fath y soniais amdanynt yn cael cyfle i gael eu hariannu yn y dyfodol?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr wyf yn derbyn y pwynt cyffredinol yr ydych yn ei wneud, Paul, ynglŷn â'r angen i ddiogelu cerddwyr. Os ydym am weld byw'n iach yn cael ei hybu ac am weld mwy o bobl yn cerdded a beicio, yr ydym angen gwneud hynny yn fwy diogel. Yr ydym wedi lleihau nifer y cerddwyr sy'n cael eu hanafu ar ein ffyrdd yn eithaf sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, yn sgîl nifer o bolisïau a chynlluniau yr ydym wedi eu cyflwyno, ond mae'n bosibl inni fynd ymhellach. Gallaf eich sicrhau y bydd fy adran yn sicrhau bod y cynlluniau sydd gennym ar gyfer helpu cerddwyr—sydd yn aml yn gynlluniau y gallwn eu cyflwyno drwy awdurdodau lleol—yn parhau. Fel yr ydych wedi awgrymu, mae nifer o gynlluniau yn ddibynnol ar gael arian o setliad teg, ond yr wyf am weld y math o flaenoriaeth a roesom yn y blynyddoedd diwethaf yn parhau i'r dyfodol.

Mae awdurdodau lleol hefyd erbyn hyn yn gallu edrych ar gyflymdra cerbydau drwy bentrefi ac ardaloedd gwledig. Yr wyf yn gobeithio bod awdurdodau lleol yn edrych ar hynny fel rhan o'r broses o'i gwneud yn fwy diogel i gerddwyr.

yn llwybrau pwysig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i allu adfywio economi'r ardal yn ogystal â gwella'r amgylchedd lleol yn sylweddol.

**Paul Davies:** Safety on our trunk roads is vital and we must protect pedestrians as well as drivers. As the Deputy First Minister will be aware, I have been campaigning for a footpath to be constructed on the A487 into Fishguard. Unfortunately, no money is currently available to fund this project. I appreciate that there are a number of projects across Wales that want to have priority, and I accept that the largest schemes will be prioritised in the near future because of the tight financial settlement. However, can the Deputy First Minister tell us how he and his department will ensure that smaller schemes such as the scheme that I mentioned will be able to receive funding in the future?

**The Deputy First Minister:** I accept the general point that you made, Paul, on the need to protect pedestrians. If we want to see healthy living being promoted and want to see more people walking and cycling, we need to make that safer. We have reduced substantially the number of pedestrians who are injured on our roads in recent years, following a number of policies and plans that we have submitted, but it is possible for us to go further. I can assure you that my department will ensure that the plans we have for helping pedestrians—which are often schemes that we could introduce through local authorities—will continue. As you have suggested, a number of initiatives are dependent on getting money from a fair settlement, but I want to see the kind of priority that we have given in recent years continue into the future.

Local authorities are also now able to look at the speed of vehicles travelling through villages and rural areas. I hope that local authorities are looking at that as part of the process of improving safety for pedestrians.

**Chris Franks:** Deputy First Minister, it was good to hear about the progress being made along the A40, which reminded me of the opposition to your scheme voiced by a number of Conservative AMs; I hope that they enjoy driving along this new stretch. Given the dreadful reductions threatened by the UK Government to the capital available to the Welsh Government, what assurances can you give regarding the programmed work for the Heads of the Valleys road?

**The Deputy First Minister:** You will be aware, Chris, that the Heads of the Valleys road is included in our trunk road forward programme. We are now in a position to say that construction is due to start on section 3 in 2012. A public information exhibition was held in May for four days, and nearly 700 people attended that. We expect to publish draft Orders in 2011. On section 2, the tender process for the contractor is due to start this autumn, and the construction programme is due to start in 2014. You can see that we are keeping to the programme that we set out for the road.

**Brian Gibbons:** Deputy First Minister, thank you for last month's decision in relation to the peripheral distributor road, or Harbour Way, as it is now called, in Port Talbot. It will be an investment of £100 million to open up the old Port Talbot docks area, and will contribute to the whole economy of south-west Wales, including Pembrokeshire, as my colleague Alun Davies said. One of the great opportunities that the construction of Harbour Way will create will be the 600 jobs that will potentially be available. Will you be working with Neath Port Talbot County Borough Council to ensure that local people have an opportunity to benefit from that construction phase, very much along the same lines as happened with the Church Village and Porth bypasses?

**The Deputy First Minister:** You make an important point about the value of such a significant road scheme, which would clearly benefit the immediate area, but also has a wider significance. It will ease traffic along the M4, and that section is under pressure, as

**Chris Franks:** Ddirprwy Brif Weinidog, roedd hi'n braf clywed am y cynnydd sy'n cael ei wneud ar hyd yr A40, a oedd yn fy atgoffa o'r gwrthwynebiad i'ch cynllun a fynegwyd gan nifer o ACau Ceidwadol; gobeithio byddant yn mwynhau gyrru ar hyd y darn newydd hwn o'r ffordd. O gofio'r gostyngiadau erchyll sy'n cael eu bygwth gan Lywodraeth y DU i'r cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, pa sicrwydd allwch chi ei roi ynghylch y gwaith sydd wedi'i raglennu ar gyfer ffordd Blaenau'r Cymoedd?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Byddwch yn gwybod, Chris, bod ffordd Blaenau'r Cymoedd wedi cael ei chynnwys yn ein blaenraglen cefnffyrdd. Rydym yn awr mewn sefyllfa i ddweud y bydd y gwaith adeiladu ar fin dechrau ar ran 3 yn 2012. Cynhaliwyd arddangosfa gwybodaeth gyhoeddus ym mis Mai am bedwar diwrnod, ac roedd bron i 700 o bobl wedi dod i weld hwnnw. Rydym yn disgwyl cyhoeddi Gorchmynion drafft yn 2011. Ar ran 2, bydd y broses tendro ar gyfer y contractwr yn dechrau'r hydref hwn, a bydd y rhaglen adeiladu'n dechrau yn 2014. Gallwch weld ein bod yn glynu wrth y rhaglen rydym wedi'i gosod ar gyfer y ffordd.

**Brian Gibbons:** Ddirprwy Brif Weinidog, diolch am eich penderfyniad y mis diwethaf ynghylch ffordd ddosbarthu'r cyrion, neu Harbour Way, fel y caiff ei galw nawr, ym Mhort Talbot. Bydd yn fuddsoddiad gwerth £100 miliwn i agor hen ardal ddociâu Port Talbot, a bydd yn cyfrannu at economi gyfan de-orllewin Cymru, gan gynnwys sir Benfro, fel y dywedodd fy nghyd-Aelod Alun Davies. Un o'r cyfleoedd mawr a ddaw yn sgîl Harbour Way fydd creu 600 o swyddi a allai fod ar gael. A fyddwch chi'n gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i sicrhau bod pobl leol yn cael cyfle i elwa o'r cam adeiladu hwnnw, fel y digwyddodd gyda ffyrdd osgoi Gartholwg a Phorth?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rydych yn gwneud pwynt pwysig ynghylch gwerth cynllun ffordd mor sylweddol, a fyddai'n amlwg o fudd i'r ardal gyfagos, ond sydd hefyd ag arwyddocâd ehangach. Bydd yn lliniaru'r traffig ar hyd yr M4, ac mae'r rhan

you know. It will be important in easing traffic to west Wales. You also make an important point about ensuring that these contracts are let in a way that allows the local economy and local people to benefit from the new jobs. The Church Village bypass scheme is a template that we should be using much more widely.

honno dan bwysau fel y gwyddoch. Bydd yn bwysig o ran lliniaru'r traffig i orllewin Cymru. Rydych chi hefyd yn gwneud pwynt pwysig ynghylch sicrhau bod y contractau hyn yn cael eu rhoi mewn ffordd sy'n galluogi'r economi leol a'r bobl leol i elwa o'r swyddi newydd. Mae cynllun ffordd osgoi Gartholwg yn dampled y dylem ei ddefnyddio'n ehangach o lawer.

### Diogelwch Cerddwyr

**6. Christine Chapman:** *Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella diogelwch cerddwyr yng Nghymru. OAQ(3)1575(ECT)*

**The Deputy First Minister:** Making roads safer for all users is a key priority for the Welsh Assembly Government. We fund and encourage a range of measures and initiatives aimed specifically at improving the safety of pedestrians.

**Christine Chapman:** I note the earlier statistics that you mentioned. Nevertheless, the Child Accident Prevention Trust states that Wales compares badly with the rest of Europe in respect of the number of child pedestrian deaths and children from poorer backgrounds are over 20 times as likely to be killed as those from wealthier backgrounds. I welcome the Safe Routes in Communities initiative, which improves pedestrian safety by changing the physical environment in the community. I also welcome the fact that my local authority, Rhondda Cynon Taf, is working with other agencies to run a series of events to ensure that younger residents become safer pedestrians. Do you agree, Deputy First Minister, that both approaches—safer routes and the education of pedestrians and drivers—are essential if we are to tackle this issue?

**The Deputy First Minister:** Yes, I understand. This is a serious issue and we should all recognise that it is. However, we should also recognise the good work that has already been done. For example, we had a

### Safety of Pedestrians

**6. Christine Chapman:** *What is the Welsh Assembly Government doing to improve the safety of pedestrians in Wales. OAQ(3)1575(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae gwneud ffyrdd yn fwy diogel i'r holl ddefnyddwyr yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym yn cyllido ac yn hybu amrywiaeth o fesurau a mentrau sydd wedi'u hanelu'n benodol at wella diogelwch cerddwyr.

**Christine Chapman:** Rwyf yn nodi'r ystadegau roeddech chi wedi sôn amdanynt yn gynharach. Serch hynny, mae'r Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau ymhlith Plant yn dweud bod Cymru'n cymharu'n wael â gweddill Ewrop o ran nifer y plant sy'n cael eu lladd wrth gerdded ac mae plant o gefndiroedd tlotach dros 20 gwaith yn fwy tebygol o gael eu lladd na'r rheini o gefndiroedd mwy cyfoethog. Rwyf yn croesawu'r fenter Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, sy'n gwella diogelwch i gerddwyr drwy newid yr amgylchedd ffisegol yn y gymuned. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod fy awdurdod lleol, Rhondda Cynon Taf, yn gweithio gydag asiantaethau eraill i gynnal cyfres o ddigwyddiadau i sicrhau bod trigolion iau yn dod yn gerddwyr mwy diogel. A ydych yn cytuno, Ddirprwy Brif Weinidog, bod y ddwy elfen—llwybrau mwy diogel ac addysg cerddwyr a gyrwyr—yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael â'r mater hwn?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ydw, rwyf yn deall. Mae hwn yn fater difrifol a dylem i gyd gydnabod hynny. Fodd bynnag, dylem hefyd gydnabod y gwaith da sydd eisoes wedi cael ei wneud. Er enghraifft, roedd gennym



2010 target for reducing the number of children killed or seriously injured by 50 per cent and we have achieved a reduction of 53 per cent, so I think that we are ahead of the target that we set. There is still work to be done, but we should recognise the tremendous work that has been achieved: the number of pedestrian casualties per thousand of population fell to 37 in 2009 from a peak of 104 in 1979. Therefore, over a 20-year period, there has been significant improvement. Nevertheless, we want to do more. I pointed out that there are 481 20-mph schemes across Wales, and, as you rightly point out, Rhondda Cynon Taf has introduced a number of them. On Safe Routes in Communities, £0.5 million has been allocated to Rhondda Cynon Taf for schemes in Aberaman and Ferndale, and almost £700,000 of the local road safety grant has been allocated to the local authority. As I have indicated, local authorities should now be looking at speed limits on the roads. There is a range of initiatives that we can implement and I applaud local authorities for working hard to reduce the numbers, and we will work with them to reduce them even further.

2.50 p.m.

**Mohammad Asghar:** I welcome the news that the number of young people walking to school has increased over the last year. Sadly, there has been little improvement in the walking-to-work or cycling-to-work figures for adults. While I know that the walking and cycling action plan falls under the portfolio of your ministerial colleague, Jane Davidson, road safety obviously comes under your own. With that in mind, Deputy First Minister, can you provide an update on discussions that you have had with local authorities to ensure that street and road designs are fit for purpose and provide safe walking routes for children on their way to school, which, as my colleague Christine said, is paramount? The death toll on roads close to schools is unacceptable in Wales and I am sure that you will do something about it.

darged 2010 ar gyfer lleihau nifer y plant sy'n cael eu lladd neu sy'n cael anafiadau difrifol 50 y cant ac rydym wedi cyflawni gostyngiad o 53 y cant, felly rydym wedi rhagori ar y targed roeddem wedi'i osod. Mae gwaith eto i'w wneud, ond dylem gydnabod y gwaith aruthrol sydd wedi cael ei gyflawni; roedd nifer y cerddwyr a gafodd eu hanafu a'u lladd fesul mil o'r boblogaeth wedi disgyn i 37 yn 2009 o'r lefel uchaf sef 104 ym 1979. Felly, dros gyfnod o 20 mlynedd, mae pethau wedi gwella'n sylweddol. Serch hynny, mae arnom eisiau gwneud mwy. Dywedais fod 481 o gynlluniau 20 milltir yr awr ledled Cymru, ac, fel rydych chi'n ei ddweud yn gywir, mae Rhondda Cynon Taf wedi cyflwyno nifer ohonynt. O ran Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, mae £0.5 miliwn wedi cael ei ddyrannu i Rhondda Cynon Taf ar gyfer cynlluniau yn Aberaman a Ferndale, ac mae bron i £700,000 o'r grant diogelwch ar y ffyrdd lleol wedi cael ei ddyrannu i'r awdurdod lleol. Fel rwyf wedi'i ddweud, dylai awdurdodau lleol nawr fod yn edrych ar y cyfyngiadau cyflymder ar y ffyrdd. Ceir amrywiaeth o fentrau gallwn eu gweithredu ac rwyf yn canmol awdurdodau lleol am weithio'n galed i leihau'r niferoedd, a byddwn yn gweithio gyda hwy i'w lleihau'n fwy byth.

**Mohammad Asghar:** Rwyf yn croesawu'r newyddion bod nifer y bobl ifanc sy'n cerdded i'r ysgol wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn anffodus, ni fu llawer o gynnydd yn y ffigurau cerdded i'r gwaith neu feicio i'r gwaith ar gyfer oedolion. Er fy mod yn gwybod bod y cynllun gweithredu cerdded a beicio yn dod dan bortffolio eich cyd-Weinidog, Jane Davidson, mae diogelwch ar y ffyrdd yn amlwg yn dod o dan eich portffolio chi. O gofio hynny, Ddirprwy Brif Weinidog, a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau rydych chi wedi'u cael gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod dyluniadau strydoedd a ffyrdd yn addas i'r diben a'u bod yn darparu llwybrau cerdded diogel i blant ar eu ffordd i'r ysgol, sydd, fel y dywedodd fy nghyd-Aelod, Christine, yn hollbwysig? Mae'r gyfradd marwolaethau ar ffyrdd ger ysgolion yn annerbyniol yng Nghymru ac

rwyf yn siŵr y byddwch yn gwneud rhywbeth am y mater.

**The Deputy First Minister:** We must accept that these figures are reducing. We should acknowledge and applaud the work that local authorities and others are doing to reduce passenger accidents. I recognise that we need to go further, but we are putting a number of schemes in place—a number of which I have already mentioned, particularly the 20 mph schemes, Safe Routes in Communities, the local road safety grant. Local authorities, of course, also need to look at their speed limits. I am working hard with Jane Davidson to promote healthy walking and cycling, and one thing that we could perhaps look at having in the future is car-free days in the sustainable travel towns in Wales. We could all then demonstrate that it is possible to travel safely by walking or cycling.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rhaid i ni dderbyn bod y ffigurau hyn yn disgyn. Dylem gydnabod a chanmol y gwaith y mae awdurdodau lleol ac eraill yn ei wneud i leihau nifer y damweiniau i deithwyr. Rwyf yn cydnabod bod angen gwneud mwy, ond rydym yn rhoi nifer o gynlluniau ar waith—rwyf eisoes wedi sôn am nifer ohonynt, yn enwedig y cynlluniau 20 milltir yr awr, Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, y grant diogelwch ar y ffyrdd lleol. Bydd angen i awdurdodau lleol hefyd, wrth gwrs, edrych ar eu cyfyngiadau cyflymder. Rwyf yn gweithio'n galed gyda Jane Davidson i hyrwyddo cerdded a beicio iach, ac efallai gallem edrych ar gael diwrnodau di-gar yn y dyfodol yn y trefi teithio cynaliadwy yng Nghymru. Gallem i gyd wedyn ddangos ei bod yn bosibl teithio'n ddiogel drwy gerdded neu feicio.

#### **Gwasanaethau Rheilffordd drwy Ddyffryn Conwy**

#### **Rail Services through the Conwy Valley**

**7. Gareth Jones:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau rheilffordd drwy Ddyffryn Conwy. OAQ(3)1630(ECT)*

**7. Gareth Jones:** *Will the Minister make a statement on rail services through the Conwy Valley. OAQ(3)1630(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr oeddwn wrth fy modd i gael y cyfle i deithio ar y llinell hon yn gynharach y mis hwn a chael gwrandao ar farn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Yr wyf yn falch bod twf cadarn yn nifer y teithwyr sy'n teithio ar y llinell. Yr wyf yn aros am fanylion newidiadau posibl i amserlen y gwasanaeth, a bydd hyn yn sicr o wneud y llinell yn fwy deniadol fyth i deithwyr.

**The Deputy First Minister:** I was delighted to be able to travel on the line earlier this month and listen to the views of the people using the service. I am pleased that there is strong growth in the number of passengers travelling on the line. I am awaiting details of possible changes to the timetable for the service, which will make its use even more attractive to passengers.

**Gareth Jones:** Diolchaf i chi am ymuno â mi a'r Llywydd, a oedd yn cynrychioli ei etholaeth, a Blaenau Ffestiniog yn arbennig. Cawsom dywydd braf ac yr oedd y golygfeydd yn ardderchog, sy'n rheswm paham fod y defnydd a wneir o'r llinell hon yn cynyddu, yn arbennig y defnydd a wneir ohoni gan ymwelwyr. Trafodasom nifer o bwyntiau a fyddai'n gwella effeithiolrwydd y rheilffordd hon ar gyfer cymudwyr ac ymwelwyr. O ystyried y cysylltiadau â rheilffordd Ffestiniog i Borthmadog, a

**Gareth Jones:** Thank you for joining me and the Presiding Officer, who was representing his constituency, and Blaenau Ffestiniog in particular. We had fine weather and the scenery was excellent, which is why greater use is being made of this line, particularly by visitors. We discussed several points that would improve the effectiveness of this railway for commuters and visitors. Given the links with the Ffestiniog railway to Porthmadog, do you foresee that it will be possible to seriously improve the existing

ragwelwch fod posibilrwydd gwella o ddifrif ar lefel y gwasanaethau presennol?

level of service?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Diolch, Gareth; yr oedd yn bleser cael teithio am y tro cyntaf ar y gwasanaeth hwn o Llandudno i Flaenau Ffestiniog ar ddiwrnod braf iawn. Trafodasom a oes modd cael amserlen sy'n fwy addas nid yn unig ar gyfer teithwyr ar y lein, ond er mwyn ei ddefnyddio fel gwasanaeth bwydo i mewn i wasanaethau eraill. Cyfeiriasoch at y gwasanaeth i Borthmadog ac, wrth gwrs, yr ydym eisiau gweld mwy o ddefnydd o'r gwasanaeth hwnnw—ac yr ydym yn falch iawn o'r cynnydd yn nifer y teithwyr—a hefyd cysylltu pen arall y lein yn y gyffordd i wasanaethau i Gaerdydd ac yn y blaen. Hynny yw, yr ydym am wneud yr amserlen yn fwy deniadol ar gyfer pobl sydd eisiau teithio ymhellach nag ar y llinell hon yn unig. Mae Arriva wedi cytuno i edrych ar hyn, ac mae'n gwneud hynny ar hyn o bryd. Unwaith y byddaf wedi derbyn gwybodaeth, byddaf yn gadael i chi ac Aelodau eraill y Cynulliad wybod.

**The Deputy First Minister:** Thanks, Gareth; it was a pleasure to travel for the first time on this service from Llandudno to Blaenau Ffestiniog on a very sunny day. We discussed whether it would be possible to have a timetable that would be more convenient not only for passengers on the line, but in order for it to be used as a feeder service for other services. You referred to the service to Porthmadog and, of course, we want to see more use made of that service—and we are very pleased with the increase in passenger numbers—and we want to connect the other end of the line at the junction to services to Cardiff and so on. That is, we want to make the timetable more attractive to people who wish to travel further than just this line. Arriva has agreed to look at this, and it is doing so at the moment. Once I have received the information, I will let you and other Assembly Members know.

**Mark Isherwood:** Deputy First Minister, you wrote to me last week stating that, in the current economic climate, funding from the public sector will not be available to invest in the upgrading of the Conwy valley line, which, as you know, is required in the context of the movement of slate waste. A Welsh Government report commissioned from WS Atkins plc concluded that while the movement of slate waste by rail is operationally possible, the current volume produced by both slate companies does not make it economically viable. However, the reality is that a ceiling is set on current volumes by the unavailability of the use of rail.

**Mark Isherwood:** Ddirprwy Brif Weinidog, roeddech wedi ysgrifennu ataf wythnos diwethaf yn dweud yn yr hinsawdd economaidd bresennol na fydd cyllid ar gael gan y sector cyhoeddus i fuddsoddi mewn uwchraddio rheilffordd dyffryn Conwy. Rydych yn gwybod bod gofyn gwneud hyn yng nghyd-destun symud gwastraff llechi. Daeth adroddiad gan Lywodraeth Cymru a gomisiynwyd gan WS Atkins plc i'r casgliad er bod symud gwastraff llechi ar reilffyrdd yn bosibl yn weithredol, nad yw'r lefelau sy'n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd gan gwmnïau llechi'n golygu ei fod yn ymarferol yn economaidd. Fodd bynnag, y gwir amdani yw bod nenfwd yn cael ei gosod ar y lefelau a gynhyrchir ar hyn o bryd oherwydd nad oes modd defnyddio'r rheilffordd.

Correspondence with your department regarding this has been ongoing for many years, and started long before the recession, confirming that volumes of slate aggregate are not being moved because the cost of transporting it more than 50 miles exceeds the value of the load, and that it is the very unavailability of the railway to deal with the weight that prevents volumes being

Mae gohebiaeth gyda'ch adran ynghylch hyn wedi bod yn mynd ymlaen ers nifer o flynyddoedd, a dechreuodd hyn ymhell cyn y dirwasgiad, yn cadarnhau nad oes lefelau uchel o wastraff llechi yn cael eu symud oherwydd bod costau ei gludo ymhellach na 50 milltir yn fwy na gwerth y llwyth. Y ffaith nad yw'r rheilffordd ar gael i ddelio â'r pwysau sy'n golygu nad oes modd cludo

transported. Therefore, how do you respond to the reality, long-known to your department, that, rather than the lack of volumes moved meaning that a rail upgrade is not needed, the upgrade is necessary in order to move large volumes, thereby supporting the jobs and economy in a part of north Wales that should be a priority for economic regeneration?

lefelau uchel. Felly, sut yr ydych chi'n ymateb i'r gwirionedd, sydd wedi bod yn hysbys i'ch adran ers tro byd, sef bod angen uwchraddio er mwyn symud lefelau uchel, yn hytrach na bod y diffyg lefelau uchel yn golygu nad oes angen uwchraddio. Byddai hyn yn cefnogi'r swyddi a'r economi mewn rhan o ogledd Cymru a ddylai fod yn flaenoriaeth ar gyfer adfywio'r economi?

**The Deputy First Minister:** I am sure that you are aware of the background, Mark. I was asked by Gwynedd Council to undertake a feasibility study into the commercial potential of carrying slate aggregate, and I readily agreed to that, and said that I would await the outcome of the report. The report failed to identify a commercial or business case for the upgrade, because the company that would benefit from it did not see that it was commercially viable. I did not say that; the company that intended to use the line said that it did not see that there was a commercial case for the upgrade. Let us be honest: we have to make sure that if we invest in that line, there is a commercial case for it and that it is viable. A proposition is yet to be put to me that there is a business case for it, which is the reason why I asked for the feasibility study in the first place.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rwyf yn siŵr eich bod yn gwybod am y cefndir, Mark. Gofynnodd Cyngor Gwynedd i mi gynnal astudiaeth ddichonoldeb i botensial masnachol cludo agregau llechi, a chytunais i wneud hynny, a dywedais y byddwn yn aros am ganlyniad yr adroddiad. Ni ddaeth yr adroddiad o hyd i achos masnachol nac achos busnes dros yr uwchraddio, oherwydd nid oedd y cwmni a fyddai'n elwa ohono'n gweld ei fod yn ymarferol yn fasnachol. Nid fi ddywedodd hynny; y cwmni a oedd yn bwriadu defnyddio'r rheilffordd ddywedodd nad oedd yn gweld bod achos masnachol dros yr uwchraddio. Gadewch i ni fod yn onest: rhaid i ni wneud yn siŵr os byddwn yn buddsoddi mewn rheilffordd, bod achos masnachol dros wneud hynny a'i fod yn hyfyw. Nid wyf eto wedi cael cynnig bod achos busnes dros hyn, dyma'r rheswm i mi ofyn am yr astudiaeth ddichonoldeb yn y lle cyntaf.

### **Cronfa Ddysgu Undeb Cymru**

### **Wales Union Learning Fund**

**8. Ann Jones:** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gronfa Ddysgu Undeb Cymru. OAQ(3)1612(ECT)*

**8. Ann Jones:** *Will the Minister provide an update on the Wales Union Learning Fund. OAQ(3)1612(ECT)*

**The Deputy Minister for Science, Innovation and Skills (Lesley Griffiths):** The Wales union learning fund has supported a significant programme of union learning in Wales. It has provided nearly £11 million for 153 projects in a variety of unions across Wales. Earlier this month, I announced the latest bidding round for the fund and we will announce the successful projects in the new year.

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths):** Mae cronfa ddysgu undeb Cymru wedi cefnogi rhaglen sylweddol o ddysgu undeb yng Nghymru. Mae wedi darparu bron i £11 miliwn ar gyfer 153 o brosiectau mewn amrywiaeth o undebau ledled Cymru. Yn gynharach y mis hwn, cyhoeddais y cylch ceisiadau diweddaraf ar gyfer y gronfa a byddwn yn cyhoeddi'r prosiectau llwyddiannus yn y flwyddyn newydd.

**Ann Jones:** Thank you for that, and I am glad that you realise that the Wales union

**Ann Jones:** Diolch i chi am hynny, ac rwyf yn falch eich bod yn sylweddoli bod cronfa

learning fund embodies what can be achieved as a result of genuine social partnership with trade unions and businesses. The case studies provided by the Trades Union Congress show examples of people who have gone from factories to fire stations, who have gained promotions or who are starting their own enterprises, all because of this fund. Many of those who benefit from the Wales union learning fund are probably people who dropped out of school or who have not had an opportunity to support and nurture their learning and ambitions. Would you agree that that is why you and I pay our union dues, namely in order to assist people in a common cause? Can you assure me that all parts of Wales will continue to receive the Assembly Government's support for the Wales union learning fund, and that we will not be sent down the road of characterising trade unions as bad or as the enemy within?

**Lesley Griffiths:** I absolutely agree with you, because, since the fund was launched over 11 years ago, it has been a great success. Its aim is to encourage and to support learning in the workplace, as you say, and, like all work-based learning, it improves the skills of the workforce. The innovation and hard work of trade unions, employers, training providers and the Welsh Assembly Government—all of whom have been working together—has resulted in people who would perhaps have been hard to reach receiving training that has benefited them. It increases the number of opportunities that they have in life.

**Alun Cairns:** Deputy Minister, is it not iniquitous that public money is going to trade unions that, in turn, fund some political parties? Do you not think that, in these constrained financial times, after the financial mess that was left by the last Government, and given the cuts that will have to come, this should be one of the priorities when it comes to cuts?

**Lesley Griffiths:** As I have just said, Alun, union-led learning is a success story. It increases the number of opportunities for so

ddysgu undeb Cymru yn ymgorffori'r hyn mae modd ei gyflawni o ganlyniad i bartneriaeth gymdeithasol go iawn gydag undebau llafur a busnesau. Mae'r astudiaethau achos a ddarparwyd gan Gyngres yr Undebau Llafur yn dangos enghreifftiau o bobl sydd wedi mynd o ffatrïoedd i orsafoedd tân, sydd wedi ennill dyrchafiad neu sy'n dechrau eu mentrau eu hunain, i gyd oherwydd y gronfa hon. Mae'n debyg bod llawer o'r rheini sy'n cael budd o gronfa ddysgu undeb Cymru yn bobl a oedd wedi gadael yr ysgol yn gynnar neu yn bobl na chawsant gyfle i gefnogi a meithrin eu dysgu a'u huchelgeisiau. A fydddech yn cytuno mai dyna pam ydych chi a mi yn talu ein ffioedd undeb, sef er mwyn helpu pobl mewn achos cyffredin? A allwch fy sicrhau y bydd pob rhan o Gymru yn parhau i dderbyn cefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cronfa ddysgu undeb Cymru, ac na fyddwn yn cael ein hanfon i lawr y ffordd o nodweddu undebau llafur fel cyrff drwg neu elynion?

**Lesley Griffiths:** Rwyf yn cytuno â chi i'r carn, oherwydd, ers i'r gronfa gael ei lansio dros 11 mlynedd yn ôl, mae wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Ei nod yw annog a chefnogi dysgu yn y gweithle, fel y dywedwch, ac, fel pob dysgu yn y gwaith, mae'n gwella sgiliau'r gweithlu. Mae arloesedd a gwaith caled undebau llafur, cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a Llywodraeth Cynulliad Cymru—sydd i gyd wedi bod yn cydweithio—wedi arwain at bobl a fyddai efallai wedi bod yn anodd eu cyrraedd yn derbyn hyfforddiant sydd wedi bod o fudd iddyn nhw. Mae'n cynyddu nifer y cyfleoedd sydd ganddynt mewn bywyd.

**Alun Cairns:** Ddirprwy Weinidog, onid yw'n anghyfiawn bod arian cyhoeddus yn mynd i undebau llafur sydd, yn eu tro, yn ariannu rhai pleidiau gwleidyddol? Onid ydych yn meddwl, yn y cyfnod ariannol anodd hwn, ar ôl y llanast ariannol a adawyd gan y Llywodraeth ddiwethaf, ac o ystyried y toriadau y bydd yn rhaid eu gwneud, y dylai hwn fod yn un o'r blaenoriaethau wrth ystyried toriadau?

**Lesley Griffiths:** Fel rwyf newydd ei ddweud, Alun, mae dysgu wedi'i arwain gan undebau yn llwyddiant. Mae'n cynyddu nifer

many people, and long may it continue. You might be aware that Vincent Cable said in July:

‘I am here to support the work of unionlearn and the Union Learning Fund, which my department’—

that is, your Government—

‘supports.’

y cyfleoedd i gynifer o bobl, a hir y parhao. Efallai eich bod yn gwybod i Vincent Cable ddweud ym mis Gorffennaf:

Rwyf yma i gefnogi gwaith unionlearn a'r Gronfa Ddysgu Undeb, y mae fy adran—

hynny yw, eich Llywodraeth chi—

yn ei gefnogi.

### Hygyrchedd Gorsafoedd Rheilffordd

**9. Jonathan Morgan:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch hygyrchedd gorsafoedd rheilffordd. OAQ(3)1625(ECT)*

**The Deputy First Minister:** My plans for improving accessibility at railway stations in Wales are set out in the national transport plan.

**Jonathan Morgan:** I am grateful for that answer. Thank you, Deputy First Minister, for the meeting that we had before recess, when I was able to press the case for investment in the railway station in Llandaf North in order to make it accessible to disabled people. As you are aware, this railway station has the fourth-biggest footfall in Cardiff; some 400,000 people use it annually. Since that meeting, you have confirmed to me that you will support a bid under the next round of the Access for All scheme, and I welcome that.

3.00 p.m.

Could you confirm this afternoon that the Assembly Government will prioritise this application and tell us whether you expect a bidding round in readiness for the next financial year?

**The Deputy First Minister:** I cannot say what priority it will get because I have yet to assess the number of bids that will be submitted, but I can tell you that a bid for Llandaff will be included in the request. We will be ready to make an application to the next Access for All funding round when it is

### Accessibility to Railway Stations

**9. Jonathan Morgan:** *Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policy regarding accessibility to railway stations. OAQ(3)1625(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn cynnwys fy nghynlluniau ar gyfer gwella hygyrchedd mewn gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru.

**Jonathan Morgan:** Rwyf yn ddiolchgar am yr ateb hwnnw. Diolch, Ddirprwy Brif Weinidog, am y cyfarfod a gawsom cyn y toriad, pan roeddwn wedi gallu pwysu'r achos dros fuddsoddi yng ngorsaf reilffordd Gogledd Llandaf er mwyn ei gwneud yn hygyrch i bobl anabl. Fel y gwyddoch, dyma'r bedwaredd orsaf reilffordd fwyaf poblogaidd yng Nghaerdydd; bydd oddeutu 400,000 o bobl yn ei defnyddio bob blwyddyn. Ers y cyfarfod hwnnw, rydych chi wedi cadarnhau wrthyf y byddwch yn cefnogi cais dan gylch nesaf y cynllun Mynediad i bawb, ac rwyf yn croesawu hynny.

A allech chi gadarnhau'r prynhawn hwn y bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r cais hwn ac yn dweud wrthym a ydych yn disgwyl cylch ymgeisio yn barod ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ni allaf ddweud pa flaenoriaeth a gaiff oherwydd nid wyf wedi asesu sawl cais a gyflwynir eto, ond gallaf ddweud wrthyf y bydd cais ar gyfer Llandaf yn cael ei gynnwys yn y cais. Byddwn yn barod i gyflwyno cais i gylch cyllido nesaf Mynediad i Bawb pan gaiff ei

announced. I understand from my officials that that will not be known until after the spending review, but it is expected to be within the financial year.

**Jeff Cuthbert:** I once again plead the case of disabled residents living in the village of Ystrad Mynach on the Rhymney valley line. Those who are wheelchair-bound or who suffer other serious mobility problems are completely unable to get onto the platform for Cardiff-bound trains. It is not a question of its being difficult; they simply cannot do it as there is no means of getting them onto that platform. That is unacceptable. They must go either further up the line to Hengoed, which means a longer journey, or down the line to Llanbradach, which has limited park-and-ride facilities. Therefore, could you check with your officials to see whether there is any way in which funding could be provided to safeguard the normal rights of individuals with mobility problems living in the areas of Ystrad Mynach and who wish to travel to Cardiff by train?

**The Deputy First Minister:** I am not saying that that particular example is an issue relating to other stations, but access for disabled people is certainly a major issue in stations throughout Wales. Many of our stations were built when there was no disability discrimination legislation and they are difficult to adapt, but we are working hard to achieve such adaptations. I will discuss with my officials what can be done at Ystrad Mynach and I will write to you about that. I recognise that there is still much work to be done throughout Wales to ensure that disabled people have proper access to public transport.

**Rhodri Glyn Thomas:** Ers degawdau, mae Plaid Cymru wedi bod yn annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaeth trên gan ei fod yn ffordd effeithiol o deithio a chan ei fod yn lleihau'r niwed a wneir i'r amgylchedd wrth deithio mewn ceir. Mae'n ymddangos imi weithiau fod rhai Aelodau'r Cynulliad yn ceisio atal pobl rhag defnyddio'r system rheilffyrdd drwy gwyno'n barhaus am y safonau. Mae'n ddull effeithiol a phwysig o deithio yng Nghymru.

gyhoeddi. Caf ar ddeall gan fy swyddogion na fydd hynny'n hysbys tan ar ôl yr adolygiad o wariant, ond disgwylir y bydd yn ystod y flwyddyn ariannol.

**Jeff Cuthbert:** Unwaith eto rwyf yn pledio achos trigolion anabl sy'n byw ym mhentref Ystrad Mynach ar reilffordd Cwm Rhymni. Ni all y rheini sy'n defnyddio cadair olwyn neu sy'n dioddef problemau symudedd difrifol eraill fynd ar y platfform ar gyfer trenau i Gaerdydd. Nid yw'n anodd; mae'n gwbl amhosibl gan nad oes ffordd o fynd ar y platfform hwnnw. Mae hynny'n annerbyniol. Rhaid iddynt naill ai fynd i fyny'r rheilffordd i Hengoed, sy'n golygu siwrnai hirach, neu i lawr y rheilffordd i Lanbradach, sydd â chyfleusterau parcio a theithio cyfyngedig. Felly, a allech chi holi eich swyddogion i weld a oes unrhyw ffordd o ddarparu cyllid i ddiogelu hawliau arferol unigolion sydd â phroblemau symudedd sy'n byw yn ardaloedd Ystrad Mynach ac sy'n dymuno teithio i Gaerdydd ar y trêr?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid wyf yn dweud bod yr enghraifft benodol honno'n fater sy'n ymwneud â gorsafoedd eraill, ond mae mynediad i bobl anabl yn sicr yn fater pwysig mewn gorsafoedd ledled Cymru. Cafodd nifer o'n gorsafoedd eu hadeiladu pan nad oedd dim deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabledd yn bodoli ac maen nhw'n anodd eu haddasu, ond rydym yn gweithio'n galed i wneud addasiadau o'r fath. Byddaf yn trafod â'm swyddogion i weld beth ellir ei wneud yn Ystrad Mynach a byddaf yn ysgrifennu atoch ynghylch hynny. Rwyf yn cydnabod bod llawer o waith eto i'w wneud ledled Cymru i sicrhau bod pobl anabl yn gallu cael mynediad iawn at drafnidiaeth gyhoeddus.

**Rhodri Glyn Thomas:** For decades, Plaid Cymru—the Party of Wales has been encouraging people to use rail services because they are an efficient means of transport and as they reduce the damage done to the environment caused by car travel. It appears to me on occasion as though some Assembly Members try to discourage people from using our rail system by continually complaining about standards. It is an efficient and important mode of transport in Wales.

Byddwch yn ymwybodol o'r gwasanaeth sy'n mynd o Gaerfyrddin i Lundain wrth gwrs, ond hefyd o'r gwasanaeth sy'n mynd ar draws y canolbarth o Gaerfyrddin, sef llinell calon Cymru. Sut yr ydych yn bwriadu gwella'r gwasanaeth hwnnw ac annog pobl i'w ddefnyddio?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Fel mae'n digwydd, yr wyf yn gobeithio cael cyfle i deithio ar linell calon Cymru yn ystod y tair wythnos nesaf. Gan fy mod wedi cael y pleser o deithio ar wasanaeth dyffryn Conwy, credaf y dylwn brofi'r gwasanaeth hwnnw hefyd.

Mae gorsaf Caerfyrddin wedi cael tipyn o fuddsoddiad yn ddiweddar i sicrhau gwelliannau iddo. Os ydym am wneud teithio ar drên yn fwy cyfforddus i bobl, rhaid inni wella ansawdd y gwasanaeth, nid yn unig ar y trên, ond yn yr orsaf hefyd. Gwnaed ychydig o fuddsoddiad er mwyn ei wneud yn fwy defnyddiol.

Mae'n hynod o bwysig ein bod yn cefnogi pobl i deithio ar y trên. Byddwch chi, fel pawb, yn sylweddoli bod y Llywodraeth, am y tro cyntaf erioed, yn gwario mwy ar drafnidiaeth integredig eleni, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, nag ar y ffyrdd. Dylem oll groesawu hynny.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr i'r Dirprwy Brif Weinidog am ateb yr holl gwestiynau. Yr oeddwn yn ceisio, fel y sylweddolwch, gael balans rhwng y gwahanol foddau o drafnidiaeth wrth ddethol y cwestiynau i'w hateb.

You will be aware of the service that goes from Carmarthen to London of course, but also of the service that goes across mid Wales from Carmarthen, namely the heart of Wales line. How do you intend to improve that service and encourage people to make use of it?

**The Deputy First Minister:** As it happens, I am hoping to have the opportunity to travel on the heart of Wales line sometime during the next three weeks. As I have had the pleasure of travelling on the Conwy valley line, I think that I should also get a taster of that service, too.

Carmarthen station has received considerable investment recently to secure improvements to it. If we want to make train travel more comfortable for people, we must improve the quality of the service, not only on the train itself, but at the station, too. Some investment has been made to make the station more user-friendly.

It is vital that we encourage people to travel by rail. You will realise, like everyone, that the Government, for the first time ever, is spending more on integrated transport this year, including public transport, than it is spending on roads. We should all welcome that.

**The Presiding Officer:** I thank the Deputy First Minister for replying to all the questions. I was endeavouring, as you will have realised, to strike a balance between the different modes of transport in selecting the questions to be answered.

## Datganiad am S4C Statement on S4C

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Yr wyf yn falch o gael gwneud datganiad heddiw am S4C. Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i ailadrodd cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i S4C. Mae'n darparu elfen hanfodol o wasanaeth darlledu cyhoeddus Prydain, ac mae'n ganolog i'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Yr ydym am sicrhau na fydd newidiadau i'w model cyllido presennol cyn i'r mater gael

**The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones):** I am pleased to be able to make a statement today on S4C. I am grateful for the opportunity to reiterate the Welsh Assembly Government's support for S4C. It provides an essential component of United Kingdom public service broadcasting and is at the heart of the creative industries in Wales. We are concerned to ensure that changes to its current funding model should only be



ystyriaeth briodol a chyn i'r ymgynghori priodol ddigwydd.

Mae rhaglenni teledu S4C yn ganolog i'n bywyd cyhoeddus. O'r dyddiau cynnar iawn, mae wedi dangos bod y genhadaeth darlledu cyhoeddus—i hysbysu, addysgu a diddanu—mor berthnasol a phwysig i wylwyr Cymraeg eu hiaith ag i wylwyr Saesneg eu hiaith. Wrth ddynesu at 30 mlynedd o ddarlledu, mae S4C wedi chwarae rhan flaenllaw yn hyrwyddo a diogelu'r iaith Gymraeg drwy ddod â hi i gartrefi pobl yn ddyddiol. Dilynwyd y model hwnnw yn yr Alban ac yn Iwerddon fel ffordd o hyrwyddo eu hieithoedd Celtaidd eu hunain.

Mae gan S4C ran allweddol i'w chwarae i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn parhau i oroesi. O ran hyn, nid darlledu yn unig yw ei swyddogaeth. Mae S4C yn helpu i sefydlu'r Gymraeg fel iaith fodern ac un sy'n rhan o fywyd bob dydd Cymru. Mae'n bywiogi'n hiaith, ac mae ei gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gyfraniad pwysig i'r dasg o gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Drwy ei rhaglenni ffeithiol, hanesyddol a chelf, mae S4C yn cyfoethogi ein diwylliant. Mae ganddi, a bydd ganddi o hyd, ran bwysig i'w chwarae wrth ddarparu'r weledigaeth a amlinellwyd yn strategaeth y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg.

Mae S4C hefyd wedi cyfrannu'n fawr at dwf sector annibynnol y cyfryngau ac at economi creadigol Cymru yn ehangach. Mae diwydiannau creadigol yn gwneud cyfraniad hanfodol i'n heconomi. Mae wedi ei gydnabod fel sector allweddol yn ein cynlluniau i arwain Cymru tuag at adferiad economaidd. Dyma'r rhaglen adnewyddu economaidd a gafodd ei chroesawu'n gynnes gan Ysgrifennydd Gwladol presennol Cymru.

Mae'n anodd diystyru cyfraniad S4C at feithrin ein sylfaen sgiliau ehangach yn ogystal â rhyddhau potensial creadigol. Mae'r Llywodraeth felly'n bryderus iawn am yr effaith ddiwylliannol ac economaidd pe byddai cyllid S4C yn cael ei dorri a chynnyrch y sianel yn lleihau.

This threat is not confined to S4C alone. Ofcom's recent communications market report records that, in 2009, the joint BBC

contemplated after appropriate consideration and consultation.

S4C's television programmes are at the heart of our public life. From their very earliest days, they have demonstrated that the public broadcasting mission to inform, educate and entertain is as relevant and important for Welsh-speaking viewers as it is to those viewing in English. In approaching 30 years of operation, S4C has played a leading role in promoting and safeguarding the Welsh language by bringing it into people's homes every day. This model has been followed in Scotland and Ireland as a way of promoting their own Celtic languages.

S4C has a key role to play in ensuring that the Welsh language continues to thrive. In that regard, its role is more than just as a broadcaster. S4C helps to establish Welsh as a modern language and as part of everyday life in Wales. It enlivens the language, and its services for children and young people make an important contribution to the task of increasing their use of Welsh. Through its factual, historical and cultural programmes, S4C enriches Welsh society. It has, and will continue to have, an important part to play in delivering the vision set out in the Government's strategy for the Welsh language.

S4C has also greatly contributed to the growth in the independent media sector and to Wales's wider creative economy. The creative industries make a vital contribution to our economy and have been recognised as a key sector in our plans to lead Wales to economic recovery. It is the same economic renewal programme that has been warmly welcomed by the current Secretary of State for Wales.

S4C's contribution both in building our wider skills base and releasing creative potential is difficult to underestimate. The Government is therefore very concerned about the cultural and economic impact should S4C's budget be cut and its output reduced.

Nid yw'r bygythiad hwn wedi'i gyfyngu i S4C yn unig. Mae adroddiad marchnad cyfathrebiadau diweddar Ofcom yn datgan,

and ITV spend on television services in Wales declined by no less than 16 per cent over the previous year and by an average of 11 per cent per annum over the five years since 2004. That represents a drop of £5 million, from £33 million to £28 million. In fact, the decline in spending for Wales is greater than that for any other nation in the UK. This Government has already raised that matter with ITV and the BBC Trust chairman, Michael Lyons, as the corporation continues with its strategic review. Thus, although broadcasting is not a devolved matter, it is of great importance to our people, our economy, and our culture.

I have written to the Secretary of State for Culture, Olympics, Media and Sport, Jeremy Hunt MP, to express concern over the £2 million-worth cut to S4C's budget announced earlier this year. I have sought reassurances that the cut will not result in S4C's funding falling below the amount calculated in the Broadcasting Act 1990, and I have asked for a meeting, which is to take place next week. In addition, the First Minister has written to the Secretary of State for Wales, outlining the Welsh Assembly Government's concerns in relation to S4C's financial situation.

We are aware that discussions have taken place between the Department for Culture, Media and Sport and S4C in relation to S4C's future budget. We believe that S4C should be treated similarly to other public service broadcasters in the discussions about its long-term future and financing. However, that must take place within the context of the arrangements that were set out and agreed under the Broadcasting Act.

Crëwyd S4C drwy statud i sicrhau sefydlogrwydd ac annibyniaeth hirdymor y sefydliad ac i osgoi ffraeo blynyddol ynghylch y Gymraeg. Mae ei dyletswyddau, ei chyfrifoldebau, a'i threfniadau cyllid wedi'u rhoi mewn Deddf am resymau da iawn. Ni ddylai'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ddewis anwybyddu ei dyletswyddau statudol tuag at y sianel, ac

yn 2009, bod gwariant y BBC ac ITV gyda'i gilydd ar wasanaethau teledu yng Nghymru wedi disgyn dim llai na 16 y cant dros y flwyddyn flaenorol ac roedd hynny'n gyfartaledd o 11 y cant y flwyddyn dros bum mlynedd er 2004. Mae hynny'n golygu gostyngiad o £5 miliwn, o £33 miliwn i £28 miliwn. A dweud y gwir, mae'r gostyngiad mewn gwariant yng Nghymru yn fwy nag mewn unrhyw wlad arall yn y DU. Mae'r Llywodraeth hon eisoes wedi codi'r mater hwnnw ag ITV a chadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, Michael Lyons, wrth i'r gorfforaeth barhau â'i hadolygiad strategol. Felly, er nad yw darlledu wedi'i ddatganoli, mae'n bwysig iawn i'n pobl, i'n heconomi ac i'n diwylliant.

Rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon, Jeremy Hunt AS, i fynegi pryder ynghylch y toriad gwerth £2 miliwn i gyllideb S4C a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Rwyf wedi gofyn am sicrwydd na fydd y toriad yn golygu bod cyllid S4C yn disgyn yn is na'r swm a gyfrifwyd yn Neddf Darlledu 1990, ac rwyf wedi gofyn am gyfarfod, a gynhelir wythnos nesaf. Ar ben hynny, mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn amlinellu pryderon Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â sefyllfa ariannol S4C.

Rydym yn gwybod bod trafodaethau wedi cael eu cynnal rhwng yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac S4C mewn perthynas â chyllideb S4C yn y dyfodol. Rydym yn credu y dylai S4C gael ei thrin yn debyg i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn y trafodaethau am ei dyfodol a'i chyllid yn y tymor hir. Fodd bynnag, rhaid i hynny ddigwydd yng nghydestun y trefniadau a gafodd eu gosod ac y cytunwyd arnynt dan y Ddeddf Darlledu.

S4C was created by statute to ensure the organisation's long-term stability and independence and to avoid annual wrangling over the Welsh language. Its duties, responsibilities, and its funding arrangements were laid down in law for very good reason. The Department for Culture, Media and Sport should not ignore its statutory obligations towards the channel, and neither can it forget

ni all ychwaith anghofio bod S4C yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus, nid yn adran o'r Llywodraeth neu'n gorff llywodraethol anadrannol.

that S4C is a public service broadcaster, not a Government department or a non-departmental government body.

3.10 p.m.

Os yw S4C i barhau i fodloni anghenion gwylwyr Cymru mewn hinsawdd ddarlledu fwyfwy cystadleuol, rhaid iddi barhau i fod yn ddiwylliannol unigryw. Mae'n hanfodol, er enghraifft, fod modd iddi gomisiynu rhaglenni uchelgeisiol fel *Pen Talar*, y gyfres ddrama newydd lwyddiannus. Gall wneud hynny ar yr amod bod ganddi ffynhonnell gyllid gynaliadwy. Mae S4C yn parhau i fod yn wasanaeth sy'n cael ei werthfawrogi gan ei chynulleidfia. Yr oedd yn arbennig o galonogol clywed yr wythnos diwethaf fod 1.4 miliwn o bobl wedi gwyllo rhaglenni S4C o ddigwyddiadau'r haf eleni, sef cynnydd o dros 40 y cant o'i gymharu â llynedd.

If S4C is to continue to meet the needs of Welsh viewers in an ever more competitive broadcasting landscape, it must continue to be culturally distinctive. It is essential, for example, that it should be able to commission ambitious programmes such as the new landmark drama series *Pen Talar*. It will be able to do so only if it is provided with a sustainable source of funding. S4C continues to be a service appreciated by its audience. It was particularly encouraging to hear last week that 1.4 million people had watched S4C's programmes from Wales's summer events this year, which is an increase of 44 per cent on last year.

Yr ydym i gyd yn ymwybodol o'r ffaith bod toriadau ar y ffordd. Fodd bynnag, yr wyf yn hynod bryderus am raddfa'r toriadau ariannol sy'n cael eu cynnig gan Lywodraeth Prydain, a'u heffaith ar wasanaethau ledled Cymru. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i ddadlau'r egwyddor na ddylai darlledu yn yr iaith Gymraeg gael ei drin yn llai ffafriol nag agweddau eraill o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Byddwn yn parhau i ddadlau nad yw'r egwyddorion y sefydlwyd S4C arnynt o dan y Ddeddf Darlledu wedi'u hanghofio ac na ddylid torri'r cytundeb hwn gyda phobl Cymru.

We all know that cuts are on their way. However, I am extremely concerned about the scale of the financial cuts being proposed by the UK Government, and their impact on services throughout Wales. The Welsh Assembly Government will continue to argue the principle that Welsh-language broadcasting should not be treated less favourably than the other aspects of public service broadcasting. We will continue to argue that the principles upon which S4C was established under the Broadcasting Act should not be abandoned and that this contract with the people of Wales not broken.

**Nick Bourne:** Diolch am y datganiad.

**Nick Bourne:** Thank you for the statement.

I am grateful for this opportunity to associate myself with a great deal of what you said. S4C was founded by the Conservatives and we see it as absolutely vital to the survival and promotion of the Welsh language, as the Minister has outlined. I pay particular tribute to the role of Lord Roberts of Conwy in that regard, with whom I have been speaking on this issue over the summer.

Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle hwn i ategu llawer iawn o'r hyn rydych chi wedi'i ddweud. Cafodd S4C ei sefydlu gan y Ceidwadwyr ac rydym o'r farn ei bod yn gwbl hanfodol ar gyfer goroesiad a hyrwyddo'r Gymraeg, fel y mae'r Gweinidog wedi'i amlinellu. Talaf deyrnged benodol i swyddogaeth yr Arglwydd Roberts o Gonwy ynghylch hynny. Rwyf wedi bod yn siarad ag ef ynghylch y mater hwn dros yr haf.

It is true to say that all areas of Government spending are under scrutiny, and we have had no specific proposals from DCMS as to the particular cuts that the S4C budget will bear.

Mae'n wir dweud bod gwariant pob maes mewn Llywodraeth dan y chwyddwydr, ac nid ydym wedi cael dim cynigion penodol gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau

I also associate myself with what the Minister said about the wider impact of broadcasting, in both the English and Welsh languages, and about the growth of creative industries, in Cardiff in particular but also elsewhere in Wales. It has been considerable and more significant than anywhere else in the United Kingdom, with the exception of London. That is a good thing and must be cherished.

The Minister referred to the threats of less spending in relation to both ITV and the BBC. He will be aware that Archie Norman has made a commitment to Wales; he has certainly made a commitment to Cheryl Gillan. I have also been in contact with him about programming in Wales. I very much welcome that. I am pleased that the Minister is in dialogue with the Secretary of State for Culture, Olympics, Media and Sport. He visited S4C when he was the shadow Minister and is aware of the good work that it does and its importance for Wales. Having spoken with the Secretary of State on this issue, most recently this morning, I know of the importance that she also attaches to this issue and of the work that she is doing to ensure that S4C is treated equitably and that its important role in safeguarding and promoting the language is guaranteed.

The Minister did not mention, but I think it relevant to mention here, the governance review at S4C. There are two separate issues here, but they are inevitably intertwined: the governance of S4C; and the review of Jon Shortridge, which I think is due next Thursday—at least that is when I think his six weeks are up. It will be interesting to see what that says and the impact that it will have on innovation, the continuing important role of S4C, and its approach to issues of governance. We look forward to the appointment of a permanent chief executive and to see the strategy that he or she will outline to take S4C forward into the future.

The Minister is right to outline these issues. Although the licence fee is being frozen,

a Chwaraeon ynghylch y toriadau penodol a ddaw i S4C. Rwyf hefyd yn ategu'r hyn ddywedodd y Gweinidog am effaith ehangach darlledu, yn Saesneg ac yn Gymraeg, ac am dwf diwydiannau creadigol, yng Nghaerdydd yn benodol ond mewn mannau eraill yng Nghymru hefyd. Mae wedi bod yn sylweddol ac yn fwy arwyddocaol nag unrhyw le arall yn y Deyrnas Unedig, ac eithrio Llundain. Mae hynny'n beth da ac mae angen ei gofleidio.

Cyfeiriodd y Gweinidog at fygythiadau llai o wariant mewn perthynas ag ITV a'r BBC. Bydd yn gwybod bod Archie Norman wedi gwneud ymrwymiad i Gymru; mae'n sicr wedi gwneud ymrwymiad i Cheryl Gillan. Rwyf hefyd wedi cysylltu ag ef ynghylch rhaglenni yng Nghymru. Rwyf yn croesawu hynny'n fawr iawn. Rwyf yn falch bod y Gweinidog yn cynnal deialog gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon. Bu'n ymweld ag S4C pan oedd yn Weinidog yr wrthblaid ac mae'n gwybod am y gwaith da mae'n ei wneud a'i phwysigrwydd i Gymru. Ar ôl siarad â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch y mater hwn, y bore hwn yn fwyaf diweddar, rwyf yn gwybod ei bod hi'n gweld hyn fel mater pwysig ac rwyf yn gwybod am y gwaith mae hi'n ei wneud i sicrhau bod S4C yn cael ei thrin yn deg a bod ei swyddogaeth bwysig o ran diogelu a hyrwyddo'r iaith yn cael ei gwarantu.

Nid oedd y Gweinidog wedi sôn, ond rwyf yn meddwl ei bod yn briodol sôn yma, am yr adolygiad llywodraethu yn S4C. Mae dau fater gwahanol yma, ond mae'r ddau yn cydblethu: llywodraethu S4C; ac adolygiad Jon Shortridge, rwyf yn meddwl y bydd hwn ar gael ddydd Iau nesaf—o leiaf rwy'n credu mai dyna pryd daw'r chwe wythnos i ben. Bydd yn ddiddorol gweld beth fydd hwnnw'n ei ddweud ac effaith hynny ar arloesi, a swyddogaeth bwysig barhaus S4C, a'i hagwedd at faterion sy'n ymwneud â llywodraethu. Edrychwn ymlaen at benodi prif weithredwr parhaol ac at weld y strategaeth y bydd ef neu hi yn ei hamlinellu i fynd ag S4C ymlaen i'r dyfodol.

Mae'r Gweinidog yn iawn i amlinellu'r materion hyn. Er bod ffi'r drwydded yn cael

BBC funding will increase because of the growth in the number of households; its revenue is, in a sense, protected. This is not true of S4C, however, which needs to be borne in mind in any discussions.

I wish the Minister well in his discussions with the Department for Culture, Media and Sport, and I reassure him that we too are in dialogue with the relevant people at Westminster on this important issue. We value the two languages of Wales, which are both indigenous to these islands; the Minister will know this from Paul Davies's reiteration yesterday of our belief that both languages should have official status. It is right that S4C should be treated equitably with other public sector broadcasters in the English language. The only question that I have—this is not so much a statement that provokes questions as one that advocates a joint approach—is to ask the Minister to respond to the Assembly, or to keep the Assembly informed, after the meeting with DCMS next week; I am sure that he will want to do that.

**Alun Ffred Jones:** Thank you for your comments, Nick. I appreciate the goodwill that you displayed in your statement, but I wish that I was as sanguine as you seem to be about the ongoing discussions. You mentioned that S4C should be treated equitably, and I think that that is the case that we are putting forward today regarding public broadcasters. The BBC has been given a period of time in which to try to bring forward a new structure and ideas about its future. That is why I believe that S4C should be treated in a similar manner; its future should not be decided in a few weeks or months, especially if some of the suggestions that we have been hearing unofficially about proposed cuts come to pass.

One thing that you did not mention in your statement is that one of your Assembly Members referred to S4C as another department of Government. S4C is certainly not a department of Government; that is why it was set up through statute. It is important

ei rhewi, bydd cyllid y BBC yn tyfu oherwydd y twf yn nifer y cartrefi. Mewn ffordd mae ei refeniw wedi cael ei ddiogelu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir i S4C, ac rwyf yn credu bod angen ystyried hynny mewn unrhyw drafodaethau.

Mae hefyd yn berthnasol inni longyfarch y sawl sy'n gweithio yn y maes hwn a thalu teyrnged iddynt, sef y meddygon, yr arbenigwyr, y nyrsys yn ogystal â'r nyrsys arbenigol yn y gwahanol adrannau. Dylem hefyd dalu teyrnged i'r elusen Bliss am ei gwaith arbennig yn cefnogi teuluoedd sy'n wynebu'r math o anawsterau sy'n cael eu holrhain yn yr adroddiad.

Yn naturiol, mae gofal newyddenedigol wedi newid dros y blynyddoedd. Pan oeddwn yn feddyg iau, nid oedd y fath arbenigedd yn bod, ac mae wedi datblygu'n raddol dros y blynyddoedd i fod yn isadran i arbenigedd iechyd plant. Gan mai arbenigedd ifanc ydyw, erys sawl sialens, gan gynnwys yr her o ddatblygu'r arbenigedd i'w lawn faint. Fel y dywedodd y Cadeirydd, mae babanod sy'n byw heddiw na fyddent wedi byw genhedlaeth yn ôl. Mae'r dechnoleg, y gallu meddygol a gallu arbenigol y nyrsys wedi camu ymlaen i'r fath raddau fel bod plant yn goroesi yn awr na fyddent wedi goroesi hyd yn oed 20 mlynedd yn ôl. Mae'n bwysig inni gofio hynny wrth edrych ar y gwasanaeth a sut y mae wedi datblygu dros y blynyddoedd.

Canolbwyntiaf ar yr argymhellion mwyaf pwysig, sef y rheini sy'n sôn am gapasiti'r staff arbenigol i ddarparu'r gwasanaeth. Bu inni glywed am hynny drosodd a throsodd yn y dystiolaeth, yn ogystal ag am y pryder ynglŷn â'r ffaith nad oes digon o nyrsys arbenigol yn yr arbenigedd newydd, sef neonatoleg, i edrych ar ôl ein plant mwyaf bregus. Yr wyf yn edrych, felly, ar

**David Lloyd:** I am delighted to contribute to this debate as a member of the Health, Wellbeing and Local Government Committee, particularly in order to talk about our report on the inquiry into neonatal care in Wales. As the Chair has just mentioned, there are a number of recommendations in the report. However, in essence, the committee considered matters such as funding and staffing, as well as matters such as bed occupancy levels in neonatal units, the transport service, as we heard, and neonatal standards for the whole of Wales, as the Chair has mentioned.

It is also appropriate for us to congratulate those who work in this area and pay tribute to them, namely the doctors, specialists, nurses as well as specialist nurses in various departments. We should also pay tribute to the charity Bliss for its excellent work in supporting families facing the kinds of difficulties that are outlined in the report.

Naturally, neonatal care has changed over the years. When I was a junior doctor, such a specialism did not exist, and it has developed gradually over the years to become a specialist division of paediatrics. Because it is a young specialty, several challenges remain, including the challenge of developing expertise to its full potential. As the Chair said, there are babies living today who would not have lived a generation ago. The technology, the medical expertise, and the specialist expertise of the nurses have progressed to such an extent that children who would not have survived even 20 years ago are now surviving. It is important that we remember that when looking at the service and the way in which it has developed over the years.

I will concentrate on the most important recommendations, namely those relating to the capacity of specialist staff to provide the service. We heard that over and over again in the evidence, as well as the concern about the lack of specialist nurses in the new specialty of neonatology to look after our most vulnerable children. I am looking, therefore, at recommendations 1, 2, 13 and 15, which

argymhellion 1, 2, 13 a 15 ynglŷn â sicrhau bod cynnydd yn nifer yr arbenigwyr yn y maes hwn, ac, yn benodol, fod cynnydd yn nifer y nyrsys arbenigol ar unedau gofal dwys i fabanod. Mae angen cynnydd hefyd yn nifer y gwelyau lle bydd y babanod bregus yn cael eu rhoi. Rhaid sicrhau bod gan y gwelyau hynny y nifer angenrheidiol o nyrsys i allu darparu'r gofal dwys angenrheidiol i'r babanod, a hynny yn ein canolfannau mwyaf, er mwyn osgoi neu leddfu rhai o'r problemau y soniodd y Cadeirydd amdanynt eisoes megis gorfod teithio am filltiroedd lawer a thrafnidiaeth yng nghanol y nos. Ceir anawsterau dybryd weithiau oherwydd amgylchiadau pan fydd pethau'n digwydd yn gyflym ac ar frys.

Gan fod y niferoedd yn codi wrth i fwy o fabanod gael eu geni, byddem yn disgwyl y byddai mwy o fabanod sâl iawn yn goroesi. Felly, bydd angen cynllunio'r ddarpariaeth ehangach, yn lle gadael pethau fel y maent. Fel y dywedodd y Cadeirydd, wrth i fwy o fabanod gael eu geni, byddem yn disgwyl gweld mwy o fabanod gyda'r problemau hyn. Mae angen cynllunio gwasanaeth cynhwysfawr lle mae pwyslais ar y staff arbenigol. Rhaid cynllunio'n arbennig ar gyfer hynny er mwyn sicrhau bod gennym yr arbenigwyr a'r nyrsys yn y maes. Gwn fod gwaith wedi cael ei wneud a bod arian wedi cael ei ddosrannu eisoes, ac, yn naturiol, fel pwyllgor, yr ydym yn croesawu hynny. Fodd bynnag, erys her sylweddol iawn, sef cael llawn degwch i'n babanod mwyaf bregus.

3.50 p.m.

**Andrew R.T. Davies:** I, too, welcome this committee report on this aspect of healthcare in Wales. The Petitions Committee is also looking at neonatal care at the Royal Glamorgan Hospital, but I am sure that the Minister is aware of that because we have corresponded with her on that. The detailed evidence that Bliss and other parties provided to the Health, Wellbeing and Local Government Committee greatly informed many of our opinions and recommendations. One of the most telling parts of the evidence was given by the professionals who attended committee and emphasised time and again how, instead of doing the job that they were trained and employed to do, they were crisis-

relate to the need to ensure an increase in the number of experts in this field, and, specifically, to ensure that there is an increase in the number of specialist nurses working in intensive care units for infants. There also needs to be an increase in the number of beds for vulnerable babies. It is vital that those beds have the necessary number of nurses to be able to provide intensive care to infants, in our largest centres, to avoid or mitigate some of the problems mentioned earlier by the Chair, such as having to travel long distances and transport in the middle of the night. There are sometimes serious difficulties due to circumstances when things happen quickly and urgently.

Because the numbers are rising as more babies are born, we would expect more babies who are very ill to survive. Therefore, it will be necessary to plan broader provision, instead of leaving things as they are. As the Chair said, as more babies are born, we would expect to see more babies with these problems. We need to design a comprehensive service with an emphasis on specialist staff. It is necessary to plan for that in order to ensure that we have the necessary specialists and nurses working in that field. I know that work has been done and that money has already been distributed, and, naturally, as a committee, we welcome that. However, significant challenges remain, namely providing the best opportunity for our most vulnerable babies.

**Andrew RT Davies:** Rwyf finnau hefyd yn croesawu'r adroddiad hwn gan y pwyllgor ar yr agwedd hon ar ofal iechyd yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Deisebau hefyd yn edrych ar ofal newyddenedigol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, ond rwyf yn siŵr bod y Gweinidog yn ymwybodol o hynny gan ein bod wedi gohebu â hi ynghylch hynny. Mae'r dystiolaeth fanwl a ddarparwyd gan Bliss a phartïon eraill i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol wedi cyfrannu'n sylweddol at lawer o'n safbwyntiau a'n hargymhellion. Cafodd un o elfennau mwyaf grymus y dystiolaeth ei chyflwyno gan y gweithwyr proffesiynol a oedd yn mynychu'r pwyllgor ac a bwysleisiodd dro ar ôl tro sut roeddent,

managing the situation and spending an inordinate amount of time on the phone, trying to locate cots and extra capacity in the system. I know that the Minister agrees with all of the recommendations, which I greatly welcome, but I hope that she will address that particular recommendation because, surely, we employ clinicians to be clinicians and not administrators. While they have a role to play in trying to facilitate access to certain healthcare services, we must offer them the support to ensure that they can do their job to the best of their abilities

The report also touches on the transport system. We spent a considerable amount of time looking at the ambulance service and the proposal that the Minister had brought forward on the 12-hour operation, which was due to be introduced in spring 2010, but which I am now led to believe will start in January 2011. I would be grateful if the Minister, in her response, could confirm that that is now the definitive timeline because we spent much time considering whether we should move as quickly as possible to the 24-hour cover. However, the committee reached the view that it was better to bed down the 12-hour operation and then, on the basis of evidence on how that worked, move on hopefully to 24-hour coverage. However, many people in the profession would greatly appreciate the timeline of January 2011 being confirmed.

Furthermore, many of our recommendations touched on the importance, quality and training of staff. I notice that, in recommendation 14, the Minister's response mentions the health board's responsibility in ensuring that neonatal nurses get the training and education that they require to execute their roles. I would be grateful if the Minister could confirm today that she is happy with the role that the local health boards are playing in providing that training and that support to neonatal nurses so that they can develop their careers and so that we have the highest professional standards in place to

yn hytrach na gwneud y gwaith y maent wedi'u hyfforddi a'u cyflogi i'w wneud, yn rheoli'r sefyllfa fel argyfwng ac yn treulio gormod o amser ar y ffôn, ac yn ceisio dod o hyd i gotiau a mwy o gapasiti yn y system. Gwn fod y Gweinidog yn cytuno â phob un o'r argymhellion, ac rwyf yn croesawu hynny'n fawr, ond gobeithio y bydd yn rhoi sylw i'r argymhelliad penodol hwnnw oherwydd, rwyf yn siŵr ein bod yn cyflogi clinigwyr i fod yn glinigwyr ac nid i fod yn weinyddwyr. Er bod ganddynt rôl i'w chwarae wrth geisio hwyluso mynediad at wasanaethau gofal iechyd penodol, mae'n rhaid inni gynnig cefnogaeth iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud eu gwaith hyd eithaf eu gallu.

Mae'r adroddiad hefyd yn sôn am y system gludo. Treuliom lawer o amser yn edrych ar y gwasanaeth ambiwlans a'r cynnig a gyflwynwyd gan y Gweinidog ynghylch y gwasanaeth 12 awr, y disgwyliad iddo gael ei gyflwyno yn ystod gwanwyn 2010 ond a fydd yn awr, yn ôl yr hyn a ddeallaf, yn dechrau ym mis Ionawr 2011. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog, yn ei hymateb, gadarnhau mai dyna yw'r amserlen derfynol yn awr oherwydd rydym wedi treulio llawer o amser yn ystyried a ddylem symud mor gyflym â phosibl at y gwasanaeth 24 awr. Fodd bynnag, daeth y pwyllgor i'r casgliad ei bod yn well mynd ati i wreiddio'r gwasanaeth 12 awr ac yna, ar sail y dystiolaeth ynghylch sut roedd hynny'n gweithio, symud ymlaen i'r gwasanaeth 24 awr gobeithio. Fodd bynnag, byddai llawer o bobl yn y proffesiwn yn gwerthfawrogi'n fawr pe bai mis Ionawr 2011 yn cael ei gadarnhau ar gyfer yr amserlen.

Hefyd, roedd llawer o'n hargymhellion yn sôn am bwysigrwydd, ansawdd a hyfforddiant staff. Yn argymhelliad 14, sylwaf fod ymateb y Gweinidog yn sôn am gyfrifoldeb y bwrdd iechyd i sicrhau bod nyrsys y newydd-anedig yn cael yr hyfforddiant a'r addysg y mae eu hangen arnynt i gyflawni eu swyddogaethau. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog gadarnhau heddiw ei bod yn fodlon â'r rôl y mae'r byrddau iechyd lleol yn ei chwarae yn y broses o ddarparu'r hyfforddiant hwnnw a'r gefnogaeth honno i nyrsys newydd-anedig, er mwyn iddynt allu datblygu eu gyrfaedd ac

staff our units to the highest level.

There is also the issue of discussing the development of neonatal nursing as a speciality with the Royal College of Nursing and the Royal College of Midwives. The Minister agrees that that should be done. Given that this report has been some time coming before Plenary because of the summer recess and so on, I would be pleased if, on recommendation 15, the Minister could highlight today whether that action has been undertaken. Is there active engagement with the relevant professions to ensure that people feel that they are on board and that these services will no longer have to be crisis-managed, which I, as a committee member, felt was the case in some areas in Wales?

The conception and birth of a child is one of the most rewarding experiences any parent can have and we owe it to society to put the best services in place so that, when things, sadly, do go wrong, we can provide the best possible care. As AMs, we hear frequently of people sadly having to travel great distances to access services. In fact, I was approached by a constituent the other day from my South Wales Central region who ended up having to access specialist care in Taunton. When you look at the hospitals with specialities in my region, one has to scratch one's head and wonder why people from South Wales Central are having to travel such distances to some of the more rural areas or where provision is not so great—that must be an even greater burden.

I hope that, following the recommendations in this report and given the fact that the Minister has agreed all of them, we can genuinely say that this report and the will of the Minister and the Government will lead to a step change in the delivery of these services for parents in Wales.

**Lynne Neagle:** I will start by emphasising the positives. I thank the committee for its hard work on this report, and I endorse its

er mwyn sicrhau bod y safonau proffesiynol uchaf ar waith i staffio ein hunedau i'r lefel uchaf.

Ceir hefyd y mater o drafod datblygiad nyrsio newyddenedigol fel arbenigedd gyda Choleg Brenhinol y Nyrsys a Choleg Brenhinol y Bydwagedd. Mae'r Gweinidog yn cytuno y dylid gwneud hynny. Gan y bu cryn aros i'r adroddiad hwn ddod gerbron y Cyfarfod Llawn oherwydd toriad yr haf ac ati, byddwn yn falch pe gallai'r Gweinidog ddweud heddiw a yw'r cam hwnnw wedi cael ei gymryd yng nghyswllt argymhelliaid 15. A ydych yn ymwneud yn weithredol â'r proffesiynau perthnasol i sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses ac na fydd rhaid ymdrin â'r gwasanaethau hyn fel argyfyngau fel roeddwn i, fel aelod o'r pwyllgor, yn teimlo oedd yn digwydd mewn rhai ardaloedd yng Nghymru?

Mae cenhedlu a geni plentyn yn un o'r profiadau mwyaf gwerthfawr y gall unrhyw riant ei gael, ac mae gennym ddyletswydd at gymdeithas i roi'r gwasanaethau gorau ar waith er mwyn inni allu, pan fydd pethau'n mynd o chwith yn anffodus, darparu'r gofal gorau posibl. Fel ACau, rydym yn clywed yn aml am bobl yn gorfod teithio pellteroedd maith i gael mynediad at wasanaethau. Yn wir, y diwrnod o'r blaen dywedodd etholwr yn fy rhanbarth i, Canol De Cymru, y bu'n rhaid iddo fynd i Taunton yn y pen draw i gael gofal arbenigol. Wrth edrych ar yr ysbytai ag arbenigeddau yn fy rhanbarth i, mae rhywun yn crafu ei ben ac yn meddwl pam ei bod yn rhaid i bobl o Ganol De Cymru deithio mor bell i ardaloedd mwy gwledig neu lle nad yw'r ddarpariaeth cystal—mae'n rhaid bod hynny'n fwy fyth o faich.

Yn dilyn argymhellion yr adroddiad hwn ac wrth ystyried y ffaith bod y Gweinidog wedi cytuno â phob un ohonynt, rwyf yn gobeithio y gallwn ddweud â'n llaw ar ein calon y bydd yr adroddiad hwn ac ewyllys y Gweinidog a'r Llywodraeth yn arwain at newid sylweddol yn y modd y darperir y gwasanaethau hyn ar gyfer rhieni yng Nghymru.

**Lynne Neagle:** Dechreuaf drwy bwysleisio'r pethau cadarnhaol. Diolch i'r pwyllgor am ei waith caled ar yr adroddiad hwn, ac rwyf yn

recommendations. The report recognises, rightly, that there has been some progress over the last few years. Once in place, the clinical network, the database, and the dedicated transport service will prove to be important developments that will make a big difference. I support the committee's view that they need to be brought on stream as quickly as possible. I also support the idea that a cot locator system should be established, and that we need to improve cross-border arrangements and work towards improving the integration of maternity and neonatal services.

Despite these positives, I find it frustrating that we still do not appear to be getting the basics right. Take the first three recommendations in the report, which talk about a review of staffing and capacity levels, assessing future demand by looking at birth rates, and ensuring capacity across all services to meet future demand. Surely, these are facts that should already be at the fingertips of everyone involved in commissioning and managing neonatal services in Wales. I simply do not understand how they can do the job properly without them.

Even more worrying, despite report after report, is the fact that we still do not appear to have the financial resources and staffing levels in place that would allow staff to deliver a first-class service to match their incredible commitment and capability. The nurses and clinicians at neonatal units in Wales are absolutely first class, let us make no mistake about that, but we are unfortunately still letting them down. You simply cannot send out a premiership team on second division resources and expect them to be able to deliver to the best of their ability. I know from recent conversations with staff at the Royal Gwent Hospital that they share these frustrations. Yes, they welcome and appreciate the innovations and the additional investment that we have seen in the past few years, but they are worried that too little of it is reaching the front line and that it leads to additional pressure being put on resources that are already stretched to breaking point. As Bliss has highlighted, this is the thirteenth report on neonatal services in

cefnogi ei argymhellion. Mae'r adroddiad yn cydnabod, a hynny'n briodol, y gwnaed rhywfaint o gynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar ôl eu sefydlu, bydd y rhwydwaith clinigol, y gronfa ddata a'r gwasanaeth cludo penodedig yn ddatblygiadau pwysig a fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr. Rwyf yn cefnogi barn y pwyllgor bod angen iddynt gael eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl. Rwyf hefyd yn cefnogi'r syniad y dylid sefydlu system dod o hyd i got, a bod angen inni wella trefniadau trawsffiniol a gweithio tuag at wella'r modd y caiff gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol eu hintegreiddio.

Er gwaethaf yr elfennau cadarnhaol hyn, rwyf yn teimlo'n rhwystredig ein bod yn dal i fethu â chael y pethau sylfaenol yn iawn. Edrychwch ar y tri argymhelliad cyntaf yn yr adroddiad, sy'n sôn am adolygiad o lefelau staffio a chapasiti, asesu galw yn y dyfodol drwy edrych ar gyfraddau genedigaethau, a sicrhau capasiti ar draws yr holl wasanaethau i gwrdd â'r galw yn y dyfodol. Siawns bod y rhain yn ffeithiau a ddylai fod ar flaenau bysedd pawb sy'n ymwneud â chomisiynu a rheoli gwasanaethau newyddenedigol yng Nghymru. Nid wyf yn deall sut y gallant wneud y gwaith yn iawn hebddynt.

Yr hyn sy'n achosi fwy byth o bryder, er gwaethaf adroddiad ar ôl adroddiad, yw'r ffaith nad oes gennym o hyd y lefelau staffio na'r adnoddau ariannol a fyddai'n galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i gyd-fynd â'u hymrwymiad a'u gallu anhygoel. Mae'r nyrsys a'r clinigwyr mewn unedau i'r newydd-anedig yng Nghymru yn ddiguro, nid oes dim amheuaeth am hynny, ond yn anffodus rydym yn dal i'w siomi. Ni allwch gynnal tîm uwch gynghrair ar adnoddau'r ail adran, a disgwyl iddynt allu cyflawni hyd eithaf eu gallu. Gwn o sgysiau diweddar gyda staff yn Ysbyty Brenhinol Gwent eu bod hwythau'n teimlo'n rhwystredig am hyn. Ydyn, maent yn croesawu ac yn gwerthfawrogi'r datblygiadau arloesol a'r buddsoddiad ychwanegol a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf, ond maent yn poeni nad oes digon ohono yn cyrraedd y rheng flaen a'i fod yn arwain at bwysau ychwanegol ar adnoddau sydd eisoes wedi'u hystyn i'r eithaf. Fel y dywedodd Bliss, dyma'r trydydd adroddiad ar ddeg ar

Wales to have been published in the last 30 years, and yet not one has seen its recommendations fully implemented. That is a damning statistic, but it also shows that the blame and responsibility does not lie at the door of any one Minister or Government. Collectively, consistently, and for decades, we have failed in our duty of care to the babies who need our help most. I find that a bitter pill to swallow, as a politician, but most of all as a Welsh mother who has experience of the neonatal care system. It cannot be right that we are still relying on agency nurses to cover the gap left by staff shortages. Nor can it be right that we still have neonatal units at the Royal Gwent and elsewhere running at 120 per cent of their capacity.

As I said at the start of my contribution, I know that much good work is under way to improve the state of neonatal care in Wales, and I appreciate that addressing long-term problems such as recruitment and training takes time, but we simply must now do everything we can to ensure that the resources and facilities are put in place as quickly as possible so that we can provide the first-class service that parents and their precious babies deserve.

**Kirsty Williams:** I would like to pick up where Lynne Neagle finished, because she is absolutely right to pinpoint the fact that, over the last 30 years, we have identified the issues within this particular service and we have had assurances from a variety of sources that these issues would be addressed. Nonetheless, we find ourselves once more talking about the fundamentals of getting this service right. It is five years since HCW identified as a priority the need to get a transport system to retrieve and transfer babies up and running. It is two years since this very Minister for health identified additional resources that would supposedly address these concerns. It is two years since this government published its own standards with regard to staffing levels and what mothers and babies can expect to receive should they find themselves in this situation.

wasanaethau newyddenedigol yng Nghymru i gael ei gyhoeddi yn ystod y 30 mlynedd diwethaf, ac eto, nid yw argymhellion dim un ohonynt wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn. Mae hwnnw'n ystadegyn damniol, ond mae hefyd yn dangos nad yw'n fai nac yn gyfrifoldeb ar un Gweinidog na Llywodraeth benodol. Gyda'i gilydd, rydym wedi methu'n gyson ers degawdau o ran ein dyletswydd i ofalu am y babanod sydd fwyaf angen ein help. Rwyf yn ei chael yn anodd derbyn hynny fel gwleidydd, ond yn bennaf fel mam yng Nghymru sydd â phrofiad o'r system gofal newyddenedigol. 'Does bosibl ei bod yn iawn ein bod yn dal i ddibynnu ar nyrsys asiantaeth i lenwi'r bwlch a adewir gan brinder staff. 'Does bosibl ei bod yn iawn ychwaith bod gennym unedau i'r newydd-anedig yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac mewn mannau eraill yn dal i weithredu ar 120 y cant o'u capasiti.

Fel y dywedais ar ddechrau fy nghyfraniad, gwn fod llawer o waith da ar y gweill i wella cyflwr gofal newyddenedigol yng Nghymru, ac rwyf yn gwerthfawrogi bod mynd i'r afael â phroblemau hirdymor fel recriwtio a hyfforddi yn cymryd amser, ond mae'n rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu yn awr i sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfleusterau yn cael eu sefydlu cyn gynted â phosibl er mwyn inni allu darparu'r gwasanaeth o'r radd flaenaf y mae rhieni a'u babanod yn ei haeddu.

**Kirsty Williams:** Hoffwn ddechrau lle y gorffennodd Lynne Neagle, oherwydd mae'n llygad ei lle wrth ddweud y ffaith ein bod, dros y 30 mlynedd diwethaf, wedi nodi'r problemau yn y gwasanaeth penodol hwn, ac mae amrywiaeth o ffynonellau wedi ein sicrhau y byddai'r materion hyn yn cael sylw. Er hynny, rydym unwaith eto'n sôn am hanfodion cael y gwasanaeth hwn yn iawn. Mae'n bum mlynedd ers i Gomisiwn Iechyd Cymru nodi bod yr angen i weithredu system gludo i gasglu a throsglwyddo babanod yn flaenoriaeth. Mae'n ddwy flynedd ers i'r union Weinidog dros Iechyd hwn ddynodi adnoddau ychwanegol a fyddai, yn ôl yr honiad, yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Mae'n ddwy flynedd ers i'r llywodraeth hon gyhoeddi ei safonau ei hun o ran lefelau staffio, a'r hyn y gallai mamau a babanod ddisgwyl ei gael pe baent yn y sefyllfa hon.

I do not doubt in the slightest the Minister's desire to do something about this—it makes a refreshing change to have a Minister accept the recommendations of a committee report. That does not happen often in this place, and I commend the Minister for doing so now. However, we are once again in danger of restating the problem and recommitting ourselves to do something about it, and I suspect that we could return to this issue in a year's time, in two years' time, or even in five years' time, and find that we will still be talking about the same things.

4.00 p.m.

The fact is that we do not have enough specially trained nurses, we do not have enough middle-grade doctors on the wards to assist the nurses in their particular roles, and we do not have enough cots that are open to provide care in Wales for babies and mothers who need it. I suspect that we will still be talking to constituents who find themselves in the hideous position of either being separated from their babies if they are taken to other units or having to travel many miles. Bristol is a mild case; it is not the furthest that people have to go. We have babies travelling to London, Manchester and Birmingham—wherever there is a centre. We have Welsh babies and mothers travelling to get that care. I have been fortunate enough to visit a number of units in Wales, and the most distressing case that I ever came across was a mother who sat by the cot of her premature baby in Cardiff while her husband and the baby's twin were in another unit many miles away, and a third child was at home staying with grandparents. You cannot even begin to imagine the circumstances in which that family found itself. We can, and must, do better for Wales's youngest and most vulnerable patients. I appreciate that we now have another date for the transfer and retrievals transport system, and I would like to hear from the Minister today that this is a final commitment to getting that service up and running.

Nid wyf yn amau o gwbl ddymuniad y Gweinidog i wneud rhywbeth am hyn—mae'n braf cael Gweinidog yn derbyn argymhellion adroddiad pwyllgor am newid. Nid yw hynny'n digwydd yn aml yn y lle hwn, ac rwyf yn canmol y Gweinidog am wneud hynny yn awr. Fodd bynnag, rydym unwaith eto mewn perygl o ailddatgan y broblem ac ailymrwymo ein hunain i wneud rhywbeth am y peth, ac rwyf yn amau y gallem ddychwelyd at y mater hwn ymhen blwyddyn, ymhen dwy flynedd, neu hyd yn oed ymhen pum mlynedd, a chanfod ein bod yn dal i sôn am yr un pethau.

Y ffaith yw, nid oes gennym ddigon o nyrsys sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig, nid oes gennym ddigon o feddygon graddfa ganol ar wardiau i gynorthwyo'r nyrsys gyda'u swyddogaethau penodol, ac nid oes gennym ddigon o gotiau i ddarparu gofal yng Nghymru ar gyfer babanod a mamau y mae angen y gofal hwnnw arnynt. Rwyf yn amau y byddwn yn dal i siarad ag etholwyr sydd yn y sefyllfa erchyll o naill ai fod wedi'u gwahanu oddi wrth eu babanod os byddant yn mynd i unedau eraill, neu'n gorfod teithio milltiroedd lawer. Mae Bryste yn achos cymedrol; nid dyma'r pellaf y mae'n rhaid i bobl deithio. Mae gennym fabanod yn teithio i Lundain, Manceinion a Birmingham—lle bynnag y ceir canolfan. Mae gennym fabanod a mamau yng Nghymru sy'n teithio i gael y gofal hwnnw. Rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i ymweld â nifer o unedau yng Nghymru, a'r achos mwyaf pryderus i mi ddod ar ei draws erioed oedd mam a oedd yn eistedd ger cot ei babi a oedd wedi'i eni'n gynnar yng Nghaerdydd tra oedd ei gŵr a gefell y babi mewn uned arall filltiroedd lawer i ffwrdd, ac roedd trydydd plentyn gartref yn aros gyda'i nain a'i daid. Ni allwch hyd yn oed ddechrau dychmygu amgylchiadau'r teulu hwnnw. Gallwn, ac mae'n rhaid inni wneud yn well er mwyn cleifion ieuengaf a mwyaf agored i niwed Cymru. Rwyf yn gwerthfawrogi bod gennym ddyddiad arall ar gyfer y system gludo i drosglwyddo a chasglu babanod erbyn hyn, a hoffwn glywed gan y Gweinidog heddiw bod hwn yn ymrwymiad terfynol i fynd ati i roi'r gwasanaeth hwnnw ar waith.



We all know how difficult the financial situation is, and often local health boards and commissioners respond to what is put at the forefront because of political desires to get things done. We have to put this service at the front. I know that it is difficult to monitor, because you cannot have a waiting list for maternity services and you cannot judge people easily on their performance, but this problem will not go away. Welsh women will continue to have premature and full-term sick babies. In fact, the demand for this service will grow. Even within these constrained budgets, we have to focus commissioners' and service providers' minds by saying that this is a service that we, as politicians, value and demand that they do better.

I will finally address the issue of the holistic care of parents who find themselves in this situation. Some of the changes required to improve the service and the support offered do not require a great deal of money. These include, for example, the simple provision of a comfortable chair on which to kangaroo care for your child, rather than a hard-back office chair, private rooms where you can breast feed your baby, and the possibility of staying with your baby if you were to find yourself living many miles from the hospital or if you had a particularly sick baby. Some of these provisions do not require significant amounts of money, but can make a huge difference to mothers and fathers who find themselves in this distressing situation.

Last summer, we had a Liberal Democrat debate on neonatal services and we received assurances, once again, that things would change and get better. Let us not leave it yet another year. Let there not be need for yet another report before we can finally say that we are providing the best possible care for our youngest and most vulnerable citizens.

**Val Lloyd:** Both personally and as a member of the committee, I am very pleased to be

Mae pob un ohonom yn gwybod pa mor anodd yw'r sefyllfa ariannol, ac yn aml mae byrddau iechyd lleol a chomisiynwyr yn ymateb i'r hyn sydd ar frig y rhestr oherwydd dyheadau gwleidyddol i gyflawni pethau. Rhaid inni roi blaenoriaeth i'r gwasanaeth hwn. Gwn ei fod yn anodd ei fonitro, oherwydd ni allwch gael rhestr aros ar gyfer gwasanaethau mamolaeth ac ni allwch farnu pobl ar eu perfformiad yn hawdd iawn, ond ni fydd y broblem hon yn diflannu. Bydd menywod yng Nghymru yn dal i gael babanod cynamserol a babanod amser llawn sy'n sâl. Yn wir, bydd mwy o alw am y gwasanaeth hwn. Hyd yn oed o fewn y cyllidebau cyfyngedig hyn, mae'n rhaid inni fynnu sylw comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau drwy ddweud bod hwn yn wasanaeth rydym ni, fel gwleidyddion, yn gweld gwerth ynddo ac yn mynnu eu bod yn gwneud yn well.

I gloi, byddaf yn rhoi sylw i ofal holistaidd ar gyfer rhieni sydd yn y sefyllfa hon. Nid oes angen llawer o arian ar gyfer rhai o'r newidiadau sy'n angenrheidiol y mae angen eu gwneud i wella'r gwasanaeth a'r gefnogaeth a gynigir. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, darparu cadair gyfforddus i ofalu am eich plentyn yn y dull cangarŵ, yn hytrach na chadair swyddfa â chefn caled, ystafelloedd preifat lle gallwch fynd i fwydo eich babi ar y fron, a'r posibilrwydd o aros gyda'ch babi pe baech yn byw filltiroedd lawer o'r ysbyty neu pe bai eich babi yn sâl iawn. Nid oes angen symiau sylweddol o arian ar gyfer rhai o'r darpariaethau hyn, ond gallant wneud gwahaniaeth enfawr i famau a thadau sydd yn y sefyllfa anodd hon.

Yr haf diwethaf, cawsom ddadl gan y Democratiaid Rhyddfrydol ar wasanaethau newyddenedigol a chawsom sicrwydd, unwaith eto, y byddai pethau'n newid ac yn gwella. Gadewch inni beidio â gadael i flwyddyn arall fynd heibio. Gadewch inni wneud yn siŵr na fydd angen adroddiad arall eto cyn y gallwn ddweud ein bod, o'r diwedd, yn darparu'r gofal gorau posibl i'n dinasyddion ieuengaf a mwyaf agored i niwed.

**Val Lloyd:** Yn bersonol ac fel aelod o'r pwyllgor, rwyf yn falch iawn o gael

asked to contribute to this debate. Of the 33,000 babies born in Wales every year, it is estimated that around 3,800 are admitted to one of Wales's 13 neonatal care units at some point in the year. This equates to roughly one in nine babies, but with a growing overall birth rate in Wales since 2001, and an increase in low-weight births, this number looks set to increase, so there will be an even greater problem to address.

In the vast majority of cases, mothers and babies can expect to receive first-class care when at a neonatal unit. However, the evidence received by the committee points to understaffed neonatal units that operate above their recommended capacity levels. In some cases, as we have heard from many speakers, this has led to mothers and babies being transferred long distances to other neonatal units in Wales and elsewhere. This difficulty is not unique to Wales, and it is not that I am being complacent, because the problem has to be dealt with, but I am simply pointing out that, unfortunately, England too has the same difficulties.

The report also indicates that there are staffing difficulties in neonatal units, along with problems in recruiting neonatal doctors and staff who have the very necessary, highly specialised and specific skills. I know that you all subscribe to the idea that all babies deserve the best start in life, and the committee's report makes a number of important recommendations in relation to the neonatology service, many of which have already been mentioned. However, I will comment on recommendation 4, which highlights the need for the Welsh Assembly Government to ensure that staffing ratio guidelines are met in order to comply with the British Association for Paediatric Nephrology's 2001 minimum standards as well as the all-Wales neonatal standards. It is essential that these staffing levels are met to ensure that the very best care is given to newborn babies. However, this should not be achieved through a reduction in cot numbers,

gwahoddiad i gyfrannu at y ddadl hon. O blith y 33,000 o fabanod sy'n cael eu geni yng Nghymru bob blwyddyn, amcangyfrifir bod tua 3,800 yn cael eu hanfon i un o 13 o unedau gofal newyddenedigol Cymru ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb yn fras i oddeutu un babi o bob naw, ond gyda'r cynnydd cyffredinol yn y gyfradd genedigaethau yng Nghymru er 2001, a chynnydd yn nifer y babanod â phwysau geni isel, disgwylir i'r nifer hwn gynyddu, ac felly bydd angen mynd i'r afael â phroblem fwy byth.

Yn y mwyafrif llethol o achosion, gall mamau a babanod ddisgwyl cael gofal o'r radd flaenaf pan fyddant mewn uned i'r newydd-anedig. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gafodd y pwyllgor yn cyfeirio at unedau i'r newydd-anedig heb ddigon o staff sy'n gweithredu uwchlaw'r lefelau capasiti a argymhellir ar eu cyfer. Mewn rhai achosion, fel rydym wedi clywed gan nifer o siaradwyr, mae hyn wedi arwain at famau a babanod yn cael eu trosglwyddo bellteroedd maith i unedau eraill i'r newydd-anedig yng Nghymru a thu hwnt. Nid yw'r anhawster hwn yn unigryw i Gymru, ac nid wyf yn bod yn hunanfodlon oherwydd mae'n rhaid mynd i'r afael â'r broblem, ond rwyf yn dweud yn syml bod gan Loegr yr un anawsterau hefyd yn anffodus.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi y ceir problemau staffio mewn unedau i'r newydd-anedig, ynghyd â phroblemau recriwtio meddygon a staff newydd-anedig sydd â'r sgiliau penodol ac arbenigol iawn sy'n gwbl angenrheidiol. Gwn fod pob un ohonoch yn cytuno â'r syniad fod pob babi yn haeddu'r dechrau gorau mewn bywyd, ac mae adroddiad y pwyllgor yn gwneud nifer o argymhellion pwysig mewn perthynas â'r gwasanaeth neonatoleg, ac mae llawer ohonynt eisoes wedi cael eu crybwyll. Fodd bynnag, gwnaf sylwadau am argymhelliad 4, sy'n pwysleisio'r angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod y canllawiau ynghylch cymarebau staffio yn cael eu bodloni er mwyn cydymffurfio â safonau sylfaenol 2001 y Gymdeithas Brydeinig ar gyfer Arenneg Bediatrig yn ogystal â'r safonau newyddenedigol Cymru gyfan. Mae'n hanfodol bod y lefelau staffio hyn yn cael eu cyflawni er mwyn sicrhau bod y

especially in view of the growing birth rate, the increasing number of premature births, and the ever-lower birth weights of babies who are surviving thanks to the dedicated care and skills of staff. Those who work in neonatal units have very specific skills and are continually pushing forward the boundaries of care, as Dai has said. Like him, many years ago—more than we both probably care to remember—I worked in a unit that was then called ‘special baby care’, and I could only dream of the advances that have been made, which would have benefitted many of the babies whom I had the privilege of nursing.

When a baby is born prematurely, it can be a very difficult and stressful time for the family. It is, therefore, unsurprising that families are placed under extra financial, emotional and practical pressure when babies are transferred between units. It has been highlighted already that the process is sometimes like a checkerboard of trying to match babies to the skills that are available. With the movement from level 2 to level 3 care, one might say that it is almost like hopscotch or snakes and ladders, without meaning to belittle the problem. Recommendations 10 and 11 acknowledge these problems, and support the need for a dedicated neonatal transport service to be operational as soon as possible. A dedicated system, as proposed, will help to alleviate some of the pressure, ensure the safer transfer of vulnerable babies and better meet the needs of the babies and their families. Of course, recommendation 11 goes on to endorse the proposal that there should be a dedicated 12-hour transport service and should it prove to be effective—as I am sure that it will be—consideration should be given to setting up a 24-hour service. I know that that would be very valuable and of further benefit to families and babies. More babies are born at night than during the day. Unplanned pregnancies, or rather unplanned deliveries—not unplanned pregnancies as we are further on in the process than that—tend to happen at night, as planned caesareans

babanod newydd-anedig yn cael y gofal gorau. Fodd bynnag, ni ddylid cyflawni hyn drwy leihau nifer y cotiau, yn enwedig o ystyried y cynnydd yn y gyfradd genedigaethau, nifer cynyddol y genedigaethau cynamserol, a'r babanod â phwysau geni is ac is sy'n goroesi, diolch i sgiliau a gofal ymroddgar y staff. Mae'r rheini sy'n gweithio mewn unedau i'r newydd-anedig yn meddu ar sgiliau penodol iawn ac yn gwrthio ffiniau gofal yn barhaus, fel y mae Dai wedi'i ddweud. Flynyddoedd lawer yn ôl—fwy na hoffai'r ddau ohonom ei gydnabod mae'n siŵr—roeddwn i, fel yntau, yn gweithio mewn uned a elwid ar y pryd yn uned 'gofal arbennig i fabanod', ac ni allwn ond fod wedi breuddwydio am y datblygiadau sydd wedi cael eu gwneud, a fyddai wedi bod o fudd i lawer o'r babanod y cefais y fraint o'u nyrsio.

Pan fydd babi'n cael ei eni cyn amser, gall fod yn gyfnod anodd iawn ac yn llawer o straen ar y teulu. Felly, nid yw'n syndod bod teuluoedd yn cael eu rhoi o dan bwysau ychwanegol yn ariannol, yn emosiynol ac yn ymarferol pan fydd babanod yn cael eu trosglwyddo rhwng unedau. Soniwyd eisoes bod y broses fel gêm o wyddbwyll weithiau, wrth geisio cyfateb babanod i'r sgiliau sydd ar gael. Gyda'r symud o ofal lefel 2 i lefel 3, gellid dweud ei bod bron fel gêm o hopsgots neu nadroedd ac ysgolion, heb geisio dibrisio'r broblem. Mae argymhellion 10 ac 11 yn cydnabod y problemau hyn, ac yn cefnogi'r angen i wasanaeth penodedig i gludo babanod newydd-anedig fod yn weithredol cyn gynted ag y bo modd. Bydd system benodedig, fel y bwriedir, yn helpu i leddfu rhywfaint o'r pwysau, yn sicrhau bod babanod agored i niwed yn cael eu trosglwyddo'n fwy diogel, ac yn diwallu anghenion y babanod a'u teuluoedd yn well. Wrth gwrs, mae argymhelliad 11 yn mynd ymlaen i gymeradwyo'r cynnig y dylid cael gwasanaeth cludo 12 awr penodedig, a phe bai'n effeithiol—fel rwyf yn siŵr y bydd—y dylid ystyried sefydlu gwasanaeth 24 awr. Gwn y byddai hynny'n werthfawr iawn ac o fudd pellach i deuluoedd a babanod. Mae mwy o fabanod yn cael eu geni yn ystod y nos nag yn ystod y dydd. Mae beichiogrwydd heb ei gynllunio, neu enedigaethau heb eu cynllunio yn hytrach—nid beichiogrwydd heb ei gynllunio, gan ein bod yn nes ymlaen

happen during the day. I am getting in a knot, but my heart is in the right place. [*Laughter.*]

I welcomed the news that was first announced in 2008—Kirsty touched on this—that the Welsh Assembly Government would be providing additional investment of £2 million each year to neonatal services. That investment has assisted in improving the service already. There is more to do, but the situation has been improved as a result of the managed clinical network and will be improved further by the forthcoming transport service. Like everyone else, I look forward to seeing these improvements to neonatal services in Wales in place, because they will better meet the needs of babies and parents.

**William Graham:** I broadly welcome the report and the Assembly Government's response to the Health, Wellbeing and Local Government Committee's report on neonatal care. Over a year ago, the special baby care charity, Bliss, highlighted in its annual report how overstretched and understaffed neonatal services in Wales were, especially in south-east Wales. As the chief executive of Bliss commented, amazing care is being provided to premature and sick babies and their families at the Royal Gwent Hospital every day, but doctors and nurses are increasingly being stretched to the limit. It is to the Minister for health's credit that she acted to address many of the well-documented problems that affected the Royal Gwent's maternity ward, some of which spilled over into the neonatal ward.

4.10 p.m.

I must pay particular tribute to the Minister on this point, because she listened to representations made by me, Rosemary Butler, John Griffiths and the other half of the German partnership at that time, instructed her officials, and a very clear and obvious outcome came about. She should be

yn y broses na hynny—yn tueddu i ddigwydd yn ystod y nos, gan fod genedigaethau Cesaraid wedi'u cynllunio yn digwydd yn ystod y dydd. Rwyf yn mynd i glymau, ond mae fy nghalon yn y lle iawn. [*Chwerthin.*]

Roeddwn yn croesawu'r newyddion a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 2008—soniodd Kirsty yn fras am hyn—y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu buddsoddiad ychwanegol o £2 miliwn bob blwyddyn i wasanaethau newyddenedigol. Mae'r buddsoddiad hwnnw eisoes wedi helpu i wella'r gwasanaeth. Mae angen gwneud rhagor, ond mae'r sefyllfa wedi gwella o ganlyniad i'r rhwydwaith clinigol a reolir, a bydd yn gwella ymhellach yn sgîl y gwasanaeth cludo sydd ar y gweill. Rwyf fi, fel pawb arall, yn edrych ymlaen at weld y gwelliannau hyn yn cael eu rhoi ar waith mewn gwasanaethau newyddenedigol yng Nghymru, gan y byddant yn diwallu anghenion babanod a rhieni yn well.

**William Graham:** Ar y cyfan, rwyf yn croesawu'r adroddiad ac ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar ofal newyddenedigol. Dros flwyddyn yn ôl nododd Bliss, yr elusen gofal arbennig i fabanod, yn ei adroddiad blynyddol fod gwasanaethau newyddenedigol yng Nghymru o dan ormod o bwysau ac nad oes ganddynt ddigon o staff, yn enwedig yn y de-ddwyrain. Fel y dywedodd prif weithredwr Bliss, mae gofal anhygoel yn cael ei ddarparu i fabanod cynamserol a babanod sâl a'u teuluoedd yn Ysbyty Brenhinol Gwent bob dydd, ond mae meddygon a nyrsys yn cael eu gwthio fwyfwy i'r eithaf. Mae'n glod i'r Gweinidog dros Iechyd ei bod wedi gweithredu i fynd i'r afael â llawer o'r problemau hysbys a oedd yn effeithio ar ward mamolaeth Ysbyty Brenhinol Gwent, gyda rhai ohonynt wedi lledaenu i'r ward newydd-anedig.

Rhaid imi ganmol y Gweinidog yn fawr ar y pwynt hwn, gan ei bod wedi gwrandao ar y sylwadau a wnaed gennyf fi, Rosemary Butler, John Griffiths a hanner arall y bartneriaeth German ar y pryd. Rhoddodd gyfarwyddiadau i'w swyddogion, a chafwyd canlyniad clir ac amlwg iawn. Dylid ei

commended for that. However, the report makes clear that there remains considerable scope for improvement in neonatal care. The observation made by Bliss in point 46 of the report that, in many respects, neonatal services in Wales do not match up to those in other parts of the United Kingdom is particularly eye-catching and concerning. The account that Dr Mark Drayton gave in point 56 about the balancing act he has to perform when there is no spare capacity on his ward of ringing round for spare beds at other locations while simultaneously receiving requests to accept a baby from colleagues at another hospital is similarly worrying.

With this point in mind, the Assembly Government must monitor the impact of the requirement that there is 95 per cent bed occupancy. Therefore, there is only 5 per cent capacity available for new admissions and emergencies. The fact that 14 consultants are monitoring the neonatal beds in the Aneurin Bevan Local Health Board area has the potential to lead to even more cases of the chronic situation that Dr Drayton and other Members today have described. The Government's agreeing to the 18 recommendations is welcome news in the light of the rising birth rate and the findings of the 2009 birth in Wales survey that 7.2 per cent of live births last year were recorded as having a low birth weight. Parents throughout south-east Wales can attest to the quality of neonatal care and the diligence of the staff at the Royal Gwent, a situation largely echoed throughout Wales. Indeed, owing to charitable fundraising, some of the equipment used exceeds what the NHS provides.

The implementation of the committee's recommendations and the new integrated approach to be outlined in the forthcoming report from the Minister will address many of the committee's concerns, although there will clearly be considerable future challenges for the Minister and health bodies at a time of restricted public spending.

chanmol am hynny. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn dweud yn glir bod llawer o le i wella ym maes gofal newyddenedigol o hyd. Mae'r sylw a wnaed gan Bliss ym mhwynt 46 o'r adroddiad nad yw gwasanaethau newyddenedigol yng Nghymru, ar lawer ystyr, cystal â'r rheini mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, wedi hoelio fy sylw ac yn peri pryder. Mae'r adroddiad a roddodd Dr Mark Drayton ym mhwynt 56 am y cydbwysedd y mae'n rhaid iddo ei sicrhau pan nad oes lle gwag ar ei ward drwy ffonio i holi am welyau gwag mewn lleoliadau eraill, a derbyn ceisiadau i dderbyn babi gan gydweithwyr mewn ysbyty arall ar yr un pryd, hefyd yn peri pryder.

Gyda hyn mewn cof, mae'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad fonitro effaith y gofyniad mai 95 y cant o welyau sy'n cael eu defnyddio. Felly, dim ond pump y cant o welyau sydd ar gael ar gyfer babanod newydd a fydd yn cael eu hanfon i'r ysbyty ac argyfyngau. Gallai'r ffaith bod 14 ymgynghorydd yn monitro'r gwelyau newyddenedigol yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan arwain at hyd yn oed mwy o achosion o'r sefyllfa gronig y mae Dr Drayton ac Aelodau eraill wedi ei disgrifio heddiw. Mae'r ffaith bod y Llywodraeth wedi cytuno â 18 o'r argymhellion yn newyddion da wrth ystyried y cynnydd yn y gyfradd genedigaethau, a chanfyddiadau arolwg genedigaethau yng Nghymru 2009 bod 7.2 y cant o enedigaethau byw y llynedd wedi'u cofnodi â phwysau geni isel. Gall rhieni ym mhob rhan o'r de-ddwyrain dystio i ansawdd y gofal newyddenedigol ac ymroddiad y staff yn Ysbyty Brenhinol Gwent, sefyllfa sy'n cael ei hategu drwy Gymru gyfan i raddau helaeth. Yn wir, o ganlyniad i waith codi arian elusennol, mae rhywfaint o'r offer a ddefnyddir yn well na'r hyn y mae'r GIG yn ei ddarparu.

Bydd gweithredu argymhellion y pwyllgor a'r ymagwedd integredig newydd a gaiff ei hamlinellu yn adroddiad arfaethedig y Gweinidog yn mynd i'r afael â llawer o bryderon y pwyllgor, er mae'n amlwg y bydd heriau sylweddol yn wynebu'r Gweinidog a chyrff iechyd yn y dyfodol, mewn cyfnod o gyfyngu gwariant cyhoeddus.

**The Minister for Health and Social Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau**

**Services (Edwina Hart):** I wish to begin by placing on record my thanks to the committee for this report and for the opportunity to respond positively by accepting all the recommendations. First, I share very much the frustration expressed by Lynne Neagle and Kirsty Williams about the slow progress or lack of progress in some areas on delivery on some aspects of this care agenda. I must say that it is sometimes not down to a lack of trying, but a case of trying to get the necessary agreement and so on within the service to proceed. I hope very much that the committee report, together with today's debate, demonstrates that there is excellent cross-party support for the service to really start delivering what is required for these young people when they are born, because all babies deserve the best possible start in life. We all know that the care required by premature babies can have a profound effect on the rest of their lives. I am not just talking about when something happens; it can mean development issues for them and can affect how their health issues are governed for the rest of their lives.

So, when we launched the all-Wales neonatal standards in 2008, I stated that the best investment we can make in the future is ensuring that high-quality and equitable services are provided for children and young people, and that is still my belief today. That is why I welcome the committee's report and the opportunity to set out what we are doing to provide an effective and efficient neonatal service across Wales. The report's recommendations fit very closely with my direction of travel, and I am pleased to accept them. I am pleased that I have the committee's support for taking forward this work. The neonatal service improvement is set within the context of the maternity strategy, which the Public Accounts Committee, in its report published in February 2010, recommended should be developed by December 2010. That strategy will establish a single, common integrated approach that will also cover midwifery, obstetrics and paediatric in-patient services. That covers some of the points that William went into, to do with dealing with some of

**Cymdeithasol (Edwina Hart):** Hoffwn ddechrau drwy ddiolch ar goedd i'r pwyllgor am yr adroddiad hwn, ac am y cyfle i ymateb yn gadarnhaol drwy dderbyn yr holl argymhellion. Yn gyntaf, rwyf finnau yn rhannu'r rhwystredigaeth a fynegwyd gan Lynne Neagle a Kirsty Williams am y cynnydd araf neu'r diffyg cynnydd, mewn rhai ardaloedd, i gyflawni rhai o elfennau'r agenda gofal hon. Rhaid dweud nad diffyg ymdrech sydd wrth wraidd hynny weithiau, ond y broses o geisio cael y cytundeb angenrheidiol ac ati yn y gwasanaeth i fwrw ymlaen. Rwyf yn gobeithio'n fawr fod adroddiad y pwyllgor, ynghyd â'r ddadl heddiw, yn dangos y ceir cefnogaeth drawsbleidiol wych ar gyfer y gwasanaeth i ddechrau mynd ati o ddifrif i gyflawni'r hyn sydd ei angen ar y bobl ifanc hyn pan fyddant yn cael eu geni, oherwydd mae pob babi'n haeddu'r dechrau gorau posibl mewn bywyd. Rydym i gyd yn gwybod bod y gofal y mae ei angen ar fabanod cynamserol yn gallu cael effaith ddifrifol ar weddill eu bywydau. Nid dim ond pan fydd rhywbeth yn digwydd rwyf yn ei olygu; gall olygu problemau datblygu a gall effeithio ar y modd y bydd eu materion iechyd yn cael eu rheoli am weddill eu bywydau.

Felly, pan lansiom safonau newyddenedigol Cymru gyfan yn 2008, dywedais mai'r buddsoddiad gorau y gallwn ei wneud yn y dyfodol yw sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel a theg yn cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc, ac rwyf yn dal i gredu hynny heddiw. Dyna pam fy mod yn croesawu adroddiad y pwyllgor, a'r cyfle i amlinellu'r hyn rydym yn ei wneud i ddarparu gwasanaeth newyddenedigol effeithiol ac effeithlon ledled Cymru. Mae argymhellion yr adroddiad yn cyd-fynd yn agos iawn â'r llwybr y bwriadaf ei ddilyn, ac rwyf yn falch o gael eu derbyn. Rwyf yn falch fy mod yn cael cefnogaeth y pwyllgor i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Mae'r gwelliannau i'r gwasanaeth newyddenedigol wedi'u gosod yng nghyd-destun y strategaeth mamolaeth y dyldid, yn ôl argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2010, eu datblygu erbyn mis Rhagfyr 2010. Bydd y strategaeth honno'n sefydlu un dull gweithredu integredig a chyffredin a fydd hefyd yn cynnwys gwasanaethau

the issues around maternity services in the Royal Gwent and how those link into other service provision.

Progress has been made on implementing many of the recommendations in the committee's report, including the establishment of the neonatal clinical network. The lead clinician, Dr Mark Drayton, who has already been mentioned today, from Cardiff and Vale NHS Trust, has been appointed. He has visited all the neonatal units in Wales to discuss the role of the network in undertaking an initial assessment of capacity on demand. Judging from the evidence that he gave to the committee and the fact that he was mentioned in the debate today, the committee has every confidence in him and what he said about the development of services.

In parallel, the appointment of network managers is expected this month. The work programme for the clinical network will be overseen by a steering group that will be reporting to the Welsh health specialised services committee board, which is meeting today for the first time. It will agree on terms of reference and membership, together with an initial outline work programme. The network will be required to produce a plan by December 2010 that demonstrates how individual local health boards will deliver the all-Wales neonatal standards, because the delivery of the standards is the responsibility of each local health board chief executive. I have tasked my officials with ensuring that local plans are developed with the network, which will provide organisational links across clinical pathways.

I thank the Chair of the committee for his helpful suggestion that I might want to report back to the Assembly on progress in this area. If time permits, perhaps I could report on progress in the form of an oral statement to Plenary before we go into recess in December. Then, we can be assured that the momentum that has built up from the report and the direction of travel that I have outlined

bydwreigiaeth, obstetreg a phediatreg i gleifion mewnol. Mae hynny'n ateb rhywfaint o'r pwyntiau y soniodd William amdanynt ynghylch mynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n ymwneud â gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Brenhinol Gwent, a sut mae'r rheini'n cydblethu â gwasanaethau eraill a ddarperir.

Mae cynnydd wedi cael ei wneud i weithredu llawer o'r argymhellion yn adroddiad y pwyllgor, gan gynnwys sefydlu'r rhwydwaith clinigol newyddenedigol. Mae'r prif glinigwr, Dr Mark Drayton o Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro sydd eisoes wedi cael ei grybwyll heddiw, wedi cael ei benodi. Mae wedi ymweld â'r holl unedau i'r newydd-anedig yng Nghymru i drafod rôl y rhwydwaith wrth fynd ati i gynnal asesiad cychwynnol o'r gofynion capasiti. Ar sail y dystiolaeth a roddodd i'r pwyllgor a'r ffaith iddo gael ei grybwyll yn y ddadl heddiw, mae gan y pwyllgor bob ffydd ynddo ac yn yr hyn a ddywedodd am ddatblygu gwasanaethau.

I gyd-fynd â hynny, disgwylir i reolwyr y rhwydwaith gael eu penodi'r mis hwn. Bydd y rhaglen waith ar gyfer y rhwydwaith clinigol yn cael ei goruchwyllo gan grŵp llywio, a fydd yn adrodd i fwrdd pwyllgor gwasanaethau iechyd arbenigol Cymru, sy'n cwrdd am y tro cyntaf heddiw. Bydd yn cytuno ar gylch gorchwyl ac aelodaeth, ynghyd â rhaglen waith amlinellol gychwynnol. Bydd rhaid i'r rhwydwaith lunio cynllun erbyn mis Rhagfyr 2010 sy'n dangos sut y bydd byrddau iechyd lleol unigol yn bodloni safonau newyddenedigol Cymru gyfan, oherwydd prif weithredwr pob bwrdd iechyd lleol sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod y safonau'n cael eu bodloni. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion sicrhau bod cynlluniau lleol yn cael eu datblygu gyda'r rhwydwaith, a fydd yn darparu cysylltiadau sefydliadol ar draws llwybrau clinigol.

Diolch i Gadeirydd y pwyllgor am ei awgrym defnyddiol y byddwn efallai am adrodd yn ôl i'r Cynulliad am y cynnydd yn yr elfen hon. Os bydd amser yn caniatáu, efallai y gallwn gyflwyno adroddiad am y cynnydd ar ffurf datganiad llafar i'r Cyfarfod Llawn cyn y toriad ym mis Rhagfyr. Drwy wneud hynny, gallwn fod yn siŵr bod y momentwm a grëwyd yn sgîl yr adroddiad a'r llwybr a

is continued in this policy area.

The neonatal clinical audit system, BadgerNet, is currently being implemented in each unit across Wales. It will be fully functional by October 2010. The unit's current neonatal information systems will be maintained until January 2011 to ensure a smooth transition. I think that we all understand the need to keep systems running in tandem when we have such transitions. The network clinical information sub-group will ensure the effective implementation of the database, and the new system will provide a seamless clinical care record across all neonatal units, providing each local health board with comprehensive statistical information to assess outcomes and improve services, where appropriate.

In addition, the process of establishing the dedicated transport service is near completion. As you know, I previously announced £2 million recurrently to develop and implement the service to transport premature and sick babies between units, where clinically appropriate. Progress includes the appointment of required clinical staff. To date, north Wales has recruited an additional consultant, with the recruitment of a second taking place next month. The appointment of an additional six consultants across south Wales is planned for October, which will increase consulting capacity in the Cardiff and Vale University Local Health Board, Aneurin Bevan Local Health Board and Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board to care for any additional babies transferred by the transport service.

Dai Lloyd specifically raised points about specialist staff. Six places are available for advanced neonatal nurse practitioner training at each LHB that has a neonatal nurse commencing the training this month. Once trained, these nurses will assist in resolving issues caused by the shortage of junior and middle-grade doctors, as they will be able to take on some of the clinical workload.

amlinellwyd gennyf yn parhau yn y maes polisi hwn.

Mae BadgerNet, y system archwilio glinigol newyddenedigol, wrthi'n cael ei rhoi ar waith ym mhob uned ledled Cymru ar hyn o bryd. Bydd yn gwbl weithredol erbyn mis Hydref 2010. Bydd systemau gwybodaeth newyddenedigol gyfredol yr uned yn cael eu cynnal tan fis Ionawr 2011 i sicrhau y bydd y broses bontio'n mynd rhagddi'n ddidrafferth. Credaf fod pob un ohonom yn deall yr angen i gadw systemau'n gweithredu ar y cyd pan fydd prosesau pontio o'r fath yn digwydd. Bydd is-grŵp gwybodaeth glinigol y rhwydwaith yn sicrhau bod y gronfa ddata yn cael ei gweithredu'n effeithiol, a bydd y system newydd yn darparu cofnod gofal clinigol di-dor ar gyfer yr holl unedau i'r newydd-anedig, gan roi gwybodaeth ystadegol gynhwysfawr i bob bwrdd iechyd lleol i asesu canlyniadau ac i wella gwasanaethau, fel y bo'n briodol.

Hefyd, mae'r broses o sefydlu'r gwasanaeth cludo penodedig ar fin cael ei chwblhau. Fel y gwyddoch, cyhoeddais yn flaenorol £2 filiwn i ddatblygu ac i weithredu'r gwasanaeth i gludo babanod cynamserol a babanod sâl rhwng unedau, pan fo hynny'n briodol yn glinigol. Mae'r cynnydd yn cynnwys penodi staff clinigol angenrheidiol. Hyd yma, mae'r gogledd wedi recriwtio ymgynghorydd ychwanegol, gydag ail ymgynghorydd yn cael ei recriwtio mis nesaf. Bwriedir penodi'r chwe ymgynghorydd ychwanegol ar draws y de erbyn mis Hydref, a fydd yn cynyddu'r capasiti ymgynghori ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg i ofalu am unrhyw fabanod ychwanegol a gaiff eu trosglwyddo gan y gwasanaeth cludo.

Cododd Dai Lloyd bwyntiau am staff arbenigol yn benodol. Mae chwe lle ar gael ar gyfer hyfforddiant uwch ymarferydd nyrsio'r newydd-anedig ym mhob BILl sydd â nyrs newyddenedigol a fydd yn dechrau ar yr hyfforddiant y mis hwn. Ar ôl eu hyfforddi, bydd y nyrsys hyn yn cynorthwyo i ddatrys problemau a achosir gan y prinder meddygon iau a chanolradd, gan y byddant yn gallu ysgwyddo rhywfaint o'r llwyth gwaith



clinigol.

The 12-hour transport service will be fully operational by January 2011. Having made the funds available, I was disappointed that it was not possible for that to be undertaken previously. Dr Jean Matthes, the consultant neonatologist at the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board who chaired the stakeholder group, has developed the detailed requirements for clinical staffing and equipment needs, which has required her involvement in various meetings with providers and the Welsh Ambulance Services NHS Trust to finalise the plans.

To pick up on some of the points made during today's debate, I particularly noted what Dr Lloyd and Val said about their previous history in dealing with neonatal issues. How times have moved on, in respect of the experience that practitioners have gained, the way in which we deal with things, and the fact that little babies now survive so much longer because of the excellent care that they receive and medical interventions.

Andrew R.T. Davies questioned whether I am happy with the role of LHBs. As I have indicated that I will be giving a further statement on this matter, I can look carefully over the next few months at whether they are delivering what they need to deliver.

In response to Lynne Neagle and Kirsty, we all know of heart-breaking examples and even if we get all this right, such examples might still be found, because we might not be able to get it so perfect that we will not have casework. However, we can strive for that. The point is that there must be a will. Although the committee here and I, as Minister, have the will, we must instil that in the LHBs.

I welcome William's comments about what was said about the staff. That applies to staff in general for the amazing care that they give in these units.

4.20 p.m.

In conclusion, I very much welcome the

Bydd y gwasanaeth cludo 12 awr yn gwbl weithredol erbyn mis Ionawr 2011. Ar ôl sicrhau bod y cyllid ar gael, roeddwn yn siomedig nad oedd yn bosibl gwneud hynny cyn hynny. Mae Dr Jean Matthes, y neonatolegydd ymgynghorol ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg a oedd yn gadeirydd ar y grŵp rhanddeiliaid, wedi datblygu'r gofynion manwl ar gyfer anghenion offer a staffio clinigol. O ganlyniad i hynny, bu hefyd yn rhan o wahanol gyfarfodydd â darparwyr ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i gwblhau'r cynlluniau.

I gyfeirio at rai o'r pwyntiau a wnaed yn ystod y ddadl heddiw, sylwais yn benodol ar yr hyn a ddywedodd Dr Lloyd a Val am eu profiad blaenorol o ymdrin â materion newyddenedigol. Mae pethau wedi datblygu llawer o ran profiad ymarferwyr, y ffordd rydym yn ymdrin â phethau, a'r ffaith bod babanod bach yn goroesi cymaint hwy yn awr oherwydd y gofal rhagorol y maent yn ei gael ac ymyriadau meddygol.

Gofynnodd Andrew R.T. Davies a wyf yn fodlon a rôl y BILlau. Gan fy mod wedi dweud y byddaf yn rhoi datganiad pellach ar y mater hwn, gallaf edrych yn ofalus dros y misoedd nesaf i weld a ydynt yn cyflawni'r hyn y mae angen iddynt ei gyflawni.

I ymateb i Lynne Neagle a Kirsty, mae pob un ohonom yn gwybod am enghreifftiau torcalonnus ac mae'n bosibl y byddwn, hyd yn oed os byddwn yn cael y cyfan yn iawn, yn dal i weld enghreifftiau o'r fath oherwydd mae'n bosibl na allwn ei gael mor berffaith na fydd gennym waith achos. Ond, gallwn anelu at hynny. Y pwynt yw, mae'n rhaid bod yn benderfynol. Er bod y pwyllgor hwn a minnau, fel y Gweinidog, yn benderfynol, mae'n rhaid inni feithrin hynny yn y BILlau.

Rwyf yn croesawu sylwadau William am yr hyn a ddywedodd am y staff. Mae hynny'n berthnasol i staff yn gyffredinol am y gofal anhygoel maent yn ei roi yn yr unedau hyn.

I gloi, rwyf yn croesawu'n fawr argymhellion

committee's report and recommendations. I reiterate my commitment to bringing about improvements. I do not want to talk about this issue in six months' time; I want to move on with this issue, because it is far too important. I am grateful for all contributions to the debate, and I will be delighted to provide an update before we go into recess in December.

**Darren Millar:** I am grateful to all those who have taken part in this debate. It is interesting that lots of politicians want to speak whenever babies are on the agenda. Many of us have had experiences of neonatal services with our own children, so this is a subject that is dear to many people's hearts. I will refer to some of the contributions before I respond to the Minister.

Dai Lloyd paid a special tribute, as did others, to the NHS staff who provide neonatal care. They work incredibly hard, often under incredible pressure, in our hospitals, and I too want to pay tribute to them. He also referred, as did many others, to the work of Bliss, which is the charity that looks after the interests and campaigns on behalf of babies in need of special care. I also pay tribute to its work, for providing evidence to the committee and for the follow-up work that it has done since we completed our inquiry, updating committee members prior to today's Plenary meeting. It was extremely important for us to have those updates.

Andrew R.T. Davies referred to the work of other committees, which may well continue. I welcome the fact that there is not just one committee taking an interest in this issue, as other committees, such as the Petitions Committee, will be able to help with the follow-up work to ensure that the committee's recommendations are implemented. He used the words 'crisis management' in relation to how clinicians are having to deal with the issues in neonatal units at the moment. He is absolutely right. Some of the presentations that we received in committee suggested that there is a crisis in neonatal services that needs to be resolved

ac adroddiad y pwyllgor. Rwyf yn ailddatgan fy ymrwymiad i sicrhau gwelliannau. Nid wyf am siarad am y mater hwn ymhén chwe mis; rwyf am fwrw ymlaen â'r mater hwn, gan ei fod yn rhy bwysig o lawer. Rwyf yn ddiolchgar am yr holl gyfraniadau at y ddadl, a byddaf yn falch iawn o gael darparu'r wybodaeth ddiweddaraf cyn y toriad ym mis Rhagfyr.

**Darren Millar:** Rwyf yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl hon. Mae'n ddiddorol bod llawer o wleidyddion am siarad pryd bynnag y bydd babanod ar yr agenda. Mae llawer ohonom wedi cael profiadau o wasanaethau newyddenedigol gyda'n plant ein hunain, felly mae hwn yn bwnc sy'n agos at galonnau llawer o bobl. Byddaf yn cyfeirio at rai o'r cyfraniadau cyn imi ymateb i'r Gweinidog.

Gwnaeth Dai Lloyd, fel Aelodau eraill, dalu teyrnged arbennig i staff y GIG sy'n darparu gofal newyddenedigol. Maent yn gweithio'n eithriadol o galed yn ein hysbytai, yn aml o dan bwysau eithriadol, ac rwyf finnau hefyd am dalu teyrnged iddynt. Cyfeiriodd hefyd, fel y gwnaeth llawer o Aelodau eraill, at waith Bliss, sef yr elusen sy'n gofalu am fuddiannau babanod sydd angen gofal arbennig ac yn ymgyrchu ar eu rhan. Rwyf finnau hefyd yn talu teyrnged i'w gwaith, am ddarparu tystiolaeth i'r pwyllgor ac am y gwaith dilynol y mae wedi'i wneud ers inni gwblhau ein hymchwiliad, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r pwyllgor cyn y Cyfarfod Llawn heddiw. Roedd yn eithriadol o bwysig ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf honno.

Cyfeiriodd Andrew R.T. Davies at waith y pwyllgorau eraill, a fydd o bosibl yn parhau. Croesawaf y ffaith nad dim ond un pwyllgor sy'n cymryd diddordeb yn y mater hwn gan y bydd pwyllgorau eraill, fel y Pwyllgor Deisebau, yn gallu helpu gyda'r gwaith dilynol i sicrhau bod argymhellion y pwyllgor yn cael eu gweithredu. Defnyddiodd y geiriau 'rheoli argyfwng' ynghylch y modd mae'n rhaid i glinigwyr ymdrin â'r problemau mewn unedau i'r newydd-anedig ar hyn o bryd. Mae'n llygad ei le. Roedd rhai o'r cyflwyniadau a gawsom yn y pwyllgor yn awgrymu bod y gwasanaethau newyddenedigol yn wynebu

urgently. It cannot be right that many hours of clinicians' time—at significant cost to the taxpayer—are spent on the telephone trying to find an appropriate neonatal cot for a baby in need. That message was clearly driven home in the debate.

Lynne Neagle and Kirsty Williams expressed their frustration at the lack of progress so far. I can assure them that that frustration is shared by all members of the committee, and by the professionals out there who have seen reports come and go, with implementation lacking. I welcome the fact that the Minister is committed to making improvements in neonatal services. She has put her money where her mouth is so far, although more money may need to follow for investment in services in the future. Minister, I am delighted that you are able to update us on some of the progress made to date, and I hope that the committee report has pressed the urgency of this point, not just to you but to your officials and others in the wider NHS to make sure that these improvements are delivered.

Touching on some of the other comments made, Kirsty Williams is absolutely right that not all the recommendations need a lot of cash to make improvements. Some simple common sense is often all that is needed to provide an holistic and comfortable service to people. Unfortunately, staff often do not have the time to think things through because of the pressures in their departments. Therefore, I urge the Minister to look at how she can make time available for people to think things through in their departments, to ensure that comfortable accommodation facilities are available.

I also pay tribute to the voluntary sector, which not only raises money to put equipment in our hospitals but is often the provider of accommodation for parents at hospital sites. I have myself visited Tŷ Croeso Dawn Elizabeth House at Ysbyty Glan Clwyd, for example. It does a fantastic job, but it is often living hand to mouth, given the limited cash available to it. We have made some recommendations about that

argyfwng, ac mae angen ei ddatrys ar unwaith. Ni all fod yn iawn fod clinigwyr yn treulio llawer o oriau—ar gost sylweddol i'r trethdalwyr—ar y ffôn yn ceisio dod o hyd i got newyddenedigol priodol ar gyfer babi mewn angen. Cafodd y neges honno ei chyfleu'n glir yn y ddadl.

Mynegodd Lynne Neagle a Kirsty Williams eu rhwystredigaeth at y diffyg cynnydd a wnaed hyd yma. Gallaf eu sicrhau bod pob aelod o'r pwyllgor, a'r bobl broffesiynol sydd wedi gweld adroddiadau yn mynd a dod a diffyg gweithredu, yn rhannu eu rhwystredigaeth. Croesawaf y ffaith fod y Gweinidog wedi ymrwymo i wneud gwelliannau mewn gwasanaethau newyddenedigol. Mae wedi cadw at ei gair hyd yma, ond efallai y bydd angen rhagor o arian i fuddsoddi mewn gwasanaethau yn y dyfodol. Weinidog, rwyf yn falch iawn eich bod yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch rhywfaint o'r cynnydd a wnaed hyd yma, ac rwyf yn gobeithio bod adroddiad y pwyllgor wedi pwysleisio brys y pwynt hwn, nid dim ond i chi ond i'ch swyddogion hefyd ac i bobl eraill yn y GIG ehangach i wneud yn siŵr bod y gwelliannau hyn yn cael eu cyflawni.

Gan sôn yn fras am rai o'r sylwadau eraill a wnaed, mae Kirsty Williams yn llygad ei lle nad oes angen llawer o arian ar gyfer pob argymhelliad i wneud gwelliannau. Yn aml, dim ond ychydig o synnwyr cyffredin sydd ei angen i ddarparu gwasanaeth cyfannol a chyfforddus i bobl. Yn anffodus, yn aml nid oes gan staff amser i feddwl yn ofalus am bethau oherwydd y pwysau yn eu hadrannau. Felly, rwyf yn annog y Gweinidog i edrych ar sut y gall sicrhau bod gan bobl amser i feddwl yn ofalus am bethau yn eu hadrannau, er mwyn gwneud yn siŵr bod cyfleusterau aros cyfforddus ar gael.

Talaf deyrnged i'r sector gwirfoddol hefyd, sydd nid yn unig yn codi arian i roi offer yn ein hysbytai, ond sydd hefyd yn darparu llety ar gyfer rhieni mewn safleoedd ysbytai yn aml. Rwyf wedi ymweld â Thŷ Croeso Dawn Elizabeth House yn Ysbyty Glan Clwyd fy hun, er enghraifft. Mae'n gwneud gwaith gwych ond mae'n aml yn byw ar fin y gyllell, o ystyried nad oes llawer o arian ar gael iddo. Rydym wedi gwneud rhai argymhellion

in our report.

Val Lloyd spoke about her personal experience of working on a neonatal ward in the past, and the differences that there are now because of medical advances. That is another reason why there are pressures in the system. There are now much better outcomes for many more premature babies, which means that we need to provide greater investment, particularly with the growing birth rate.

William Graham referred to some of the issues in his region at the Royal Gwent Hospital and how the Minister has been helpful in resolving some issues locally. We know that a difference can be made if the Minister intervenes. After all, if she cannot make a difference as the Minister for health, how can we possibly make one? Therefore, I welcome the renewed vigour with which she is telling us that she will pursue improvements in this service. We know that when she is determined to drive change through, as with NHS reorganisation, she is able to deliver it. Therefore, we look to her to deliver these improvements going forward.

We welcome the updates that she has provided, particularly on the timescale for the implementation of these important improvements to services, including the delivery of the neonatal transport system by January 2011 and the recent appointments that are critical to the success of this. We look forward to her oral statement in December and also to oral statements in the new year on progress before the Assembly elections. Like her, we all want to strive for excellence, and if we work together and continue to press this as an urgent matter to officials and the NHS more widely, these improvements can be delivered. We will look to her in the future to ensure that these issues are followed up.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw ein bod yn nodi adroddiad y pwyllgor. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, yr wyf yn

ynghylch hynny yn ein hadroddiad.

Bu Val Lloyd yn sôn am ei phrofiad personol o weithio ar ward i'r newydd-anedig yn y gorffennol, a'r gwahaniaethau erbyn hyn oherwydd datblygiadau meddygol. Mae hynny'n rheswm arall pam mae pwysau yn y system. Erbyn hyn, ceir canlyniadau gwell o lawer ar gyfer llawer mwy o fabanod cynamserol, sy'n golygu bod angen inni ddarparu mwy o fuddsoddiad, yn enwedig wrth i'r gyfradd genedigaethau gynyddu.

Cyfeiriodd William Graham at rai o'r problemau yn Ysbyty Brenhinol Gwent yn ei ranbarth ef, a sut y mae'r Gweinidog wedi helpu i ddatrys rhai problemau yn lleol. Mae pob un ohonom yn gwybod y gellir gwneud gwahaniaeth os bydd y Gweinidog yn ymyrryd. Wedi'r cyfan os nad yw hi, fel y Gweinidog dros Iechyd, yn gallu gwneud gwahaniaeth, sut ar y ddaear y gallwn ni wneud gwahaniaeth? Felly, rwyf yn croesawu ei hegri newydd wrth ddweud wrthym y bydd yn ceisio sicrhau gwelliannau yn y gwasanaeth hwn. Gwyddom pan fydd yn benderfynol o sicrhau newid, fel wrth ad-drefnu'r GIG, ei bod yn gallu cyflawni hynny, Felly, rydym yn troi ati hi i sicrhau y bydd y newidiadau hyn yn cael eu cyflawni.

Rydym yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf y mae wedi'i darparu, yn enwedig am yr amserlen ar gyfer gweithredu'r gwelliannau pwysig hyn mewn gwasanaethau, gan gynnwys cyflwyno'r system cludo babanod newydd-anedig erbyn mis Ionawr 2011 a'r penodiadau diweddar sy'n hanfodol i lwyddiant hyn. Rydym yn edrych ymlaen at ei datganiad llafar ym mis Rhagfyr ac at ddatganiadau llafar yn y flwyddyn newydd am y datblygiadau cyn etholiadau'r Cynulliad. Mae pob un ohonom ni, fel hithau, am ymgynghraedd at ragoriaeth, ac os byddwn yn gweithio gyda'n gilydd ac yn parhau i bwysleisio bod hwn yn fater brys i swyddogion a'r GIG yn fwy eang, gellir gwneud y gwelliannau hyn. Byddwn yn troi ati hi yn y dyfodol i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu datrys.

**The Presiding Officer:** The question is that we note the committee's report. Are there any objections? I see that there are not. In accordance with Standing Order No. 7.35,

cadarnhau bod yr adroddiad wedi'i nodi.

therefore, I confirm that the report is noted.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4.27 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.27 p.m.*

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar y Flwyddyn  
Ewropeaidd ar gyfer Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol  
The Report of the Committee on European and External Affairs on the  
European Year for Combating Poverty and Social Exclusion**

*Cynnig NDM4536 Rhodri Morgan*

*Motion NDM4536 Rhodri Morgan*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar y Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol 2010, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mai 2010.*

*Notes the European and External Affairs Committee's Report of Inquiry into the European Year for Combating Poverty and Social Exclusion 2010, which was laid in the Table Office on 27 May 2010.*

**Rhodri Morgan:** Cynigiau y cynnig.

**Rhodri Morgan:** I move the motion.

Mae'n anrhydedd i mi fel Cadeirydd y pwyllgor gyflwyno'r ddadl hon, ond dylem hefyd gofio ei bod yn ddadl amserol. Mae gan y pwnc hwn, sef y ffordd orau o leihau neu hyd yn oed goncro tlodi, bwysigrwydd a blaenoriaeth wleidyddol fwy mewn cyfnod fel hwn. Ledled Ewrop, yr ydym wedi byw drwy 18 mis o ddirwasgiad ac wedyn yr atgyfodiad tra araf a gwan presennol. Mae Llywodraethau ledled Ewrop un ai wedi dechrau torri gwariant cyhoeddus neu ar fin gwneud, ac mae effaith y toriadau hynny ar y tlawd yn gallu bod yn llym. Mae adroddiad diweddar y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn y wlad hon wedi dod â'r pwnc hwn allan i'r agored. Yr ydym i gyd yn ofni y bydd y bobl a oedd wedi dechrau dringo'r ysgol gymdeithasol a chyrraedd y stepen gyntaf yn llithro yn ôl i'r gwaelod oherwydd y toriadau mewn gwariant cyhoeddus. Felly, dyna pam mae'r adroddiad hwn mor amserol.

It is a privilege for me as Chair of the committee to open this debate, but we should also bear in mind that it is a timely debate. This issue, namely what is the best way of reducing or even combating poverty, is now far more important and is a far greater political priority in times like these. Throughout Europe, we have lived through 18 months of recession and we are now in a weak and relatively slow recovery. Governments throughout Europe have either already cut public spending or are about to do so, and the impact of those cuts on the poor can be severe. The recent report of the Institute for Fiscal Studies in this country has brought the matter out into the open. We all fear that those who had started to climb the social ladder and had reached the first rung will now slip back to the bottom because of cuts in public spending. Therefore, that is why this report is so timely.

The timing and subject of this debate could not be more important. It brings to mind, certainly to me, the state-of-the-union address delivered by the incoming President Lyndon Baines Johnson in 1964, when he declared 'all-out war on human poverty'. He said

Ni allai amseriad na phwnc y ddadl hon fod yn fwy pwysig. Mae'n dwyn i gof, yn sicr i mi, yr anerchiad cyflwr yr undeb a roddwyd gan yr Arlywydd newydd, Lyndon Baines Johnson ym 1964 pan ddatganodd ryfel diamod yn erbyn tlodi ymysg pobl.

then—and I will not do the accent—

Dyweddodd bryd hynny—ac nid wyf am wneud yr acen—

‘Unfortunately, many Americans live on the outskirts of hope... Our task is to help replace their despair with opportunity.... This administration today, here and now, declares unconditional war on poverty in America.’

Yn anffodus, mae llawer o Americanwyr yn byw ar ymylon gobaith... Ein gwaith ni yw helpu i gynnig cyfle lle bu anobaith... Mae'r weinyddiaeth hon heddiw, y funud hon, yn datgan rhyfel diamod yn erbyn tlodi yn America.

That was in 1964, but I hope that this report and this debate today in 2010 will help us in Wales to get our priorities right and to refresh the commitment that we have had for a long time, since the beginning of devolution 11-and-a-half years ago, particularly in these difficult economic times, to wage our own war on poverty and to sustain and recommit to the battle against vulnerability and exclusion, which blights too many lives—of families, adults, children or, indeed, whole communities.

Roedd hynny ym 1964, ond gobeithio y bydd yr adroddiad hwn a'r ddadl hon heddiw yn 2010 yn ein helpu yng Nghymru i sicrhau bod ein blaenoriaethau yn iawn. Gobeithio y bydd hefyd yn adfywio'r ymrwymiad a wnaed ers amser maith, ers dechrau datganoli 11 mlynedd a hanner yn ôl, yn enwedig yn y cyfnod economaidd anodd hwn, i fynd i ryfel ein hunain yn erbyn tlodi ac i barhau ac ailymrwymo i'r frwydr yn erbyn elfennau sy'n arwain at fod yn agored i niwed ac allgáu sy'n llethu bywydau gormod o bobl—teuluoedd, oedolion, plant neu, yn wir, cymunedau cyfan.

4.30 p.m.

In looking for the best way of combating that, we do not have a Nobel prize available for those who can solve the problems of poverty, and it is a pity that we do not. What we want is anti-poverty expertise, but not as a lifetime occupation for loads of professors. What Europe needs is anti-poverty experts who can make themselves redundant by solving the problem, and that is what should get you the Nobel prize.

Wrth chwilio am y ffordd orau o oresgyn hynny, nid oes gennym wobr Nobel i'r rheini a all ddatrys problemau tlodi, ac mae hynny'n drueni. Yr hyn y mae arnom ei eisiau yw arbenigedd gwrth-dlodi, ond nid er mwyn bod yn alwedigaeth am oes i lu o athrawon prifysgol. Yr hyn sydd ei angen ar Ewrop yw arbenigwyr gwrth-dlodi a all ddileu'r angen am eu swyddi eu hunain drwy ddatrys y problem, a dyna beth ddylai sicrhau gwobr Nobel ichi.

This is the fourth report of inquiry by the Committee on European and External Affairs in the third Assembly, and the first to be published since I became committee Chair in January. I thank my predecessor, Sandy Mewies, for her work in the initial stages of this inquiry. It is a top policy priority in Wales and has been for a long time. I think that I speak on behalf of both the legislature and Government in Wales in saying that, for the 11 and a half years of devolution, this has been a top priority. The question is how well the policy instruments work in Wales, across the UK and across Europe. Has anyone else got better ideas than those we are using now, or should we be exporting our bright ideas

Hwn yw pedwerydd adroddiad ymchwilio'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn y trydydd Cynulliad, a'r cyntaf i gael ei gyhoeddi ers imi ddod yn Gadeirydd y pwyllgor fis Ionawr. Diolch i fy rhagflaenydd, Sandy Mewies, am ei gwaith yn ystod camau cychwynnol yr ymchwiliad hwn. Mae'n un o'r prif flaenoriaethau polisi yng Nghymru, a hynny ers amser. Rwyf yn credu fy mod yn siarad ar ran y ddeddfwrfa a'r Llywodraeth yng Nghymru wrth ddweud bod hyn wedi bod yn un o'r prif flaenoriaethau yn ystod yr 11 mlynedd a hanner o ddatganoli. Y cwestiwn yw, sut y mae'r polisi'n arwain gwaith yng Nghymru, ar draws y DU ac ar draws Ewrop. A oes gan

elsewhere in the UK or Europe? We have to share best practice.

We have worked relentlessly in Wales to tackle issues that affect the most vulnerable and disadvantaged, and there has been some progress. The percentage of people in Wales living in poverty has fallen from 25 per cent at the time of devolution to 22 per cent in the most recent period. However, all bets are off because of the recession, and even more so if we try to anticipate what might happen consequent to the announcement on the comprehensive spending review reductions in public expenditure on October 20.

The committee wanted to look at the overall process for promoting European years in Wales. What are they for? They are a useful means of highlighting issues that are important to European citizens, and we want the National Assembly and, above all, the Assembly Government, to take full advantage of the opportunity for reflection and debate, but also for comparative study of the activity in this field—that is, pinching everyone else's best ideas and exporting our best ideas to countries that may not have heard of them yet.

We took evidence from a wide range of witnesses, and we are grateful for all of those contributions that have helped to draw out the issues of most concern. We wish the organisations and individuals involved in promoting the year every success in their activities. We drew two main conclusions. One was to underline the importance of ensuring that activities will lead to an exchange of best practice, both around Wales, from Wales to other parts of the EU, and from the EU to Wales, as a tangible legacy of the European Year for Combating Poverty and Social Exclusion. We want to see a high percentage of the people of all ages who are affected by poverty involved in framing the agenda and participating in the year's activities in Wales. Anti-poverty programmes should not be designed 'for' people experiencing poverty, and certainly not 'done to' people experiencing poverty,

unrhyw un arall syniadau gwell na'r rheini rydym yn eu defnyddio ar hyn o bryd, neu a ddylem fod yn rhannu ein syniadau da â lleoedd eraill yn y DU neu'n Ewrop? Rhaid inni rannu arferion gorau.

Rydym wedi gweithio'n ddifflino yng Nghymru i fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar y bobl fwyaf agored i niwed a difreintiedig, a gwnaed rhywfaint o gynydd. Mae canran y bobl yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi wedi gostwng o 25 y cant adeg datganoli i 22 y cant yn y cyfnod mwyaf diweddar. Fodd bynnag, does wybod beth fydd digwydd yn sgîl y dirwasgiad, yn enwedig os byddwn yn ceisio rhagweld beth allai ddigwydd o ganlyniad i gyhoeddiad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant ynghylch y lleihad mewn gwariant cyhoeddus.

Roedd y pwyllgor yn awyddus i edrych ar y broses gyffredinol ar gyfer hyrwyddo blynyddoedd Ewropeaidd yng Nghymru. Beth yw eu pwrpas? Maent yn ffordd ddefnyddiol o dynnu sylw at faterion sy'n bwysig i ddinasyddion Ewrop, ac rydym am i'r Cynulliad Cenedlaethol, a Llywodraeth y Cynulliad yn anad neb, fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i bwyso a mesur a thrafod, a hefyd i gymharu'r gweithgarwch yn y maes hwn—hynny yw, dwyn syniadau gorau pawb arall a rhannu ein syniadau gorau â gwledydd nad dydynt wedi clywed am y syniadau hynny eto.

Cawsom dystiolaeth gan ystod eang o dystion, ac rydym yn ddiolchgar am yr holl gyfraniadau hynny sydd wedi helpu i nodi'r materion sy'n achosi'r pryder mwyaf. Rydym yn dymuno pob llwyddiant i'r sefydliadau a'r unigolion sy'n ymwneud â hyrwyddo'r flwyddyn gyda'u gweithgareddau. Daethom i ddau brif gasgliad. Un oedd bod angen tanlinellu pwysigrwydd sicrhau y bydd gweithgareddau yn arwain at gyfnewid arferion gorau, a hynny o amgylch Cymru, rhwng Cymru a rhannau eraill o'r UE, a rhwng yr UE a Chymru, fel un o effeithiau gweladwy'r Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol. Rydym am weld canran uchel o bobl o bob oed mae tlodi'n effeithio arnynt yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio'r agenda, ac yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r flwyddyn yng Nghymru. Ni ddylai rhaglenni gwrth-dlodi gael eu llunio 'ar gyfer' pobl sy'n

but should be designed 'by' people experiencing poverty. That has been one of the principles of the Communities First programme in Wales, and it is all-important.

Given those two main principles, we made 10 specific recommendations to the Welsh Assembly Government. Eight of these are focused on securing the strongest possible legacy from the year 2010, and linking activities to existing Welsh policy initiatives for combating poverty and social exclusion. A recommendation has also been made to Carl Sargeant, the Minister for Social Justice and Local Government, concerning plans for next year's European year, which is on volunteering. Finally, we recommended the allocation of time to an annual debate in this Chamber on the theme and activities of each European year, whatever the subject.

We are grateful to have a detailed response from the First Minister, which he will talk about later, no doubt, and I welcome the fact that nine of the 10 recommendations that the committee made have been accepted, and that recommendation 1—the only one that was not accepted in full—was at least accepted in principle. The aim of that recommendation 1 was to introduce a poverty audit model to Welsh policy making, and it came about in response to calls from anti-poverty organisations in Wales for the greater involvement of people with grass-roots experience in the policy-making process. I accept that the policy gateway that was referred to in the First Minister's response is an existing tool for considering the impact of policies on the poorest and most excluded, including those in rural parts of Wales, but the question is how directly policy makers are involving poor and excluded people in their processes, whether on the level of communities, if there is a community-wide problem, or that of families, groups of children or single adults. Whoever is affected by poverty should be directly involved in the process of devising policies to bring about the end of that kind of poverty.

wynebu tlodi, ac yn sicr ni ddylent 'ddigwydd' i bobl sy'n wynebu tlodi—yn hytrach, dylent gael eu llunio 'gan' bobl sy'n wynebu tlodi. Mae hynny wedi bod yn un o egwyddorion y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru, ac mae'n hollbwysig.

O ystyried y ddau brif egwyddor hynny, rydym wedi gwneud 10 o argymhellion penodol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae wyth o'r rhain yn canolbwyntio ar sicrhau'r gwaddol mwyaf posibl yn sgîl blwyddyn 2010, a chysylltu gweithgareddau â mentrau polisi cyfredol Cymru er mwyn goresgyn tlodi ac allgáu cymdeithasol. Mae argymhelliad arall hefyd wedi cael ei gyflwyno i Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ynglŷn â chynlluniau ar gyfer y flwyddyn Ewropeaidd y flwyddyn nesaf, sy'n rhoi sylw i wirfoddoli. Yn olaf, gwnaethom argymhell neilltuo amser i gael dadl flynyddol yn y Siambr hon ar thema a gweithgareddau pob blwyddyn Ewropeaidd, beth bynnag fo'r pwnc.

Rydym yn falch o gael ymateb manwl gan y Prif Weinidog, a bydd yn siŵr o sôn amdano yn nes ymlaen rwyf yn siŵr, ac rwyf yn croesawu'r ffaith bod naw o'r 10 o argymhellion a wnaed gan y pwyllgor wedi cael eu derbyn, a bod argymhelliad 1—yr unig un na chafodd ei dderbyn yn llawn—o leiaf wedi cael ei dderbyn mewn egwyddor. Nod argymhelliad 1 oedd cyflwyno model archwilio i dlodi ar gyfer y broses o lunio polisiau yng Nghymru. Fe'i cyflwynwyd mewn ymateb i alwadau gan sefydliadau gwrth-dlodi yng Nghymru i bobl â phrofiad ymarferol gael eu cynnwys fwy yn y broses llunio polisiau. Derbyniaf fod y porth i bolisiau y cyfeiriwyd ato yn ymateb y Prif Weinidog yn adnodd sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i ystyried effaith polisiau ar y bobl dlotaf ac sydd wedi'u hallgáu fwyaf, gan gynnwys y rheini mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru. Ond y cwestiwn yw, i ba raddau y mae llunwyr polisiau yn cynnwys pobl dlawd a phobl sydd wedi'u hallgáu yn uniongyrchol yn eu prosesau, boed ar lefel cymunedau os ceir problem sy'n berthnasol i'r gymuned gyfan, neu ar lefel teuluoedd, grwpiau o blant neu oedolion sengl. Dylai pwy bynnag y mae tlodi'n effeithio arnynt gael eu cynnwys yn uniongyrchol yn y broses



o lunio polisïau er mwyn sicrhau diwedd y math hwnnw o dlodi.

This issue also arose in relation to activities planned for this year, 2010. As a committee, we wanted assurances that any conferences would not just involve the usual suspects, that is, the people who sit back and admire the problem but who do not necessarily want to bring it to an end. People from across the tracks—or even from across the tracks from across the tracks—should be involved in devising, and participating in, the activities, having their voices directly heard by the ultimate decision makers. There are plenty of good examples in Wales of involving stakeholders directly in decision making, but we should keep up that effort to ensure that the most vulnerable and excluded in Wales have a voice, given that we are having a European year against poverty. I welcome the Government's assurances that the activities planned for this year have indeed given a profile to the voices of people living on or below the poverty line. The committee will welcome feedback from the organisations that gave evidence on how much progress they think has been made during this year, and would welcome being told if they do not think that a lasting legacy of the right kind is emerging.

Legacy is the key word here. Recommendations 2 to 5 of our report are all about ensuring the right legacy for the year in Wales. The Welsh Government's response to recommendation 2 states that launch events have sought to have a healthy 60:40 split between those who are directly experiencing poverty and social exclusion and the policy makers. This is very encouraging, and it is exactly what we were recommending. It is noticeable that little noise has been generated around the year so far, which may not be surprising given the relatively small amount of money directed at it. However, I hope that the products of the year, namely films, videos, websites and written materials, will have an important impact in shaping policies behind the scenes. The committee looks forward to seeing the final report of activities emerging from the European year and the UK

Mae'r mater hwn wedi codi hefyd mewn perthynas â gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer eleni, 2010. Fel pwyllgor, roeddem am gael sicrwydd na fyddai unrhyw gynadleddau yn cynnwys y bobl arferol yn unig—hynny yw, y bobl sy'n eistedd yn ôl ac yn edmygu'r broblem ond nad ydynt o reidrwydd yn dymuno dod â'r broblem i ben. Dylai pobl o bob cefndir fod yn rhan o'r broses o gynllunio'r gweithgareddau a chymryd rhan ynddynt, er mwyn cael lleisio'u barn yn uniongyrchol wrth y rheini a fydd yn gwneud y penderfyniadau yn y pen draw. Ceir digonedd o enghreifftiau da yng Nghymru o gynnwys rhanddeiliaid yn uniongyrchol yn y broses o wneud penderfyniadau, ond dylem barhau â'r ymdrech honno i sicrhau bod y bobl sydd fwyaf agored i niwed ac wedi'u hallgáu fwyaf yng Nghymru yn cael llais, wrth ystyried bod gennym flwyddyn Ewropeaidd yn erbyn tlodi. Rwyf yn croesawu sicrwydd y Llywodraeth bod y gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer eleni wir wedi rhoi proffil i leisiau pobl sy'n byw ar y llinell dlodi neu o dan y llinell dlodi. Bydd y pwyllgor yn croesawu adborth gan y sefydliadau a roddodd dystiolaeth am faint o gynnydd maent yn meddwl sydd wedi cael ei wneud yn ystod y flwyddyn, a byddai'n falch o gael gwybod os nad ydynt yn credu bod y math priodol o waddol yn dod i'r amlwg.

Gwaddol yw'r gair allweddol yn y mater hwn. Mae argymhellion 2 i 5 ein hadroddiad i gyd yn ymwneud â sicrhau'r gwaddol priodol i Gymru yn sgîl y flwyddyn. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad 2 yn datgan bod digwyddiadau lansio wedi ceisio cael rhaniad iach o 60:40 rhwng y llunwyr polisi a'r rheini sy'n wynebu tlodi ac allgáu cymdeithasol yn uniongyrchol. Mae hyn yn galonogol iawn, a dyma'n union roeddem yn ei argymhell. Mae'n amlwg na roddwyd llawer o sylw i'r flwyddyn hyd yn hyn, ac efallai nad yw hynny'n syndod o ystyried y swm cymharol fach o arian a neilltuwyd ar ei chyfer. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio y bydd cynnyrch y flwyddyn, sef ffilmiau, fideos, gwefannau a deunyddiau ysgrifenedig, yn cael effaith bwysig ar y broses o lunio polisïau y tu ôl i'r llenni. Mae'r pwyllgor yn edrych ymlaen at weld yr

Department for Work and Pensions' evaluation of its success in legacy terms.

The Government's response to recommendation 4 also highlights how Wales can work effectively with partners in Europe and across the UK to share best practice. This partnership working is warmly welcomed, and it is a key part of the legacy. There is no point in us reinventing the wheel—if another part of Europe has already given an object lesson on successful anti-poverty programmes, steal it, borrow it, grab it, spread it and do not worry that it was not invented here.

Recommendation 5 is aimed specifically, therefore, at ensuring the maximum read across between lessons learnt from the European year and the goals of long-term European structural funds programmes benefitting Wales to reduce social exclusion. I am reassured by the Government's response that the all-Wales programme monitoring committee, chaired by Jeff Cuthbert, AM for Caerphilly, who is also a member of the Committee on European and External Affairs, will be able to consider the outcome of the year's activities with a view to incorporating that best practice into future programming. No doubt Jeff Cuthbert will be able to report back to the committee on that work in due course.

There are programmes outside European structural funds, such as free breakfasts for school children, the foundation phase, enriched nursery education curriculum and the child trust fund Cymru, and you can see how many of these schemes in Wales are directed at minimising child or intergenerational poverty. They are recognition of the importance of ensuring that poor children do not automatically become poor adults. We know that these are areas where people in the rest of Europe have invented things first and Wales has then copied them, or it may be that the reverse is true. We know from the recent Institute for Public Policy Research report into child poverty that it is a bigger problem in Wales than in the UK as a whole. We also know that

adroddiad terfynol ynghylch y gweithgareddau a gynhelir yn sgîl y flwyddyn Ewropeaidd, a gwerthusiad Adran Gwaith a Phensiynau'r DU o'i llwyddiant o safbwynt gwaddol.

Mae ymateb y Llywodraeth i argymhelliad 4 hefyd yn rhoi sylw i sut y gall Cymru weithio'n effeithiol gyda phartneriaid yn Ewrop ac ar draws y DU i rannu arferion gorau. Mae'r gwaith partneriaeth hwn yn cael ei groesawu'n fawr, ac mae'n rhan allweddol o'r gwaddol. Nid oes diben inni ailddyfeisio'r olwyn—os oes rhan arall o Ewrop eisoes wedi rhoi gwers lwyddiannus ar raglenni gwrth-dlodi, dylid ei dwyn, ei benthyg, ei chipio a'i lledaenu, a phaidio â phoeni nad yma y cafodd ei dyfeisio.

Felly, mae argymhelliad 5 wedi'i dargedu'n benodol at sicrhau'r cysylltiad gorau posibl rhwng y gwersi a ddysgwyd o'r flwyddyn Ewropeaidd a nodau tymor hir rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewrop er mwyn dwyn budd i Gymru i leihau allgáu cymdeithasol. Rwyf yn cael fy nghalonogi gan ymateb y Llywodraeth y bydd pwyllgor monitro'r rhaglen Cymru gyfan, a gadeirir gan Jeff Cuthbert, AC Caerffili sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, yn gallu ystyried canlyniad gweithgareddau'r flwyddyn gyda'r bwriad o ymgorffori'r arferion gorau hynny mewn rhaglenni yn y dyfodol. Mae'n siŵr y bydd Jeff Cuthbert yn gallu adrodd yn ôl i'r pwyllgor am y gwaith hwnnw maes o law.

Ceir rhaglenni y tu allan i gronfeydd strwythurol Ewrop, fel brecwast am ddim i blant ysgol, y cyfnod sylfaen, cwricwlwm addysg feithrin a'r gronfa ymddiriedolaeth plant Cymru, a gallwch weld faint o'r cynlluniau hyn yng Nghymru sy'n ceisio lleihau tlodi plant neu dlodi rhwng cenedlaethau. Maent yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau nad yw plant tlawd yn awtomatig yn mynd yn oedolion tlawd. Gwyddom fod y rhain yn feysydd lle mai pobl yng ngweddill Ewrop sydd wedi dyfeisio pethau gyntaf a bod Cymru wedi eu hefelychu, neu efallai mai'r gwrthwyneb sy'n wir. Yn sgîl adroddiad diweddar y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus ar dlodi plant, gwyddom ei bod yn fwy o broblem yng Nghymru nag yn y DU yn gyffredinol.

progress has stalled at the UK level and in Wales to reduce child poverty.

Gwyddom hefyd fod y cynnydd i leihau tlodi plant wedi arafu ar lefel y DU ac yng Nghymru.

4.40 p.m.

The introduction of the Children and Families (Wales) Measure 2010 in February this year demonstrates the strength of commitment to tackling child poverty in Wales and the committee recognised that the European year provides a timely opportunity to consider what interventions best improve the outcomes for children and young people. Recommendations 6 and 7 seek assurances that the evidence gathered during the year can inform local strategies to combat child poverty. I am pleased that the Government is taking recommendation 6 forward in developing the guidance to support the implementation of the Children and Families (Wales) Measure 2010.

Mae'r ffaith bod Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 wedi cael ei gyflwyno ym mis Chwefror eleni yn dangos pa mor gryf yw'r ymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru, ac roedd y pwyllgor yn cydnabod bod y flwyddyn Ewropeaidd yn gyfle amserol i ystyried pa ymyriadau sy'n gwella canlyniadau plant a phobl ifanc orau. Mae argymhellion 6 a 7 yn gofyn am sicrwydd y gall y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y flwyddyn i fod yn sail i strategaethau lleol i oresgyn tlodi plant. Rwyf yn falch bod y Llywodraeth yn bwrw ymlaen ag argymhelliad 6 i ddatblygu canllawiau i gefnogi gweithredu Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Recommendation 8 concerned the development of common indicators of poverty at EU level, and I note that the Government's response agrees that being able to make meaningful comparisons at EU level is important.

Roedd argymhelliad 8 yn ymwneud â datblygu dangosyddion cyffredin ar gyfer tlodi ar lefel yr UE, a sylwaf fod ymateb y Llywodraeth yn cytuno bod y gallu i wneud cymariaethau ystyrlon ar lefel yr UE yn bwysig.

With regard to recommendation 9, the committee looks forward to learning more this autumn about plans for the European Year of Volunteering 2011 and we are pleased that the Welsh Government has also accepted our final recommendation and will seek to hold an annual Plenary debate on each European year. Therefore, we look forward to an opportunity to debate volunteering issues in due course.

O ran argymhelliad 9, mae'r pwyllgor yn edrych ymlaen at ddysgu rhagor yn ystod yr hydref hwn am gynlluniau ar gyfer y Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Gwirfoddoli yn 2011, ac rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi derbyn ein hargymhelliad terfynol ac y bydd yn ceisio cynnal dadl flynyddol yn y Cyfarfod Llawn ynghylch pob blwyddyn Ewropeaidd. Felly, rydym yn edrych ymlaen at y cyfle i drafod materion gwirfoddoli maes o law.

I now welcome the Government's response to the committee's report and look forward to the First Minister's contribution to the debate and to that of other Members.

Rwyf yn croesawu ymateb y Llywodraeth i adroddiad y pwyllgor, ac yn edrych ymlaen at gyfraniad y Prif Weinidog at y ddadl ac at gyfraniadau Aelodau eraill.

**The First Minister (Carwyn Jones):** I rise for the first time to speak in this debate and I thank Rhodri for his introductory message. I am very pleased that 2010 has been designated the European Year for Combating Poverty and Social Exclusion and I wholeheartedly welcome the recent Committee on European and External Affairs

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Rwyf yn codi i siarad am y tro cyntaf yn y ddadl hon, a diolch i Rhodri am ei neges ragarweiniol. Rwyf yn falch iawn bod 2010 wedi cael ei dynodi yn Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol, ac rwyf yn croesawu'n fawr adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i

report of inquiry into the year.

Tackling poverty in all its forms is a priority for the Welsh Assembly Government. The activities in connection with this European year are allowing us to raise the profile of the work that is moving forward across Wales to tackle poverty and improve the life chances of some of our most disadvantaged people.

Some of this work is undertaken by the Assembly Government, but much is undertaken at the local level by local government, the health service, the voluntary sector and other community groups. This reflects the fact that tackling the deep-seated social issues that lead to poverty and social exclusion is complex and requires the UK Government, Welsh Assembly Government and our local partners to take action to improve people's lives on a day to day basis.

We are clear that the new UK Government must remain committed to achieving the targets set out on the face of the Child Poverty Act 2010 and we remain fully committed to doing everything that we can to achieve the eradication of child poverty by 2020.

The European year has allowed best practice to be shared across the EU and for Wales to showcase our work in the area of tackling poverty together with our achievements to date. The recently passed Children and Families (Wales) Measure 2010, our new child poverty strategy and delivery plan, the ground-breaking child poverty solutions project and the children and young people's wellbeing monitor are all examples of the good work being done in Wales.

That is all that I intend to say for now. I look forward to hearing further contributions from Members in the Chamber.

**Nick Bourne:** First, I welcome the scene setting by the committee Chair, Rhodri Morgan. I am grateful for this opportunity to speak in this debate on the committee's report on the European Year for Combating Poverty and Social Exclusion.

ymchwilio i'r flwyddyn.

Mae mynd i'r afael â thlodi o bob math yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r gweithgareddau mewn cysylltiad â blwyddyn Ewropeaidd eleni yn ein galluogi i godi proffil y gwaith sy'n symud ymlaen ledled Cymru i fynd i'r afael â thlodi ac i wella cyfleoedd bywyd rhai o'n pobl fwyaf difreintiedig.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud rhywfaint o'r gwaith hwn, ond mae llawer yn cael ei wneud ar lefel leol gan lywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd, y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol eraill. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod mynd i'r afael â'r materion cymdeithasol dwfn sy'n arwain at dlodi ac allgáu cymdeithasol yn fater cymhleth, ac mae'n rhaid i Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'n partneriaid lleol gymryd camau i wella bywydau pobl o ddydd i ddydd.

Rydym yn glir ei bod yn rhaid i Lywodraeth newydd y DU barhau'n ymrwymedig i gyrraedd y targedau a amlinellir ar wyneb Deddf Tlodi Plant 2010, ac rydym yn parhau'n gwbl ymrwymedig i wneud popeth o fewn ein gallu i lwyddo i ddileu tlodi plant erbyn 2020.

Mae'r flwyddyn Ewropeaidd wedi caniatáu i arferion gorau gael eu rhannu ar draws yr UE, ac i Gymru ddangos ein gwaith ym maes mynd i'r afael â thlodi ynghyd â'n cyflawniadau hyd yma. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a basiwyd yn ddiweddar, ein strategaeth tlodi plant newydd a'r cynllun cyflenwi, y prosiect arloesol ynghylch atebion i dlodi plant a'r monitor lles plant a phobl ifanc i gyd yn enghreifftiau o'r gwaith da sy'n cael ei wneud yng Nghymru.

Dyna'r cyfan rwyf yn bwriadu ei ddweud am y tro. Rwyf yn edrych ymlaen at glywed cyfraniadau pellach gan Aelodau yn y Siambr.

**Nick Bourne:** Yn gyntaf, croesawaf y cyddestun a osodwyd gan Gadeirydd y pwyllgor, Rhodri Morgan. Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle hwn i siarad yn y ddadl hon ar adroddiad y pwyllgor ar y Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Goresgyn Tlodi ac

## Allgáu Cymdeithasol.

Combating poverty and social exclusion ranks, quite rightly in my view, among the main objectives of the European Union and its member states. Indeed, more widely, this challenge should be met internationally. U Thant, as secretary general of the United Nations in 1960, said that we have the means to combat poverty worldwide; that is now some 50 years ago and it still remains a massive challenge.

In Lisbon in March 2000, the EU committed itself to making a decisive impact on the eradication of poverty by 2010. However, in spite of this laudable, noble and correct sentiment, too many Europeans continue to live in poverty. Sixteen per cent of Europe's population—some 79 million people—live below the poverty line. In most member states, including the UK, children are more exposed to this problem, with 19 per cent of children living under the threat of poverty—around 19 million children throughout the European Union. In Wales, we know that child poverty, as the First Minister acknowledged, remains a massive problem, with 96,000 Welsh children living in severe poverty in 2007-08, according to Save the Children.

European year awareness campaigns have been held in every year since 1983 to draw attention to certain themes and to raise awareness of certain issues. It is therefore appropriate, 10 years after Lisbon, that we focus on combating poverty and social exclusion. In the United Kingdom, the main aims of the year in 2010 are to raise awareness of the causes, prevalence, and consequences of poverty and social exclusion and the policies that aim to tackle these issues, to promote and facilitate the engagement and participation of a broad range of people, including, among others, those from businesses, voluntary organisations and social enterprises, at local, regional and national levels—and, again, the First Minister recognised the important role that all these organisations and businesses can play in tackling this important issue—and to ensure a lasting legacy, including finding and sharing good practice and setting up

Mae goresgyn tlodi ac allgáu cymdeithasol yn un o brif amcanion yr Undeb Ewropeaidd a'i haelod-wladwriaethau, a hynny'n briodol yn fy marn i. Yn wir, ar lefel ehangach, dylid ymateb i'r her hon yn rhyngwladol. Dywedodd U Thant, ysgrifennydd cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym 1960, fod gennym y modd i frwydro yn erbyn tlodi ym mhob cwr o'r byd; mae hynny tua 50 mlynedd yn ôl erbyn hyn, ac mae'n dal yn her enfawr.

Yn Lisbon ym mis Mawrth 2000, ymrwymodd yr UE i sicrhau y byddai'n cael effaith bendant ar ddileu tlodi erbyn 2010. Fodd bynnag, er gwaethaf y bwriad canmoladwy, gwydych chi a phriodol hwn, mae gormod o Ewropeaid yn dal i fyw mewn tlodi. Mae 16 y cant o boblogaeth Ewrop—oddeutu 79 miliwn o bobl—yn byw o dan y llinell dlodi. Yn y rhan fwyaf o aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y DU, mae'r broblem hon yn fwy tebygol o effeithio ar blant, gyda 19 y cant o blant yn byw o dan fygythiad tlodi—oddeutu 19 miliwn o blant ledled yr Undeb Ewropeaidd. Yng Nghymru, gwyddom fod tlodi plant, fel y cydnabu'r Prif Weinidog, yn dal yn broblem enfawr, gyda 96,000 o blant Cymru yn byw mewn tlodi difrifol yn 2007-08, yn ôl Achub y Plant.

Mae ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y Flwyddyn Ewropeaidd wedi cael eu cynnal bob blwyddyn er 1983 i dynnu sylw at themâu penodol ac i godi ymwybyddiaeth o faterion penodol. Felly, mae'n briodol ein bod, 10 mlynedd ar ôl Lisbon, yn canolbwyntio ar oresgyn tlodi ac allgáu cymdeithasol. Yn y Deyrnas Unedig, prif nodau'r flwyddyn yn 2010 yw codi ymwybyddiaeth o'r achosion, nifer yr achosion, a chanlyniadau tlodi ac allgáu cymdeithasol. Maent hefyd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r polisiau sy'n ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn, er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r broses o gynnwys ystod eang o bobl gan gynnwys, ymysg eraill, pobl o fusnesau, mudiadau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol, ar lefel leol, lefel ranbarthol a lefel genedlaethol—ac unwaith eto, cydnabu'r Prif Weinidog y rôl bwysig y gall pob un o'r mudiadau a'r busnesau hyn ei chwarae wrth fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn—a

ongoing contacts. That is where we are focused in this committee report.

Funding from the European Union, with match funding from the Department for Work and Pensions, has resulted in a fund of £1.2 million being made available for projects in the United Kingdom. The report by the European and External Affairs Committee that we are presenting looks at the process of how the National Assembly and the Welsh Assembly Government could be engaged in the European year of 2010, rather than in seeking policy solutions. As the Chair of the committee has done, I, too, thank the witnesses who came to speak to us, and I also thank the clerking staff and the chairman and other members of the committee who brought the various strands together in this report.

Following this report, as Rhodri Morgan rightly said, the Government has accepted seven recommendations wholly and one recommendation in part. I am pleased at that. With regard to two further recommendations relating to future European years, including the European Year of Volunteering next year, I am glad that the Government has been able to accept them. The important engagement that the full membership of this Chamber can have with the Government and the European Union in future European years is very important.

I welcome this report and the Assembly Government's response to it. I believe that the report marks a major milestone in our ongoing attempts to eradicate poverty and social exclusion, and it demonstrates the emphasis that we place on the importance of the European Union in bringing together different parts of Europe in tackling these deep-seated problems.

**Jeff Cuthbert:** I welcome the opportunity to contribute to this important debate. First Minister, I will focus my contribution on your acceptance of recommendation 5 of the committee's report. As you know, I must declare an interest here, as I have been

sicrhau gwaddol parhaol, gan gynnwys canfod a rhannu arferion da a sefydlu cysylltiadau parhaus. Dyna rydym yn canolbwyntio arno yn yr adroddiad pwyllgor hwn.

Mae cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd, ac arian cyfatebol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, wedi arwain at gronfa sydd werth £1.2 miliwn ar gyfer prosiectau yn y Deyrnas Unedig. Mae'r adroddiad gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol rydym yn ei gyflwyno yn edrych ar y broses o sut y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu ymwneud â blwyddyn Ewropeaidd 2010, yn hytrach na chwilio am atebion polisi. Fel y mae Cadeirydd y pwyllgor wedi'i wneud, rwyf finnau hefyd yn diolch i'r tystion a ddaeth i siarad â ni, a diolch hefyd i'r staff clericio a'r cadeirydd ac aelodau eraill y pwyllgor a ddaeth â'r gwahanol elfennau at ei gilydd yn yr adroddiad hwn.

Yn dilyn yr adroddiad hwn, fel y dywedodd Rhodri Morgan, mae'r Llywodraeth wedi derbyn saith argymhelliad yn llwyr ac un argymhelliad yn rhannol. Rwyf yn fodlon ar hynny. O ran dau argymhelliad pellach mewn perthynas â blynyddoedd Ewropeaidd yn y dyfodol, gan gynnwys y Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Gwirfoddoli'r flwyddyn nesaf, rwyf yn falch bod y Llywodraeth wedi gallu eu derbyn. Mae'r ymgysylltiad pwysig y gall holl aelodau'r Siambr hon ei gael gyda'r Llywodraeth a'r Undeb Ewropeaidd yng nghyswllt y blynyddoedd Ewropeaidd yn y dyfodol yn bwysig iawn.

Croesawaf yr adroddiad hwn ac ymateb Llywodraeth y Cynulliad iddo. Rwyf yn credu bod yr adroddiad yn garreg filltir bwysig yn ein hymdrechion parhaus i ddileu tlodi ac allgáu cymdeithasol, ac mae'n dangos y pwyslais a roddwn ar bwysigrwydd yr Undeb Ewropeaidd o ran dod â gwahanol rannau o Ewrop at ei gilydd wrth fynd i'r afael â'r problemau dwfn hyn.

**Jeff Cuthbert:** Rwyf yn falch o gael cyfle i gyfrannu at y ddadl bwysig hon. Brif Weinidog, bydd fy nghyfraniad yn canolbwyntio ar y ffaith eich bod wedi derbyn argymhelliad 5 adroddiad y pwyllgor. Fel y gwychoch, mae'n rhaid imi ddatgan

appointed by the Welsh Assembly Government to chair the all-Wales programme monitoring committee, which is mentioned in the recommendations.

I am pleased that the Welsh Assembly Government has agreed to incorporate outcomes from activities relating to the European Year for Combating Poverty and Social Exclusion into the implementation of the EU structural funds programmes. As you stated in your response to the recommendation, the structural fund programmes in Wales are closely aligned to EU policies on combating poverty and social exclusion, in line with our commitments under the Lisbon and Gothenburg agendas, as well as forthcoming commitments under their successor EU 2020 strategy. Of course, it is important to remember the principle of additionality. Structural funds should be used to help us to combat poverty and social exclusion by providing extra resources and flexibilities, but they cannot be used as a substitute for existing UK and Welsh Assembly Government programmes to that end.

4.50 p.m.

It is tempting to believe that only the European social fund is applicable when it comes to spending money to combat poverty and social exclusion. There is no doubt that the ESF, which aims to bring unemployed and economically interactive people back into work and to improve their access to training and the labour market, has a very important role to play. When people are in education, employment or training, they are much better integrated into the fabric of society, have the opportunity to better themselves and to provide for their families. Spending ESF money is, therefore, vital in tackling poverty and exclusion at a European level. However, we must remember that the European Regional Development Fund also plays an important part in this agenda, by supporting physical regeneration initiatives in relation to economic development and transport. It is all very well creating jobs and training opportunities in our efforts to pull people out of poverty and exclusion, but if

buddiant yn hyn o beth, gan fy mod wedi cael fy mhenodi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gadeirio'r pwyllgor monitro rhaglenni Cymru gyfan, a grybwyllir yn yr argymhellion.

Rwyf yn falch bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno i ymgorffori canlyniadau gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol ym mhroses weithredu rhaglenni cronfeydd strwythurol yr UE. Fel y dywedoch yn eich ymateb i'r argymhelliad, mae'r rhaglenni cronfeydd strwythurol yng Nghymru yn cyd-fynd yn agos â pholisïau'r UE ar oresgyn tlodi ac allgáu cymdeithasol, yn unol â'n hymrwymadau o dan agendâu Lisbon a Gothenburg, yn ogystal ag ymrwymadau arfaethedig o dan eu strategaeth EU 2020 olynol. Wrth gwrs, mae'n bwysig cofio'r egwyddor ychwanegolrwydd. Dylai cronfeydd strwythurol gael eu defnyddio i'n helpu i oresgyn tlodi ac allgáu cymdeithasol drwy ddarparu adnoddau a hyblygrwydd ychwanegol, ond ni ellir eu defnyddio yn lle rhaglenni cyfredol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r perwyl hwnnw.

Mae'n demtasiwn credu mai dim ond cronfa gymdeithasol Ewrop sy'n berthnasol o ran gwario arian i oresgyn tlodi ac allgáu cymdeithasol. Yn bendant mae gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, sy'n ceisio dod â phobl ddi-waith ac sy'n anweithgar yn economaidd yn ôl i fyd gwaith a gwella eu mynediad at hyfforddiant a'r farchnad lafur, rôl bwysig iawn i'w chwarae. Pan fydd pobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, maent wedi'u hintegreiddio'n well o lawer yng ngwead cymdeithas, maent yn cael cyfle i wella eu hunain ac i ddarparu ar gyfer eu teuluoedd. Felly, mae gwario arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn hanfodol wrth oresgyn tlodi ac allgáu ar lefel Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni gofio bod Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop hefyd yn chwarae rhan bwysig yn yr agenda hon, drwy gefnogi mentrau adfywio ffisegol mewn perthynas â datblygu economaidd a thrafnidiaeth. Un peth yw creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi yn ein hymdrechion i

the building and transport infrastructures are not there to support this, then we will only make limited progress, so the ERDF is just as important as the ESF in this regard. I stress again that it is to complement work that the UK and Welsh Assembly Governments are already doing and not to replace it. That is especially important in these fragile economic times, when we can expect significant spending cuts. In the next few years, the programme monitoring committee will be considering the future of cohesion policy in Wales in addition to its existing remit of monitoring the spending and implementation of the current convergence and competitiveness programmes. Part of its considerations will be looking at best practice from the current round, and ways in which we can improve, ready for any potential future round of funding, should it be made available to us. I am sure that it would welcome any information about activities undertaken relating to the European Year for Combating Poverty and Social Exclusion as well as information on relevant best practice and positive outcomes. First Minister, I look forward to working together more closely with you on this in the future.

**Eleanor Burnham:** On behalf of the previous committee Member from our group, Michael—now Lord—German, I would like to thank the Chair and the other committee members, as well as the committee secretariat, for this interesting report. I attended my first meeting as our group representative on this committee yesterday, and it has been enlightening to read this report and the First Minister's response. It was also interesting, as usual, to listen to Rhodri's opening remarks as our Chair.

It is gratifying that the EU and the DWP are providing a small budget to Wales each year, but it is disappointing that social exclusion and poverty are still major problems in Wales and across Europe. I believe that 17 per cent of EU citizens, which is about 80 million people, live below the national poverty line,

dynnu pobl o dlodi a sefyllfaoedd lle maent wedi'u hallgáu, ond os nad yw'r seilweithiau adeiladu a thrafnidiaeth yno i gefnogi hyn, bydd unrhyw gynnydd a wnawn yn gyfyngedig, felly mae Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) llawn cyn bwysied â Chronfa Gymdeithasol Ewrop yn hyn o beth. Pwysleisiaf eto mai ategu'r gwaith y mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn ei wneud yw pwrpas hyn, nid disodli'r gwaith hwnnw. Mae hynny'n arbennig o bwysig yn ystod y cyfnod economaidd bregus hwn, pan allwn ddisgwyl toriadau sylweddol mewn gwariant. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd y pwyllgor monitro rhaglenni yn ystyried dyfodol polisi cydlyniant yng Nghymru yn ogystal â'i gylch gwaith presennol o fonitro gwariant a gweithrediad y rhaglenni cydgyfeirio a chystadleurwydd cyfredol. Un rhan o'i ystyriaethau fydd edrych ar arferion gorau'r cylch presennol, a ffyrdd y gallwn wella, yn barod ar gyfer unrhyw gylch cyllido posibl yn y dyfodol, pe bai ar gael inni. Rwyf yn siŵr y byddai'n falch o gael unrhyw wybodaeth am weithgareddau a gynhelir sy'n berthnasol i'r Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol, yn ogystal â gwybodaeth am arferion gorau perthnasol a chanlyniadau cadarnhaol. Brif Weinidog, rwyf yn edrych ymlaen at weithio'n agosach gyda chi ar hyn yn y dyfodol.

**Eleanor Burnham:** Ar ran yr Aelod pwyllgor blaenorol o'n grŵp, Michael German—sydd bellach yn Arglwydd German—hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd ac aelodau eraill y pwyllgor, yn ogystal ag ysgrifenyddiaeth y pwyllgor, am yr adroddiad diddorol hwn. Bûm yn fy nghyfarfod cyntaf fel cynrychiolydd ein grŵp ar y pwyllgor hwn ddoe, ac mae wedi bod yn ddiddorol darllen yr adroddiad hwn ac ymateb y Prif Weinidog. Roedd hefyd yn ddiddorol, fel arfer, gwrando ar sylwadau agoriadol Rhodri fel ein Cadeirydd.

Mae'n braf bod yr UE a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi cyllideb fach i Gymru bob blwyddyn, ond mae'n siomedig bod allgáu cymdeithasol a thlodi yn dal yn broblemau mawr yng Nghymru ac ar draws Ewrop. Rwyf yn credu bod 17 y cant o ddinasyddion yr UE, sydd oddeutu 80 miliwn



which is set at 60 per cent of the country's average income. That is quite shocking. In Wales, we know all too well that more than a third of our children are living in poverty and that fuel poverty and excess winter deaths are a massive concern, particularly in the kind of prolonged winter that we had last year. I believe that it is helpful, therefore, that this year of celebration—or raising awareness, whatever you want to call it—can provide a vehicle to raise awareness of social exclusion and poverty in Wales, but I have to wonder how effective this exercise will prove to be. I am not being churlish, but I am new to the committee and I await the effects, because they are much needed. I believe that the concern relates mainly to the fact that the people involved in the activities are already very aware of the impacts of poverty. As the report states, 2010 is a symbolic date, as it represents the 10-year anniversary, as alluded to by Nick Bourne, of the commitment that was made in Lisbon. I have a small interest in Europe, because my son lives in Lisbon and my daughter has a recruitment company in Romania, so European matters are of great interest to me.

We know from many debates, committee meetings, reports, statistics, strategies and plans abounding in this Assembly that poverty remains persistently high in Wales, but I applaud the committee's consistent call in its recommendations for timely reports between the Government and the committee and the First Minister's recognition of their importance by his general acceptance of them. I was a bit disappointed that recommendation 1 has been accepted only in principle, because, given the huge problems that we are experiencing in reducing poverty, I would hope that all avenues could be explored in an effort to minimise and eradicate social exclusion and poverty. As our eloquent Chair mentioned with regard to the legacy—I think that Nick also mentioned that legacy is probably one of the most important impacts that we need from what is referred to as EY2010—the criteria for the bids for event funding and the involvement of those living with and experiencing poverty

o bobl, yn byw o dan y llinell tlodi genedlaethol, sydd wedi cael ei gosod ar 60 y cant o incwm cyfartalog y wlad. Mae hynny'n eithaf brawychus. Yng Nghymru, rydym yn gwybod yn rhy dda o'r hanner bod mwy na thraean o'n plant yn byw mewn tlodi, a bod tlodi tanwydd a marwolaethau ychwanegol y gaeaf yn bryder enfawr, yn enwedig yn y math o aeaf hir a gawsom y llynedd. Felly credaf ei bod yn ddefnyddiol fod y flwyddyn hon o ddathlu—neu godi ymwybyddiaeth, beth bynnag y dymunwch ei alw—yn gallu bod yn gyfrwng i godi ymwybyddiaeth o allgáu cymdeithasol a thlodi yng Nghymru, ond mae'n rhaid imi feddwl tybed pa mor effeithiol fydd yr ymarfer hwn. Nid wyf yn bod yn annifyr, ond rwyf yn newydd i'r pwyllgor ac rwyf yn aros am yr effeithiau, gan fod gwir eu hangen. Credaf fod y pryder yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith bod y bobl sy'n ymwneud â'r gweithgareddau eisoes yn ymwybodol iawn o effeithiau tlodi. Fel y dywed yr adroddiad, mae 2010 yn ddyddiad symbolaidd gan ei fod, fel y soniodd Nick Bourne, yn ddengmlwyddiant ers yr ymrwymiad a wnaed yn Lisbon. Mae gennyf ychydig o ddiddordeb mewn materion sy'n ymwneud ag Ewrop, gan fod fy mab yn byw yn Lisbon ac mae gan fy merch gwmni recriwtio yn Rwmania, felly mae materion Ewropeaidd o ddiddordeb mawr i mi.

Gwyddom o ddadleuon, cyfarfodydd pwyllgor, adroddiadau, ystadegau, strategaethau a chynlluniau niferus yn y Cynulliad hwn bod lefelau tlodi yn dal yn gyson uchel yng Nghymru, ond rwyf yn canmol cais cyson y pwyllgor yn ei argymhellion am adroddiadau amserol rhwng y Llywodraeth a'r pwyllgor, a chydabyddiaeth y Prif Weinidog o'u pwysigrwydd wrth iddo eu derbyn yn gyffredinol. Roeddwn ychydig yn siomedig mai dim ond mewn egwyddor y mae argymhelliad 1 wedi cael ei dderbyn oherwydd, o ystyried y problemau enfawr rydym yn eu hwynebu i leihau tlodi, byddwn yn gobeithio y gellid ystyried pob llwybr mewn ymdrech i leihau a dileu allgáu cymdeithasol a thlodi. Fel y soniodd ein Cadeirydd yn huawdl ynghylch gwaddol—credaf fod Nick hefyd wedi sôn mai gwaddol yw un o'r effeithiau pwysicaf y mae arnom eu hangen gan yr hyn y cyfeirir ato fel EY2010—mae'r meini prawf ar gyfer

are essential. I believe that the year began in March and was launched in Wales in June; there have been some events that I have not had the privilege of seeing, but I hope that they are all going well. I also hope that the burden and the legacy can be well supported. In conclusion, I welcome this report, and trust that it will have some positive impact on combating poverty and social exclusion in Wales; I wish Europe well also.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolch yn fawr i'r Cadeirydd am gadeirio'r ymchwiliad hwn a sicrhau ein bod yn gallu dwyn at ei gilydd adroddiad cynhwysfawr ag argymhellion penodol. Mae'n dda gweld bod y Llywodraeth wedi gallu ymateb yn gadarnhaol iawn i'r argymhellion hynny; yr ydym yn edrych ymlaen at weld y gweithgaredd sy'n deillio o hynny. Fel y byddai unrhyw un sydd wedi gwrandao ar y drafodaeth hon yn synhwyro, yr oedd holl aelodau'r pwyllgor yn cytuno â chasgliadau'r adroddiad ac yn symud i'r un cyfeiriad.

Yn ystod y drafodaeth y prynhawn yma, mae'n ymddangos i mi ein bod yn darllen o'r un briff, bron, oherwydd mae gennyf o fy mlaen yr un ffigurau ag a gyflwynwyd gan Nick Bourne. Hoffwn ategu'r pwynt yr oedd Nick yn ei wneud wrth gyfeirio at ganran poblogaeth Ewrop sy'n byw o dan lefel tlodi, yn arbennig canran y plant sy'n byw o dan y lefel honno, drwy ddweud mai ffigurau 2008 oedd y rhain; ers hynny, mae dirwasgiad ariannol enfawr wedi taro Ewrop yn ei chyfanrwydd. Byddwn yn tybio, felly, fod y sefyllfa hyd yn oed yn waeth na'r hyn yr oedd Nick yn ei awgrymu gyda'r canrannau a'r ffigurau yr oedd yn eu defnyddio. Cafwyd cyfeiriad at un o bob 10 teulu yn Ewrop lle nad oes un aelod o'r teulu yn gweithio; bu Rhodri Morgan a minnau mewn cynhadledd ym Mharis fis Chwefror diwethaf a oedd yn edrych ar y sefyllfa o ran economi Ewrop. Clywsom ffigurau brawychus yn y gynhadledd honno, yn enwedig ynglŷn â chanran y bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed nad oeddent yn gweithio mewn gwledydd fel Sbaen a Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r sefyllfa yn un wirioneddol ddifrifol, ac yn un

ceisiadau am gyllid digwyddiadau a chynnwys y rheini sy'n byw gyda thlodi ac yn wynebu tlodi, yn hanfodol. Credaf i'r flwyddyn ddechrau ym mis Mawrth ac fe'i lansiwyd yng Nghymru ym mis Mehefin; cynhaliwyd rhai digwyddiadau nad wyf wedi cael y fraint o'u gweld, ond gobeithio eu bod i gyd yn mynd yn dda. Rwyf hefyd yn gobeithio y gellir rhoi llawer o gefnogaeth gyda'r baich a'r gwaddol. I gloi, rwyf yn croesawu'r adroddiad hwn, a hyderaf y bydd yn cael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar oresgyn tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru; dymunaf yn dda i Ewrop hefyd.

**Rhodri Glyn Thomas:** I thank the Chair for chairing this inquiry and ensuring that we can draw together a comprehensive report with specific recommendations. It is good to see that the Government has been able to respond very positively to those recommendations and we look forward to seeing the action that will emanate from that. As anyone who has listened to this discussion would realise, all the committee members agreed with the conclusions of the report and are moving in the same direction.

During this discussion this afternoon, it seems to me that we are, almost, reading from the same brief, because I have before me the same figures as those that were presented by Nick Bourne. I would like to endorse the point that Nick made in referring to the percentage of the population of Europe that lives below the poverty level, particularly the percentage of children living below that level, by saying that those figures were for 2008; since then, a huge recession has hit the whole of Europe. I would imagine, therefore, that the situation is even worse than Nick suggested in the percentages and figures that he used. Reference was made to one out of every 10 families in Europe not having a family member in employment; Rhodri Morgan and I attended a conference in Paris last February that looked at the situation with regards to the European economy. We heard some frightening statistics in that conference, in particular about the percentage of young people aged between 18 and 25 not in employment in countries such as Spain and the Republic of Ireland. The situation is truly grave, and it is

sy'n gwaethygu.

Mae'r egwyddorion Ewropeaidd hyn sy'n cael eu nodi, gan gynnwys hawl sylfaenol pob dinesydd yn Ewrop i gael byw bywyd o ansawdd, yn eithriadol o bwysig, a dylem gydweithio i'w sicrhau yng Nghymru. Mae angen sicrhau ein bod yn cydnabod bod y mater hwn yn broblem i bawb, sy'n effeithio ar bob sector yn y gymdeithas: y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Mae'n rhaid i ni i gyd ymwneud â'r mater hwn, a chydlynu'r gwaith drwy'r gymdeithas yng Nghymru. Wrth gyflwyno'r adroddiad, pwysleisiodd Rhodri bwysigrwydd, yn benodol, nid yn unig ein bod yn chwilio am gyfle i bawb gyfrannu at y drafodaeth hon, ond hefyd sicrhau bod gweithgaredd penodol yn deillio o'r drafodaeth. Yr wyf yn siŵr ein bod ni oll yn ymwybodol ein bod yn aml iawn yng Nghymru yn cyrraedd sefyllfa lle ceir cyfarfodydd a thrafodaethau ond, yn anffodus, maent yn arwain at gyfiawnhau'r hyn sy'n digwydd yn hytrach nag at wneud rhywbeth i ddatrys y broblem. Gobeithio y bydd yr argymhellion yn arwain at weithgaredd penodol, ac yr ydym yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Diolchaf yn fawr i ysgrifenyddiaeth y pwyllgor am ei gwaith; heb waith staff yr ysgrifenyddiaeth ni fyddai'n bosibl i ni gynnal y math hwn o ymchwiliad. Hoffwn hefyd ddiolch i'r bobl a oedd yn ein cyfeirio yn ystod ein trafodaeth—yr oedd hynny'n eithriadol o bwysig—ac i'r tystion a gymerodd ran.

**The First Minister:** I thank Members for their contributions. As I said previously, tackling poverty is at the top of my list of priorities as First Minister; that aim is shared by the rest of the Cabinet, and I was pleased to note that the recommendations contained in the report fit closely with our current policy direction. As Rhodri has said, I am pleased to be able to accept unequivocally the majority of them; some require further consideration, but I support the intent of the proposed action and believe that steps should be taken to achieve the intended outcome. In accepting the recommendations, I am pleased to be able to indicate that work on implementing many of them is already well

deteriorating.

The European principles that are noted, including the fundamental right of every citizen in Europe to live a life of quality, are exceptionally important, and we should work together to secure them in Wales. We also need to ensure that we recognise that this is a problem for everyone, which affects every sector in society: the private, public and voluntary sectors. We must all be involved in this, and coordinate the work throughout the whole of Welsh society. In introducing the report, Rhodri emphasised the importance, in particular, that we not only look for an opportunity for everyone to contribute to this discussion, but also to ensure that specific outcomes emanate from the discussion. I am sure that we are all aware that we in Wales often find ourselves in a situation where meetings and discussions happen, but, unfortunately, they lead to a justification of the status quo rather than doing something to solve the problem. I hope that recommendations will lead to specific action, and we depend on the Welsh Government to ensure that that happens.

I very much thank the committee secretariat for their work; without their work we could not hold this kind of inquiry. I would also like to thank those who directed us in our discussions—that was exceptionally important—and to the witnesses who took part.

**Y Prif Weinidog:** Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Fel y dywedais eisoes, mae mynd i'r afael â thlodi ar frig fy rhestr o flaenoriaethau fel y Prif Weinidog; mae gweddill y Cabinet yn rhannu'r nod honno, ac roeddwn yn falch o nodi bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cyd-fynd yn agos â'n cyfeiriad polisi cyfredol. Fel y mae Rhodri wedi'i ddweud, rwyf yn falch o allu derbyn y mwyafrif ohonynt yn ddigamsyniol; mae'n rhaid ystyried rhai ohonynt ymhellach, ond rwyf yn cefnogi bwriad y camau arfaethedig a chredaf y dylid cymryd camau i sicrhau'r canlyniad a fwriedir. Wrth dderbyn yr argymhellion, rwyf yn falch o allu dweud y bod y gwaith i weithredu llawer ohonynt

under way.

eisoes yn mynd rhagddo.

5.00 p.m.

If I may, I will mention the progress that is being made on a few. We are already ensuring that people experiencing poverty are fully involved in EY2010 activities. We worked closely with the UK Government to ensure that the majority of participants at the Be Heard event held in Swansea on 24 June were individuals experiencing poverty and social exclusion. In addition, I am pleased that the Bevan Foundation will be holding an event on 23 September in Newport, and I know that two thirds of the participants will again be individuals experiencing poverty and social exclusion. The Deputy Minister for Children will be attending the Newport event and will use the opportunity to provide an update on the Assembly Government's wider work on tackling poverty and exclusion.

Os caf, soniaf am y cynnydd sy'n cael ei wneud ar rai ohonynt. Rydym eisoes yn sicrhau bod pobl sy'n wynebu tlodi yn cael eu cynnwys yn llawn yng ngweithgareddau EY2010. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y rhan fwyaf o'r rheini a oedd yn cymryd rhan yn y digwyddiad Be Heard a gynhaliwyd yn Abertawe ar 24 Mehefin yn unigolion a oedd yn wynebu tlodi ac allgáu cymdeithasol. Hefyd, rwyf yn falch y bydd Sefydliad Bevan yn cynnal digwyddiad ar 23 Medi yng Nghasnewydd, a gwn y bydd dwy ran o dair o'r rheini a fydd yn cymryd rhan unwaith eto yn unigolion sy'n wynebu tlodi ac allgáu cymdeithasol. Bydd y Dirprwy Weinidog dros Blant yn bresennol yn y digwyddiad yng Nghasnewydd, a bydd yn defnyddio'r cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith ehangach Llywodraeth y Cynulliad i oresgyn tlodi ac allgáu.

Ensuring a lasting legacy to EY2010 is fundamental to its success, and we are keen to ensure that the good work and high profile continue beyond 2010. Ensuring a lasting legacy was also part of the criteria for attracting funds to run activities as part of the year. Grants have been made available to fund activities that clearly contribute to a lasting legacy. In addition, the Assembly Government will ensure that the outcome of the events will be made available to Ministers and policy makers, which will add to the existing evidence base on tackling poverty.

Mae sicrhau gwaddol parhaol yn sgîl EY2010 yn hanfodol i'w lwyddiant, ac rydym yn awyddus i sicrhau bod y gwaith da a'r proffil uchel yn parhau y tu hwnt i 2010. Roedd sicrhau gwaddol parhaol hefyd yn rhan o'r meini prawf ar gyfer denu arian i gynnal gweithgareddau fel rhan o'r flwyddyn. Mae grantiau wedi cael eu darparu i ariannu gweithgareddau sy'n amlwg yn cyfrannu at waddol parhaol. Hefyd, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau y bydd canlyniad y digwyddiadau ar gael i Weinidogion a llunwyr polisi, a fydd yn ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth sydd gennym ar hyn o bryd ynghylch mynd i'r afael â thlodi.

I also understand that the outcomes emerging from the EY2010 activities in Wales will form part of the UK-wide report by the Department for Work and Pensions, which will be produced for the European Commission. In conjunction with DWP, we will ensure that the report is sent to the Committee on European and External Affairs when it is available.

Rwyf hefyd yn deall y bydd y canlyniadau a fydd yn deillio o weithgareddau EY2010 yng Nghymru yn rhan o'r adroddiad ynghylch y DU gyfan gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a fydd yn cael ei lunio ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd. Ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau, byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei anfon at y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol pan fydd ar gael.

The Assembly Government is keen to ensure alignment between initiatives such as

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i sicrhau cysondeb rhwng cynlluniau fel

EY2010 and the structural fund programmes. We will ensure that best practice and positive outcomes are not lost at the end of the year but used to best effect for the development and implementation of future structural fund projects in Wales. We will also ensure that information on the activities undertaken through the year will be made available to the all-Wales programme monitoring committee.

We also intend to take evidence gathered by the committee's inquiry and the views gathered from EY2010 activities into consideration for the final version of our child poverty strategy and delivery plan, which will be published at the end of this year. We will also include in the guidance key findings that will be developed to support the implementation of the Children and Families (Wales) Measure 2010.

We have done much through our children and young people's monitor to establish a measure of wellbeing and to publish data at the Wales level that provide a snapshot of the lives of children and young people living in Wales today. When we first published the monitor in 2008, it was well received, and it is also an important vehicle for measuring our progress on our Wales-level 2020 child poverty targets. We believe it is a model of good practice that can be shared and used elsewhere outside Wales and particularly in other parts of the EU.

I agree that meaningful cross-EU comparison indicators would be a useful policy tool for combating poverty and social exclusion. We already use UK standard definitions of poverty that enable cross-UK comparisons. However, having a similar set of criteria across the EU would make it far easier to compare and to see what works in different parts of Europe. We will continue to work with, and contribute our views to, the UK Government. We need to ensure that our indicators align with those proposed at an EU level under the Europe 2020 strategy.

I trust that, in this Chamber, we are united in

EY2010 a'r rhaglenni cronfeydd strwythurol. Byddwn yn sicrhau nad yw arferion gorau a chanlyniadau cadarnhaol yn cael eu colli ar ddiwedd y flwyddyn, a'u bod yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau er mwyn datblygu a gweithredu prosiectau cronfeydd strwythurol yn y dyfodol yng Nghymru. Byddwn hefyd yn sicrhau y bydd gwybodaeth am y gweithgareddau a gynhelir drwy gydol y flwyddyn ar gael i bwyllgor monitro rhaglenni Cymru gyfan.

Rydym hefyd yn bwriadu mynd ati i ystyried tystiolaeth a gasglwyd drwy ymchwiliad y pwyllgor, a'r safbwyntiau a gasglwyd mewn gweithgareddau EY2010, ar gyfer fersiwn derfynol ein strategaeth tlodi plant a'r cynllun cyflenwi, a fydd yn cael eu cyhoeddi ddiwedd eleni. Byddwn hefyd yn cynnwys yn y canllawiau ganfyddiadau allweddol a fydd yn cael eu datblygu i gefnogi'r broses o weithredu Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Rydym wedi gwneud llawer drwy ein monitor plant a phobl ifanc i sefydlu mesur lles ac i gyhoeddi data ar lefel Cymru sy'n rhoi cipolwg ar fywydau plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru heddiw. Pan gyhoeddwyd y monitor gyntaf yn 2008 cafodd dderbyniad gwresog, ac mae hefyd yn gyfrwng pwysig ar gyfer mesur ein cynnydd o ran ein targedau ar gyfer lefel tlodi plant Cymru. Rydym yn credu ei fod yn fodel arfer da y gellir ei rannu a'i ddefnyddio mewn mannau eraill y tu allan i Gymru, ac yn arbennig mewn rhannau eraill o'r UE.

Cytunaf y byddai dangosyddion cymharu ystyrlon ar draws yr UE yn adnodd defnyddiol ar gyfer goresgyn tlodi ac allgáu cymdeithasol. Rydym eisoes yn defnyddio diffiniadau safonol y DU o dlodi sy'n ein galluogi i gymharu â rhannau o'r DU. Fodd bynnag, byddai cael set o feini prawf tebyg ar draws yr UE yn ei gwneud yn haws o lawer cymharu a gweld beth sy'n gweithio mewn gwahanol rannau o Ewrop. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ac i gyfrannu ein barn. Mae angen inni sicrhau bod ein dangosyddion yn cyd-fynd â'r rheini a gynigir ar lefel yr UE o dan y strategaeth Ewrop 2020.

Hyderaf ein bod, yn y Siambr hon, yn gytûn

our desire to eradicate child poverty. The Government remains committed to its eradication in Wales by 2020. This report, together with its recommendations, will be an important part of achieving that goal.

**Rhodri Morgan:** All of the contributions to this afternoon's debate confirmed what I said at the start, which is that there has never been a more timely report on a more relevant topic, nor is there a topic on which there has been a more consensual cross-party approach in 2010, and, I believe, over the entire 11-and-a-half years of devolution, and nor will there be long into the future.

As I conclude, I recall that, about 10 seconds after Lyndon Johnson made the statement in his state of the union address in 1964 that, from that moment on, America declared unconditional war on poverty, he was handed a telegram from the governor of West Virginia that said, 'Dear President, if you are declaring war on poverty, where do we surrender?'. Wales is not exactly the West Virginia of the United Kingdom, although it has elements of Appalachian problems, which is one of the reasons why we give this whole topic a high priority and why in today's debate there has been such a united front with regard to continuing the work that we need to do to eliminate poverty from our country.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to note the report of the Committee on European and External Affairs. Does any Member object? I see that there are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

yn ein dyhead i ddileu tlodi plant. Mae'r Llywodraeth yn dal yn ymroddedig i ddileu tlodi plant yng Nghymru erbyn 2020. Bydd yr adroddiad hwn, ynghyd â'i argymhellion, yn rhan bwysig o gyrraedd y nod hwnnw.

**Rhodri Morgan:** Mae'r holl gyfraniadau at ddadl y prynhawn yma wedi cadarnhau'r hyn a ddywedais ar y dechrau, sef na fu erioed adroddiad mwy amserol ar bwnc mwy perthnasol, ac na chafwyd ychwaith bwnc sydd wedi denu cymaint o ymagwedd drawsbleidiol gydlynol yn 2010 nac, yn fy marn i, yn ystod yr holl 11 mlynedd a hanner o ddatganoli, ac ni fydd pwnc o'r fath yn y dyfodol agos ychwaith.

Wrth imi gloi cofiaf fod Lyndon Johnson—oddeutu 10 eiliad ar ôl iddo wneud y datganiad yn ei anerchiad cyflwr yr undeb ym 1964 fod America, o'r foment honno, yn datgan rhyfel diamod yn derbyn tlodi—wedi cael telegram gan lywodraethwr West Virginia a oedd yn dweud, Annwyl Arlywydd, os ydych yn datgan rhyfel yn erbyn tlodi, ble rydym yn ildio? Nid Cymru yw West Virginia y Deyrnas Unedig, er bod ganddi elfennau o broblemau Appalachiaidd, a dyma un o'r rhesymau pam rydym yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r pwnc cyfan, a pham y cafwyd cymaint o undod o ran parhau â'r gwaith y mae angen inni ei wneud i ddileu tlodi yn ein gwlad.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Cytunir, felly, ar y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

## Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats Debate

### Gofal Parhaus Continuing Care

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Nick Ramsay.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 in the name of Nick Ramsay.

*Cynnig NDM4537 Peter Black*

*Motion NDM4537 Peter Black*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*The National Assembly for Wales*

*1. Yn nodi nifer yr hawliadau ôl-weithredol am ofal parhaus.*

*1. Notes the number of retrospective claims for continuing care.*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi cyfarwyddyd diwygiedig sy'n datgan yn glir y caiff bwrdd iechyd:*

*2. Calls on the Welsh Assembly Government to issue revised guidance which clearly sets out that a health board can:*

*a) benderfynu ar achosion gofal parhaus pan nad oes angen sefydlu panel, yn amodol ar y prosesau apelio arferol.*

*a) make a decision on continuing care cases where the establishment of a panel is not necessary, subject to the usual appeals processes.*

*b) delio ag achosion yn ôl pa mor agos ydynt at gael eu cwblhau yn hytrach na mewn trefn gronolegol.*

*b) deal with cases in order of how close to completion they are rather than in chronological order.*

**Veronica German:** I move the motion.

**Veronica German:** Cynigiau y cynnig.

When the time comes, I think that everyone wants the best and most appropriate care for their loved ones, whatever the setting. At this really difficult time for families, having the right funding package in place can just add further stress at an already difficult time. Determining who should pay for that care has been the source of many discussions, reports and commissions over the years. The court decisions in the cases of Caughlan and Grogan ensured that patients with a primary healthcare need were definitely the responsibility of the NHS. I do not think that anyone argues with that.

Pan ddaw'r amser, credaf fod ar bawb eisiau cael y gofal gorau a mwyaf priodol ar gyfer eu hanwyliaid, beth bynnag fo'r sefyllfa. Yn y cyfnod hwn, sy'n gyfnod anodd iawn i deuluoedd, gall cael y pecyn cyllido priodol ychwanegu rhagor o straen mewn cyfnod sydd eisoes yn anodd. Mae penderfynu pwy ddylai dalu am y gofal hwnnw wedi bod yn destun sawl trafodaeth, adroddiad a chomisiwn dros y blynyddoedd. Mae penderfyniadau'r llys yn achosion Caughlan a Grogan wedi sicrhau mai'r GIG sy'n bendant yn gyfrifol am gleifion ag anghenion gofal iechyd sylfaenol. Nid wyf yn credu bod neb yn dadlau yn erbyn hynny.

Inevitably, a large number of cases were then identified from those previous years where individuals and their families had to really dig deep to find the resources to fund the care for their loved ones. There was a lot of

Yn anochel, cafodd nifer helaeth o achosion eu nodi o'r blynyddoedd blaenorol hynny lle bu'n rhaid i unigolion a'u teuluoedd fynd yn ddwfn i'w pocedi i ddod o hyd i'r adnoddau i ariannu'r gofal ar gyfer eu hanwyliaid. Roedd

hardship and many difficulties. People are still struggling. This money should never have had to be found in the first place. Patients and families deserve to have a response to these cases within a reasonable amount of time. This was never going to happen overnight—there was a huge backlog—but we certainly believe that some steps can be taken that would speed up that process, which is what we are talking about today.

The Welsh Government estimates that these cases could be dealt with within three years, but is that really possible using the methods that are being used at the moment? So far, only 140 cases a year have been settled. At that rate, it would take around 13 years to clear the backlog. There seems to be a slight mismatch. Surely, there has to be a little bit of a change to the approach, because apart from the obvious distress caused to patients and their families, it is in the Government's own interest to make progress since each successful claim will be accruing interest as time goes on. As the Conservatives have pointed out in their amendment, to date, the value of this is £2.6 million, which can only increase as time goes on. Therefore, something has to change.

We have put forward just a couple of simple suggestions today, which, we believe, could help to speed up the process. At the moment, responses to the claims are undertaken in the order in which they have been received. This, at first, seems perfectly reasonable: the people who got their claims in pre-2003 were first, and therefore they should be dealt with first. However, there was already a precedent for not going in exactly that order by dealing with patients who are still living rather than dealing with someone's estate after they may have sadly died while waiting for this money to come through.

Today, we are just arguing for another distinction to prioritise cases where all of the information and records are available and can be settled quite easily even if the original claim comes in after some other cases. The current position is that they try to collate information, perhaps, from care homes and

llawer o galedi a nifer o anawsterau. Mae pobl yn dal yn ei chael yn anodd. Ni ddylid byth fod wedi gorfod dod o hyd i'r arian hwn yn y lle cyntaf. Mae cleifion a'u teuluoedd yn haeddu cael ymateb i'r achosion hyn mewn cyfnod rhesymol. Nid oedd hyn byth yn mynd i ddigwydd dros nos—roedd nifer enfawr o achosion wedi cronni—ond rydym yn bendant yn credu y gellir cymryd rhai camau a fyddai'n cyflymu'r broses honno, sef yr hyn rydym yn sôn amdano heddiw.

Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y gellid ymdrin â'r achosion hyn mewn tair blynedd, ond a yw hynny wir yn bosibl wrth ddefnyddio'r dulliau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd? Hyd yn hyn, dim ond 140 o achosion y flwyddyn sydd wedi cael eu setlo. Ar y gyfradd honno, byddai'n cymryd tua 13 mlynedd i glirio'r pentwr o achosion sydd wedi cronni. Ceir gwahaniaeth mawr rhwng y ddau ffigur hynny. Oni ddylid newid ychydig ar y dull gweithredu, oherwydd ar wahân i'r trallod amlwg a achosir i gleifion a'u teuluoedd, mae angen gwneud cynnydd er budd y Llywodraeth ei hun gan y bydd pob hawliad llwyddiannus yn cronni llog wrth i amser fynd heibio. Fel y mae'r Ceidwadwyr wedi dweud yn eu gwelliant, mae hyn werth £2.6 miliwn ar hyn o bryd, a chynyddu fydd y swm hwnnw wrth i amser fynd heibio. Felly, mae'n rhaid i rywbeth newid.

Rydym wedi cyflwyno ambell awgrym syml heddiw a allai, yn ein barn ni, helpu i gyflymu'r broses. Ar hyn o bryd, mae'r hawliadau'n cael eu hateb yn y drefn y maent wedi dod i law. Ar yr olwg gyntaf, mae'n ymddangos yn gwbl resymol: y bobl a gyflwynodd eu hawliadau cyn 2003 oedd gyntaf, ac felly dylid ymdrin â hwy yn gyntaf. Fodd bynnag, roedd cynsail eisoes wedi'i osod i beidio â dilyn y drefn honno'n union drwy ymdrin â chleifion sy'n dal yn fyw yn hytrach nag ymdrin ag ystâd rhywun sydd, yn anffodus, wedi marw wrth aros am yr arian hwn.

Dim ond dadlau o blaid gwahaniaeth arall ar gyfer blaenoriaethu achosion rydym yn ei wneud heddiw, lle mae'r holl wybodaeth a chofnodion ar gael ac yn gallu cael eu datrys yn gymharol hawdd hyd yn oed os bydd yr hawliad gwreiddiol yn cael ei gyflwyno ar ôl rhai achosion eraill. Ar hyn o bryd, maent yn



hospitals—from all over the place—and from people whose records they cannot trace. This case is then holding up other cases that are following behind. Meanwhile, in other cases, the information might all be there and ready to go and yet they are not being heard and processed. That is the information that we have been given. We understand that there are difficulties in some cases, but these people should not be holding up the queue.

5.10 p.m.

Another situation that has arisen is that some patients have been assessed since they first went into care, which was prior to 2003. They have been assessed since but they are in the same situation—nothing has changed; they are in the same care setting and they have the same problem. They are now in receipt of the money for continuing care, but not in receipt of the previous money that has already been paid out. That seems like a bureaucratic nightmare. Their condition has not changed, nothing is different, yet they are not receiving that money. We think that that is something that could be progressed, and it would also take them out of the queue.

It is also estimated that about a third of those waiting for assessment—about 800 people, because there is currently a backlog of about 2,400 cases—are non-contentious. After an initial assessment, they could be settled with the individual and their family without having to go to a board because no-one is arguing—everyone is saying ‘yes’. Apparently, that is already happening in some parts of Wales, and we would like the Government to issue guidance that this should be happening across the whole of Wales. If the Government was to follow our suggestion—and the usual appeals process would obviously be in place; it would not bypass any of that—it would mean that we could make a dent in the number of people waiting for these cases to be settled. It is important that we ensure that bureaucratic processes do not take priority over the needs of patients and their families.

*Gwelliant 1 Nick Ramsay*

*Ychwanegu fel pwynt newydd ar ôl pwynt 1*

ceisio casglu gwybodaeth, o bosibl gan gartrefi gofal ac ysbytai—o bobman—a chan bobl nad oes modd olrhain eu cofnodion. Mae'r achos hwn wedyn yn dal achosion dilynol eraill yn ôl. Yn y cyfamser, mewn achosion eraill, efallai fod y wybodaeth i gyd yno ac ar gael, ac eto nid ydynt yn cael eu clywed na'u prosesu. Dyna'r wybodaeth rydym wedi'i chael. Rydym yn deall y ceir anawsterau mewn rhai achosion, ond ni ddylai'r bobl hyn fod yn dal y ciw yn ôl.

Sefyllfa arall sydd wedi codi yw bod rhai cleifion wedi cael eu hasesu ers y tro cyntaf iddynt ddechrau cael gofal, a hynny cyn 2003. Maent wedi cael eu hasesu ers hynny ond maent yn yr un sefyllfa—nid oes dim wedi newid; maent yn yr un sefyllfa ofal ac yr un yw'r broblem o hyd. Maent wedi cael yr arian ar gyfer gofal parhaus erbyn hyn, ond nid ydynt wedi cael yr arian blaenorol sydd eisoes wedi cael ei dalu. Mae hynny'n swnio fel hunllef fiwrocrataidd. Nid yw eu cyflwr wedi newid, nid oes dim yn wahanol, ac eto nid ydynt yn cael yr arian hwnnw. Rydym yn credu bod hynny'n rhywbeth y gellid gwneud cynnydd arno, a byddai hefyd yn eu tynnu o'r ciw.

Amcangyfrifir hefyd na cheir anghytuno yn achos tua thraean o'r rheini sy'n aros am asesiad—tua 800 o bobl, oherwydd mae oddeutu 2,400 o achosion yn aros am sylw. Ar ôl asesiad cychwynnol, gellid eu datrys gyda'r unigolyn a'i deulu heb orfod mynd gerbron bwrdd oherwydd nad oes neb yn dadlau—mae pawb yn cytuno. Mae'n debyg bod hynny eisoes yn digwydd mewn rhai rhannau o Gymru, a hoffem i'r Llywodraeth gyhoeddi canllawiau y dylai hyn fod yn digwydd ym mhob rhan o Gymru. Pe bai'r Llywodraeth yn dilyn ein hawgrym—a byddai'r broses apelio arferol yn amlwg ar waith; ni fyddai'n osgoi hynny o gwbl—byddai'n golygu y gallem leihau'n sylweddol nifer y bobl sy'n aros i'r achosion hyn gael eu setlo. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau nad yw prosesau biwrocrataidd yn cael blaenoriaeth dros anghenion cleifion a'u teuluoedd.

*Amendment 1 Nick Ramsay*

*Add as new point after point 1, and renumber*

*ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:*

*Yn nodi â phryder lefel y llog a dalwyd hyd yn hyn, sef £2.6 miliwn, ar gost heb ei thalu hawliadau gofal parhaus.*

*Gwelliant 2 Nick Ramsay*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu'n rhagweithiol i roi sylw i'r amcangyfrif o 2,000 o achosion o hawliadau gofal parhaus sydd wedi cronni.*

**Andrew R.T. Davies:** I move amendments 1 and 2.

In moving these amendments, I hope to draw the Assembly's attention to the cost of not dealing with these claims. These are figures that I obtained from the Assembly Government, and it was one of the first issues that I raised with the First Minister when he took up his position in January, namely dealing with the backlog of claims. At that time, the figure of £2.6 million related to the 800 claims that had been settled at that point, but there were still some 2,000 outstanding claims. Therefore, if it has cost £2.6 million to settle 800 claims, one can do the very rough calculation and assume that the figure for interest on the outstanding claims is considerably greater. I am sure that no-one, be they Government or opposition Members in the Assembly, would agree that it is a sensible use of public money to pay interest when the debt is due. Above all, there is an emotional debt for families going through this tortuous process of claiming what by right has been proven by the court to be theirs. This should be dealt with in a satisfactory and timely manner.

I do not underestimate the complexity and difficulty of assessing claims and going through various aspects of those claims, often when third, fourth or fifth parties are involved because you are dealing with a case of a historical nature. Therefore, I do not underestimate or trivialise the situation. However, there has been a considerable time

*accordingly:*

*Notes with concern the level of interest paid out to date of £2.6 million on the unsettled cost of continuing care claims.*

*Amendment 2 Nick Ramsay*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Assembly Government to act proactively in addressing the estimated 2000 case backlog of continuing care claims.*

**Andrew R.T. Davies:** Cynigaf welliannau 1 a 2.

Wrth gynnig y gwelliannau hyn, rwyf yn gobeithio tynnu sylw'r Cynulliad at gost peidio ag ymdrin â'r hawliadau hyn. Rwyf wedi cael y ffigurau hyn gan Lywodraeth y Cynulliad, ac roedd yn un o'r materion cyntaf imi ei godi â'r Prif Weinidog pan ddechreuodd ar ei swydd ym mis Ionawr, sef ymdrin â'r hawliadau sydd wedi cronni. Bryd hynny, roedd y ffigur o £2.6 miliwn yn cyfeirio at yr 800 o hawliadau a oedd wedi cael eu setlo bryd hynny, ond roedd oddeutu 2,000 o hawliadau yn dal i aros am sylw. Felly, os yw wedi costio £2.6 miliwn i setlo 800 o hawliadau, gallwch wneud y cyfrifiad bras iawn a thybio bod y ffigur ar gyfer llog ar yr hawliadau sy'n aros am sylw yn uwch o lawer. Rwyf yn siŵr na fyddai neb, yn Aelodau o'r Llywodraeth neu'n Aelodau pleidiau eraill yn y Cynulliad, yn cytuno bod defnyddio arian cyhoeddus i dalu llog pan fydd rhaid talu'r ddyled yn ffordd synhwyrol o ddefnyddio arian cyhoeddus. Yn anad dim, ceir dyled emosiynol i deuluoedd sy'n wynebu'r broses droellog hon o hawlio'r hyn y mae'r llys wedi profi y mae ganddynt hawl iddo. Dylid ymdrin â hyn mewn modd derbyniol ac amserol.

Nid wyf yn tanbrizio pa mor anodd a chymhleth yw'r broses o asesu hawliadau ac ymdrin â gwahanol elfennau'r hawliadau hynny, yn aml pan fydd yn cynnwys trydydd, pedwerydd a phumed partion am eich bod yn ymdrin â hen achos. Felly, nid wyf yn tanbrizio nac yn diraddio'r sefyllfa. Fodd bynnag, bu oedi sylweddol o'r adeg pan oedd

lag from when the debt was due or when an understanding of the liability came into the public domain. Therefore, in particular with regard to amendment 2, I hope that the Minister in her response will offer a detailed route map to deal with the backlog of cases and lessen the liability for the interest that the Assembly Government, and, therefore, the taxpayer, has in this situation. The figures that Veronica talked about of there being a backlog of some 13 years or 14 years if we continue on the current trajectory is quite correct, because those figures have been given to me by experts in this field. I have spoken to Hugh James Solicitors—as, I am sure, have other Members—which seems to be dealing with a considerable number of claims, not just in Wales but also across the United Kingdom. In its view and that of other independent parties, there is a need to ramp-up the way in which we are dealing with this and, in particular, to lessen the emotional rollercoaster that people go through when dealing with these processes. I understand that new guidelines have been in place as of the middle of August, which, hopefully, will end the postcode lottery in which some people have found themselves. I appreciate that those guidelines are relatively new and that time will tell whether that postcode lottery will end. However, hopefully, it is a step in the right direction.

When we think about the whole situation, we must not forget the continuing dilemma that many families and relatives face. We are not talking about a small liability; people have had to absorb significant liabilities. If we look at the out-of-court settlement in relation to Marjorie Eyton-Jones of summer 2009, we can see that we are talking about a sum of £165,000 in nursing fees, which is not a small sum of money in anyone's language and must have been a tremendous burden for the family to bear in addition to the emotional rollercoaster of looking after their loved one in challenging circumstances. Therefore, in the Minister's response, I will be looking for a detailed route map, as I am sure that families and professionals involved in this situation will do, or I will be looking for the promise that a route map will be brought forward that will identify how the Government will crystallise these claims,

y ddyled yn ddyledus neu pan ddaeth dealltwriaeth o atebolrwydd i sylw'r cyhoedd. Felly, yn enwedig o ran gwelliant 2, gobeithio y bydd y Gweinidog yn ei hymateb yn cynnig llwybr manwl i ymdrin â'r achosion sydd wedi cronni ac i leihau cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad ac, felly, y trethdalwr yn y sefyllfa hon o ran y llog. Mae'r ffigurau y soniodd Veronica amdanynt ynghylch tua 13 neu 14 mlynedd o achosion wedi cronni os byddwn yn parhau ar y llwybr presennol yn eithaf cywir, oherwydd mae arbenigwyr yn y maes hwn wedi rhoi'r ffigurau hynny imi. Rwyf wedi siarad â Chyfreithwyr Hugh James—ac rwyf yn siŵr bod Aelodau eraill wedi gwneud hynny hefyd—sydd, yn ôl pob golwg, yn ymdrin â nifer sylweddol o hawliadau, nid dim ond yng Nghymru ond ar draws y Deyrnas Unedig hefyd. Yn eu barn hwy ac ym marn partïon annibynnol eraill, mae angen gwella'r ffordd rydym yn ymdrin â hyn ac, yn benodol, lleihau'r trawma o emosiynau y mae pobl yn ei wynebu wrth ymdrin â'r prosesau hyn. Rwyf yn deall bod canllawiau newydd ar waith ers canol mis Awst a fydd, gobeithio, yn rhoi diwedd ar y loteri cod post y mae rhai pobl yn ei wynebu. Rwyf yn sylweddoli bod y canllawiau hynny yn gymharol newydd, ac amser a ddengys a fydd y loteri cod post hwnnw'n dod i ben. Fodd bynnag, mae'n gam i'r cyfeiriad iawn gobeithio.

Pan fyddwn yn meddwl am y sefyllfa gyfan, mae'n rhaid inni beidio ag anghofio'r broblem barhaus y mae llawer o deuluoedd a pherthnasau yn ei hwynebu. Nid ydym yn sôn am ddyledion bach; mae pobl wedi gorfod wynebu dyledion sylweddol. Os edrychwn ar y setliad y tu allan i'r llys mewn perthynas â Marjorie Eyton-Jones yn ystod haf 2009, gallwn weld ein bod yn sôn am swm o £165,000 mewn ffioedd nyrsio. Nid yw hwnnw'n swm bach i neb, ac mae'n rhaid ei fod wedi bod yn faich aruthrol i'r teulu ei ysgwyddo, yn ychwanegol at y trawma emosiynol sy'n gysylltiedig â gofalu am anwyliad mewn amgylchiadau anodd. Felly, yn ymateb y Gweinidog, byddaf yn chwilio am lwybr manwl, fel y bydd teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r sefyllfa hon yn ei wneud rwyf yn siŵr. Neu byddaf yn chwilio am yr addewid y bydd llwybr yn cael ei gyflwyno a fydd yn nodi sut

how it will insure the Welsh taxpayer from future interest payments on unsettled claims, and how these claims will be dealt with in the most logical way, and not the most bureaucratic way, as has been put before Plenary this afternoon.

**Jenny Randerson:** The situation in which we find ourselves is truly shocking and it should never have been allowed to happen. If action had been taken after the Coughlan court case in 1999, the backlog would not have built up. It is only since the Grogan case, in which the NHS was criticised for failing to act on the results of the previous case, that action has been taken. From last August, the Coughlan test, which says that if health is the primary reason for needing continuing care the NHS should pay, is being applied more thoroughly and we hope that there will not be a significant number of future cases.

We have often talked about the need for health and social services to work more closely together. With continuing care, it is the separate nature of those services that has caused the problems, basically because there have been arguments between them about who should pay the cost. Whether a person needs residential care for health reasons or for other reasons can be the difference between the NHS or the local authority looking after them, and for the families concerned, it can be a difference that involves a great deal of cost because they have to fund the expense. The two organisations operate in hugely different ways. A local authority's duty of care and, therefore, funding are different from those of the NHS. This difference is clear to us as policy makers, but the needs of the person receiving the care are likely to be very much the same. It is difficult to explain to people why that difference exists and why it is so crucial and fundamental.

This afternoon, I want to give you an example of one of my constituents who is a trained social worker and is at about retirement age. He is of Somali origin and his mother has advanced dementia. As part of her dementia, she can no longer speak English. The impact on his and his family's health and

y bydd y Llywodraeth yn crisialu'r hawliadau hyn, sut y bydd yn yswirio trethdalwyr Cymru rhag taliadau llog ar hawliadau heb eu datrys, a sut yr eir ati i ymdrin â'r hawliadau hyn yn y ffordd fwyaf rhesymegol, nid y ffordd fwyaf biwrocataidd, fel y rhoddwyd gerbron y Cyfarfod Llawn y prynhawn yma.

**Jenny Randerson:** Mae ein sefyllfa yn gwbl syfrdanol, ac ni ddylid byth fod wedi caniatáu iddi ddigwydd. Pe bai camau wedi cael eu cymryd ar ôl achos llys Coughlan ym 1999, ni fyddai achosion wedi cronni. Dim ond ers achos Grogan, lle cafodd y GIG ei feirniadu am beidio â gweithredu ar ganlyniadau'r achos blaenorol, y mae camau wedi cael eu cymryd. Ers mis Awst diwethaf mae'r prawf Coughlan, sy'n dweud os iechyd yw'r prif reswm dros fod angen gofal parhaus y GIG ddylai dalu, yn cael ei roi ar waith yn fwy trylwyr, ac rydym yn gobeithio na fydd nifer sylweddol o achosion yn y dyfodol.

Rydym wedi sôn yn aml am yr angen i wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol weithio'n agosach gyda'i gilydd. Gyda gofal parhaus, natur ar wahân y gwasanaethau hynny sydd wedi achosi'r problemau a hynny, yn y bôn, oherwydd y cafwyd dadleuon rhyngddynt ynghylch pwy ddylai dalu'r gost. Gall a oes angen gofal preswyl ar rywun am resymau iechyd ynteu am resymau eraill fod y gwahaniaeth rhwng ai'r GIG ynteu'r awdurdod lleol sy'n gofalu amdanynt. I'r teuluoedd dan sylw, gall fod yn wahaniaeth sy'n cynnwys llawer iawn o gost gan fod yn rhaid iddynt dalu'r costau. Mae'r ddau sefydliad yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol iawn ac felly, mae dyletswydd gofal a chyllid awdurdod lleol yn wahanol i rai'r GIG. Mae'r gwahaniaeth hwn yn amlwg i ni fel llunwyr polisi, ond mae anghenion y sawl sy'n derbyn y gofal yn debygol o fod yn debyg iawn. Mae'n anodd egluro wrth bobl pam mae'r gwahaniaeth hwnnw'n bodoli, a pham ei fod mor hanfodol a sylfaenol.

Y prynhawn yma, rwyf am roi enghraifft ichi o un o fy etholwyr sydd wedi cymhwyso i fod yn weithiwr cymdeithasol ac sydd tua'r oedran ymddeol. Mae'n dod o Somalia'n wreiddiol, ac mae ei fam yn dioddef o ddementia datblygedig. Oherwydd ei dementia, nid yw'n gallu siarad Saesneg

the impact on the family structure of over two years of fighting the NHS bureaucracy versus the council's social services department's bureaucracy has been considerable.

5.20 p.m.

All he wants is to be able to provide appropriate care for his mother at home, largely because the amount of appropriate care available in residential accommodation is limited. He wants to keep his mother at home, with the family, and although it has not cost him dear in financial terms, it has in health and emotional terms, as he has tried to get to grips with it. Of course, social services are now offering personalised budgets, direct payments and that kind of settlement, but that is not available via the NHS, and this lady is under NHS care. It is time that we brought an end to this. One hopes that it has come to an end, but those who are still waiting for the settlement of their cases are still emotionally tied up with that system, and with the impact that it has had on them. I urge you, Minister—whether through sharing budgets, or some other mechanism—to ensure that there is absolutely no incentive for the NHS and the social services departments of Wales to argue with each other about where the responsibility lies.

**Peter Black:** I fully support what Jenny Randerson just said. I wanted to allude to some figures, and a case in my own region, to highlight the scale of the problem. Across Wales, as I understand it, the total number of outstanding cases is 3,296, and 662 of those are in my region. Of those 662, 259 cases are from before 1 April 2003—cases that the Assembly Government has assumed responsibility for determining and for the direct payments. There are 167 cases from after 1 April 2003 and another 236 where we are not sure about the date. The confusion is about how to allocate those cases—whether they are the responsibility of the Assembly Government or the local health board—and that needs to be sorted out fairly quickly.

mwyach. Mae dros ddwy flynedd o frwydro yn erbyn biwrocratiaeth y GIG a biwrocratiaeth adran gwasanaethau cymdeithasol y cyngor wedi cael effaith sylweddol ar iechyd ei deulu ac yntau, ac ar strwythur y teulu.

Y cyfan y mae arno ei eisiau yw gallu darparu gofal priodol ar gyfer ei fam gartref, yn bennaf oherwydd bod lefel y gofal priodol sydd ar gael mewn llety preswyl yn gyfyngedig. Mae arno eisiau cadw ei fam yn y cartref, gyda'r teulu, ac er ei fod wedi costio'n ddrud iddo mewn termau ariannol, mae hefyd wedi costio iddo mewn termau iechyd ac emosiynol, wrth iddo geisio mynd i'r afael â'r mater. Wrth gwrs, mae gwasanaethau cymdeithasol yn awr yn cynnig cyllidebau personol, taliadau uniongyrchol a'r math hwnnw o setliad, ond nid yw hynny ar gael drwy'r GIG, ac mae'r fenyw hon o dan ofal y GIG. Mae'n bryd inni ddod â hyn i ben. Mae rhywun yn gobeithio ei fod wedi dod i ben, ond mae'r rheini sy'n dal i aros i'w hachos gael ei setlo yn dal yn gaeth yn emosiynol i'r system honno, ac i'r effaith y mae wedi'i chael arnynt. Rwyf yn pwyso arnoch, Weinidog, i sicrhau—boed hynny drwy rannu cyllidebau, neu drwy ryw ddull arall—nad oes unrhyw gymhelliant o gwbl i'r GIG a'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ddadlau yn erbyn ei gilydd ynghylch pwy sy'n gyfrifol.

**Peter Black:** Rwyf yn cefnogi'n llwyr yr hyn mae Jenny Randerson newydd ei ddweud. Roeddwn am gyfeirio at rai ffigurau, ac at achos yn fy etholaeth fy hun, i bwysleisio maint y broblem. Ar draws Cymru, yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae cyfanswm yr achosion sy'n aros am sylw yn 3,296, ac mae 662 o'r rheini yn fy rhanbarth i. O'r 662 hynny, mae 259 o achosion yn dod o'r cyfnod cyn 1 Ebrill 2003—achosion y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi derbyn cyfrifoldeb dros benderfynu arnynt a dros y taliadau uniongyrchol. Mae 167 o achosion yn dod o'r cyfnod ar ôl 1 Ebrill 2003, ac nid ydym yn siŵr o ddyddiad 236 arall. Y dryswch yw sut i ddyrannu'r achosion hynny—a ydynt yn gyfrifoldeb ar Lywodraeth y Cynulliad ynteu ar y bwrdd iechyd lleol—ac mae angen datrys hynny yn eithaf cyflym.

The purpose of bringing this motion here today was to try to get some order and common sense applied to how we deal with these cases. One of my constituents has been in touch with me, and she is a good example. I have written on her behalf to the local health board, and she has given me permission to use her name in the Chamber. Mrs Constance Williams of Neath Abbey suffered a stroke in April 2005, and as a result has reduced mobility due to a weakness on her right side. After hospital, she was transferred to a care home in Neath, and has been in nursing homes ever since. As Mrs Williams had capital above the local authority threshold, she was responsible for her ongoing costs, but her only capital was her house, which social services put a charge against in order to fund her care. She requires full assistance with all aspects of personal hygiene and is unable to undertake any personal care. She requires supervision at meal times and, as a result of her stroke, she requires assistance with all movement and struggles to communicate verbally.

In August 2008, the local health board for Neath Port Talbot conducted an assessment of Mrs Williams' needs, and it said that she was not eligible for NHS continuing care. This was appealed as the LHB had not considered the Welsh Government guidance issued in response to the Coughlan case, and on appeal she was deemed eligible. However, her retrospective case from before that date is still ongoing, despite the fact that no details of her case have changed. In short, she is receiving the continuing care and payment prior to the appeal being determined, but as for the backlog, relating to the previous period, it is still in the queue waiting to be determined, even though it is a fairly simple case that I believe could be sorted out quite easily. When I wrote to the local health board, I was told that she was in a queue behind more complex cases, but the commonsense solution would be to say that this was a fairly straightforward case, and it could be taken out and dealt with now, so that there was one less case in the backlog. The rigid way in which these cases are being dealt with is part of the problem, in a sense; we are

Pwrpas cyflwyno'r cynnig hwn yma heddiw oedd ceisio cael rhywfaint o drefn a synnwyr cyffredin ar gyfer y modd y byddwn yn ymdrin â'r achosion hyn. Mae un o fy etholwyr wedi cysylltu â mi, ac mae hi'n enghraifft dda. Rwyf wedi ysgrifennu i'r bwrdd iechyd lleol ar ei rhan, ac mae wedi rhoi caniatâd imi ddefnyddio ei henw yn y Siambr. Cafodd Mrs Constance Williams o Fynachlog Nedd strôc ym mis Ebrill 2005, ac o ganlyniad mae ganddi symudedd cyfyngedig oherwydd gwendid ar ei hochr dde. Ar ôl bod yn yr ysbyty, cafodd ei throsglwyddo i gartref gofal yng Nghastell-nedd, ac mae wedi bod mewn cartrefi nyrsio ers hynny. Gan fod gan Mrs Williams gyfalaf sy'n uwch na throthwy'r awdurdod lleol, hi oedd yn gyfrifol am ei chostau parhaus, ond ei hunig gyfalaf oedd ei thŷ, a gosododd y gwasanaethau cymdeithasol ei thŷ yn erbyn taliadau er mwyn ariannu ei gofal. Mae arni angen cymorth llawn gyda phob agwedd ar hylendid personol, ac nid yw'n gallu gofalu am ei hanghenion personol. Mae arni angen goruchwyliaeth amser bwyd ac, o ganlyniad i'w strôc, mae angen cymorth wrth symud o gwbl ac mae'n cael trafferth cyfathrebu ar lafar.

Ym mis Awst 2008, cynhaliodd bwrdd iechyd lleol Castell-nedd Port Talbot asesiad o anghenion Mrs Williams, a dywedodd nad oedd yn gymwys i gael gofal parhaus y GIG. Apeliwyd yn erbyn hyn gan nad oedd y BILL wedi ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd mewn ymateb i'r achos Coughlan. Ar ôl yr apêl, penderfynwyd ei bod yn gymwys. Fodd bynnag, mae ei hachos ôl-weithredol cyn y dyddiad hwnnw yn dal heb gael ei setlo, er gwaethaf y ffaith nad oes unrhyw fanylion yn ei hachos wedi newid. Yn fyr, mae'n derbyn y gofal parhaus a'r taliadau ar gyfer y cyfnod cyn yr apêl, ond o ran yr achosion sydd wedi cronni sy'n ymwneud â'r cyfnod blaenorol, mae'n dal yn y ciw aros am sylw, er ei fod yn achos eithaf syml y gellid, yn fy marn i, ei setlo yn eithaf rhwydd. Pan ysgrifennais at y bwrdd iechyd lleol, dywedwyd wrthyf ei bod mewn ciw y tu ôl i achosion mwy cymhleth, ond yr ateb synnwyr cyffredin fyddai dweud bod hwn yn achos cymharol syml ac y gellid ei dynnu o'r ciw ac ymdrin ag ef yn awr, fel y byddai un achos yn llai yn yr achosion sy'n aros am sylw. Mae'r ffordd anhyblyg o ymdrin â'r

not applying common sense and we are not pulling out the ones that can be done quickly and without the need for a panel. We are just going through them in strict date order, panels are being convened that are holding up those cases that do not need panels, and, as a result, people have to wait longer. I hope that the Minister will take note of that particular example and the issues around it. She could perhaps knock some heads together and tell the various health boards that they must apply common sense and do things properly, and where people have a need, then that need should be dealt with.

The new guidelines that Andrew R.T. Davies referred to help, but, of course, they are not perfect either. The tool to assess individuals' eligibility is still subjective, and there is scope for inconsistency across the country. A national framework was introduced in England in October 2007 and has resulted in an increase in the number of people who have been deemed eligible for continuing care. The new framework is very similar to the English guidance, however there are some important differences that we are concerned about, and which we feel may have a significant impact on dementia sufferers in particular, who are some of the most vulnerable people in our society.

We are starting to get there, Minister, but a lot more work needs to be done. We need to apply common sense and start thinking through how we can break this backlog. The backlog currently looks as though it may take 13 years to clear; I hope that we can clear it much sooner than that, with your assistance and, I hope, as a result of this motion.

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** The Government and I understand the concerns that lay behind this motion, however I am unable to support it in specific terms today. All the issues raised have been considered in recent months and proposals are either already in train or have been ruled out for good reason. That

achosion hyn yn rhan o'r broblem mewn ffordd; nid ydym yn defnyddio synnwyr cyffredin ac nid ydym yn tynnu allan y rhai y gellir eu gwneud yn gyflym ac nad oes angen iddynt fynd gerbron panel. Rydym yn ymdrin â hwy mewn trefn lem yn ôl dyddiad, mae paneli'n cael eu cynnal ar gyfer achosion nad oes angen paneli ar eu cyfer ac, o ganlyniad, mae'n rhaid i bobl aros yn hwy. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn cymryd sylw o'r enghraifft benodol honno a'r materion sy'n ymwneud â hi. Efallai y gallai daro pennau yn erbyn ei gilydd a dweud wrth y gwahanol fyrddau iechyd ei bod yn rhaid iddynt ddefnyddio synnwyr cyffredin a gwneud pethau'n iawn, a lle mae gan bobl angen, y dylid ymdrin â'r angen hwnnw.

Mae'r canllawiau newydd y cyfeiriodd Andrew R.T. Davies atynt yn gymorth ond, wrth gwrs, nid ydynt yn berffaith ychwaith. Mae'r adnodd i asesu a yw unigolion yn gymwys yn dal yn amodol, a cheir cwmplas am anghysondeb ar draws y wlad. Cafodd fframwaith cenedlaethol ei gyflwyno yn Lloegr ym mis Hydref 2007, ac mae wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sydd wedi cael eu pennu'n gymwys ar gyfer gofal parhaus. Mae'r fframwaith newydd yn debyg iawn i'r canllawiau yn Lloegr. Fodd bynnag ceir rhai gwahaniaethau pwysig sy'n destun pryder ac rydym yn teimlo a allai gael effaith sylweddol ar y bobl sy'n dioddef o ddementia yn benodol, sy'n rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Rydym yn dechrau gweld cynnydd, Weinidog, ond mae llawer rhagor o waith i'w wneud. Mae angen inni ddefnyddio synnwyr cyffredin a dechrau meddwl sut y gallwn ymdrin â'r achosion hyn sydd wedi cronni. Mae'n ymddangos y gallai gymryd 13 mlynedd i setlo'r achosion hyn i gyd ar hyn o bryd; rwyf yn gobeithio y gallwn eu setlo'n gynharach o lawer na hynny gyda'ch cymorth chi a, gobeithio, o ganlyniad i'r cynnig hwn.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Mae'r Llywodraeth a finnu'n deall y pryderon sydd wrth wraidd y cynnig hwn. Fodd bynnag, ni allaf ei gefnogi mewn termau penodol heddiw. Mae pob un o'r materion a godwyd wedi cael eu hystyried dros y misoedd diwethaf, ac mae cynigion naill ai eisoes ar

does not mean that, as a result of this debate, I will not ask my officials to look at the issues again. I was particularly taken by the examples given by Jenny Randerson about the very practical issues that are still emerging, and the case that Peter Black had the permission of his constituent to raise, which raises serious concerns across the piece relating to the operation of budgets by LHBs and social services. There is a whole range of issues there.

I assure Assembly Members that I share their concerns that the large number of retrospective claims in the system should be dealt with quickly and as fairly as possible. While a lot of thought has already gone into how best to deal with these claims, I remain open to new ideas about how we could further improve these arrangements. I am more than happy to have discussions outside this Chamber, perhaps with officials present, if anyone wants to make any further suggestions on this agenda.

Andrew, I appreciated the way in which you moved the amendments. However, I will be rejecting the motion and the amendments. Local health boards should lead on these operational matters and my officials are fully engaged through a group set up to steer and monitor these arrangements, but I can see from the discussion today that people want to see more activity in this area and more pressure brought to bear.

Of the 2,416 retrospective claims in the system, 1,547 date from before April 2003 and 869 are dated post 2003. The vast majority are new claims. Claimants had until 4 December 2009 to register an interest, and then until 17 May 2010 to submit documentary evidence to support claims progressing to the investigation stage. By December 2009, the Powys special review arrangements have been operating for six-and-a-half years and it is surprising that so many new claims have come forward. The claims of those still alive are dealt with before the claims of the estates of those who have died, which will ensure that living

droed neu wedi cael eu diystyru am reswm da. Nid yw hynny'n golygu na fyddaf, o ganlyniad i'r ddadl hon, yn gofyn i fy swyddogion ailedrych ar y materion hyn. Cafodd yr enghreifftiau a roddwyd gan Jenny Randerson yn benodol, am y materion ymarferol iawn sy'n dal i ddod i'r amlwg, gryn argraff arnaf, a'r achos y cafodd Peter Black ganiatâd ei etholwr i'w godi, sy'n codi pryderon difrifol yn gyffredinol am y modd y mae cyllidebau BILlau a gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu gweithredu. Mae'n cynnwys ystod eang o broblemau.

Sicrhaf Aelodau'r Cynulliad fy mod i, fel hwythau, yn pryderu y dylid ymdrin â'r nifer helaeth o hawliadau ôl-weithredol yn y system mor gyflym ac mor deg ag y bo modd. Er ein bod wedi ystyried yn fanwl beth yw'r ffordd orau o ymdrin â'r hawliadau hyn, rwyf yn dal yn agored i syniadau newydd am sut y gallem wella'r trefniadau hyn ymhellach. Rwyf yn fwy na pharod i gael trafodaethau y tu allan i'r Siambr hon, efallai gyda swyddogion yn bresennol, os oes unrhyw un am wneud unrhyw awgrymiadau pellach am yr agenda hon.

Andrew, roeddwn yn gwerthfawrogi'r modd y gwnaethoch gynnig y gwelliannau. Fodd bynnag, byddaf yn gwrthod y cynnig a'r gwelliannau. Byrddau iechyd lleol ddylai arwain ar y materion gweithredol hyn, ac mae fy swyddogion wedi ymrwymo'n llawn drwy grŵp a sefydlwyd i lywio ac i fonitro'r trefniadau hyn, ond gallaf weld o'r drafodaeth heddiw fod pobl am weld rhagor o weithgarwch yn y maes hwn a rhagor o bwysau yn cael ei roi.

O'r 2,416 o hawliadau ôl-weithredol yn y system, mae 1547 yn dod o'r cyfnod cyn mis Ebrill 2003 ac 869 o'r cyfnod ar ôl 2003. Hawliadau newydd yw'r mwyafrif helaeth ohonynt. Roedd gan hawlwyd hyd at 4 Rhagfyr 2009 i ddatgan diddordeb, ac yna hyd at 17 Mai 2010 i gyflwyno tystiolaeth ddogfennol i gefnogi hawliadau sy'n symud ymlaen i'r cam ymchwilio. Erbyn mis Rhagfyr 2009, mae trefniadau adolygu arbennig Powys wedi bod ar waith ers chwe mlynedd a hanner, ac mae'n syndod bod cynifer o geisiadau newydd wedi cael eu cyflwyno. Mae hawliadau'r rheini sy'n dal yn fyw yn cael sylw cyn hawliadau gan ystadau'r



patients are appropriately assessed and their needs properly provided and fully funded by the NHS at the earliest possible date. I was taken very much by Peter's comments about someone who is still alive, but who now has a retrospective arrangement. I will certainly be taking up that point with officials. There is also a fast-track process for patients nearing the end of their life. The claims from the estates of those who have died are dealt with in chronological order from the date that the full supporting details of the claim, which are legal proof of title, financial proof of payments for care and the supporting medical evidence, are received by the LHB.

rheini sydd wedi marw, a fydd yn sicrhau bod cleifion byw yn cael eu hasesu'n briodol a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n briodol a'u hariannu'n llawn gan y GIG cyn gynted â phosibl. Cafodd sylwadau Peter am rywun sy'n dal yn fyw gryn effaith arnaf, ond sydd â threfniant ôl-weithredol erbyn hyn. Byddaf yn sicr yn codi'r pwynt hwnnw â swyddogion. Ceir proses llwybr carlam hefyd ar gyfer cleifion sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes. Mae'r hawliadau gan ystadau'r rheini sydd wedi marw yn cael sylw mewn trefn gronolegol o'r dyddiad y bydd y BILl yn cael y manylion llawn sy'n ategu'r cais, sy'n brawf cyfreithiol o deitl, yn brawf ariannol o daliadau ar gyfer gofal a'r dystiolaeth feddygol ategol.

To turn specifically to the motion, and to point 2(a), it has already been agreed that where, on the basis of medical evidence, a case clearly meets the criteria for continuing NHS care, an award of compensation can be made without the case needing to go to panel. The submission by the LHB would still be subject to independent scrutiny to ensure due process. Should any doubts be raised, the claim would revert to the full panel process.

Gan droi at y cynnig yn benodol, ac at bwynt 2(a), cytunwyd eisoes pan fydd cais yn amlwg yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gofal parhaus y GIG—ar sail tystiolaeth feddygol—gellir dyfarnu iawndal heb fod angen i'r achos fynd gerbron panel. Byddai cyflwyniad y BILl yn dal yn destun proses graffu annibynnol i sicrhau proses briodol. Pe bai unrhyw amheuan yn codi, byddai'r hawliad yn mynd yn ôl i'r broses panel llawn.

5.30 p.m.

The ombudsman and the lawyers are happy that such an arrangement is fair and unlikely to be challenged. Powys Teaching Local Health Board has also considered whether cases that appear to fall outside the continuing NHS care criteria should be turned down without the opportunity for a panel hearing. Neither the LHB lawyers nor the ombudsman supported that, and rightly so.

Mae'r ombwdsmon a'r cyfreithwyr yn fodlon bod trefniant o'r fath yn deg ac yn annhebygol o gael ei herio. Mae Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys hefyd wedi ystyried a ddylai achosion nad ydynt, yn ôl pob golwg, yn berthnasol i'r meini prawf ar gyfer gofal parhaus y GIG, gael eu gwrthod heb y cyfle i gael gwrandawriad panel. Nid oedd cyfreithwyr y BILl na'r ombwdsmon yn cefnogi hynny, a hynny'n briodol.

Difficult judgments have been made about eligibility. There has been a system to ensure that claimants have confidence in the decisions and that they hold up to public scrutiny. Decisions critically depend on clinical input, and not having a full panel process in circumstances in which the outcome for claimants may be unfavourable lacks the objectivity that would be provided by independent adjudication. Even with an appeals procedure, I believe that there is an increased risk of legal challenge. Often it is not simply a question of 'yes' or 'no'; in

Mae dyfarniadau anodd wedi cael eu gwneud ynghylch cymhwysedd. Cafwyd system i sicrhau bod gan hawlwyrr ffydd yn y penderfyniadau a'u bod yn dal eu tir yn erbyn prosesau craffu cyhoeddus. Mae penderfyniadau'n dibynnu ar fewnbnwlinigol, a byddai peidio â chael proses panel llawn mewn amgylchiadau lle byddai'r canlyniad i'r hawlwyrr yn anffafriol yn arwain at ddiffyg goddrychedd. Byddai dyfarniad annibynnol yn sicrhau hynny. Hyd yn oed gyda gweithdrefn apelio, rwyf yn credu y ceir mwy o risg o her gyfreithiol. Yn aml nid

complex cases, it is possible that the claim is upheld for only part of the period in question.

On point (b) of the motion, I am advised that it is simply not possible to tell how close to completion a case is until the medical evidence has been investigated—that is, until all preparatory work to bring a case to the panel has been done. I do understand the concerns about claims being dealt with as quickly and as fairly as possible, and, to that end, the number of panel sittings has been increased, administrative procedures have been tightened, and disputed ‘yes’ claims no longer need to go to a full panel hearing. Taken together, these steps will ensure that there is greater capacity on the panels and that panel time is used more efficiently. The staffing capacity for reviewing cases has also been increased. I have recently made another £350,000 available to LHBs across Wales this year for this work, and I have increased the funding for Powys LHB’s review arrangements by £241,000.

However, it is not just a question of more money. The medical investigation work can be done only by senior nurses who have the right experience. LHBs have had a difficult balance to strike between this and other pressing demands on nursing capacity. Clearly, LHBs will seek to supplement their capacity by using recently retired nurses or nurses who, for health reasons, cannot work at the front line. I have issued a new national framework for continuing NHS healthcare, which took effect last month. I have been interested in the comments that have been made about that, and if there are specific issues that Members want to raise with me about the new national framework, I would be delighted to hear them. I believe that it provides greater clarity about eligibility and the process. For the future, the NHS is working to ensure that decisions on eligibility are right first time, that the decision made includes patients and carers, and that the outcomes are clear and well documented.

yw'n gwestiwn syml o 'ie' neu 'na'; mewn achosion cymhleth, mae'n bosibl i'r hawliad gael ei dderbyn am ran o'r cyfnod dan sylw yn unig.

O ran pwynt (b) y cynnig caf ar ddeall nad yw'n bosibl, yn syml iawn, dweud pa mor agos yw achos at gael ei gwblhau nes bydd y dystiolaeth feddygol wedi cael ei hymchwilio—hynny yw, nes bydd yr holl waith paratoadol i ddod ag achos gerbron y panel wedi cael ei wneud. Rwyf yn deall y pryderon ynghylch ymdrin â hawliadau mor gyflym ac mor deg ag y bo modd. I'r perwyl hwnnw, mae nifer yr eisteddiadau panel wedi cynyddu, mae gweithdrefnau gweinyddol wedi cael eu tynhau, ac nid oes angen i hawliadau cadarnhaol a wrthwynebir fynd gerbron gwrandawriad panel llawn mwyach. Gyda'i gilydd, bydd y camau hyn yn sicrhau mwy o gapasiti ar y paneli a bod amser paneli yn cael ei ddefnyddio yn fwy effeithlon. Mae'r capasiti staffio ar gyfer adolygu achosion hefyd wedi cynyddu. Yn ddiweddar, rwyf wedi darparu £350,000 arall i Fyrddau Iechyd Lleol ar draws Cymru eleni ar gyfer y gwaith hwn, ac rwyf wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer trefniadau adolygu BIL1 Powys £241,000.

Fodd bynnag, mae angen mwy na dim ond rhagor o arian. Dim ond uwch nyrsys â'r profiad priodol all wneud y gwaith ymchwilio meddygol. Mae wedi bod yn anodd i'r byrddau iechyd lleol gael cydbwysedd rhwng hyn a galwadau brys eraill yng nghyswllt capasiti nyrsio. Yn amlwg, bydd byrddau iechyd lleol yn ceisio cynyddu eu capasiti drwy ddefnyddio nyrsys sydd newydd ymddeol neu nyrsys nad ydynt, am resymau iechyd, yn gallu gweithio yn y rheng flaen. Rwyf wedi cyhoeddi fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG, a ddaeth i rym fis diwethaf. Mae'r sylwadau a wnaed am hynny wedi bod o ddiddordeb imi, ac os oes materion penodol y mae Aelodau am eu codi â mi ynghylch y fframwaith cenedlaethol newydd, byddwn yn falch iawn o'u clywed. Credaf ei fod yn rhoi mwy o eglurder ynghylch cymhwysedd a'r broses. Ar gyfer y dyfodol, mae'r GIG yn gweithio i sicrhau bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud y tro cyntaf ynghylch cymhwysedd, bod y penderfyniad a wneir yn cynnwys cleifion a gofalgwyr, a bod

y canlyniadau yn glir ac wedi'u cofnodi'n dda.

While I reject the motion and amendments 1 and 2, there is an open door on this issue. If it would be helpful to Members, I am more than happy to organise a briefing with officials on the current process, which I will make open to all Assembly Members for discussion. If Assembly Members then wish to return to this issue in the Chamber, I will be happy to consider tabling something in the Government's name for further discussion.

Er fy mod yn gwrthod y cynnig a gwelliannau 1 a 2, mae'r drws yn agored ar y mater hwn. Os byddai'n ddefnyddiol i Aelodau, rwyf yn fwy na pharod i drefnu sesiwn briffio gyda swyddogion ynghylch y broses bresennol, a byddaf yn ei gwneud yn agored i holl Aelodau'r Cynulliad ar gyfer trafodaeth. Os bydd Aelodau'r Cynulliad wedyn yn dymuno dychwelyd at y mater hwn yn y Siambr, byddaf yn fodlon ystyried cyflwyno rhywbeth yn enw'r Llywodraeth i'w drafod ymhellach.

**Kirsty Williams:** I begin by thanking colleagues for their contributions to the debate. As Veronica German said in opening the debate, the issues surrounding care, whether it is continuing care or care of a personal nature, result in very difficult decisions indeed. The questions of who pays for care and in which circumstances have vexed politicians for years and will continue to do so for years to come, I suggest, because it is such a complex issue to get to grips with. It will demand more and more resources from the public sector, as well as personal contributions, probably.

**Kirsty Williams:** Dechreuaf drwy ddiolch i gyd-Aelodau am eu cyfraniadau at y ddadl. Fel y dywedodd Veronica German wrth agor y ddadl, mae'r materion sy'n ymwneud â gofal—boed yn ofal parhaus neu'n ofal o natur bersonol—yn arwain at benderfyniadau gwirioneddol anodd. Mae'r cwestiynau ynghylch pwy sy'n talu am ofal ac ym mha amgylchiadau wedi peri gofid i wleidyddion ers blynnyddoedd, a bydd yn parhau i wneud hynny am flynyddoedd i ddod, rwyf yn awgrymu, gan ei fod yn fater cymhleth i fynd i'r afael ag ef. Bydd yn mynnu mwy a mwy o adnoddau gan y sector cyhoeddus, yn ogystal â chyfraniadau personol mae'n debyg.

I regret that the Minister feels unable to support the motion and amendments 1 and 2. I am grateful to Andrew R.T. Davies for his contribution. As he rightly points out, there is a financial incentive for the National Assembly to move through the cases quickly because of the interest that accrues on compensation payments. Therefore, there is a sound financial reason to get to grips with this issue. However, at the core of this is the moral obligation that we have to these individuals and families to move forward as quickly as we can.

Mae'n drueni bod y Gweinidog yn teimlo na all gefnogi'r cynnig a gwelliannau 1 a 2. Rwyf yn ddiolchgar i Andrew R.T. Davies am ei gyfraniad. Fel y dywedodd, yn gywir ddigon, ceir cymhelliant ariannol i'r Cynulliad Cenedlaethol ymdrin â'r achosion yn gyflym oherwydd y llog sy'n cronni ar daliadau iawndal. Felly, ceir rheswm ariannol cadarn dros fynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, wrth graidd hyn y mae'r ddyletswydd foesol sydd gennym tuag at yr unigolion a'r teuluoedd hyn i symud ymlaen mor gyflym ag y gallwn.

The judgments in the cases of both Coughlan and Grogan sought to clarify this complex issue and were supposed to make things easier. While they certainly went some way towards doing that, there continues to be a great deal of unease about the way in which we judge whether an individual is eligible for free continuing care. It can be a huge source of concern and distress to families as they go

Roedd y dyfarniadau yn achosion Coughlan a Grogan yn ceisio egluro'r mater cymhleth hwn, ac roeddent i fod i wneud pethau'n haws. Er eu bod yn sicr wedi helpu i wneud hynny, ceir llawer o anesmwythyd o hyd am y ffordd rydym yn penderfynu a yw unigolyn yn gymwys i gael gofal parhaus am ddim. Gall fod yn achos pryder a thrallod enfawr i deuluoedd wrth iddynt ddilyn y broses hon.

through this process. It can also have major financial implications for an individual and an individual's family. I know that the Government has published further guidance this August to try to address some of those concerns, and undoubtedly it will take steps to get rid of the postcode lottery that some were experiencing, whereby an individual who had care needs similar to those of someone living in a neighbouring authority could be judged as needing continuing healthcare and therefore their care would be paid for by the NHS, while the person on the other side of that boundary would be responsible for paying for their care. As my colleague, Peter Black, pointed out, there are still concerns that there is room for variability in the decision-making process, and there are still concerns about how patients who have dementia are assessed. It is particularly complex to assess whether there are personal care needs or continuing healthcare needs in those cases.

Coming back to our moral obligation in those cases currently awaiting judgment, if the Government continues to settle at the same rate as it has done to date, it will take 13 years to get through the backlog. That adds insult to the injury that many of these people have already suffered. They have found themselves paying for care that they should never have had to pay for in the first place. Now, in some cases, even if the Government estimates are correct—and I doubt that very much—these individuals may have to wait up to three years before they recoup that money. That has a devastating impact on people who have less-than-significant financial resources. There is a moral obligation to correct the wrong that has been done to those families.

As my colleague suggested, there are ways in which these matters could be speeded up. As the Minister said, it is right that current patients be prioritised, as we need to get to grips with those first. However, she was overstating the case when she said that every case in the backlog is complex. Undoubtedly, some are incredibly complex and need a lot of information and evidence to be brought forward but, in others, the issues are more straightforward. A strict adherence to the

Gall hefyd arwain at oblygiadau ariannol mawr i unigolyn a theulu unigolyn. Gwn fod y Llywodraeth wedi cyhoeddi canllawiau pellach ym mis Awst i geisio mynd i'r afael â rhai o'r pryderon hynny, a bydd yn sicr yn cymryd camau i gael gwared ar y loteri cod post roedd rhai yn ei wynebu, lle y gellid penderfynu bod unigolyn a oedd ag anghenion gofal tebyg i anghenion rhywun a oedd yn byw mewn awdurdod cyfagos angen gofal iechyd parhaus ac felly y byddai'r GIG yn talu am eu gofal, tra byddai'r unigolyn ar ochr arall y ffin honno yn gyfrifol am dalu am ei ofal ei hun. Fel y dywedodd fy nghyd-Aelod, Peter Black, ceir pryderon o hyd y gellir cael amrywiaeth yn y broses o wneud penderfyniadau, a cheir pryderon o hyd ynghylch sut y mae cleifion sydd â dementia yn cael eu hasesu. Mae'n arbennig o gymhleth asesu ai anghenion gofal personol ynteu anghenion gofal iechyd parhaus sydd eu hangen yn yr achosion hynny.

Gan ddod yn ôl at ein dyletswydd foesol yn yr achosion hynny sy'n aros am benderfyniad, os bydd y Llywodraeth yn parhau i setlo ar yr un gyfradd ag y mae wedi'i wneud hyd yma, bydd yn cymryd 13 mlynedd i ymdrin â'r holl achosion sydd wedi cronni. Mae hynny'n rhoi'r halen ar y briw i'r bobl hyn eisoes wedi dioddef. Maent wedi bod yn y sefyllfa o orfod talu am ofal na ddylent erioed fod wedi gorfod talu amdano yn y lle cyntaf. Nawr, mewn rhai achosion, hyd yn oed os yw amcangyfrifon y Llywodraeth yn gywir—ac rwyf yn amau hynny'n fawr—mae'n bosibl y bydd rhaid i'r unigolion hyn aros hyd at dair blynedd cyn iddynt adennill yr arian hwnnw. Mae hynny'n cael effaith ddinistriol ar bobl nad oes ganddynt adnoddau ariannol sylweddol. Ceir dyletswydd foesol i wneud iawn am y cam a wnaed â'r teuluoedd hynny.

Fel yr awgrymodd fy nghyd-Aelod, gellid cyflymu'r materion hyn. Fel y dywedodd y Gweinidog, mae'n iawn rhoi blaenoriaeth i'r cleifion presennol, gan fod angen inni roi sylw i'r rheini yn gyntaf. Fodd bynnag, roedd yn gor-ddweud pan ddywedodd fod pob achos sydd wedi cronni yn gymhleth. Heb os, mae rhai yn hynod gymhleth ac mae angen llawer o wybodaeth a thystiolaeth ar eu cyfer ond, mewn achosion eraill, mae'r problemau'n fwy syml. Mae cadw'n gaeth at

chronological rule, which means that no-one further back in the queue can be dealt with first, means that some cases that could be dealt with more speedily are being held up. In some cases, there has been an agreement between the individuals and the authorities involved, so when they are non-contentious and there is agreement on all sides they should be moved forward as quickly as possible.

I regret that the Minister is unable to support the motion today. We think that there are practical ways in which this procedure could be speeded up while limiting the Assembly Government's liabilities for interest payments. However, more importantly, there are practical ways of righting the wrong done to patients caught up in this nightmare. We can never go back and address the difficulties that those families experienced at the time, but we can ensure that any compensation and money owed to them is processed in the least bureaucratic and least stressful way possible, so that they get their money back as soon as is practicably possible. At the moment, the Government is in danger of letting this process drag on, and we need to get to grips with it as soon as possible.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that you do. I therefore defer all voting until voting time.

It has been agreed that voting time will take place no earlier than 5 p.m. and it is now past that time. I therefore propose to move straight to the vote. Do any Members wish the bell to be rung? I see that you do not.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.  
Votes deferred until voting time.*

y rheol gronolegol, sy'n golygu na ellir ymdrin â neb sy'n bellach yn ôl yn y ciw yn gyntaf, yn golygu bod rhai achosion y gellid ymdrin â hwy'n gyflymach yn cael eu dal yn ôl. Mewn rhai achosion, cafwyd cytundeb rhwng yr unigolion a'r awdurdodau dan sylw, felly pan na fydd gwrthwynebiad ac y ceir cytundeb ar bob ochr, y dylid eu symud ymlaen cyn gynted ag y bo modd.

Rwyf yn siomedig na all y Gweinidog gefnogi'r cynnig heddiw. Rydym yn credu y ceir ffyrdd ymarferol o gyflymu'r weithdrefn hon, gan gyfyngu rhwymedigaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer taliadau llog ar yr un pryd. Fodd bynnag, yn bwysicach, ceir ffyrdd ymarferol o wneud iawn am y cam a wnaed â chleifion sydd wedi'u dal yng nghanol yr hunllef. Ni allwn byth fynd yn ôl a mynd i'r afael â'r anawsterau a wynebodd y teuluoedd hynny ar y pryd, ond gallwn sicrhau bod unrhyw iawndal ac arian sy'n ddyledus iddynt yn cael ei brosesu yn y ffordd leiaf biwrocraidd ac sy'n achosi cyn lleied o straen â phosibl, er mwyn iddynt gael eu harian yn ôl cyn gynted ag sy'n bosibl yn ymarferol. Ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth mewn perygl o adael i'r broses hon lusgo, ac mae angen inni fynd i'r afael a'r mater cyn gynted ag y bo modd.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig heb welliant. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf eich bod yn gwrthwynebu. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Cytunwyd na fydd y cyfnod pleidleisio'n digwydd cyn 5pm, ac mae bellach wedi pasio'r amser hwnnw. Cynigiaf felly symud yn syth i'r bleidlais. A oes unrhyw Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

## Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Cynnig NDM4537: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 27.  
Motion NDM4537: For 17, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Asghar, Mohammed  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Veronica  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
James, Irene  
Jones, Ann  
Jones, Elin  
Jones, Ieuan Wyn  
Law, Trish  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y cynnig.  
Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4537: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 27.  
Amendment 1 to NDM4537: For 17, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Asghar, Mohammed  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Veronica  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Millar, Darren

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
James, Irene

Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Kirsty

Jones, Ann  
Jones, Elin  
Jones, Ieuan Wyn  
Law, Trish  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4537: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 27.  
Amendment 2 to NDM4537: For 17, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Asghar, Mohammed  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Veronica  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
James, Irene  
Jones, Ann  
Jones, Elin  
Jones, Ieuan Wyn  
Law, Trish  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment not agreed.*

5.40 p.m.

## Dadl Fer Short Debate

### Cyfleusterau Anghyfleus: Toileddau Cyhoeddus yng Nghymru An Inconvenient Truth: Public Toilets in Wales

**Jenny Randerson:** I have agreed that Mark Isherwood and Eleanor Burnham may have a minute each to speak as part of this debate.

One of the delights of having decided to retire from the Assembly is that it frees up one's time to advocate some of the less fashionable causes in our society. I am sure that Members will forgive the rather obvious pun in the title, although I am not sure what Al Gore's view would be. However, you cannot deal with this topic and avoid all horrible puns.

I have campaigned on the poor state of public toilets since I was first a councillor in the 1980s, and I regret that things have become much worse rather than better in that time. When I started campaigning, I was a young mum concerned about cleanliness, availability and access for those who have pushchairs. As a grandmother now, I am still concerned about the same issues, but I am also much more aware that elderly people often find their ability to get out and about is seriously limited by the problem of finding a toilet when they need one. I knew when I chose this topic for this debate that I would provoke some interesting e-mail traffic from a significant number of people who feel strongly about this problem. Indeed, I have not been disappointed in that. The problem is that, even today, many people feel embarrassed to discuss this problem, so they remain silent. They are prepared to send an e-mail, however.

I want to take this opportunity to praise the work of Age Cymru, which has done excellent research on this and produced the excellent 'Nowhere to Go' report last year. Along with the British Toilet Association and the Leonard Cheshire Association, it campaigns not just for more public toilets but for well sited, accessible, clean and well

**Jenny Randerson:** Rwyf wedi cytuno y gall Mark Isherwood ac Eleanor Burnham gael munud yr un i siarad yn rhan o'r ddadl hon.

Un o'r pleserau ar ôl penderfynu ymddeol o'r Cynulliad yw ei fod yn rhoi amser i rywun hyrwyddo rhai o'r achosion llai ffasiynol yn ein cymdeithas. Rwyf yn siŵr y bydd yr Aelodau'n maddau'r chwarae amlwg ar eiriau yn y teitl, er nad wyf yn siŵr beth fyddai barn Al Gore am hyn. Fodd bynnag, ni allwch ymdrin â'r pwnc hwn heb osgoi unrhyw achos o chwarae ofnadwy ar eiriau.

Rwyf wedi ymgyrchu ynghylch cyflwr gwael toileddau cyhoeddus ers imi fod yn gynghorydd am y tro cyntaf yn y 1980au, ac rwyf yn gresynu bod pethau wedi gwaethygu cryn dipyn yn hytrach na gwella ers y cyfnod hwnnw. Pan ddechreuais ymgyrchu, roeddwn yn fam ifanc a oedd yn poeni am lendid ac a oedd toileddau ar gael, yn ogystal â phoeni am fynediad ar gyfer y rheini a chanddynt gadeiriau gwthio. A finnau'n fam-gu erbyn hyn, rwyf yn dal yn poeni am yr un materion, ond rwyf hefyd yn llawer mwy ymwybodol bod gallu pobl oedrannus i grwydro fel y mynnant yn aml yn cael ei gyfyngu'n sylweddol gan y broblem o ddod o hyd i doiled pan fydd angen un arnynt. Roeddwn yn gwybod wrth ddewis y pwnc hwn ar gyfer y ddadl y byddwn yn ennyn llawer o negeseuon e-bost diddorol gan gryn dipyn o bobl sy'n teimlo'n gryf am y broblem hon. Yn wir, nid wyf wedi cael fy siomi yn hynny o beth. Y broblem yw, hyd yn oed heddiw, bod llawer o bobl yn teimlo'n lletchwith yn trafod y broblem hon, felly maent yn aros yn dawel. Er hynny, maent yn barod i anfon e-bost.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ganmol gwaith Age Cymru, sydd wedi gwneud gwaith ymchwil rhagorol ar hyn ac wedi llunio'r adroddiad gwych 'Nowhere to Go' y llynedd. Ynghyd â Chymdeithas Toileddau Prydain a Chymdeithas Leonard Cheshire, mae'n ymgyrchu dros ragor o doiledau cyhoeddus, yn ogystal â thoiledau hygyrch,



maintained toilets.

The golden age of public conveniences was surely the Victorian age. Indeed, I am rather disappointed that David Melding did not want a minute in which to speak in this debate. We have some splendid refurbished Victorian public conveniences in the Hayes in Cardiff. The problem is that the Victorians did not pay much attention to accessibility because, as with many others, the toilets in the Hayes are down steep stairs and therefore totally inaccessible to many people. It seems to be that, for the past 40 years at least, we have seen a steady decline in the provision of public conveniences. Certainly, over the years, we have been able to track the decline in the number of public toilets in Wales. We have been able to track it, but we have not been able to halt it.

Members will be well aware that many local authorities have closed toilets, using non-compliance with disability access legislation as the excuse. That is a misuse of that legislation, but it has happened, and at a time of our having an expanding and ageing population and an increasing number of tourists. Last year, the Welsh Lib Dems held a minority party debate on this issue in which we highlighted the fact that, between 1998 and 2007, the number of public toilets in Wales had decreased from 806 to 677; that is 16 per cent in 10 years. That figure, albeit now out of date, hides major variations in approach. Gwynedd, for example, increased its provision substantially, while Torfaen seems to have dropped from 13 to two. However, these statistics are not entirely reliable, because the Wales Audit Office no longer even collects the figures, which is surely a sign of how little importance is attached to this vital public service. Even Gwynedd was planning to shut 33 toilets last year, a plan that was put on hold due to a massive campaign run by a local councillor, Louise Hughes, who brought her campaign here to the Assembly.

glân, sydd mewn lle cyfleus ac mewn cyflwr da.

Cyfnod Fictoria oedd oes aur y cyfleusterau cyhoeddus yn sicr ddigon. Yn wir, rwyf braidd yn siomedig nad oedd David Melding am gael munud i siarad yn y ddadl hon. Yn yr Aes yng Nghaerdydd, mae gennym gyfleusterau cyhoeddus ysblennydd o oes Fictoria sydd wedi cael eu hadnewyddu. Y broblem yw nad oedd pobl yn oes Fictoria yn rhoi llawer o sylw i hygyrchedd oherwydd, fel sawl un arall, mae'r toiledau yn yr Aes i lawr grisiau serth ac maent felly yn gwbl anhygyrch i lawer o bobl. Ymddengys ein bod, dros y 40 mlynedd diwethaf o leiaf, wedi gweld dirywiad cyson yn narpariaeth y cyfleusterau cyhoeddus. Yn sicr, dros y blynyddoedd, rydym wedi gallu dilyn y dirywiad yn nifer y toiledau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi gallu ei ddilyn, ond nid ydym wedi gallu ei atal.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol iawn bod llawer o awdurdodau lleol wedi cau toiledau, gan ddefnyddio'r esgus nad ydynt yn cydymffurfio â deddfwriaeth mynediad i bobl anabl. Mae hynny'n enghraifft o gamddefnyddio'r deddfwriaeth honno, ond mae wedi digwydd, a hynny ar adeg pan fo gennym boblogaeth sy'n ehangu ac yn heneiddio a chynnydd yn nifer y twristiaid. Y llynedd, cynhaliodd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ddadl parti lleiafrifol ar y mater hwn, ac ynddi gwnaethom dynnu sylw at y ffaith bod nifer y toiledau cyhoeddus yng Nghymru, rhwng 1998 a 2007, wedi gostwng o 806 i 677; mae hynny'n 16 y cant mewn 10 mlynedd. Mae'r ffigur hwnnw, er ei fod yn hen erbyn hyn, yn cuddio amrywiadau mawr o ran ffordd o feddwl. Er enghraifft, cynyddodd Gwynedd ei darpariaeth yn sylweddol, tra bod Torfaen, i bob golwg, wedi gostwng o 13 i ddau. Fodd bynnag, nid yw'r ystadegau hyn yn gwbl ddibynadwy, oherwydd nad yw Swyddfa Archwilio Cymru hyd yn oed yn casglu'r ffigurau mwyach. Mae hyn yn sicr yn arwydd mai ychydig o bwys a roddir i'r gwasanaeth cyhoeddus hanfodol hwn. Roedd hyd yn oed Gwynedd yn bwriadu cau 33 toiled y llynedd, cynllun a gafodd ei ohirio yn sgîl ymgyrch enfawr gan gynghorydd lleol, Louise Hughes, a ddaeth â'i hymgyrch yma i'r Cynulliad.

Last year, we were told that the problem would be solved by the Assembly Government's new scheme, giving £17,500 to each local authority to pass on as grants to businesses, such as cafes and pubs, to allow the public to use their toilets. It is known as the Richmond scheme, as that is where it started. It is a good idea, but it is a stop-gap, rather than a full-scale solution. Opening hours and full disabled access are two issues that it faces, and take-up across Wales has been very patchy. It is not just a case of the number of public toilets; it is also their condition, which we all know is often appalling. Station and train toilets are some of the worst of all. I fully recognise that there are problems for local councils. Cardiff Council has had a very poor record on the provision of public toilets but, in the last few years, there has been a serious programme of refurbishment and provision of new facilities. For instance, the previously appalling toilets in Roath park were rebuilt and an impressive new facility was opened just a few months ago. Within weeks, they were badly vandalised and doors were ripped off their hinges, despite the fact that Roath park is locked at dusk. It is this kind of setback that sometimes encourages hard-pressed councils to not bother with providing toilets at all.

Recent findings of a survey by Age Cymru show how dire the situation is in Wales. It did a survey called a community calculator, designed to audit how age-friendly our communities are. Of the respondents, 95 per cent said that toilets were not open when they needed them, 62 per cent said that lack of toilets stopped them going out, and 80 per cent complained of lack of cleanliness. Age Cymru asked people to score their local toilets on a scale of one to 10—one being extremely poor and 10 excellent. The average for the whole of Wales was 3.51 and Merthyr gained a score of 0.3.

Before I suggest a way forward, I want to stress that there have been improvements and

Y llynedd, dywedwyd wrthym y byddai'r broblem yn cael ei datrys drwy gynllun newydd Llywodraeth y Cynulliad, a fyddai'n rhoi £17,500 i bob awdurdod lleol i'w drosglwyddo ar ffurf grantiau i fusnesau, fel caffis a thafarndai, er mwyn i'r cyhoedd allu defnyddio eu toiledau. Fe'i hadwaenir fel cynllun Richmond, gan mai yno y dechreuodd. Mae'n syniad da, ond rhywbeth dros dro ydyw, yn hytrach nag ateb cyflawn. Mae oriau agor a mynediad llawn i bobl anabl yn ddau fater y mae'n eu hwynebu, ac mae'r nifer sydd wedi manteisio ar draws Cymru wedi bod yn anghyson iawn. Ac nid dim ond nifer y toiledau cyhoeddus sy'n peri pryder; ond eu cyflwr hefyd, ac mae pawb yn gwybod eu bod yn ofnadwy yn aml iawn. Toiledau mewn gorsafoedd ac ar drenau yw rhai o'r toiledau gwaethaf un. Rwyf yn cydnabod yn llawn bod gan gynghorau lleol broblemau. Mae gan Gyngor Caerdydd record wael iawn o ran y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus, ond, yn y blynyddoedd diwethaf, cafwyd rhaglen ddwys o adnewyddu a darparu cyfleusterau newydd. Er enghraifft, cafodd y toiledau ym Mharc y Rhath, a arferai fod yn ofnadwy, eu hailadeiladu ac agorwyd cyfleuster newydd trawiadol ychydig fisoedd yn ôl. O fewn wythnosau, cawsant eu fandaleiddio'n ddrwg a rhwygwyd y drysau oddi ar eu colfachau, er gwaethaf y ffaith bod parc y Rhath yn cael ei gloi wrth iddi nosi. Y math hwn o ergyd sydd weithiau yn annog cynghorau sydd o dan bwysau i beidio â thrafferthu darparu toiledau o gwbl.

Mae canfyddiadau diweddar arolwg gan Age Cymru yn dangos pa mor ofnadwy yw'r sefyllfa yng Nghymru. Cynhaliodd arolwg o'r enw cyfrifiannell cymunedol, a gynlluniwyd i archwilio pa mor ystyriol yw ein cymunedau o bobl o bob oed. O'r ymatebwyr, dywedodd 95 y cant nad oedd toiledau ar agor pan oedd eu hangen arnynt, dywedodd 62 y cant fod diffyg toiledau yn eu hatal rhag mynd allan, a chwynodd 80 y cant am ddiffyg glendid. Gofynnodd Age Cymru i bobl roi sgôr i'w toiledau lleol ar raddfa o un i 10—un yn hynod o wael a 10 yn rhagorol. Y cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan oedd 3.51 a chafodd Merthyr sgôr o 0.3.

Cyn imi awgrymu ffordd ymlaen, hoffwn bwysleisio bod gwelliannau wedi cael eu

that it is not all doom and gloom. Facilities in shops and restaurants are generally better, but they are often closed. There are more baby changing facilities, and Mencap's Changing Places campaign has resulted in excellent accessible toilets at venues as varied as Oakwood Theme Park and the Senedd, as well as mobile facilities at the Eisteddfod.

I believe that we should no longer accept the declining status quo, so how can we solve the problem? I have some practical proposals. I believe that we should place a statutory duty on local authorities to provide public toilets. Currently, it is something that they can do if they want to, not something that they are obliged to do. You can imagine that, under financial pressure, local authorities will bother most with those things that they have to do. We should incorporate a requirement in all major non-domestic developments that accessible public toilets are provided—that would be a planning requirement, and would require amendments to planning regulations. The Welsh Assembly Government needs to ensure that our version of the Richmond scheme is promoted and advertised much more strongly across Wales, so that all local authorities ensure that local businesses are encouraged to take up the scheme.

5.50 p.m.

The problem is allowed to remain hidden because the statistics are no longer collected. Were the Wales Audit Office to start collecting the figures again, it would surely encourage local authorities to feel that this is an important service; they would not like to see adverse scores in their audit reports, so I recommend that the Wales Audit Office should collect those figures again.

Finally, why not publish a directory and a map of public toilets across Wales? The City and Council of Swansea provides this information online. A 'good loo guide' should, perhaps, be published, so that the public is made aware of where toilets are available, and is enabled to use those facilities that do exist. Members, thank you

gwneud ac nad yw'r darlun yn ddu i gyd. Mae cyfleusterau mewn siopau a bwytaï yn well ar y cyfan, ond maent ar gau yn aml. Mae mwy o gyfleusterau newid babanod, ac mae ymgyrch Changing Places Mencap wedi arwain at doiledau hygyrch rhagorol mewn lleoliadau mor amrywiol â Pharc Thema Oakwood a'r Senedd, yn ogystal â chyfleusterau symudol yn yr Eisteddfod.

Credaf na ddylem mwyach dderbyn y sefyllfa bresennol sy'n dirywio, felly sut y gallwn ddatrys y broblem? Mae gennyf ambell gynig ymarferol. Credaf y dylem osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu toiledau cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae hyn yn rhywbeth y gallant ei wneud os ydynt yn dymuno gwneud hynny, nid yn rhywbeth y mae'n rhaid iddynt ei wneud. Gallwch ddychmygu, o dan bwysau ariannol, y bydd awdurdodau lleol yn rhoi'r sylw mwyaf i'r pethau hynny y mae'n rhaid iddynt eu gwneud. Dylem gynnwys gofyniad ym mhob prif ddatblygiad annomestig ei bod yn rhaid darparu toiledau cyhoeddus hygyrch—byddai hynny'n un o'r gofynion cynllunio, a byddai angen newid rheoliadau cynllunio. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod ein fersiwn ni o gynllun Richmond yn cael ei hyrwyddo a'i hysbysebu'n llawer cryfach ar draws Cymru, fel bod yr holl awdurdodau lleol yn sicrhau bod busnesau lleol yn cael eu hannog i fanteisio ar y cynllun.

Mae'r broblem yn cael aros yn gudd gan nad yw'r ystadegau yn cael eu casglu mwyach. Pe bai Swyddfa Archwilio Cymru yn dechrau casglu'r ffigurau eto, byddai'n siŵr o annog awdurdodau lleol i deimlo bod hwn yn wasanaeth pwysig; ni fyddent yn hoffi gweld sgorau anffafriol yn eu hadroddiadau archwilio, felly rwyf yn argymhell y dylai Swyddfa Archwilio Cymru fynd ati i gasglu'r ffigurau hynny eto.

Yn olaf, beth am gyhoeddi cyfeirlyfr a map o doiledau cyhoeddus ar draws Cymru? Mae Dinas a Sir Abertawe yn darparu'r wybodaeth hon ar-lein. Efallai y dylid cyhoeddi 'canllaw toiledau da', er mwyn i'r cyhoedd gael gwybod lle mae toiledau ar gael, a'u bod yn gallu defnyddio'r cyfleusterau hynny sydd yn bodoli. Aelodau, diolch am aros i wrando ar y

for staying to listen to this debate; please go back to your constituencies and ask your local authorities some hard questions about local toilet provision, because, to quote one of the e-mails that I have received over the last few days,

‘this is to do with human dignity, ultimately. We are in the twenty-first century, yet we are going backwards.’

**Eleanor Burnham:** You will know of my reputation in relation to loos on trains. As a regional Member, I am often in need of a loo, and it can be difficult. It can be rather off-putting; you do not know whether you need to go into a nice-looking pub or restaurant. It is a big issue, and was even more so when I think back to when I had kids; pushchairs these days are much more manoeuvrable, but getting them into some loos is difficult as you get stuck in the doors. Imagine what it must be like for older people, people in wheelchairs and those with special needs—it is a minefield. As Jenny Randerson has said so eloquently, it is a matter of dignity. I would like to commend one particular loo in my region, in a place called Holywell. Every time I happen to park in the Asda car park in Holywell, I see that there is a fantastic publicly run loo there; it is quite a revelation, because it is clean and tidy, is not vandalised and has all of the prerequisites, such as lavatory paper, water, soap and some means of drying one’s hands. This matter is not a joke; I can laugh about it, but it is a serious issue of human dignity and of allowing people the ability to go about their business, particularly when they have particular needs due to health problems or illness—I look to Dr Gibbons for his expertise on this matter. We might all need the things that we are now joking about.

**Mark Isherwood:** I endorse Eleanor’s comments about Holywell, and would add Llangollen to the list; there is an excellent, clean and accessible toilet there that charges a small fee of 20p. Charging a fee might be one of the possible solutions. I know that Brian, as a Minister, launched a scheme in

ddadl hon; ewch yn ôl i’ch etholaethau a gofyn cwestiynau pendant i’ch awdurdodau lleol am y ddarpariaeth toiledau lleol, oherwydd, gan ddyfynnu o un o’r negeseuon e-bost a gefais dros y dyddiau diwethaf,

mae hyn yn ymwneud ag urddas pobl, yn y pen draw. Rydym yn yr unfed ganrif ar hugain, ac eto rydym yn mynd am yn ôl.

**Eleanor Burnham:** Byddwch yn gwybod am fy nhrafferthion gyda thoiledau ar drenau. A finnau’n Aelod rhanbarthol, mae angen toiledau arnaf yn aml, a gall hynny fod yn anodd. Gall hyn fod yn brofiad annymunol; nid ydych yn gwybod a oes angen ichi fynd i mewn i dafarn neu fwyty braf. Mae’n fater o bwys, ac roedd hyd yn oed yn fwy pwysig wrth imi feddwl yn ôl i’r adeg pan oedd gennyf blant; mae’n haws o lawer symud y cadeiriau gwthio y dyddiau hyn, ond mae ceisio eu cael i mewn i rai o’r toiledau yn anodd gan eich bod yn mynd yn sownd yn y drysau. Dychmygwch sut brofiad yw hyn i bobl hŷn, pobl mewn cadeiriau olwyn a’r rheini sydd ag anghenion arbennig—mae’n anodd dros ben. Fel y mae Jenny Randerson wedi’i ddweud mor huawdl, mae’n fater o urddas. Hoffwn ganmol un toiled penodol yn fy rhanbarth, mewn lle o’r enw Treffynnon. Bob tro rwyf yn digwydd parcio ym maes parcio Asda yn Nhreffynnon, gwelaf fod toiledau cyhoeddus gwych yno; mae’n dipyn o agoriad llygad, gan ei fod yn lân ac yn daclus, nid yw’n cael ei fandaleiddio ac mae pob un o’r rhagofynion yno, fel papur toiled, dŵr, sebon a rhyw ffordd o sychu dwylo. Nid jôc mo’r mater hwn; gallaf chwerthin am y peth, ond mae’n fater difrifol sy’n ymwneud ag urddas pobl, ac yn fater o roi cyfle i bobl allu mynd ynglŷn â’u pethau, yn enwedig pan mae ganddynt anghenion penodol yn sgîl problemau iechyd neu salwch—edrychaf ar Dr Gibbons am ei arbenigedd ar y mater hwn. Efallai y bydd ar bob un ohonom angen y pethau rydym yn cellwair amdanynt.

**Mark Isherwood:** Cymeradwyaf sylwadau Eleanor am Dreffynnon, a byddwn yn ychwanegu Llangollen at y rhestr; mae toiledau gwych, glân a hygyrch yno sy’n codi ffi fechan o 20c. Efallai bod codi ffi yn un o’r atebion posibl. Gwn fod Brian, fel Gweinidog, wedi lansio cynllun ym mis Awst

August of last year for the Welsh Assembly Government to fund local authorities with up to £18,000 a year to allow local businesses to make their facilities open to public access; we need to know what progress has been achieved, given the gap in provision identified by Jenny.

Jenny also referred to Louise Hughes, the Gwynedd councillor, who went as far as removing padlocks that had been applied by the council to close the toilet in her village. Ms Hughes said that there were no other toilets in the village, and asked where people were meant to go. She collected a petition, cycled 140 miles to the Assembly, and I met her here on 9 June when she handed the petition to Welsh Government officials. She said that Wales is a very rural country and that distances between toilets are long. We rely heavily on tourism, and to close facilities such as this will send out the wrong message to visitors. This is not about politics or money, but human dignity. It is not hygienic to close public toilets. I have seen the mess left behind by people who literally had to go. Public toilets are a lifeline for older people, giving them dignity and the independence to live their lives to the full. Louise's efforts must not be flushed down the pan.

**The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** I am glad to have the opportunity to respond to this important debate. It is a very important issue for many people in Wales. I would like to add my thanks to Age Cymru for its work on this and to note seriously what has been said this afternoon about access for the disabled. I was very interested to hear about the community calculator, Jenny. I agree very much with what you said, Eleanor, about accessibility and dignity. I also take note of Louise's actions and the petition that was handed in here at the Assembly.

In recent years, a significant number of public toilets have been closed due to lack of use, vandalism and increasing running costs. Many toilet facilities are located where they are rarely used, poorly maintained—as we have heard—and not easily accessible for people with mobility difficulties. Many also

y llynedd ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi hyd at £18,000 y flwyddyn i awdurdodau lleol er mwyn i fusnesau lleol agor eu cyfleusterau i'r cyhoedd; mae angen inni wybod pa gynnydd sydd wedi'i gyflawni, o ystyried y bwlch yn y ddarpariaeth a nodwyd gan Jenny.

Cyfeiriodd Jenny hefyd at Louise Hughes, cynghorydd yng Ngwynedd, a aeth mor bell â thynnu'r cloeon clap a roddwyd gan y cyngor i gau'r toiled yn ei phentref. Dywedodd Ms Hughes nad oedd dim toiledau eraill yn y pentref, a gofynnodd i le yr oedd pobl i fod i fynd. Casglodd ddeiseb, a seiclo 140 milltir i'r Cynulliad, a chwrddais â hi yma ar 9 Mehefin pan gyflwynodd y ddeiseb i swyddogion Llywodraeth Cymru. Dywedodd fod Cymru yn wlad wledig iawn a bod pellter hir rhwng toiledau. Rydym yn dibynnu llawer ar dwristiaeth, a bydd cau cyfleusterau fel y rhain yn rhoi'r neges anghywir i ymwelwyr. Nid yw hyn yn ymwneud â gwleidyddiaeth nac arian, ond ag urddas pobl. Nid yw cau toiledau cyhoeddus yn rhywbeth glanwaith. Rwyf wedi gweld y llanast sy'n cael ei adael ar ei ôl gan bobl a oedd yn gorfod mynd yn y fan a'r lle. Mae toiledau cyhoeddus yn achubiaeth i bobl hŷn, gan roi urddas iddynt a'r annibyniaeth iddynt fyw eu bywydau i'r eithaf. Rhaid i ymdrechion Louise beidio â mynd yn ofer.

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Rwyf yn falch o gael y cyfle i ymateb i'r ddadl bwysig hon. Mae'n fater pwysig iawn i lawer o bobl yng Nghymru. Hoffwn innau ddiolch hefyd i Age Cymru am ei waith ar hyn ac i nodi o ddifrif yr hyn a ddywedwyd y prynhawn yma am fynediad i bobl anabl. Roedd yn ddiddorol iawn clywed am y cyfrifiannell cymunedol, Jenny. Rwyf yn cytuno â llawer o'r hyn a ddywedoch, Eleanor, am hygyrchedd ac urddas. Rwyf innau hefyd yn nodi gweithredoedd Louise a'r ddeiseb a gyflwynwyd yma yn y Cynulliad.

Dros y blynnyddoedd diwethaf, mae cryn dipyn o doiledau cyhoeddus wedi cael eu cau oherwydd diffyg defnydd, fandaliaeth a chynnydd mewn costau rhedeg. Mae llawer o gyfleusterau toiledau yn cael eu lleoli mewn mannau lle mai prin iawn y cânt eu defnyddio, maent yn cael eu cynnal a'u

fail to satisfy modern expectations of hygiene and cleanliness. The provision and maintenance of toilet facilities is the responsibility of individual local authorities. They are best placed to determine local requirements and priorities. There is no statutory requirement, as Jenny said, that local authorities provide public toilet facilities. Jenny, I note your proposal that we make this a statutory duty. I will convey that to the relevant Minister along with your associated point on planning requirements.

Age Cymru has highlighted the need to improve the current level of provision of public toilets and their cleanliness and hygiene so that all sections of the community, including more vulnerable groups such as the elderly, have easy access to safe and hygienic public facilities. The Assembly Government has listened to these concerns and taken action to encourage local authorities—as you have mentioned, Jenny—to ensure the adequate provision of these facilities and to help them to develop cost-effective ways of doing so. Last year, it introduced and funded the public facilities grant scheme that you mentioned, an initiative that was welcomed widely and praised by the British Toilet Association. The scheme provides reimbursement for local authorities up to a maximum of £17,500 per local authority per year for payment of up to £500 to a local business for allowing free public access to its toilet facilities. The scheme aims to increase free public access to toilet facilities by encouraging local authorities to work in partnership with local businesses to allow public access to their facilities.

It also gives them the opportunity to develop strategies for the future provision of the service. For example, closing infrequently used or poor-quality local authority services, which can be expensive to maintain, can allow them to reinvest in providing new or upgraded existing facilities or to pay local businesses to do this in locations where facilities are most needed. The scheme has been designed to be as simple and non-

cadw'n wael—fel yr ydym wedi'i glywed—ac nid ydynt yn hygyrch iawn i bobl sydd ag anawsterau symud. Mae llawer hefyd yn methu â bodloni disgwyliadau modern o ran hylendid a glanweithdra. Awdurdodau lleol unigol sy'n gyfrifol am ddarparu a chynnal a chadw cyfleusterau toiledau. Maent yn y sefyllfa orau i benderfynu ar ofynion a blaenoriaethau lleol. Nid oes dim gofyniad statudol, fel y dywedodd Jenny, i awdurdodau lleol ddarparu cyfleusterau toiledau cyhoeddus. Jenny, nodaf eich cynnig ein bod yn gwneud hyn yn ddyletswydd statudol. Byddaf yn cyfleu hynny i'r Gweinidog perthnasol yn ogystal â'ch pwynt cysylltiedig ar ofynion cynllunio.

Mae Age Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i wella lefel bresennol y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus a'u glendid a'u hylendid fel bod pob rhan o'r gymuned, gan gynnwys grwpiau mwy agored i niwed fel yr henoed, yn cael mynediad hawdd at gyfleusterau cyhoeddus diogel a hylan. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwrandao ar y pryderon hyn ac wedi cymryd camau i annog awdurdodau lleol—fel y dywedoch, Jenny—i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o'r cyfleusterau hyn ac i'w helpu i ddatblygu ffyrdd cost-effeithiol o wneud hynny. Y llynedd, cyflwynodd a chyllidodd gynllun grant cyfleusterau cyhoeddus y sonioch amdano, menter a gafodd groeso gan bawb a'i chanmol gan Gymdeithas Toiledau Prydain. Mae'r cynllun yn rhoi ad-daliad i awdurdodau lleol o hyd at uchafswm o £17,500 fesul awdurdod lleol y flwyddyn i dalu hyd at £500 i fusnes lleol ganiatáu mynediad am ddim i'r cyhoedd i'w gyfleusterau toiledau. Nod y cynllun yw gwella mynediad am ddim i'r cyhoedd i gyfleusterau toiledau drwy annog awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth gyda busnesau lleol i ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio'u cyfleusterau.

Mae'n rhoi cyfle iddynt hefyd ddatblygu strategaethau ar gyfer darparu gwasanaeth yn y dyfodol. Er enghraifft, wrth gau gwasanaethau awdurdod lleol nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml neu sydd o ansawdd gwael, sy'n gallu bod yn ddrud i'w cynnal, mae hyn yn eu galluogi i ail-fuddsoddi i ddarparu cyfleusterau newydd neu uwchraddio cyfleusterau presennol neu i dalu busnesau lleol i wneud hyn mewn lleoliadau

prescriptive as possible, allowing local authorities to develop local initiatives and to be as innovative as possible. The main requirements of the scheme are, first, that local authorities must be satisfied that participating businesses allow public access free of charge to the toilet facilities for a number of hours agreed with the authority and, secondly, that businesses provide toilet facilities of acceptable standards of safety, hygiene and accessibility for disabled people and that there is provision for both sexes. Local authorities must publicise details of all participating businesses on their websites and ensure that all businesses are in receipt of a grant.

6.00 p.m.

You mentioned the publicising of the availability, Jenny. This scheme has successfully improved the provision of toilet facilities in Wales, but I take your point about the need to encourage more businesses to take part. Eighteen local authorities in Wales have chosen to participate in the scheme. In 2009-10 around 130 businesses participated, which means that the scheme has directly resulted in 130 premises opening their toilets to the public. Local authorities are seeking to increase this number during this financial year. This is an excellent example of the Assembly Government taking the lead in developing an innovative approach and working in partnership with local authorities and the private sector to improve the provision of public facilities in Wales. However, I take the point that there is much more to do.

lle mae angen y cyfleusterau fwyaf. Mae'r cynllun wedi'i lunio i fod mor syml ac amhenodol ag y bo modd, gan alluogi awdurdodau lleol i ddatblygu mentrau lleol ac i fod mor arloesol ag y bo modd. Prif ofynion y cynllun, yn gyntaf, yw bod yn rhaid i awdurdodau lleol fod yn fodlon bod busnesau sy'n cymryd rhan yn caniatáu mynediad am ddim i'r cyhoedd i'r cyfleusterau toiledau am nifer o oriau y cytunwyd arnynt gyda'r awdurdod ac, yn ail, bod busnesau yn darparu cyfleusterau toiledau o safonau derbyniol o ran diogelwch, hylendid a hygrychedd i bobl anabl a bod darpariaeth ar gyfer y ddau ryw. Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi manylion yr holl fusnesau sy'n cymryd rhan ar eu gwefannau, a sicrhau bod pob busnes yn derbyn grant.

Roeddech yn sôn am roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod hyn ar gael, Jenny. Mae'r cynllun hwn wedi llwyddo i wella'r ddarpariaeth o gyfleusterau toiledau yng Nghymru, ond rwyf yn derbyn eich pwynt bod angen annog mwy o fusnesau i gymryd rhan. Mae deunaw awdurdod lleol yng Nghymru wedi dewis cymryd rhan yn y cynllun. Yn 2009-10 cymerodd oddeutu 130 o fusnesau ran yn y cynllun, sy'n golygu bod y cynllun wedi arwain yn uniongyrchol at 130 o leodd yn agor eu toiledau i'r cyhoedd. Mae awdurdodau lleol yn ceisio cynyddu'r rhif hwn yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae hyn yn enghraifft ardderchog o Lywodraeth y Cynulliad yn cymryd yr awenau i ddatblygu dulliau arloesol a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r sector preifat i wella darpariaeth cyfleusterau cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, rwyf yn derbyn y pwynt bod llawer mwy i'w wneud.

**The Deputy Presiding Officer:** Thank you very much. That brings today's proceedings to a close.

**Y Dirprwy Lywydd:** Diolch yn fawr iawn. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.01 p.m.  
The meeting ended at 6.01 p.m.*

#### **Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)  
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)

Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
 Davies, Alun (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 German, Veronica (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
 Griffiths, John (Llafur – Labour)  
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 James, Irene (Llafur – Labour)  
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ann (Llafur – Labour)  
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)